# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 04/12/2013

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Questions to the Minister for the Economy, Science and Transport

Datganiad: Ymgyrch Jasmine
Statement: Operation Jasmine

Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Diogelu Plant
Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Protecting Children

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Darlledu Cyhoeddus
Welsh Conservatives Debate: Public Service Broadcasting

Dadl Plaid Cymru: Datblygu Economaidd
Plaid Cymru Debate: Economic Development

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Yr 'Hun-lun' Cenedlaethol: Pam mae Geiriadur Cenedlaethol Cymraeg yn Helpu I Ddiffinio'r Genedl
Short Debate The National 'Selfie': Why a National Welsh Dictionary Helps Define the Nation

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Diprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Trefn, trefn. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

## Questions to the Minister for Education and Skills

### Anghenion Addysgol Arbennig

### Special Educational Needs

13:30 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo plant ag anghenion addysgol arbennig? OAQ(4)0345(ESK)*

*1. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support children with special educational needs? OAQ(4)0345(ESK)*

13:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I thank the Member for Preseli Pembrokeshire for his question. The Welsh Government is committed to meeting the needs of all pupils with special educational needs. Through existing statutory duties, and future legislative reform of the current SEN legal framework, we are ensuring that education providers are best placed to deliver high-quality educational provision to these learners.

Diolch i'r Aelod dros Breseli Sir Benfro am ei gwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion pob disgybl ag anghenion addysgol arbennig. Drwy'r dyletswyddau statudol presennol, a diwygiadau deddfwriaethol i fframwaith cyfreithiol presennol AAA yn y dyfodol, rydym yn sicrhau bod darparwyr addysg yn y sefyllfa orau i gyflwyno darpariaeth addysgol o ansawdd uchel i'r dysgwyr hyn.

13:30 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for that answer. I have received representations recently regarding the statutory reading and numeracy tests for schools in Wales, which were rolled out earlier this year, as part of the national literacy and numeracy programme. There are some concerns that teachers do not have enough flexibility when setting these tests, as some feel that they do not sufficiently accommodate children with special educational needs. Can you tell us, Minister, what the Welsh Government is doing to ensure that there is enough flexibility in the system, so that children with special educational needs receive the support that they deserve, and what guidance do you issue to schools in relation to this?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Rwyf wedi cael sylwadau yn ddiweddar ynghylch y profion darllen a rhifedd statudol ar gyfer ysgolion yng Nghymru, a gafodd eu cyflwyno yn gynharach eleni, fel rhan o'r rhaglen llythrennedd a rhifedd genedlaethol. Mae rhai pryderon nad oes gan athrawon ddigon o hyblygrwydd wrth osod y profion hyn, gan fod rhai yn teimlo nad ydynt yn darparu'n ddigonol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. A allwch ddweud wrthym, Weinidog, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y system, fel bod plant ag anghenion addysgol arbennig yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu, a pha arweiniad rydych yn ei roi i ysgolion mewn perthynas â hyn ?

13:31 **Huw Lewis** Bywgraffiad BiographyThe Minister for Education and Skills

Senedd.tv Fideo Video

I have received a fair amount of valuable feedback in terms of the first sitting of the tests, which happened this year, in relation to children with special educational needs. We are currently looking at that feedback, taking on board some of the suggestions that teaching professionals are sending our way, and there will be modifications towards the sitting of the tests for this group of pupils in time for next year. There was already, of course, the flexibility around sitting the tests in chunks, if you like. However, I think that we will need to modify that further, and I will be making further statements in this regard in the new year.

Rwyf wedi cael cryn dipyn o adborth gwerthfawr ynghylch y profion cyntaf, a ddigwyddodd eleni, mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar yr adborth ac yn ystyried rhai o'r awgrymiadau a wneir gan weithwyr addysgu proffesiynol, a gwneir addasiadau i'r modd y caiff y profion eu sefyll ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion mewn da bryd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, cafwyd hyblygrwydd eisoes o ran sefyll y profion mewn rhannau, os dymunwch. Fodd bynnag, yn fy marn i, bydd angen inni addasu hynny ymhellach, a byddaf yn gwneud datganiadau pellach ar hyn yn y flwyddyn newydd.

13:32 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, several constituents have raised with me the issue of inequality between the way in which dyslexic students are treated by different local authorities. Can you tell us what guidance the Welsh Government has already issued to local authorities, particularly on statementing, and then support, for dyslexic students?

Weinidog, mae nifer o etholwyr wedi tynnu fy sylw at yr anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng y ffordd y mae myfyrwyr dyslecsig yn cael eu trin gan wahanol awdurdodau lleol. A allwch ddweud wrthym pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u rhoi i awdurdodau lleol, yn enwedig ar wneud datganiadau, ac yna gymorth, i fyfyrwyr dyslecsig?

13:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware, of course, that we are currently engaged in a programme of reform here. However, I am concerned about inconsistency between local authorities. I hope that our legislative reform framework will deal with some of that issue. However, I will also undertake—and this is a good opportunity for me to say this—to take a look at those areas of inconsistency that may not be addressed by legislative change for dyslexic pupils, and others with special needs.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol, wrth gwrs, ein bod yn ymgymryd â rhaglen o ddiwygiadau yma ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n pryderu am anghysondeb rhwng awdurdodau lleol. Gobeithio y bydd ein fframwaith diwygio deddfwriaethol yn ymdrin â rhai agweddau ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, byddaf hefyd yn mynd ati—ac mae hwn yn gyfle da i mi ddweud hyn—i edrych ar y meysydd hynny o anghysondeb na fydd newid deddfwriaethol ar gyfer disgyblion dyslecsig, ac eraill ag anghenion arbennig, yn mynd i'r afael â hwy efallai.

## Amddifadedd

## Deprivation

13:33 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel ymhlith plant ysgol? OAQ(4)0357(ESK)*

*2. What assessment has the Minister made of the link between deprivation and low educational attainment among school children? OAQ(4)0357(ESK)*

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cysylltiadau rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol? OAQ(HL4)0356(ESK)*

*6. Will the Minister make a statement on the links between poverty and educational attainment? OAQ(4)0356(ESK)*

13:33

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Delyn. The educational attainment of pupils who are eligible for free school meals is lower than that of their non-FSM peers in all performance measures. With additional funding secured, and with work on our new deprivation programme under way, we are in a strong position to deliver the systemic change that is necessary to support these children.

Diolch i'r Aelod dros Ddelyn. Mae cyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'u cyd-ddisgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim ar gyfer pob mesur perfformiad. Gyda chyllid ychwanegol wedi'i sicrhau, a gyda gwaith ar ein rhaglen amddifadedd newydd yn mynd rhagddo, rydym mewn sefyllfa gref i gyflawni'r newid systemig sy'n angenrheidiol i gefnogi'r plant hyn.

13:33

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much indeed. There is no doubt that the link between poverty and poor attainment is a problem in driving our aspirations to raise literacy and numeracy standards, because GCSE results among children from more affluent backgrounds are significantly better than those from low-income families. Minister, you have previously said that this situation cannot be tolerated, and I think that we all agree with you. However, given the fact that UK welfare policies and the flat economy are likely to push more families into poverty, what assurance can you give that this Government will continue to support children from the poorest backgrounds, to ensure that we are able to offer the best opportunities for all young people in Wales?

Diolch yn fawr iawn. Nid oes amheuaeth nad yw'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad gwael yn broblem wrth lywio ein dyheadau i wella safonau llythrennedd a rhifedd, gan fod canlyniadau TGAU ymhlith plant o gefndiroedd mwy cefnog yn sylweddol well na'r rhai o deuluoedd incwm isel. Weinidog, rydych wedi dweud o'r blaen na all y sefyllfa hon barhau, a chredaf ein bod i gyd yn cytuno â chi. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod polisïau lles y DU ac economi sy'n aros yn ei hunfan yn debygol o beri i fwy o deuluoedd fod mewn tlodi, pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd y Llywodraeth hon yn parhau i gefnogi plant o'r cefndiroedd tlotaf, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnig y cyfleoedd gorau i bob person ifanc yng Nghymru?

13:34

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is central to my concerns as Minister. While my overall aim must be to raise numeracy and literacy results for all young people in Wales, I do recognise that the overall target will be enormously difficult to reach unless we raise the attainment of pupils from low-income families at a proportionately faster rate than for the average. The uplift and the continuation of the pupil deprivation grant will provide a good financial basis next year for good work to be done. However, I will be moving forward from there, determined that we strengthen guidance and proactive communication of our policy through developing a deprivation programme, a cross-governmental initiative, about which I will make further announcements in the new year. In the atmosphere of austerity, as the Member says, and with the ideologically driven desire of the UK Government to head for a smaller state—for which read 'more and more impoverished public services'—we find ourselves in the most difficult and straitened of circumstances in terms of making a success of this agenda.

Mae hyn yn ganolog i'm pryderon fel Gweinidog. Er mai gwella canlyniadau rhifedd a llythrennedd ar gyfer holl bobl ifanc Cymru yw fy nod cyffredinol, o reidrwydd, rwy'n cydnabod y bydd y targed cyffredinol yn anodd iawn ei gyflawni oni bai ein bod yn gwella cyrhaeddiad disgyblion o deuluoedd incwm isel ar raddfa gyfatebol gyflymach na'r cyfartaledd. Bydd cynnydd a pharhad y grant amddifadedd disgyblion yn darparu sylfaen ariannol da y flwyddyn nesaf ar gyfer cyflawni gwaith da. Fodd bynnag, byddaf yn symud ymlaen oddi yno, yn benderfynol y gwnawn wella canllawiau a'r modd y caiff ein polisi ei gyfleu'n rhagweithiol drwy ddatblygu rhaglen amddifadedd, menter draws-lywodraethol, y byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach yn ei chylch yn y flwyddyn newydd. Ar adeg o galedi, fel y dywed yr Aelod, a chyda Llywodraeth y DU yn anelu at gyflawni'r dyhead ideolegol o wladwriaeth lai—sy'n gyfystyr â gwasanaethau cyhoeddus mwyfwy tlawd—rydym mewn amgylchiadau hynod anodd a thrafferthus o ran sicrhau bod yr agenda hon yn llwyddo.

13:35 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

The Flying Start scheme has been billed as an answer to overcoming the disadvantages associated with deprivation and educational attainment, but there is not a level playing field between the Welsh-medium stream and the English-medium stream. For example, in Rhondda Cynon Taf, more than 20% of children receive Welsh-medium education, but just 9% of children receive Welsh-medium Flying Start provision. There is clearly a great need for disadvantaged areas to be better served with Welsh-medium provision so that parents can have true parity of choice. Are you concerned about the discrepancies across Wales, and can you tell us what plans you have to remedy the situation?

Mae cynllun Dechrau'n Deg wedi cael ei alw'n ateb i oresgyn yr anfanteision sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol, ond nid oes chwarae teg rhwng y ffrwd cyfrwng Cymraeg a'r ffrwd cyfrwng Saesneg. Er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf mae mwy nag 20% o blant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ond dim ond 9% o blant sy'n derbyn darpariaeth Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n amlwg bod angen mawr i ardaloedd difreintiedig gael gwell darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel y gall rhieni gael gwir ddewis. A ydych yn pryderu am yr anghysondebau ledled Cymru, ac a allwch ddweud wrthym pa gynlluniau sydd gennych i ddatrys y sefyllfa?

13:36 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am concerned that we have a level playing field in terms of parent demand for Welsh-medium provision for Flying Start. I will point out to the Member that I am not, as a Minister, responsible for the Flying Start programme, but I will communicate with my colleagues to get a snapshot of where there may be issues and problems. I was not previously aware that there were any specific issues in this regard in RCT.

Mae'n bwysig imi fod chwarae teg i rieni sy'n galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer Dechrau'n Deg. Hoffwn dynnu sylw'r Aelod at y ffaith nad wyf, fel Gweinidog, yn gyfrifol am y rhaglen Dechrau'n Deg, ond gwnaf holi fy nghyd-Aelodau er mwyn cael cipolwg ar unrhyw faterion a phroblemau posibl. Nid oeddwn yn ymwybodol yn flaenorol bod unrhyw faterion penodol o ran hyn yn Rhondda Cynon Taf.

13:37 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The PISA report yesterday indicated that 24% of disadvantaged students in the UK are found to be resilient, meaning that they exceed the academic expectations that are put on them due to their socioeconomic background, but the percentage of those resilient students is higher in some other countries. Have you looked at the causes of that resilience in order to identify them and help to create those circumstances in Wales? Are you considering ensuring that the pupil deprivation grant is attached to a condition that it is used to support specific students from disadvantaged backgrounds?

Dangosodd adroddiad PISA a gyhoeddwyd ddoe fod 24% o fyfyrwyr difreintiedig yn y DU yn wydn, sy'n golygu eu bod yn rhagori ar y disgwyliadau academaidd a osodir arnynt oherwydd eu cefndir economaidd-gymdeithasol, ond mae canran y myfyrwyr gwydn hynny yn uwch mewn rhai gwledydd eraill. A ydych wedi edrych ar achosion y gwydnwch hwnnw er mwyn eu nodi a helpu i greu'r amgylchiadau hynny yng Nghymru? A ydych yn ystyried sicrhau bod y grant amddifadedd disgyblion ynghlwm wrth amod ei fod yn cael ei ddefnyddio i gefnogi myfyrwyr penodol o gefndiroedd difreintiedig?

13:37 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is true to say that deprived children can have, and do have, aspirations as high as anyone else. We need to address and nurture those aspirations. It is also true to say that there are countries throughout the world that perform very well in the PISA rankings with a relatively low educational spend and with considerable social problems being faced by the young people in their care. We are always on the lookout for lessons to be learnt from across the world, and we will be studying very closely these PISA rankings and what they tell us about not just the state of education in Wales, but the state of education across Europe and further afield.

Mae'n wir dweud y gall fod gan blant difreintiedig ddyheadau sydd yr un mor uchel ag unrhyw un arall ac mae ganddynt hwy. Mae angen inni fynd i'r afael â'r dyheadau hynny a'u meithrin. Mae hefyd yn wir dweud bod yna wledydd ledled y byd sy'n perfformio'n dda iawn o ran safleoedd PISA ac sydd â gwariant addysgol cymharol isel a phroblemau cymdeithasol sylweddol ymhlith y bobl ifanc yn eu gofal. Rydym bob amser yn chwilio am wersi i'w dysgu o bob cwr o'r byd, a byddwn yn astudio safleoedd PISA yn ofalus iawn ynghyd â'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym, nid yn unig am gyflwr addysg yng Nghymru, ond cyflwr addysg ledled Ewrop a thu hwnt.

With regard to the pupil deprivation grant, guidance governing the legitimate areas of spend, if you like, for the pupil deprivation grant will be much tighter this coming year than it has been in the past, and schools will be encouraged to take a look at evidence-based interventions for this group of pupils and none other, and we will be very strict about that. We have encouraged headteachers, for instance, to take a look at the Sutton Trust toolkit as a good place to start in terms of evidence-based initiatives.

O ran y grant amddifadedd disgyblion, bydd canllawiau sy'n rheoli meysydd gwariant dilys, os dymunwch, ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion yn llawer tynnach yn y flwyddyn i ddod nag yn y gorffennol, a bydd ysgolion yn cael eu hannog i edrych ar ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion a neb arall, a byddwn yn llym iawn am hynny. Rydym wedi annog penaethiaid, er enghraifft, i edrych ar becyn cymorth Ymddiriedolaeth Sutton fel lle da i ddechrau o ran mentrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

13:39 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae gan yr Alban yr un set o arfau datganoledig dros addysg â ninnau a chefndir tebyg iawn o ran amddifadedd a hanes ôl-ddiwydiannol. Pam felly mae canlyniadau PISA yn yr Alban yn ei dangos yn cau'r bwlch rhwng tlodi a chyrhaeddiad plant, a ninnau'n sefyll yn stond? Fel Gweinidog addysg, a chynt fel y Gweinidog gwrthdlodi, ble aethoch chi o'i le?

Minister, Scotland has the same set of devolved education tools as we have, and a similar history in terms of deprivation and post-industrialism. Why, therefore, do the PISA results show that Scotland is closing the gap between deprivation and pupil attainment, while we are at a standstill? As Minister for education, and previously as Minister for tackling poverty, where did you go wrong?

13:39 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have enormous respect for the journey that Scotland has travelled, particularly since devolution has come along. Scottish Governments, going back to 1999, have shown a willingness to engage in bold initiatives when it comes to closing the attainment gap and, indeed, other issues, too. I would not over-egg the situation in Scotland, and the Scots would be the last to do so. There are no champagne corks popping in Edinburgh as a result of the PISA results that came out yesterday, any more than there are here. I will be undertaking a ministerial visit to Scotland in January, and this is one of the issues that I will be looking at very closely.

Mae gennyf barch mawr tuag at y llwybr y mae'r Alban wedi'i ddilyn, yn enwedig ers datganoli. Ers 1999, mae Llywodraethau'r Alban wedi dangos parodrwydd i gymryd rhan mewn mentrau uchelgeisiol sy'n ymwneud â chau'r bwlch o ran cyrhaeddiad ac, yn wir, faterion eraill hefyd. Ni fyddwn yn gorbwysleisio'r sefyllfa yn yr Alban, a'r Albanwyr fyddai'r olaf i wneud hynny. Nid oes unrhyw boteli o siampên yn cael eu hagor yng Nghaeredin yn sgil canlyniadau PISA a gyhoeddwyd ddoe, yn fwy nag sydd yma. Byddaf yn cynnal ymweliad gweinidogol â'r Alban ym mis Ionawr, a dyma un o'r materion y byddaf yn edrych arno'n ofalus iawn.

13:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that the results here deserve a bottle of pop, let alone a bit of champagne. However, in your 2008 lecture in Aberystwyth, you stated that you cannot alter the face of education in this country without altering the funding. Given the challenges that you have recognised at least, and given that you have extra funding in the form of the pupil deprivation grant now, thanks to the budget agreement with Plaid Cymru and another party here as well, do you now have sufficient resources in place to break this link between attainment and deprivation?

Ni chredaf fod y canlyniadau hyn yn haeddu potel o bop, heb sôn am ychydig o siampên. Fodd bynnag, yn eich darlith yn Aberystwyth yn 2008, nodwyd na allwch newid wyneb addysg yn y wlad hon heb newid y cyllid. O ystyried yr heriau yr ydych wedi'u cydnabod o leiaf, ac o ystyried bod gennych gyllid ychwanegol ar ffurf y grant amddifadedd disgyblion yn awr, diolch i'r cytundeb cyllidebol gyda Phlaid Cymru a phlaid arall yma hefyd, a oes gennych bellach ddigon o adnoddau i dorri'r cysylltiad hwn rhwng cyrhaeddiad ac amddifadedd?

13:41 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member has made a close-reading study, I think, of my lecture back in 2008, and this is not the first time that he has referred to it. I must look it up and take a closer look myself. There is never enough resource, obviously, for those of us who would like to make progress as rapidly as possible, but the 1% protection and uplift for schools for the next financial year, combined with that doubling of the pupil deprivation grant certainly gives us the opportunity, particularly in the coming financial year, to have real traction in terms of turning around the prospects of some of our most deprived children. I will be particularly interested in taking a look at catch-up programmes aimed at this group of young people.

Mae'r Aelod wedi astudio fy narlith yn 2008 yn ofalus iawn, fe gredaf, ac nid dyma'r tro cyntaf iddo gyfeirio ati. Rhaid imi edrych arni eto fy hun. Nid oes byth digon o adnoddau, yn amlwg, ar gyfer y rhai ohonom a fyddai'n hoffi gwneud cynnydd mor gyflym â phosibl, ond mae'r diogelwch o 1% a'r cynnydd ar gyfer ysgolion y flwyddyn ariannol nesaf, ynghyd â dyblu'r grant amddifadedd disgyblion yn sicr yn rhoi'r cyfle, yn enwedig yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, inni gael effaith wirioneddol o ran trawsnewid rhagolygon rhai o'n plant mwyaf difreintiedig. Bydd gennyf ddiddordeb arbennig mewn edrych ar raglenni dal i fyny a anelir at y grŵp hwn o bobl ifanc.

13:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister agree that we do have good practice in Wales on closing the gap between levels of poverty and poor attainment, and will he congratulate the headteacher, teachers and pupils of Ferndale Community School in my constituency, which achieved a 16% increase in the number of young people getting five good GCSEs this year, along with an uplift of 2% in attendance levels, and which has also started to narrow the gap between those on free school meals and those not on free school meals in terms of achievement?

A yw'r Gweinidog yn cytuno bod gennym arferion da yng Nghymru o ran cau'r bwlch rhwng lefelau tlodi a chyrhaeddiad gwael, ac a wnaiff longyfarch pennaeth, athrawon a disgyblion Ysgol Gymunedol Glyn Rhedynog yn fy etholaeth, a welodd gynnydd o 16% yn nifer y bobl ifanc a gafodd bum gradd TGAU dda eleni, ynghyd â chynnydd o 2% mewn lefelau presenoldeb, ac sydd hefyd wedi dechrau lleihau'r bwlch rhwng y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt o ran cyflawniad?

13:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is tremendously good practice up and down Wales. Of course, I will join the Member in congratulating the teachers and young people he referred to. The trick that we now have to learn is how to spread that good practice from one set of professionals to another and from one community to another. That learning through groups and clusters of schools has to be a priority—and the Hill review has underscored this—for our working in the years ahead.

Ceir arfer hynod dda ar hyd a lled Cymru. Wrth gwrs, ymunaf â'r Aelod i longyfarch yr athrawon a'r bobl ifanc dan sylw. Y gamp y mae angen inni ei dysgu yn awr yw sut i ledaenu'r arfer da hwnnw rhwng setiau o weithwyr proffesiynol a chymunedau. Rhaid i ddysgu drwy grwpiau a chlystyrau o ysgolion fod yn flaenoriaeth—ac mae adolygiad Hill wedi tanlinellu hyn— ar gyfer ein gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

13:43 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rhan o'r broblem, wrth gwrs, yw bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn sôn am ledaenu arfer da am ryw 12 mlynedd, ac mae ein perfformiad ni yn dal yn waeth na pherfformiad Lloegr a'r Alban. Fory, bydd Llywodraeth Prydain yn datgan yr arian a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn dilyn ei phenderfyniad i gyflwyno prydau am ddim. Pa asesiad y byddwch chi a'ch cyd-Weinidogion yn y Llywodraeth yn ei wneud o'r ffordd y caiff yr arian ei wario?

Minister, part of the problem, of course, is that the Welsh Government has been talking about rolling out best practice for some 12 years, and our performance is still worse than that of England or Scotland. Tomorrow, the UK Government will reveal the funding available to the Welsh Government following its decision to introduce free school meals. Therefore, what assessment will you and your fellow Ministers within Government make with regard to the way in which this money is to be spent?

13:43 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the spread of best practice, the mechanism through which this will be done differently is the school improvement consortia, primarily. This is the platform or mechanism that I intend to use to ensure that we have close co-operation between schools that are leading in particular types of best practice and the schools that surround them. That will be a central operating principle, if you like, of the way in which the consortia will run from April next year onwards.

O ran lledaenu arfer gorau, yr adnodd a ddefnyddir i wneud hyn yn wahanol yw'r consortia gwella ysgolion, yn bennaf. Dyma'r llwyfan neu'r adnodd y bwriadaf ei ddefnyddio i sicrhau bod ysgolion sy'n arwain ar fathau penodol o arfer gorau a'r ysgolion o'u hamgylch yn cydweithredu'n agos. Bydd hynny'n brif egwyddor drefniadol, os mynnwch, o ran y ffordd y bydd y consortia yn rhedeg o fis Ebrill y flwyddyn nesaf.

13:44 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydych wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer y grant amddifadedd, ond, wrth sôn am ledaenu arfer da, roedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc mewn ysgol yr wythnos diwethaf a oedd yn herio tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Sutton ynglŷn ag arferion. Os yw'r ysgolion hyn yn gwrthod cydymffurfio â'r canllawiau, pa sancsiynau fydd naill ai'r consortia neu'r Llywodraeth yn eu rhoi ar yr ysgolion hynny?

You have published the guidelines for the deprivation grant, but, in talking about disseminating good practice, the Children and Young People Committee was in a school last week that was challenging the evidence of the Sutton Trust on best practice. If these schools refuse to comply with guidance, what sanctions will either the consortia or the Government have for those schools?

13:44 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not aware of the dialogue that the Member refers to, but I am interested in evidence-based spend as far as this money is concerned, and I would be very sceptical about initiatives that did not have some backing in terms of evidence. Everyone is free to challenge the Sutton Trust or any other organisation in terms of the efficacy of what they are doing, but I hope that they challenge with evidence of their own. I will be making sure that the vast majority of this resource is channelled towards initiatives that we know have an effect.

Nid wyf yn ymwybodol o'r ddeialog y mae'r Aelod yn cyfeirio ati, ond mae gennyf ddiddordeb mewn gwariant sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran yr arian hwn, a byddwn yn amheus iawn am fentrau nad oedd tystiolaeth yn sail iddynt mewn rhyw ffordd. Mae pawb yn rhydd i herio Ymddiriedolaeth Sutton neu unrhyw sefydliad arall o ran effeithiolrwydd yr hyn y maent yn ei wneud, ond gobeithio y gwnant herio gyda'u tystiolaeth eu hunain. Byddaf yn gwneud yn siŵr bod y mwyafrif helaeth o'r adnodd hwn yn targedu mentrau y gwyddom eu bod yn cael effaith.

## Addysg Cyfrwng Cymraeg

## Welsh-medium Education

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol addysg cyfrwng Cymraeg? OAQ(4)0354(ESK)*

*3. Will the Minister make a statement on the future of Welsh-medium education? OAQ(4)0354(ESK)*

13:45 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for South Wales Central for her question. The Welsh-medium education strategy sets out our ambition to grow and develop Welsh-medium education across all phases of education and training. This strategy is underpinned by the introduction of statutory Welsh in education plans. We also recently launched an information campaign to raise awareness of Welsh-medium and bilingual education.

Diolch i'r Aelod dros Ganol De Cymru am ei chwestiwn. Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn nodi ein huchelgais i dyfu a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ar bob cam o addysg a hyfforddiant. Ategir y strategaeth hon gan y camau i gyflwyno Cymraeg statudol mewn cynlluniau addysg. Yn ddiweddar hefyd gwnaethom lansio ymgyrch wybodaeth i godi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Senedd.tv
Fideo Video

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

I would like to specifically ask you about the cuts in Rhondda Cynon Taf and the effect on transport provision in particular. Welsh-medium education will be affected disproportionately by these cuts, because of the longer distances that children in Welsh-medium education usually have to travel. Many parents have told me that they intend to pull their children out of Welsh-medium education, or not opt for it in the first place, because free transport will no longer be available to them. Do you share my concern about the future of Welsh-language teaching in Rhondda Cynon Taf, and do you agree that a one-month consultation on such monumental changes is far too short?

Hoffwn eich holi'n benodol am y toriadau yn Rhondda Cynon Taf a'r effaith ar gludiant yn benodol. Bydd y toriadau hyn yn cael effaith anghymesur ar addysg cyfrwng Cymraeg, oherwydd y pellteroedd hwy y mae'n rhaid i blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg eu teithio fel arfer. Mae llawer o rieni wedi dweud wrthyf eu bod yn bwriadu rhoi'r gorau i anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg, neu beidio â dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y lle cyntaf, am na fydd cludiant am ddim ar gael iddynt mwyach. A ydych yn rhannu fy mhryder ynghylch dyfodol addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, ac a ydych yn cytuno nad yw ymgynghoriad sy'n para mis ar newidiadau mor anferthol yn ddigon o bell ffordd?

Senedd.tv
Fideo Video

13:46 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Rhondda Cynon Taf will have to submit its Welsh in education plan in the same was as the other 21 local authorities, and I will take a close look at it. If necessary, I will intervene to ensure, as I would with any local authority, that that plan is up to scratch. It is not for me to seek to run Rhondda Cynon Taf or any other local authority. I have every sympathy with local authorities, which are facing unprecedented levels of cuts that have been passed on to them by the UK Government.

Bydd yn rhaid i Rondda Cynon Taf gyflwyno ei gynllun Cymraeg mewn addysg yn yr un modd â'r 21 o awdurdodau lleol eraill, a byddaf yn edrych arno'n ofalus. Os bydd angen, gwnaf ymyrryd er mwyn sicrhau, fel yn achos unrhyw awdurdod lleol arall, fod y cynllun hwnnw yn cyrraedd y safon. Nid mater i mi yw ceisio rhedeg Rhondda Cynon Taf nac unrhyw awdurdod lleol arall. Rwy'n cydymdeimlo'n llwyr ag awdurdodau lleol, sy'n wynebu toriadau na welwyd eu math o'r blaen a drosglwyddwyd iddynt gan Lywodraeth y DU.

Senedd.tv
Fideo Video

13:47 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

I mi, mae twf addysg cyfrwng Cymraeg yn y de wedi digwydd oherwydd gwaith y Blaid Lafur, ac rwy'n awr yn croesawu'r cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg sydd ar eu ffordd. A all y Gweinidog roi amlinelliad o'r camau nesaf? A yw'n cytuno bod hyn yn gam enfawr ymlaen mewn addysg cyfrwng Cymraeg?

I believe that Welsh-medium education has grown in south Wales because of the work of the Labour Party, and I now welcome the Welsh in education strategic plans that are being introduced. Can the Minister outline the next steps? Does he agree that this is a huge step forward in Welsh-medium education?

Senedd.tv
Fideo Video

13:47 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Llanelli. It is a historic step forward, and my officials have recently informed local authorities that they have until 20 January 2014 to comply with the requirements of the draft Welsh in Education Strategic Plans (Wales) Regulations 2013, which will be laid shortly. My department aims to respond formally by the end of February, and local authorities will have until 20 March to make any amendments to their plans, with a view to implementing them with effect from 1 April next year. The purpose of these plans is to improve the strategic planning of Welsh-medium education.

Diolch i'r Aelod dros Lanelli. Mae'n gam hanesyddol ymlaen, ac yn ddiweddar mae fy swyddogion wedi hysbysu awdurdodau lleol mai 20 Ionawr 2014 yw'r terfyn amser ar gyfer bodloni gofynion Rheoliadau drafft Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2013, a gyflwynir yn fuan. Mae fy adran yn anelu at ymateb yn ffurfiol erbyn diwedd mis Chwefror, a bydd yn rhaid i awdurdodau lleol wneud unrhyw newidiadau i'w cynlluniau cyn 20 Mawrth, gyda'r nod o'u gweithredu o 1 Ebrill y flwyddyn nesaf. Diben y cynlluniau hyn yw gwella gwaith cynllunio strategol addysg cyfrwng Cymraeg.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, there is a great deal of disappointment, anger even, at the hefty cuts to the budget for Welsh-language education for adults. Your Government aims to improve the use of Welsh in the workplace and in families, whether they are from a Welsh-speaking background or not, particularly with their children. Enthusiastic Welsh learners will want to be part of those plans, but if we are realistic about people becoming confident of their Welsh, they will need support outside the workplace. What guarantee can you give that this budget cut will not adversely impact on results sought by the First Minister?

Weinidog, mae llawer iawn o siom, dicter hyd yn oed, am y toriadau mawr i'r gyllideb ar gyfer addysg Gymraeg i oedolion. Mae eich Llywodraeth yn anelu at wella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac o fewn teuluoedd, pa un a ydynt yn dod o gefndir Cymraeg ai peidio, yn enwedig gyda'u plant. Bydd dysgwyr Cymraeg brwdfrydig am fod yn rhan o'r cynlluniau hynny, ond os ydym am fod yn realistig ynghylch pobl yn magu hyder o ran eu Cymraeg, bydd angen cymorth arnynt y tu allan i'r gweithle. Pa sicrwydd y gallwch ei roi na fydd y toriadau hyn i'r gyllideb yn cael effaith andwyol ar y canlyniadau y mae'r Prif Weinidog yn anelu atynt?

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

The Member is right to be concerned, although the Member does support a UK Government that is slashing public spending in an unprecedented fashion, because it is driven ideologically to do so and believes that less public spending is a good thing. We are having to deal with the consequences of that. I am very sensitive to the importance of Welsh for adults courses within our communities; I think that they have done good work over the years. We have just had a review, which has informed us in many ways about how we can improve the service. I will seek, as much as I am able, to protect that provision despite the efforts of the UK Government to drive down this sort of initiative.

Mae'r Aelod yn iawn i bryderu, er ei fod yn cefnogi Llywodraeth y DU sy'n torri gwariant cyhoeddus mewn modd nas gwelwyd o'r blaen, am resymau ideolegol, a'i bod o'r farn bod llai o wariant cyhoeddus yn beth da. Rydym yn gorfod delio â chanlyniadau hynny. Rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd cyrsiau Cymraeg i oedolion yn ein cymunedau; credaf eu bod wedi gwneud gwaith da dros y blynyddoedd. Rydym newydd gael adolygiad, sydd wedi ein hysbysu mewn sawl ffordd am sut y gallwn wella'r gwasanaeth. Byddaf yn ceisio, hyd y gellir, ddiogelu'r ddarpariaeth honno er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth y DU i leihau'r math hwn o fenter.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Weinidog, pan oedd Plaid Cymru yn rhedeg Rhondda Cynon Taf, roedd yn cynnig codi tâl ar gyfer trafnidiaeth rhwng cartrefi ac ysgolion. Ar ôl Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n rhaid i awdurdodau lleol fesur y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. A yw'r Gweinidog yn hapus gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ein hawdurdodau lleol o ran gweithredu'r rheoliadau?

Minister, when Plaid Cymru ran Rhondda Cynon Taf, it proposed charging for transport between schools and homes. As a result of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, local authorities must measure demand for Welsh-medium education. Is the Minister content with the progress being made by our local authorities on implementing the regulations?

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

The Welsh in education strategic plans regulations that I mentioned earlier include powers for Welsh Ministers to require local authorities, subject to certain conditions set out in the regulations, to carry out a Welsh-medium education assessment. I will be considering how and when to exercise those powers once we have assessed the individual Welsh in education strategic plans, which local authorities will be submitting in January.

Mae'r rheoliadau ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg a grybwyllais yn gynharach yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, yn ddarostyngedig i amodau penodol a nodir yn y rheoliadau, gynnal asesiad o addysg cyfrwng Cymraeg. Byddaf yn ystyried sut a phryd i arfer y pwerau hynny unwaith y byddwn wedi asesu'r cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg unigol, a gyflwynir gan awdurdodau lleol ym mis Ionawr.

Senedd.tv Fideo Video

### Twf Swyddi Cymru

### Jobs Growth Wales

13:50 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Twf Swyddi Cymru? OAQ(4)0353(ESK)*

*4. Will the Minister provide an update on Jobs Growth Wales? OAQ(4)0353(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Senedd.tv Fideo Video

Jobs Growth Wales continues to be a noted success and is well on its way to meeting its target in its second year of delivery. As of 10 October, nearly 9,000 job opportunities have been created and over 7,000 unemployed people have started work. To complement Jobs Growth Wales, I today launched Moving Forward, which will create 440 job opportunities specifically for young people who have offended, young people in care and care leavers.

Mae Twf Swyddi Cymru yn parhau i fod yn llwyddiant nodedig ac mae ar y trywydd iawn o ran cyflawni ei darged yn ei ail flwyddyn weithredol. Ar 10 Hydref, roedd bron 9,000 o gyfleoedd gwaith wedi cael eu creu ac roedd dros 7,000 o bobl ddi-waith wedi dechrau gweithio. I ategu Twf Swyddi Cymru, heddiw lansiais Symud Ymlaen, a fydd yn creu 440 o gyfleoedd gwaith yn benodol ar gyfer troseddwyr ifanc, pobl ifanc mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

13:51 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Deputy Minister. You will be aware of European legislation going through that intends to create a legislative framework for public employment services, which are predominantly within the jurisdiction of the UK Government. Part of that proposal will be to evaluate and benchmark, and there will be a number of initiatives around that. What will the Welsh Government be doing to ensure that Jobs Growth Wales features as part of any future European initiatives, and also that the recognition of its success is properly established?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o ddeddfwriaeth Ewropeaidd sydd ar ei hynt sy'n anelu at greu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth cyhoeddus, sy'n bennaf o fewn awdurdodaeth Llywodraeth y DU. Bydd rhan o'r cynnig hwnnw yn ymwneud â gwerthuso a meincnodi, a bydd nifer o fentrau yn gysylltiedig â hynny. Beth a wnaiff Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Twf Swyddi Cymru yn rhan o unrhyw fentrau Ewropeaidd yn y dyfodol, a hefyd fod ei lwyddiant yn cael ei gydnabod yn briodol?

13:52 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First, I congratulate the Member on the adoption of his opinion on enhanced co-operation between public employment services at the Committee of the Regions plenary last week. The European PES network needs to take full account of the work of devolved Government, as we undertake a wide range of activities to support jobseekers into employment, in close collaboration with the Department for Work and Pensions through the joint employment delivery board. We clearly have a contribution to make to the PES network and expect that the UK representative from the Department for Work and Pensions will keep Welsh Government officials informed. In addition, I met with the director general of employment in the European Commission last week to discuss the success of Jobs Growth Wales.

Yn gyntaf, hoffwn longyfarch yr Aelod ar y penderfyniad i fabwysiadu ei farn ar fwy o gydweithredu rhwng gwasanaethau cyflogaeth cyhoeddus yng nghyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau yr wythnos diwethaf. Mae angen i'r rhwydwaith PES Ewropeaidd roi ystyriaeth lawn i waith Llywodraeth ddatganoledig, wrth inni gyflawni ystod eang o weithgareddau i helpu ceiswyr gwaith i mewn i gyflogaeth, mewn cydweithrediad agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy'r bwrdd cyflenwi cyflogaeth ar y cyd. Mae'n amlwg bod gennym gyfraniad i'w wneud i'r rhwydwaith PES a disgwyliwn i gynrychiolydd y DU o'r Adran Gwaith a Phensiynau roi'r wybodaeth ddiweddaraf I swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cyfarfûm â chyfarwyddwr cyffredinol cyflogaeth y Comisiwn Ewropeaidd yr wythnos diwethaf i drafod llwyddiant Twf Swyddi Cymru.

13:52 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, Jobs Growth Wales has certainly been used by many employers across Wales, and by a number in my own constituency. However, you will be aware of questions around the sustainability of these types of programmes and you will know that unemployment figures for Wales remain stubbornly above the UK average. You have given us some figures in terms of the number of placements for Jobs Growth Wales; how many of those are full-time positions? Do you have any specific figures for the number of placements that have not developed into full-time sustainable positions?

Ddirprwy Weinidog, mae Twf Swyddi Cymru yn sicr wedi cael ei ddefnyddio gan lawer o gyflogwyr ledled Cymru, a chan nifer yn fy etholaeth i. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol o gwestiynau am gynaliadwyedd y mathau hyn o raglenni a byddwch yn gwybod bod y ffigurau ynglŷn â'r diweithdra yng Nghymru yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd y DU. Rydych wedi rhoi rhai ffigurau inni o ran nifer y lleoliadau ar gyfer Twf Swyddi Cymru; sawl un o'r rheini sy'n swyddi llawn-amser? A oes gennych unrhyw ffigurau penodol ar gyfer nifer y lleoliadau nad ydynt wedi datblygu'n swyddi cynaliadwy llawn-amser?

13:53 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Nick Ramsay for that question. He raises an important point about sustainability. Of course, a critical part of Jobs Growth Wales is that any job that is created is in addition to the current workforce. It has to be proved that it is sustainable. In terms of the programme itself, all work has to be for a minimum of 25 hours per week. I have the data and I can provide them in terms of how many participants are working 25 hours a week and how many are working more than that.

Diolch i Nick Ramsay am y cwestiwn hwnnw. Mae'n codi pwynt pwysig am gynaliadwyedd. Wrth gwrs, rhan hanfodol o Twf Swyddi Cymru yw bod unrhyw waith sy'n cael ei greu yn ychwanegol i'r gweithlu presennol. Rhaid profi ei fod yn gynaliadwy. O ran y rhaglen ei hun, rhaid i unrhyw waith gyfateb i 25 awr yr wythnos o leiaf. Mae gennyf y data a gallaf eu rhoi o ran faint o gyfranogwyr sy'n gweithio 25 awr yr wythnos a faint sy'n gweithio mwy na hynny.

13:53 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

O'r 7,000 o bobl sydd wedi mynd ymlaen i swyddi llawn amser, faint ohonynt sydd wedi manteisio ar gyfleoedd i fynd ar gyrsiau prentisiaeth neu i gael credydau sgiliau uwch?

Of the 7,000 people who have gone on to full-time employment, how many have benefited from opportunities to undertake apprenticeship courses or to gain higher level skill credits?

13:54 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is the aspiration of the Welsh Government to ensure that all participants in Jobs Growth Wales proceed further into sustained work and/or higher learning. I can provide the exact figures from the 78% of people who complete Jobs Growth Wales and proceed through to sustainable employment and/or training.

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn Twf Swyddi Cymru yn symud ymlaen i mewn i waith a gynhelir a/neu ddysgu uwch. Gallaf roi'r union ffigurau o'r 78% o bobl sy'n cwblhau Twf Swyddi Cymru ac yn mynd ymlaen i hyfforddiant a/neu gyflogaeth gynaliadwy.

**Safonau Addysgol**

**Educational Standards**

13:54 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn y chwe mis nesaf i wella safonau addysgol yng Nghymru? OAQ(4)0344(ESK)*

*5. What action will the Welsh Government take in the next six months to improve educational standards in Wales? OAQ(4)0344(ESK)*

13:54 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for South Wales East. I already have a range of initiatives in place to improve standards at all stages of education and will continue to monitor their effectiveness.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru. Mae gennyf amrywiaeth o fentrau ar waith eisoes i wella safonau ar bob cam addysg a byddaf yn parhau i fonitro eu heffeithiolrwydd.

13:55 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

According to the latest figures, only 40% of GCSE pupils in Blaenau Gwent and Merthyr Tydfil, which is your constituency, gained five A to C grades last year, including in English, Welsh and mathematics. This compares to a Wales average of 52.7%, even though, as was mentioned by your predecessor, there is good practice. What good practice? These areas are full of your supporters and you are being totally unjust to them. What action do you intend to take to improve educational standards in Blaenau Gwent and Merthyr Tydfil as a matter of urgency? You have totally failed there.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf, dim ond 40% o ddisgyblion TGAU ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, sef eich etholaeth, a gafodd bum gradd A i C y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Mae hyn o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 52.7%, er, fel y crybwyllwyd gan eich rhagflaenydd, ceir arfer da. Pa arfer da? Mae'r ardaloedd hyn yn llawn o'ch cefnogwyr ac rydych yn eu trin mewn ffordd gwbl anghyfiawn. Pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i wella safonau addysgol ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful fel mater o frys? Rydych wedi methu'n llwyr yno.

13:55 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member's urgent, heart-felt concern for the residents of Merthyr Tydfil and Blaenau Gwent will, I am sure, meet with a great deal of relief in those communities. They need not worry; the Welsh Conservatives are on their way to assist.

Bydd pryder enbyd a thaer yr Aelod am drigolion Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, rwy'n siŵr, yn destun rhyddhad mawr yn y cymunedau hynny. Nid oes angen iddynt boeni; mae help gan y Ceidwadwyr Cymreig ar eu ffordd.

We have already talked this afternoon about a number of the initiatives that are in place in order to raise attainment levels across all of our communities, but there are those within Wales that have suffered particularly hard knocks, usually at the hands of Conservative Governments over the years, which have left them with social and economic problems that are difficult to shift and will have and have had an effect on the prospects and life changes of young people. We will do everything that we can to stand by those young people, to make those prospects better and to improve those GCSE figures in particular, and they are improving.

Rydym eisoes wedi sôn y prynhawn yma am nifer o'r mentrau sydd ar waith I wella cyrhaeddiad yn ein holl gymunedau, ond mae rhai yng Nghymru sydd wedi dioddef ergydion arbennig o galed, fel arfer wrth law Llywodraethau Ceidwadol dros y blynyddoedd, sydd wedi eu gadael gyda phroblemau cymdeithasol ac economaidd sy'n anodd eu dileu ac a fydd ac sydd wedi cael effaith ar ragolygon a newidiadau bywyd pobl ifanc. Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi'r bobl ifanc hynny, er mwyn gwneud y rhagolygon hynny'n well ac i wella'r ffigurau TGAU hynny yn arbennig, ac maent yn gwella.

13:56

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn cael ein hatgoffa y bydd rôl y consortia rhanbarthol yn cyfrannu'n sylweddol, gobeithio, tuag at godi safonau. Gan fod y cwestiwn yn gofyn am weithredu o fewn y chwe mis nesaf, rydym i gyd yn edrych ymlaen at 1 Ebrill, pan y byddwn, gobeithio, yn gweld y consortia rhanbarthol hyn yn gwbl weithredol. A allwch roi sicrwydd inni y bydd hynny'n digwydd ac y byddant yn weithredol erbyn 1 Ebrill? Os na fyddant, a allwch chi esbonio beth yn union y byddwch yn ei wneud am y peth?

We are reminded that the role of the regional consortia will, hopefully, contribute significantly to the raising of standards. The question asked about action over the next six months, so we all look forward to 1 April, when we will hopefully see these regional consortia fully operational. Can you guarantee that that will happen and that they will be operational by 1 April? If not, can you explain what exactly you will do about it?

13:57

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have every confidence that our new consortia will be up and running by 1 April. I have this as a signed undertaking from the Welsh Local Government Association. I have met with relevant council leaders within South Wales East and elsewhere, and I am convinced of their sincerity in terms of working alongside us. We will have a national co-ordinating mind behind the operation of these regional consortia. I see no reason to suppose that we will not have them up and running and doing their job on 1 April.

Mae gennyf bob hyder y bydd ein consortia newydd ar waith erbyn 1 Ebrill. Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei lofnodi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwyf wedi cyfarfod ag arweinwyr cyngor perthnasol o fewn Dwyrain De Cymru ac mewn mannau eraill, ac rwy'n argyhoeddedig o'u didwylledd o ran gweithio ochr yn ochr â ni. Bydd meddwl cydgysylltiedig cenedlaethol yn sail i weithredu'r consortia rhanbarthol hyn. Ni welaf unrhyw reswn dros gredu na fyddant ar waith ar 1 Ebrill.

13:58

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the latest PISA results have shown that the outcomes for pupils in Wales in relation to basic skills is particularly poor. What will you do in the next six months to convince employers who wish to relocate to Wales and create jobs here that they have a high-quality workforce that they can call on to turn this around?

Weinidog, mae canlyniadau diweddaraf PISA wedi dangos bod canlyniadau disgyblion yng Nghymru mewn perthynas â sgiliau sylfaenol yn arbennig o wael. Beth fyddwch yn ei wneud dros y chwe mis nesaf i argyhoeddi cyflogwyr sy'n dymuno adleoli i Gymru a chreu swyddi yma bod ganddynt weithlu o safon uchel y gallant alw arni i drawsnewid y sefyllfa hon?

13:58

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we have discussed, within the next six months, we will see a radically reformed school improvement structure across the country, so that every corner of Wales, every teaching professional, certainly, and every school leader will see a completely revamped structure of support and challenge all around them. This will be the single most important vehicle in terms of driving this agenda forward.

Fel y trafodwyd gennym, o fewn y chwe mis nesaf, byddwn yn gweld strwythur gwella ysgolion sydd wedi'i ddiwygio'n sylweddol ledled y wlad, fel bod pob rhan o Gymru, pob gweithiwr addysgu proffesiynol, yn sicr, a phob arweinydd ysgol yn gweld strwythur cymorth a her sydd wedi'I ailwampio'n llwyr o'u cwmpas. Dyma fydd y cyfrwng unigol pwysicaf o ran llywio'r agenda hon.

### Addysg Ôl-16

### Post 16 Education

13:59

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0348(ESK)*

*7. Will the Minister make a statement on access to post 16 education in Torfaen? OAQ(4)0348(ESK)*

13:59 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

My officials have put considerable work into the development of future options for post-16 education in Torfaen, and it is now for the local authority and Coleg Gwent to agree a way forward. I am happy to meet with all interested parties in the new year to consider latest developments and to assist in the progress of plans to improve post-16 education in Torfaen.

Mae fy swyddogion wedi gwneud cryn dipyn o waith yn datblygu opsiynau ar gyfer addysg ôl-16 yn Nhorfaen yn y dyfodol, ac yn awr mater i'r awdurdod lleol a Choleg Gwent yw cytuno ar ffordd ymlaen. Rwy'n fwy na pharod i gyfarfod â phawb sydd â diddordeb yn y flwyddyn newydd i ystyried y datblygiadau diweddaraf ac i helpu i sicrhau hynt cynlluniau i wella addysg ôl-16 yn Nhorfaen.

Senedd.tv
Fideo Video

13:59 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

As you know, Deputy Minister, Torfaen is unique in that there is no direct access to post-16 provision in the north of the borough, with many young people having to take two buses to Cross Keys to do their A-levels. While I am grateful that you have agreed to meet with me and key stakeholders to discuss this matter, I remain deeply frustrated at the length of time that it is taking to progress this issue. What assurances can you offer me today that ensuring that young people in my constituency have the same opportunities as those elsewhere in Wales will be a top priority for the Welsh Government and for you, personally, as Deputy Minister?

Fel y gwyddoch, Ddirprwy Weinidog, mae Tor-faen yn unigryw yn yr ystyr nad oes mynediad uniongyrchol at ddarpariaeth ôl-16 yng ngogledd y fwrdeistref, gyda llawer o bobl ifanc yn gorfod teithio ar ddau fws i Crosskeys i wneud eu Safon Uwch. Er fy mod yn ddiolchgar eich bod wedi cytuno i gyfarfod â mi a rhanddeiliaid allweddol i drafod y mater hwn, rwy'n dal i deimlo'n rhwystredig iawn ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i sicrhau y gweithredir ar y mater hwn. Pa sicrwydd y gallwch ei roi imi heddiw y bydd sicrhau bod pobl ifanc yn fy etholaeth yn cael yr un cyfleoedd â'r rhai mewn rhannau eraill o Gymru yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i chi, yn bersonol, fel Dirprwy Weinidog?

Senedd.tv
Fideo Video

14:00 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

May I thank Lynne Neagle for her question? I do appreciate your deep frustration. Indeed, 16 to 19 education is a priority in Torfaen, as it is across the whole of Wales. I can assure you that developing a fit-for-purpose post-16 education structure will remain a priority going forward.

Hoffwn ddiolch i Lynne Neagle am ei chwestiwn. Deallaf eich rhwystredigaeth ddofn. Yn wir, mae addysg 16 i 19 yn flaenoriaeth yn Nhorfaen, fel sy'n wir am Gymru gyfan. Gallaf eich sicrhau y bydd datblygu strwythur addysg ôl-16 sy'n addas at y diben yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y dyfodol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:00 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Certainly, Deputy Minister, you endorse what the previous speaker says. Torfaen education committee's reputation is not exactly strenuous in terms of provision in the northern part of the borough, as the Deputy Minister will know. Will he commit to making sure that there are adequate resources from Coleg Gwent to make certain that this situation will not occur again?

Yn sicr, Ddirprwy Weinidog, rydych yn ategu'r hyn y mae'r siaradwr blaenorol yn ei ddweud. Nid oes gan bwyllgor addysg Torfaen enw da iawn o ran darpariaeth yn rhan ogleddol y fwrdeistref, fel y gŵyr y Dirprwy Weinidog. A wnaiff ymrwymo i sicrhau bod adnoddau digonol gan Goleg Gwent i wneud yn siŵr nad yw'r sefyllfa hon yn digwydd eto?

Senedd.tv
Fideo Video

14:00 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

May I thank William Graham for his question? This is specifically why I will agree to meet with all interested parties to ensure that there is a strong system in place moving forward.

Hoffwn ddiolch i William Graham am ei gwestiwn. Dyma'n union pam y byddaf yn cytuno i gyfarfod â phawb sydd â diddordeb er mwyn sicrhau bod system gadarn ar waith yn y dyfodol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:00 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Deputy Minister, I am a regular visitor to Ysgol Gyfun Gwynllyw in Torfaen, and you may be aware that it has a higher proportion of 11 to 15-year-olds who are fluent Welsh speakers, but the number of academic and vocational courses offered through the medium of Welsh still remains limited compared with the number offered through the medium of English, and this results in students switching to English-medium courses that are, often, not even their first choice. There seems to be a general consensus of opinion, from three parties at least, that there is a lot of work to do in Torfaen. How will you address the situation for the Welsh-medium pupils?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n ymwelydd rheolaidd ag Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen, ac efallai eich bod yn ymwybodol bod ganddi gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg rhugl rhwng 11 a 15 oed, ond mae nifer y cyrsiau academaidd a galwedigaethol a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg yn dal i fod yn gyfyngedig o gymharu â'r nifer a gynigir drwy gyfrwng y Saesneg, sy'n achosi i fyfyrwyr newid i gyrsiau cyfrwng Saesneg nad ydynt, yn aml, yn ddewis cyntaf iddynt hyd yn oed. Mae'n ymddangos bod cytundeb cyffredinol, ymhlith tair plaid o leiaf, fod llawer o waith i'w wneud yn Nhorfaen. Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r sefyllfa ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg?

Senedd.tv
Fideo Video

14:01 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Lindsay Whittle. This is a question, effectively, of ensuring that demand meets supply. We have already invited the colleges of Wales to ensure that Welsh-medium provision is meeting demand, but if additional work is required, then certainly I will give it my full attention.

Diolch ichi, Lindsay Whittle. I bob diben, sicrhau bod y galw yn bodloni'r cyflenwad yw hyn. Rydym eisoes wedi gwahodd colegau Cymru i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ateb y galw, ond os oes angen gwneud gwaith ychwanegol, yna yn sicr byddaf yn rhoi fy sylw llawn iddo.

### Cymhwyster Mathemateg

### Mathematics Qualifications

14:01 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A fydd ymgynghoriad ar gynnwys y ddau gymhwyster mathemateg arfaethedig? OAQ(4)0351(ESK)*

*8. Will the content of the proposed two mathematics qualifications go out for consultation? OAQ(4)0351(ESK)*

14:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for South Wales West. The two new mathematics GCSEs are being developed in response to recommendation 19 of the review of qualifications. Following additional engagement with key stakeholders, proposals for the new GCSEs were published as part of an online survey on 25 November and that survey will close on 20 December.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin De Cymru. Mae'r ddau TGAU mathemateg newydd yn cael eu datblygu mewn ymateb i argymhelliad 19 o'r adolygiad o gymwysterau. Yn sgil ymgysylltu ychwanegol â rhanddeiliaid allweddol, cafodd cynigion ar gyfer y TGAU newydd eu cyhoeddi fel rhan o arolwg ar-lein ar 25 Tachwedd a bydd yr arolwg hwnnw yn dod i ben ar 20 Rhagfyr.

14:02 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad that the survey is happening and that people can have an input into that, but, Minister, you will know, I hope, that PISA will in future be considering financial education as part of its testing, so I wonder what preparations you are making now, within Welsh schools, so that our children will be able to partake in those tests and be sufficiently educated to know exactly what they are doing.

Rwy'n falch bod yr arolwg yn digwydd a bod pobl yn gallu cyfrannu ato, ond, Weinidog, byddwch yn gwybod, gobeithio, y bydd PISA yn y dyfodol yn ystyried addysg ariannol fel rhan o'r profion, felly tybed pa baratoadau yr ydych yn eu gwneud yn awr, yn ysgolion Cymru, fel y bydd ein plant yn gallu sefyll y profion hynny a chael eu haddysgu'n ddigonol i wybod yn union beth y maent yn ei wneud.

14:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member makes a very important point. The numeracy GCSE will aim to provide employers and others with a greater assurance of numeracy by assessing the mathematical skills that we need to use at work, in general study later on and in daily life. This would include financial issues, and I would encourage the Member to make a personal submission to that online survey that I mentioned. The second GCSE, of course, would then cover mathematical techniques and would deal with the mathematics that would be required for skills beyond the day-to-day, daily-life use of mathematics, that is, the kind of mathematics that you would need for progression to scientific, technical or further mathematical study.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig iawn. Bydd y TGAU mewn rhifedd yn anelu at roi mwy o sicrwydd i gyflogwyr ac eraill ynghylch rhifedd drwy asesu'r sgiliau mathemategol y mae angen inni eu defnyddio yn y gwaith, mewn astudiaethau cyffredinol yn ddiweddarach ac mewn bywyd beunyddiol. Byddai hyn yn cynnwys materion ariannol, a byddwn yn annog yr Aelod i wneud cyflwyniad personol i'r arolwg ar-lein hwnnw a grybwyllais. Byddai'r ail TGAU, wrth gwrs, wedyn yn cwmpasu technegau mathemategol ac yn delio â'r mathemateg a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer sgiliau y tu hwnt i'r defnydd beunyddiol o fathemateg, hynny yw, y math o fathemateg y byddai ei angen arnoch i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol, technegol neu fathemategol pellach.

14:03 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Minister, sadly, in the PISA results, mathematics was the one subject at which we came bottom of the rankings, coming forty-first, and also the points scored decreased from the previous assessment made in 2009. Your predecessor made a prediction about where he would like to see Welsh schools in the next round of PISA results. Where in the league table for maths assessments would you like to see Welsh schools when the assessment is made in 2015?

Weinidog, yn anffodus, yng nghanlyniadau PISA, mathemateg oedd yr un pwnc lle daethom ar waelod y tabl, yn yr 41ain safle, a hefyd gwnaeth y pwyntiau a sgoriwyd ostwng o'r asesiad blaenorol a wnaed yn 2009. Gwnaeth eich rhagflaenydd ragfynegi ble yr hoffai weld ysgolion Cymru yn y cylch nesaf o ganlyniadau PISA. O ran asesiadau mathemateg ble yr hoffech weld ysgolion Cymru yn y tabl cynghrair pan gynhelir yr asesiad yn 2015?

14:04 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

The Member invites me to embark on a session of fortune-telling this afternoon.

Mae'r Aelod yn fy ngwahodd i gynnal sesiwn dweud ffortiwn y prynhawn yma.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Your predecessor did.

Dyna a wnaeth eich rhagflaenydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

We have a stated aim that Wales should be a top-20 PISA country; I am not going to lower expectations or the challenge that is in front of our educational system, our schools and our professionals in Wales. Those aspirations remain undimmed and unchanged.

Mae gennym nod penodol y dylai Cymru fod yn yr ugain uchaf o ran gwledydd PISA; nid wyf am leihau disgwyliadau na'r her sy'n wynebu ein system addysg, ein hysgolion na'n gweithwyr proffesiynol yng Nghymru. Mae'r uchelgais hon yn parhau.

Senedd.tv Fideo Video

**Ofqual**

**Ofqual**

14:04 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*9. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofqual? OAQ(4)0352(ESK)*

*9. What progress has been made on developing a Memorandum of Understanding with Ofqual? OAQ(4)0352(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Officials are working with Ofqual to prepare a memorandum of understanding. Good progress has been made.

Mae swyddogion yn gweithio gydag Ofqual i baratoi memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Mae cynnydd da wedi'i wneud.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response. May I say to him that, whatever progress is made in reaching a memorandum of understanding with Ofqual in the short term, the priority must surely be to establish Qualifications Wales as a body that has the full respect of all professionals in Wales and that is not seen as a qualifications body that reaches short-term political decisions? May I urge the Minister, therefore, to continue the progress that he is making to establish Qualifications Wales not only as a regulatory body, but also as an awarding body?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Hoffwn ddweud wrtho, beth bynnag fo'r cynnydd a wneir o ran llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Ofqual yn y tymor byr, rhaid mai'r flaenoriaeth yw sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff sy'n ennyn parch llawn holl weithwyr proffesiynol Cymru, ac nad yw'n cael ei weld fel corff cymwysterau sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol byrdymor? Felly, hoffwn annog y Gweinidog i barhau â'r cynnydd y mae'n ei wneud i sefydlu Cymwysterau Cymru, nid yn unig fel corff rheoleiddio, ond hefyd fel corff dyfarnu?

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Quite so. The Member need have no fears in that regard. Although I have announced a staged or phased approach towards the transformation of Qualifications Wales, or the initial setting up and end destination of Qualifications Wales, awarding continues to be something that we must have as part of an organisation in which we all need to have confidence. This is a national requirement as far as the Welsh educational system is concerned. It is difficult to envisage any other sort of future when we have the Minister for education in England, for instance, diverging now so far away from the previous three nations' ways of working.

Yn union. Nid oes angen i'r Aelod boeni yn hynny o beth. Er fy mod wedi cyhoeddi ymagwedd raddol neu fesul cam tuag at drawsnewid Cymwysterau Cymru, neu'r broses gychwynnol o'i sefydlu a'i gyrchfan yn y pen draw, mae dyfarnu yn parhau i fod yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei gael fel rhan o sefydliad y mae angen i bob un ohonom fod yn hyderus yn ei gylch. Mae hwn yn ofyniad cenedlaethol o ran system addysgol Cymru. Mae'n anodd rhagweld unrhyw fath arall o ddyfodol pan fo'r Gweinidog addysg yn Lloegr, er enghraifft, yn dilyn trywydd mor wahanol erbyn hyn i ffyrdd o weithio'r tair gwlad flaenorol.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Angela Burns** [Bywgraffiad] [Biography]

Thank you very much—I think—for that, Minister. May I just clarify that the memorandum of understanding that you are currently working on with Ofqual will deal with certification arrangements for the remaining lifetime of qualifications that belong to the current three-country system, as well as looking to the future?

Diolch yn fawr iawn—rwy'n credu—am hynny, Weinidog. A allech gadarnhau y bydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yr ydych yn gweithio arno ar hyn o bryd gydag Ofqual yn delio â threfniadau ardystio ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o gymwysterau sy'n perthyn i'r system tair gwlad bresennol, yn ogystal ag edrych tuag at y dyfodol?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:06 **Huw Lewis** [Bywgraffiad] [Biography]

Yes, of course. Needs must that it should.

Bydd, wrth gwrs. Rhaid wrth hynny wrth reswm.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:06 **Angela Burns** [Bywgraffiad] [Biography]

My particular concern, Minister, is over qualifications that lead to the ability to practice and how we are going to be able to ensure that students in Wales are able still to access the licences that they will need to practice while undergoing a different set of qualifications in the future.

Mae fy mhryder penodol, Weinidog, yn ymwneud â chymwysterau sy'n arwain at y gallu i ymarfer a sut y byddwn yn gallu sicrhau bod myfyrwyr yng Nghymru yn parhau i allu cael gafael ar y trwyddedau y bydd eu hangen arnynt i ymarfer wrth ymgymryd â set wahanol o gymwysterau yn y dyfodol.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:07 **Huw Lewis** [Bywgraffiad] [Biography]

Yes, quite so. Members are quite right to raise these concerns. Of course, they are under consideration.

Yn wir. Mae'r Aelodau yn iawn i godi'r pryderon hyn. Wrth gwrs, maent yn cael eu hystyried.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:07 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad] [Biography]

Weinidog, rydych wedi gosod nod ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff sy'n dyfarnu. A ydych yn gallu rhoi amserlen i ni ynglŷn â hynny? A ydym yn sôn am y flwyddyn nesaf, neu'r flwyddyn wedyn? Pryd yn union yr ydych yn gweld y bydd y corff hwn wedi ei sefydlu ac yn weithredol?

Minister, you have set the aim of establishing Qualifications Wales as an awarding body. Can you give us a timetable on that? Are we talking about next year or the following year? When exactly do you see this body being established and actually operating?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:07 **Huw Lewis** [Bywgraffiad] [Biography]

I have announced a timetable. I believe that the date for it to be up and running and regulating was September 2015. I will write to the Member if I have made a mistake and if my memory is amiss in that regard. That is as regards regulation of course. We must then move as quickly as goodwill and consensus will allow in terms of the awarding functions of the future Qualifications Wales.

Rwyf wedi cyhoeddi amserlen. Credaf mai'r dyddiad a bennwyd ar gyfer ei sefydlu ac iddo fod yn rheoleiddio oedd mis Medi 2015. Ysgrifennaf at yr Aelod os wyf wedi gwneud camgymeriad ac os yw fy nghof yn pallu yn hynny o beth. Mae hynny o ran rheoleiddio wrth gwrs. Rhaid inni wedyn symud mor gyflym ag y bydd ewyllys da a chonsensws yn ei ganiatáu o ran swyddogaethau dyfarnu Cymwysterau Cymru yn y dyfodol.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

**Ymgysylltu ag Ieuenctid**

**Youth Engagement**

14:08 **Christine Chapman** [Bywgraffiad] [Biography]

*10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid? OAQ(4)0349(ESK)*

*10. Will the Minister provide an update on the Youth Engagement and Progression Framework Implementation Plan? OAQ(4)0349(ESK)*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:08 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad] [Biography]

The youth engagement and progression framework implementation plan was published on 1 October 2013. The plan has a clear two-year timetable for implementation, and a number of the milestones have already been progressed.

Cafodd cynllun gweithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid ei gyhoeddi ar 1 Hydref 2013. Mae gan y cynllun amserlen dwy flynedd glir ar gyfer gweithredu, ac mae nifer o'r cerrig milltir eisoes wedi'u cyflawni.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:08 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for the response. Identifying young people at risk of disengagement from the education process requires that the whole school community is aware of how to pinpoint and support those individuals, but also requires effective collaboration across a range of services external to schools. How can the Welsh Government best ensure that all elements of a school are capable of fulfilling this, while also ensuring that strong and responsive links are established across the range of groups needed to holistically tackle this issue?

Diolch am yr ymateb, Ddirprwy Weinidog. Mae'r gwaith o adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r broses addysg yn gofyn i'r gymuned ysgol gyfan fod yn ymwybodol o sut i'w hadnabod a'u cefnogi, ond mae hefyd yn gofyn am gydweithio effeithiol rhwng amrywiaeth o wasanaethau y tu allan i ysgolion. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob elfen o ysgol yn gallu cyflawni hyn, tra hefyd yn sicrhau bod cysylltiadau cryf ac ymatebol yn cael eu sefydlu rhwng yr amrywiaeth o grwpiau sydd eu hangen i ymdrin â'r mater hwn mewn ffordd gyfannol?

14:09 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Implementation of the new youth engagement and progression framework raises our expectations for system-wide responsiveness and better co-ordinated support for young people. We are asking all local authorities to develop early identification systems capable of flagging those most at risk of disengagement, so that appropriate and timely support can be provided. We expect those early identification systems to be developed by March of next year. It will also be for local authorities, through their engagement and progression co-ordinators, to then match those young people who are identified as potentially disengaging to an appropriate lead worker for the necessary support that they need.

Mae gweithredu'r fframwaith newydd ar gyfer ymgysylltu a datblygu ieuenctid yn codi ein disgwyliadau o ran ymatebolrwydd system gyfan a chymorth sydd wedi'i gydgysylltu'n well ar gyfer pobl ifanc. Rydym yn gofyn i bob awdurdod lleol ddatblygu systemau adnabod cynnar a all dynnu sylw at y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio fwyaf, fel y gall cymorth priodol ac amserol gael ei roi. Rydym yn disgwyl i'r systemau adnabod cynnar hynny gael eu datblygu erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Bydd hefyd angen i awdurdodau lleol, drwy eu cydgysylltwyr ymgysylltu a datblygu, yna baru'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu nodi fel rhai a allai ymddieithrio â gweithiwr arweiniol priodol am y cymorth angenrheidiol.

14:09 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, your timeline has a very clear outline for brokerage services, and you were saying that, by December, you would like to see local authorities having appointed key workers to liaise with key stakeholders, in order to ensure that brokerage services go ahead. I have been approached by a number of such organisations that say that they have still not received any engagement with respect to this framework. I wonder how you will be able to ensure that local authorities actually do this and stick to this ambitious timeline.

Ddirprwy Weinidog, mae gan eich amserlen amlinelliad clir iawn ar gyfer gwasanaethau broceriaeth, ac roeddech yn dweud, erbyn mis Rhagfyr, yr hoffech weld awdurdodau lleol yn penodi gweithwyr allweddol i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau broceriaeth yn mynd rhagddynt. Mae nifer o sefydliadau o'r fath wedi cysylltu â mi i ddweud nad oes neb wedi ymgysylltu â hwy o ran y fframwaith hwn. Tybed sut y byddwch yn gallu sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud hyn mewn gwirionedd ac yn cadw at yr amserlen uchelgeisiol hon.

14:10 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am concerned to learn that, and I would be very grateful —[Interruption.]

Mae'n bryder clywed hynny, a byddwn yn ddiolchgar iawn —[Torri ar draws.]

I would like to thank the Member for that. We will be closely monitoring the progress of the framework, and I do not expect those sorts of concerns to go without being properly addressed.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod am hynny. Byddwn yn monitro cynnydd y fframwaith yn agos, a disgwyliaf i'r mathau hynny o bryderon gael sylw priodol.

### Hyfforddi Athrawon

### Teacher Training

14:10 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddi athrawon yng Nghymru? OAQ(4)0350(ESK)*

*11. Will the Minister make a statement on teacher training in Wales? OAQ(4)0350(ESK)*

14:10 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Islwyn. On 7 October, I published my response to the recommendations contained in the report on the review of initial teacher training in Wales via a written statement. My response includes proposals to support improvements across all areas of ITT, including the quality and consistency of provision, and strengthening sector leadership.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod dros Islwyn. Ar 7 Hydref, cyhoeddais fy ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad ar yr adolygiad o hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru drwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig. Mae fy ymateb yn cynnwys cynigion i gefnogi gwelliannau ym mhob maes HCA, gan gynnwys ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth, a chryfhau arweinyddiaeth sector.

Senedd.tv
Fideo Video

14:11 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. Minister, a school in England recently advertised a job for a maths teacher with a minimum requirement of four GCSEs and no minimum teaching qualifications necessary. Do you agree with me that it would be a mistake for us to follow this model in Wales?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, yn ddiweddar gwnaeth ysgol yn Lloegr hysbysebu swydd am athro mathemateg a oedd yn gofyn am isafswm o bedair TGAU a dim cymwysterau addysgu gofynnol. A ydych yn cytuno â mi y byddai'n gamgymeriad inni ddilyn y model hwn yng Nghymru?

Senedd.tv
Fideo Video

14:11 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I do. I very much do agree with the Member in this regard. We are going to follow a very different road here in Wales. As the Minister in England increasingly allows unqualified people to embark upon a career in teaching, we will ensure that the professionalism of our workforce in Wales is reinforced and supported. To become a qualified teacher and work in the maintained schools sector in Wales, you must hold a QTS—qualified teacher status—and register with the General Teaching Council for Wales. Teaching is a graduate profession in Wales, and I have no plans to amend the statutory requirements governing teachers' qualifications. In fact, I will be investigating ways in which we can upskill and make even more professional our teaching workforce here in Wales.

Cytunaf â'r Aelod yn fawr iawn yn hyn o beth. Rydym yn mynd i ddilyn trywydd gwahanol iawn yma yng Nghymru. Wrth i'r Gweinidog yn Lloegr ganiatáu i bobl heb gymwysterau ddechrau ar yrfa addysgu fwyfwy, byddwn yn sicrhau bod proffesiynoldeb ein gweithlu yng Nghymru yn cael ei atgyfnerthu a'i gefnogi. I ddod yn athro cymwysedig ac i weithio yn y sector ysgolion a gynhelir yng Nghymru, rhaid bod gennych SAC—statws athro cymwysedig—a chofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Mae addysgu yn broffesiwn graddedig yng Nghymru, ac nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r gofynion statudol sy'n llywodraethu cymwysterau athrawon. Yn wir, byddaf yn ymchwilio i ffyrdd y gallwn uwchsgilio ein gweithlu addysgu yma yng Nghymru a'i wneud hyd yn oed yn fwy proffesiynol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:12 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, what work are you doing with regard to overseas-trained teachers, particularly those with experience? I have had experience with former deputy headteachers in north Wales who cannot teach in Wales because of the ridiculous rules that bar them from teaching unless they have qualified teacher status. They would need to go through that expensive rigmarole, which is funded by the taxpayer, to go through that process, even though they have experience in countries like Australia, Canada and the United States.

Weinidog, pa waith yr ydych yn ei wneud o ran athrawon a hyfforddwyd dramor, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad? Rwyf wedi cael profiad gyda chyn-ddirprwy benaethiaid yn y gogledd nad ydynt yn gallu addysgu yng Nghymru oherwydd y rheolau gwirion sy'n eu rhwystro rhag addysgu oni bai bod ganddynt statws athro cymwysedig. Byddai angen iddynt fynd drwy'r rigmarôl drud hwnnw, sy'n cael ei ariannu gan y trethdalwr, er mwyn dilyn y broses honno, er bod ganddynt brofiad mewn gwledydd fel Awstralia, Canada a'r Unol Daleithiau.

Senedd.tv
Fideo Video

14:12 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, the Member might find these issues ridiculous, but I certainly do not. Some overseas countries will of course have initial teacher training systems and qualifications with standards and quality levels comparable to those of the UK—that goes without saying; of course it does. However, while this might provide an indicator of the relative suitability of teachers from those countries for teaching in the UK, we would not regard it here in Wales as meaning that a teaching qualification from those countries could be viewed as fully equivalent in relation to the requirements in the 2009 QTS standards. This is about maintaining our standards, and it is our view that teachers with qualifications from Australia, for instance, and Canada, New Zealand and the US should not be able to teach in schools in Wales as qualified teachers, on a long-term basis at least, without being assessed against the specified QTS standards.

Wel, efallai fod yr Aelod o'r farn bod y materion hyn yn chwerthinllyd, ond ni chytunaf, yn sicr. Bydd gan rai gwledydd tramor, wrth gwrs, systemau hyfforddi athrawon cychwynnol a chymwysterau gyda safonau a lefelau ansawdd tebyg i'r rhai a geir yn y DU—mae hynny'n ddi-os; wrth reswm. Fodd bynnag, er y gallai hyn ddangos addasrwydd cymharol athrawon o'r gwledydd hynny i addysgu yn y DU, ni fyddem, yma yng Nghymru, o'r farn ei fod yn golygu y gallai cymhwyster addysgu o'r gwledydd hynny gael ei ystyried yn gwbl gyfatebol mewn perthynas â'r gofynion yn safonau SAC 2009. Mae hyn yn ymwneud â chynnal ein safonau, ac, yn ein barn ni, ni ddylai athrawon sydd â chymwysterau o Awstralia, er enghraifft, a Chanada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau allu addysgu mewn ysgolion yng Nghymru fel athrawon cymwysedig, ar sail hirdymor o leiaf, heb gael eu hasesu yn erbyn y safonau SAC penodedig.

Senedd.tv
Fideo Video

14:13 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I appreciate the point that the Minister is making, but I am sure that he is aware that teachers who trained in Australia, Canada, New Zealand and the United States and have been awarded qualified teacher status in England by the National College for Teaching and Leadership under a Department for Education scheme, cannot have their QTS qualification recognised under Welsh legislation. That does seem to me to bring in some unnecessary bureaucracy. I just wondered if he could look into this matter so that Welsh children can have the benefits of the skills of the teachers from these other countries.

Deallaf y pwynt y mae'r Gweinidog yn ei wneud, ond rwy'n siŵr ei fod yn ymwybodol na all athrawon sy'n hyfforddi yn Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau ac sydd wedi cael statws athro cymwysedig yn Lloegr gan y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Dysgu ac Arweinyddiaeth o dan gynllun yr Adran Addysg, weld eu cymhwyster SAC yn cael ei gydnabod o dan ddeddfwriaeth Cymru. Ymddengys imi fod hynny'n creu rhywfaint o fiwrocratiaeth ddiangen. Tybed a allai ymchwilio i'r mater hwn fel y gall plant Cymru fanteisio ar sgiliau'r athrawon o'r gwledydd eraill hyn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:14 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I thank Julie Morgan for that question. I am quite happy to take another look at the issue, but, you know, as of the present, I see no reason to amend the way that we work here in Wales. This is, as I say, not a question of automatically recognising qualifications from across the world, but of recognising the fact that we have specific needs for the kind of workforce that we must have here in Wales and making sure that those standards are maintained. It is not a question of deliberately trying to exclude but of deliberately trying to ensure a minimum level of standards.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw. Rwy'n fwy na pharod i edrych ar y mater eto, ond, gwyddoch, o ran y presennol, ni welaf unrhyw reswm i newid y ffordd yr ydym yn gweithio yma yng Nghymru. Nid yw hyn, fel y dywedais, yn ymwneud â chydnabod chymwysterau o bob cwr o'r byd yn awtomatig, ond cydnabod y ffaith bod gennym anghenion penodol ar gyfer y math o weithlu y mae'n rhaid inni ei gael yma yng Nghymru a gwneud yn siŵr bod y safonau hynny'n cael eu cynnal. Nid yw'n fater o geisio eithrio'n fwriadol ond gwneud ymgais fwriadol i sicrhau lefel ofynnol o safonau.

Senedd.tv
Fideo Video

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

I droi at fater arall, Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder bod cwrs doethuriaeth mewn seicoleg addysg Prifysgol Caerdydd, sef yr unig un yng Nghymru, wedi cau eleni? Nid oes cwrs tebyg ar hyn o bryd yng Nghymru, ac mae hynny'n golygu bod pobl sydd eisiau hyfforddi mewn seicoleg addysg yn gorfod hyfforddi yn Lloegr. Gan fod y gwasanaeth hwn mor hanfodol i gefnogi rhychwant o ddigwyddiadau a gweithgareddau gan ein hathrawon, a'n bod ni fel Aelodau Cynulliad yn gwybod pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn, a fyddech yn gallu cymryd camau i lenwi'r bwlch?

Turning to another issue, Minister, do you share my concern that the educational psychology doctorate course in Cardiff University, which is the only one in Wales, has closed this year? There is no similar course in Wales at the moment, and that means that those who wish to train in educational psychology have to train in England. As this service is so crucial to supporting a range of activities by our teachers, and we as Assembly Members know just how important this service is, could you take steps to fill that gap?

Senedd.tv
Fideo Video

14:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Naturally, I am very concerned. I learned only a few days ago that this was an issue. I will offer the Member an undertaking that I will personally look into this problem in terms of the provision of what I think is a very important support service. I have the greatest respect for educational psychology in terms of the support that it can offer the teaching profession and young people in particular. I will write to the Member once I have made a thorough investigation of the circumstances surrounding the provision of the course.

Wrth reswm, mae'n achos pryder mawr immi. Dim ond ychydig yn ôl y cefais wybod bod fod problem. Ymrwymaf i'r Aelod y gwnaf bersonol ymchwilio i'r broblem hon fy hun o ran darpariaeth yr hyn sy'n wasanaeth cymorth pwysig iawn yn fy marn i. Mae gennyf y parch mwyaf tuag at seicoleg addysg o ran y cymorth y gall ei gynnig i'r proffesiwn addysgu a phobl ifanc yn arbennig. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod unwaith y byddaf wedi ymchwilio'n drylwyr i amgylchiadau darparu'r cwrs.

# Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

# Questions to the Minister for the Economy, Science and Transport

### Ardaloedd Gwella Busnes

### Business Improvement Districts

14:16 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl economaidd Ardaloedd Gwella Busnes? OAQ(4)0346(EST)*

*1. Will the Minister make a statement on the economic role of Business Improvement Districts? OAQ(4)0346(EST)*

14:16 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Yes. Business improvement districts bring together businesses and other stakeholders in a geographical area so that they can develop activities to help boost the local economy.

Gwnaf. Mae ardaloedd gwella busnes yn dod â busnesau a rhanddeiliaid eraill mewn ardal ddaearyddol ynghyd fel y gallant ddatblygu gweithgareddau er mwyn helpu i roi hwb i'r economi leol.

14:17 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I congratulate you on the initiative, because, for the first time, I have heard businesses talking about the possibilities of taking some responsibility within trade and matters that affect them within trading communities. Once the appointment has been made and the various bids have been put in, what steps will be put in place to measure, monitor and evaluate how successful the project is?

Yn gyntaf oll, rwyf yn eich llongyfarch ar y fenter, oherwydd, am y tro cyntaf, rwyf wedi clywed busnesau'n sôn am y posibilrwydd o gymryd peth cyfrifoldeb o fewn masnach a materion sy'n effeithio arnynt o fewn cymunedau masnachu. Unwaith y bydd y penodiad wedi'i wneud a'r ceisiadau amrywiol wedi'u cyflwyno, pa gamau fydd yn cael eu cymryd i fesur, monitro a gwerthuso llwyddiant y prosiect?

14:17 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. The success of the Swansea bid shows that it could probably be successfully replicated across Wales. They are assessing all the bids currently, and, as I understand it, that is likely to be done by the second or third week in December. They have had a number of applications. At that time, we can look at improvements, I believe, over the period of time. This is not wholly within my portfolio; the bid issues are shared across with regeneration.

Diolch ichi am hynny. Mae llwyddiant cais Abertawe yn dangos y gallai gael ei efelychu'n llwyddiannus ledled Cymru yn ôl pob tebyg. Maent yn asesu'r holl geisiadau ar hyn o bryd, ac, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'r gwaith hwnnw'n debygol o gael ei gwblhau erbyn ail neu drydedd wythnos mis Rhagfyr. Maent wedi cael nifer o geisiadau. Bryd hynny, gallwn edrych ar welliannau, yn fy marn i, dros y cyfnod o amser. Nid yw hyn i gyd yn rhan o'm portffolio; caiff y materion o ran ceisiadau eu rhannu ag adfywio.

14:18 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On Monday evening, I attended a meeting of the Newport chamber of trade, where it looked at the possibility of forming a bid for Newport. I am most grateful to the Minister for making funds available for the initial exploration of this through Newport Unlimited, and I wonder whether she could commit to making sure that there is adequate advertisement within the city so that as many traders as possible can come on board.

Nos Lun, mynychais gyfarfod o siambr fasnach Casnewydd, lle ystyriwyd y posibilrwydd o lunio cais ar gyfer Casnewydd. Rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Gweinidog am ddarparu arian ar gyfer y gwaith ystyried cychwynnol drwy Newport Unlimited, a meddyliaf tybed a allai ymrwymo i sicrhau bod digon o hysbysebu'n digwydd yn y ddinas, fel y gall cynifer o fasnachwyr â phosibl gymryd rhan.

14:18 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I totally concur. I think it is important that we advertise the fact that there is funding available and also that we are prepared to show the success of projects such as the bids that have already been successful—Swansea is a good illustration. I hope that businesses take the opportunity to meet individuals who have successfully done bid processes. I will certainly ensure that, if the applications for the money are successful, that sufficient information is given in terms of publicity.

Gallaf, cytunaf yn llwyr. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn hysbysebu'r ffaith bod cyllid ar gael a hefyd ein bod yn barod i ddangos llwyddiant prosiectau fel y ceisiadau sydd eisoes wedi bod yn llwyddiannus—mae Abertawe yn enghraifft dda. Rwy'n gobeithio y bydd busnesau'n manteisio ar y cyfle i gwrdd ag unigolion sydd wedi cymryd rhan mewn prosesau gwneud cais llwyddiannus. Byddaf yn sicr yn sicrhau, os bydd y ceisiadau am yr arian yn llwyddiannus, bod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi o ran cyhoeddusrwydd.

14:18 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae'n amlwg bod croeso cynnes iawn i'r prosiect hwn mewn ardaloedd dinesig, ond beth am ein hardaloedd gwledig a'n trefi marchnad ni a'r ardaloedd sy'n eu hamgylchynu? A oes posibilrwydd o gael prosiect cyfatebol ar gyfer yr ardaloedd hynny?

Minister, it is obvious that there is a very warm welcome for this project in urban areas, but what about our rural areas and our market towns and the surrounding areas? Is there a possibility of having similar projects for those areas?

14:19 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think that that is a very important point that you have made. We have had applications from towns that you would term more as market towns within this particular process, but I think that, at the end of the process, when we have assessed the bids, I will also see whether it will be necessary to perhaps do a further round.

Oes, credaf eich bod wedi gwneud pwynt pwysig iawn. Rydym wedi cael ceisiadau gan drefi y byddech yn eu cyfrif yn fwy o drefi marchnad yn ystod y broses benodol hon, ond credaf, ar ddiwedd y broses, pan fyddwn wedi asesu'r ceisiadau, y byddaf hefyd yn gweld a oes angen cynnal cylch arall efallai.

### Seilwaith y Rheilffyrdd

### Rail Infrastructure

14:19 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am seilwaith y rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0345(EST)*

*2. Will the Minister make a statement on rail infrastructure in North Wales? OAQ(4)0345(EST)*

14:19 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am committed to improving rail infrastructure in north Wales and I am leading on the development of a business case for the modernisation of the rail network in the region.

Rwyf wedi ymrwymo i wella seilwaith y rheilffyrdd yn y gogledd ac rwy'n arwain y gwaith o ddatblygu achos busnes dros foderneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn y rhanbarth.

14:19 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. Will you provide clarity on what is happening with the redoubling of the Wrexham-Saltney rail line? Prior to your review of that, Network Rail e-mailed saying that 7.5 miles of new line would go ahead in October following approval from the Welsh Government. After your review, you announced redoubling by spring 2015, but it appears from the Welsh Government website that 2 miles have been lost, and it is now only 5.5 miles, which halves the number of trains that will be able to access the track hourly, preventing a shuttle service and limiting late-running trains and increased freight trains. I understand the Welsh Government's position now is that Network Rail increased the costs by £10 million to £55 million. So, could we have clarity on exactly what is happening with this line?

Diolch ichi am hynny. A wnewch chi egluro beth sy'n digwydd gyda'r cynllun i ailddyblu llinell reilffordd Wrecsam-Saltney? Cyn eich adolygiad o'r cynllun hwnnw, cefais e-bost gan Network Rail yn dweud y byddai gwaith yn dechrau ar 7.5 milltir o linell newydd ym mis Hydref yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl eich adolygiad, gwnaethoch gyhoeddi cynllun i ailddyblu erbyn gwanwyn 2015, ond mae'n ymddangos o wefan Llywodraeth Cymru fod 2 filltir wedi cael eu colli, ac mae dim ond 5.5 milltir sydd dan sylw nawr, sy'n haneru nifer y trenau a fydd yn gallu defnyddio'r cledrau bob awr, gan atal gwasanaeth gwennol a chyfyngu ar drenau sy'n rhedeg yn hwyr a chynnydd mewn trenau cludo nwyddau. Deallaf mai safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw i Network Rail gynyddu'r costau £10 miliwn i £55 miliwn. Felly, a allem gael eglurhad o beth yn union sy'n digwydd gyda'r llinell hon?

14:20 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A number of Members have already written to me, and I have hopefully provided clarification for them in terms of the Wrexham-Saltney rail project, which we see as being absolutely essential. The scheme will involve doubling the line between Wrexham and Chester, redoubling the 5.5 miles of line between Rossett and Saltney, line-speed improvements between Shrewsbury and Gobowen, line-speed improvements between Rossett and Chester, and upgrading level crossings. The result of these enhancements will be an ability to run an extra train every two hours between Holyhead and Cardiff via Wrexham in both directions, and a reduction of up to 16 minutes in the journey time between Holyhead and Cardiff. However, in view of the interest, Deputy Presiding Officer, I will issue a letter to all Members going into the detail of the scheme.

Mae nifer o Aelodau eisoes wedi ysgrifennu ataf, ac rwy'n gobeithio fy mod wedi rhoi eglurhad iddynt o brosiect rheilffordd Wrecsam-Saltney, sy'n gwbl hanfodol yn ein barn ni. Bydd y cynllun yn dyblu'r llinell rhwng Wrecsam a Chaer, yn ailddyblu'r 5.5 milltir o linell rhwng yr Orsedd a Saltney, yn gwella cyflymder y llinell rhwng Amwythig a Gobowen, yn gwella cyflymder y llinell rhwng yr Orsedd a Chaer, ac yn uwchraddio croesfannau rheilffordd. Canlyniad y gwelliannau hyn fydd y gallu i ddarparu trên ychwanegol bob dwy awr rhwng Caergybi a Chaerdydd drwy Wrecsam i'r ddau gyfeiriad, a gostyngiad o hyd at 16 munud yn yr amser teithio rhwng Caergybi a Chaerdydd. Fodd bynnag, oherwydd y diddordeb, Ddirprwy Lywydd, byddaf yn anfon llythyr at yr holl Aelodau yn manylu ar y cynllun.

14:21 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A fyddai'r Gweinidog yn barod i gyfarfod â darparwyr rheilffyrdd ysgafn, a hefyd darparwyr llinellau main—stêm—yn y gogledd, i ystyried y posibilrwydd o gael datblygiadau tebyg i'r hyn y mae hi'n ei ystyried ar hyn o bryd, ac rwy'n ei groesawu'n fawr iawn, yma yn y de-dwyrain?

Would the Minister be willing to meet with light rail providers and also narrow gauge rail providers—steam railways—in north Wales to consider the possibility of having developments similar to those she is considering at present, and which I welcome most warmly, here in the south-east?

14:21 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would be delighted to meet them, and my office will contact them to put the necessary meetings in place. I do regard rail infrastructure as particularly important for us in Wales.

Byddwn wrth fy modd yn cyfarfod â hwy, a bydd fy swyddfa yn cysylltu â hwy i drefnu'r cyfarfodydd angenrheidiol. Credaf fod seilwaith y rheilffyrdd yn arbennig o bwysig inni yng Nghymru.

14:21 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I welcome the fact that you will be writing to us, but, clearly, while the extra capacity for north-south links is maintained under the revised scheme, there was concern expressed by MPs last week regarding the impact on connectivity both with Liverpool and Manchester. The halving of capacity on the route would in effect block further enhancements. Was any assessment carried out of the impact of that decision with regard to discussions that the integrated transport group for north-east Wales is considering?

Weinidog, croesawaf y ffaith y byddwch yn ysgrifennu atom, ond, yn amlwg, tra bod y capasiti ychwanegol ar gyfer cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de yn cael ei gynnal o dan y cynllun diwygiedig, mynegodd Aelodau Seneddol bryder yr wythnos diwethaf ynghylch yr effaith ar gysylltedd â Lerpwl a Manceinion. Byddai haneru capasiti ar y llwybr yn rhwystro gwelliannau pellach i bob pwrpas. A gynhaliwyd unrhyw asesiad o effaith y penderfyniad hwnnw o ran trafodaethau y mae grŵp trafnidiaeth integredig y gogledd-ddwyrain yn eu hystyried?

14:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Bearing that in mind, I will ask my officials to look at what previous assessments have been made, and, of course, I will ask my colleague Lesley Griffiths to look at it with her working group as it continues to meet to look at the assessment of transport needs in north Wales. You can have my assurance, and I will report back.

Gan gadw hynny mewn cof, byddaf yn gofyn i'm swyddogion edrych ar ba asesiadau a gynhaliwyd yn flaenorol, ac, wrth gwrs, byddaf yn gofyn i'm cyd-Aelod Lesley Griffiths ystyried y mater gyda'i gweithgor gan ei fod yn parhau i gyfarfod er mwyn ystyried y broses o asesu anghenion trafnidiaeth yn y gogledd. Rhoddaf fy ngair ichi, a byddaf yn adrodd yn ôl.

Senedd.tv Fideo Video

### Ysgogi Twf Economaidd

### Stimulating Economic Growth

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r dulliau allweddol sydd ar gael iddi ysgogi twf economaidd yng Nghymru? OAQ(4)0334(EST)*

*3. Will the Minister outline the key levers open to her to stimulate economic growth in Wales? OAQ(4)0334(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I have a range of policy and financial levers available to stimulate jobs and growth. These aim to reduce short-term barriers as well as encouraging longer-term growth.

Mae amrywiaeth o bolisïau a dulliau ariannol ar gael imi er mwyn ysgogi swyddi a thwf. Mae'r rhain yn anelu at leihau rhwystrau byrdymor yn ogystal ag annog twf yn y tymor hwy.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I very much welcome the moves that the Minister has made to streamline the system of business support, particularly in terms of economic growth in Wales. Can she elaborate on plans she has to look at the proposals that have been made recently for a development bank in Wales?

Croesawaf yn fawr y camau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i symleiddio'r system cymorth i fusnesau, yn enwedig o ran twf economaidd yng Nghymru. A all ymhelaethu ar gynlluniau sydd ganddi i edrych ar y cynigion a wnaed yn ddiweddar ar gyfer banc datblygu yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes, Professor Dylan Jones-Evans will be taking a further strand of work forward. I have taken on board very much the comments that have been made in the Assembly Chamber by all parties about taking work forward, and that work has already started. I would be more than happy to formally update the Chamber in January.

Gallaf, bydd yr Athro Dylan Jones-Evans yn datblygu llinyn arall o waith. Rwyf wedi ystyried y sylwadau a wnaed yn Siambr y Cynulliad gan bob plaid am ddatblygu gwaith, ac mae'r gwaith hwnnw eisoes wedi dechrau. Byddwn yn fwy na pharod i roi'r newyddion diweddaraf i'r Siambr yn ffurfiol ym mis Ionawr.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Russell George** Bywgraffiad Biography

One of the levers to stimulate economic growth in the west of Montgomeryshire will be a solution to the Dyfi bridge crossing. I realise the Minister has done a lot of work and a lot of analysis over recent months around each of the four options that the Government has identified. I am currently conducting my own local survey work among local residents and businesses with regard to what they would like to see taken forward, and which of those options they would like to see taken forward. Can you tell me the timescales for making that final decision? Would you be prepared to look at the results of my survey work to help you to deliberate on those options?

Un o'r dulliau o ysgogi twf economaidd yng ngorllewin Sir Drefaldwyn fydd canfod ateb i groesfan pont Dyfi. Rwy'n sylweddoli bod y Gweinidog wedi gwneud llawer o waith a llawer o ddadansoddi dros y misoedd diwethaf ynghylch pob un o'r pedwar opsiwn a nodwyd gan y Llywodraeth. Rwyf wrthi'n cynnal fy arolwg lleol fy hun ymysg trigolion a busnesau lleol o ran beth yr hoffent ei weld yn digwydd, a pha un o'r opsiynau hynny yr hoffent ei weld yn cael ei roi ar waith. A allwch roi'r amserlenni imi ar gyfer gwneud y penderfyniad terfynol hwnnw? A fyddech yn barod i edrych ar ganlyniadau fy arolwg er mwyn eich helpu i bwyso a mesur yr opsiynau hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you for your comments. I attended a very successful meeting with William Powell and residents there to look at the issues around the bridge, of which you are aware. I have also had representations from Lord Elis-Thomas about these particular matters as well. I would be delighted, if I could have your survey results, to take them into account, because we felt there was an element of common sense in the public meeting. There were some who thought one thing, but others who really felt that they would know which two options, perhaps, I should be looking at, rather than engaging in the four. We want to solve this issue once and for all, but what I did feel quite strongly was that people made the point to me that they did not want a bypass because they felt that that would affect their businesses in the town, and they wanted to do something that was far more effective in terms of travel arrangements. So, could I have that information? I will, hopefully, be making some decisions in the spring.

Diolch am eich sylwadau. Bûm mewn cyfarfod llwyddiannus iawn gyda William Powell a thrigolion yno i ystyried y materion yn ymwneud â'r bont, yr ydych yn ymwybodol ohonynt. Rwyf hefyd wedi cael sylwadau gan yr Arglwydd Elis-Thomas am y materion arbennig hyn hefyd. Byddwn wrth fy modd pe gallwn gael canlyniadau eich arolwg i'w hystyried, gan inni deimlo bod elfen o synnwyr cyffredin yn y cyfarfod cyhoeddus. Roedd rhai yn teimlo un peth, ond roedd eraill yn teimlo'n gryf y byddent yn gwybod pa ddau opsiwn, efallai, y dylwn fod yn edrych arnynt, yn hytrach nag ystyried y pedwar. Rydym yn awyddus i ddatrys y mater hwn unwaith ac am byth, ond yr hyn a deimlais yn eithaf cryf oedd i bobl ddweud wrthyf nad oeddent am ffordd osgoi am eu bod yn teimlo y byddai hynny'n effeithio ar eu busnesau yn y dref, a'u bod am gael rhywbeth a oedd yn llawer mwy effeithiol o ran trefniadau teithio. Felly, a allaf gael y wybodaeth honno? Byddaf, gobeithio, yn gwneud rhai penderfyniadau yn y gwanwyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Mae'r diwydiannau twristiaeth yng Nghymru yn cyflogi rhwng 80,000 ac ychydig dros 100,000 o bobl, ac felly'n rhan bwysig o'n heconomi. Un elfen rwystredig iawn i lawer o bobl yn y maes yw diffyg arwyddion brown i gyfeirio ymwelwyr i'r llefydd hynny. Rydych yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd. A fyddech cystal â dweud pryd rydych yn disgwyl gwneud penderfyniad ynglŷn â hynny?

The tourism industries in Wales employ between 80,000 and a little over 100,000 people, and are therefore a very important part of our economy. One aspect that is very frustrating for people in the field is the lack of white-on-brown signs to direct visitors to their attractions. You are conducting a review at present into these. Can you tell us when you will be making a decision on them?

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We have done substantial work on the brown signs. Obviously, with regard to how we are dealing with tourism signs, I will make all that information available to Members.

Rydym wedi gwneud gwaith sylweddol ar yr arwyddion brown. Yn amlwg, o ran sut yr ydym yn delio ag arwyddion twristiaeth, byddaf yn sicrhau bod yr holl wybodaeth honno ar gael i Aelodau.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Do you not have a second question?

Onid oes gennych ail gwestiwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

No.

Nac oes.

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call Kirsty Williams.

Galwaf ar Kirsty Williams

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, given the Westminster Government's announcement on the full devolution of business rates, could you outline what plans you have to reform business rates as a lever of economic recovery? Will you consider the possibility of further devolution of an element of business rates to local authorities to incentivise them to take the regeneration of our market towns seriously?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, o gofio cyhoeddiad Llywodraeth San Steffan ar ddatganoli ardrethi busnes yn llawn, a allech amlinellu pa gynlluniau sydd gennych i ddiwygio ardrethi busnes fel ffordd o adfer yr economi? A wnewch ystyried y posibilrwydd o ddatganoli elfen o ardrethi busnes ymhellach i awdurdodau lleol er mwyn eu cymell i gymryd y mater o adfywio ein trefi marchnad o ddifrif?

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I concur about the importance of the role of local authorities in taking the regeneration of our market towns seriously, because I have concerns about the Powys local growth zone. The local authority does not seem to have dealt with some of the issues that arose from that very interesting report. On business rates, Professor Brian Morgan has taken the first stab at this. As you know, he made suggestions in his original report. He is now consulting with businesses on what they see as the key areas we need to look at. We will have to speak to local authorities if there is any move towards giving any money to local authorities. I hope to be in a position in January to give early indications of the direction of travel. I would welcome from yourself or any Members any comments you might wish to make to Professor Morgan or if you would like me to arrange for Members to meet Professor Morgan to discuss.

Cytunaf â chi ynghylch pwysigrwydd rôl awdurdodau lleol wrth gymryd y mater o adfywio ein trefi marchnad o ddifrif, oherwydd mae gennyf bryderon am ardal twf lleol Powys. Nid yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol ddelio â rhai o'r materion a gododd o'r adroddiad hynod o ddiddorol hwnnw. O ran ardrethi busnes, yr Athro Brian Morgan sydd wedi rhoi'r cynnig cyntaf ar hyn. Fel y gwyddoch, gwnaeth awgrymiadau yn ei adroddiad gwreiddiol. Mae bellach yn ymgynghori â busnesau ar y meysydd allweddol y mae angen inni eu hystyried yn eu barn hwy. Bydd yn rhaid inni siarad ag awdurdodau lleol os bydd unrhyw gynllun i roi unrhyw arian i awdurdodau lleol. Gobeithio y byddaf mewn sefyllfa ym mis Ionawr i roi syniad cynnar o'r cyfeiriad teithio. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau yr hoffech chi neu unrhyw Aelodau eu gwneud i'r Athro Morgan neu os hoffech imi drefnu bod Aelodau'n cwrdd â'r Athro Morgan i drafod y mater.

## Buddsoddi mewn Gwyddoniaeth

## Investment in Science

14:27 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0341(EST)*

*4. Will the Minister make a statement regarding investment in science in Wales? OAQ(4)0341(EST)*

14:27 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. I believe our investment in science is progressing along the principles set out in 'Science for Wales'. They aim to build a strong and dynamic science base that supports the economic development of Wales, which is very important.

Gwnaf. Credaf fod ein buddsoddiad mewn gwyddoniaeth yn datblygu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Eu nod yw adeiladu sylfaen wyddonol gref a dynamig sy'n cefnogi datblygiad economaidd Cymru, sy'n hynod o bwysig.

14:27 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for that reply. I hope that she can join me in congratulating today my constituent David Ingleston from Machynlleth who was the recipient of the STEMNET 2013 most dedicated ambassador award. She will know how important it is that we raise the level of science, technology, engineering and maths subjects within schools in Wales. What she has done, of course, is to establish Sêr Cymru as a flagship of increasing investment in science in Wales. How successful have you been in attracting high-profile researchers, which was part of the opportunity and ambition of Sêr Cymru?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Gobeithio y gall ymuno â mi heddiw i longyfarch fy etholwr David Ingleston o Fachynlleth a dderbyniodd wobr llysgennad mwyaf ymroddedig STEMNET 2013. Gŵyr pa mor bwysig yw hi inni godi lefel pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg mewn ysgolion yng Nghymru. Yr hyn y mae wedi'i wneud, wrth gwrs, yw sefydlu Sêr Cymru fel cynllun blaenllaw i gynyddu buddsoddiad mewn gwyddoniaeth yng Nghymru. Faint o lwyddiant yr ydych wedi'i gael wrth ddenu ymchwilwyr proffil uchel, a oedd yn rhan o gyfle ac uchelgais Sêr Cymru?

14:28 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would obviously like to endorse your comments regarding your constituent. We have had two appointments directly out of the Sêr Cymru scheme—in Cardiff University and Swansea University, with a joint arrangement with Imperial College London. Sometimes, these are quite slow to come to fruition, because the universities themselves make the contact and they then have the discussions. It is not just about the individuals, it is about the individuals' team, family and what collaborations they can undertake. If it would be helpful to the Members, in the new year, I could have an update on the Sêr Cymru programme, and I suggest it might be appropriate for Members to have a briefing with the chief scientific adviser to look at how we are taking matters forward.

Yn amlwg, hoffwn ategu eich sylwadau ynghylch eich etholwr. Rydym wedi cael dau benodiad yn uniongyrchol o gynllun Sêr Cymru—ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe, gyda threfniant ar y cyd â Choleg Imperial Llundain. Weithiau, maent yn cymryd peth amser i ddwyn ffrwyth, oherwydd y prifysgolion eu hunain sy'n gwneud y cyswllt ac yna maent yn cael y trafodaethau. Nid dim ond yr unigolion sy'n bwysig, mae'n ymwneud â thîm yr unigolion, y teulu a pha fentrau cydweithredol y gallant ymgymryd â hwy. Os byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau, yn y flwyddyn newydd, gallwn gael y newyddion diweddaraf am raglen Sêr Cymru, ac awgrymaf y gall fod yn briodol i Aelodau gael sesiwn briffio gyda'r prif gynghorydd gwyddonol er mwyn gweld sut yr ydym yn datblygu pethau.

14:28 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, this autumn, 27 projects have received funding through the National Science Academy grant scheme of £1.1 million, which is 0.0086% of the Welsh Government budget spent promoting science for Wales. The engineering education scheme Wales is vital to encourage the uptake and engagement of STEM subjects, but it is currently only able to reach 52% of secondary schools and 35% of sixth forms. It only received £142,000 from the National Science Academy grant. Given yesterday's PISA results, will you look at the role of engineering education Wales and see how you can support that uptake both at primary and secondary school level?

Weinidog, yr hydref hwn, mae 27 o brosiectau wedi derbyn £1.1 miliwn drwy gynllun grant yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, sy'n golygu y caiff 0.0086% o gyllideb Llywodraeth Cymru ei wario ar hyrwyddo gwyddoniaeth yng Nghymru. Mae cynllun addysg beirianneg Cymru yn hanfodol er mwyn annog cyfranogaeth a diddordeb mewn pynciau STEM, ond ar hyn o bryd mae ond yn gallu cyrraedd 52% o ysgolion uwchradd a 35% o sefydliadau chweched dosbarth. Dim ond £142,000 o grant a gafodd gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. O gofio canlyniadau PISA ddoe, a wnewch chi edrych ar rôl addysg beirianneg Cymru a gweld sut y gallwch gefnogi'r gyfranogaeth honno ar lefel ysgolion cynradd ac uwchradd?

14:29 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The underlying points in your question are very welcome. It is very important for us to understand that we require good engineers, because we need them for industry. I obviously discuss with my colleague, the Minister for education, what more we can do in that particular area, because there is a shortage of good quality engineers coming through the education system.

Mae pwyntiau sylfaenol eich cwestiwn i'w croesawu'n fawr. Mae'n bwysig iawn ein bod yn deall bod angen peirianwyr da arnom, oherwydd rydym eu hangen ar gyfer diwydiant. Rwy'n amlwg yn trafod gyda'm cyd-Aelod, y Gweinidog addysg, beth arall y gallwn ei wneud yn y maes arbennig hwnnw, oherwydd mae prinder peirianwyr o ansawdd da yn dod drwy'r system addysg.

### Technolegau Amgylcheddol

### Environmental Technologies

14:30 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Sut y mae arbenigedd mewn technolegau amgylcheddol yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo cwmnïau yng Nghymru i gystadlu yn y farchnad ar gyfer arloesi? OAQ(4)0338(EST)*

*5. How is expertise in environmental technologies being used to support companies in Wales to compete in the market for innovation? OAQ(4)0338(EST)*

14:30 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our support for business innovation embraces all forms of technology, including support for environmental technologies, which promote business growth and the economy of Wales.

Mae ein cefnogaeth i arloesedd busnes yn cwmpasu pob math o dechnoleg, gan gynnwys cefnogaeth i dechnolegau amgylcheddol, sy'n hyrwyddo twf busnesau ac economi Cymru.

14:30 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Geoenvironmental Research Centre at Cardiff University recently won the prestigious Queen's anniversary prize. How is the Seren project into ground energy research translating into Wales being at the forefront of applying these technologies here, to reduce our carbon footprint, particularly as the UK Government—the so-called 'green' Government—is constantly moving the goalposts?

Yn ddiweddar, enillodd y Ganolfan Ymchwil Geoamgylcheddol ym Mhrifysgol Caerdydd wobr pen-blwydd fawreddog y Frenhines. Sut y mae prosiect Seren ar ymchwil i ynni o'r ddaear yn helpu i sicrhau bod Cymru yn chwarae rôl arweiniol wrth gymhwyso'r technolegau hyn yma, er mwyn lleihau ein hôl troed carbon, yn enwedig o gofio bod Llywodraeth y DU—y Llywodraeth 'werdd' fel y'i gelwir—yn newid y nodau'n gyson?

14:30 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Seren project aims to increase the value of the low-carbon offerings of companies in the Welsh convergence area, helping them to move up the value chain, and to increase the value added per job. This should help directly to reduce Wales's carbon footprint, which I think will be very welcome by all of us in the Chamber.

Nod prosiect Seren yw cynyddu gwerth arlwy carbon-isel cwmnïau yn ardal gydgyfeirio Cymru, gan eu helpu i ddringo'r gadwyn gwerth, a chynyddu'r gwerth ychwanegol fesul swydd. Dylai hyn helpu'n uniongyrchol i leihau ôl troed carbon Cymru, a chredaf y bydd pob un ohonom yn y Siambr yn croesawu hynny'n fawr.

14:31 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Minister, I know that low-carbon energy and environment is a priority area in the 'Science for Wales' strategy, and that collaboration between academia and industry is vital. What is the Welsh Government doing to help industry monitor research projects from major investors that are currently being undertaken at overseas universities and areas of academic excellence?

Weinidog, gwn fod ynni carbon-isel a'r amgylchedd yn faes â blaenoriaeth yn strategaeth 'Gwyddoniaeth i Gymru', a bod cydweithredu rhwng y byd academaidd a diwydiant yn hanfodol. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud er mwyn helpu diwydiant i fonitro prosiectau ymchwil gan fuddsoddwyr mawr sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn prifysgolion tramor a meysydd o ragoriaeth academaidd?

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I would not want to give the Member an incorrect answer, so I would have to check with my officials what type of work is being done within that area. Obviously, companies do get to know about good examples overseas, but I am not sure whether we do it in an integrated way. I will therefore write to the Member, and copy others in on that matter.

Ni fyddwn am roi ateb anghywir i'r Aelod, felly byddai'n rhaid imi holi fy swyddogion pa fath o waith sy'n cael ei wneud yn y maes hwnnw. Yn amlwg, mae cwmnïau yn dod i wybod am enghreifftiau da o dramor, ond nid wyf yn siŵr a ydym yn gwneud hynny mewn ffordd integredig. Felly, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ar y mater hwnnw ac yn anfon copïau at eraill.

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Byddai rhywun yn tybio y byddai gan barc gwyddoniaeth Menai gyfraniad i'w wneud yn y maes arloesi yn y cyd-destun hwn. A gaf i ofyn i chi, felly, a fyddai modd i chi roi diweddariad i ni ar y cynnydd sydd wedi cael ei weld wrth ddatblygu'r parc hwnnw, ac efallai unrhyw ddatblygiadau o safbwynt denu 'anchor tenants'?

One would assume that the Menai science park would have a contribution to make in terms of innovation in this context. May I ask you, therefore, if you could give us an update on the progress that has been made in the development of that park, and perhaps any developments in terms of attracting anchor tenants?

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I do not have an immediate update for the Member's concern, but I would be more than delighted to given an update by writing to Members. It is a very exciting project, and I do think that it will make an enormous contribution to the development of science in Wales.

Nid yw'r wybodaeth ddiweddaraf gennyf wrth law i'r Aelod, ond byddwn yn fwy na hapus i roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau'n ysgrifenedig. Mae'n brosiect cyffrous iawn, a chredaf y bydd yn gwneud cyfraniad enfawr i ddatblygiad gwyddoniaeth yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

**Economi Cymru**

**Welsh Economy**

14:32 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd yn hanner cyntaf 2014 i helpu i hybu twf yn economi Cymru? OAQ(4)0339(EST)*

*6. What action does the Welsh Government intend to take in the first half of 2014 to help promote growth in the Welsh economy? OAQ(4)0339(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We are currently developing an economic framework for investment that will capture our current actions and signal future direction for economic policy in Wales.

Rydym wrthi'n datblygu fframwaith economaidd ar gyfer buddsoddi a fydd yn cynnwys ein camau gweithredu presennol ac yn dangos cyfeiriad polisi economaidd yng Nghymru yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Throughout the year, I have been involved with helping numerous businesses in my constituency to access Welsh Government support—both financial and advice based. I know that the support that has been forthcoming has been welcomed by those businesses. However, I am still concerned that there may be small companies out there, in the Cynon Valley, as well as across Wales, who are unaware that support is available. Minister, I think that we do need to be proactive. Therefore, what can the Welsh Government do over the coming months to encourage small businesses to come forward, so that they can find out about, and access, that support?

Drwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi helpu nifer o fusnesau yn fy etholaeth i gael cymorth gan Lywodraeth Cymru—ar ffurf arian a chyngor. Gwn fod y cymorth a roddwyd wedi cael ei groesawu gan y busnesau hynny. Fodd bynnag, rwy'n dal yn bryderus y gall fod cwmnïau bach, yng Nghwm Cynon, a ledled Cymru hefyd, nad ydynt yn ymwybodol bod cymorth ar gael. Weinidog, credaf fod angen inni fod yn rhagweithiol. Felly, beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud dros y misoedd nesaf er mwyn annog busnesau bach i ddod ymlaen, fel y gallant ddod o hyd i wybodaeth am y cymorth hwnnw a chael gafael arno?

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can understand your concerns. It is rather like any other aspects of life, for example when you talk about fuel poverty, does everyone know what schemes are available? I know that it is difficult for small businesses, because they are so busy sometimes running their business that they do not actually look out for some of the issues that they need to be aware of. The Business Wales service, which was launched in January, incorporated all our access points into one single brand, including the helpline, the website, face-to-face support, as well as 11 hubs across Wales. The key element of that is to engage with people. We had the Big Business Wales event, which took place at the Liberty stadium, and which had good publicity. In addition, we continue to develop support in other examples, with the new small and medium-sized enterprises capital fund, which will support grants of between £5,000 and £25,000. However, I will have to give further consideration to what more we can do, perhaps on a more local level, so that people know what is available out there. It is a shame that there are Government resources going, but that not everyone is aware of that.

Gallaf ddeall eich pryderon. Mae'n debyg i unrhyw agweddau eraill ar fywyd, er enghraifft, pan fyddwch yn siarad am dlodi tanwydd, a oes pawb yn gwybod pa gynlluniau sydd ar gael? Gwn ei bod yn anodd i fusnesau bach, am eu bod mor brysur weithiau yn rhedeg eu busnes nad ydynt wir yn edrych am rai o'r materion y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt. Roedd gwasanaeth Busnes Cymru, a gafodd ei lansio ym mis Ionawr, wedi dwyn ein holl bwyntiau mynediad ynghyd o dan un brand, gan gynnwys y llinell gymorth, y wefan, cymorth wyneb-yn-wyneb, yn ogystal ag 11 o ganolfannau ledled Cymru. Yr elfen allweddol yw ymgysylltu â phobl. Cynhaliwyd Digwyddiad Mawr Busnes Cymru, yn stadiwm Liberty, a gafodd gyhoeddusrwydd da. Yn ogystal, rydym yn parhau i ddatblygu cymorth mewn enghreifftiau eraill, gyda'r gronfa cyfalaf busnesau bach a chanolig newydd, a fydd yn cefnogi grantiau rhwng £5,000 a £25,000. Fodd bynnag, bydd yn rhaid imi ystyried ymhellach beth arall y gallwn ei wneud, efallai ar lefel fwy lleol, fel bod pobl yn gwybod beth sydd ar gael. Mae'n drueni bod adnoddau ar gael gan y Llywodraeth, ond nad yw pawb yn ymwybodol ohonynt.

14:34 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as well as SMEs, entrepreneurs are also a very important aspect of economic growth. I know that you will be aware of the recent Enterprise and Business Committee report into encouraging youth entrepreneurship in Wales. Wales has actually a higher total of early-stage entrepreneurial activity rate among 18 to 24-year-olds than any other of the UK nations, which is to be welcomed. It is over 10.2%, compared with a UK average of 6.2%. However, sadly, and as you will know, this entrepreneurial intent does not always progress into actual business start-ups. What are you doing to better support entrepreneurial intent, and to make sure that businesses grow from it?

Weinidog, yn ogystal â busnesau bach a chanolig, mae entrepreneuriaid hefyd yn agwedd bwysig iawn ar dwf economaidd. Gwn y byddwch yn ymwybodol o adroddiad diweddar y Pwyllgor Menter a Busnes ar annog entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Mae gan Gymru gyfanswm uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cynnar ymysg pobl ifanc 18 i 24 oed nag unrhyw un o wledydd eraill y DU, sydd i'w groesawu. Mae ganddi gyfanswm o fwy na 10.2%, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 6.2%. Fodd bynnag, yn anffodus, ac fel y gwyddoch, nid yw bwriad entrepreneuraidd bob amser yn arwain at fusnesau newydd mewn gwirionedd. Beth yr ydych yn ei wneud i gefnogi bwriad entrepreneuraidd yn well, a sicrhau bod busnesau yn tyfu ohono?

14:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I begin by thanking the Chair of the committee for the report, which I am sure will give us excellent ways of moving forward in terms of the development of the policy agenda.

A gaf ddechrau drwy ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor am yr adroddiad, yr wyf yn siŵr a fydd yn rhoi ffyrdd ardderchog inni o symud ymlaen i ddatblygu'r agenda polisi.

Like you, I am concerned about how people start off with good intentions and then do not seem to take that forward. We are focusing our drive on trying to give people confidence, putting them in touch with people who can help and assist them with their business plan and making those connections. I think that there is a lot of further work to be done in that area.

Fel chithau, rwy'n poeni am y modd y mae pobl yn dechrau gyda bwriadau da ac yna nid ydynt fel pe baent yn adeiladu ar hynny. Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar geisio rhoi hyder i bobl, eu rhoi mewn cysylltiad â phobl a all eu helpu a'u cynorthwyo gyda'u cynllun busnes a gwneud y cysylltiadau hynny. Credaf fod llawer yn rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwnnw.

14:35 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the Minister making a start in this area. I have already quoted some figures, Minister, but the figures across the board are quite stark. Figures submitted to the enterprise committee by the Federation of Small Businesses show that 42 Welsh businesses for every 10,000 were started up in 2011 compared with 64 businesses for every 10,000 in the UK. So, that is 42 in Wales, compared with 64 in the UK. In the light of recommendation 1 of the Enterprise and Business Committee's report, have you started investigating the reason for the greater disconnect between intent and entrepreneurship in Wales. What specific policies do you think that you could bring forward that would help to bridge this gap?

Croesawaf y ffaith bod y Gweinidog yn dechrau gweithredu yn y maes hwn. Rwyf eisoes wedi dyfynnu rhai ffigurau, Weinidog, ond mae'r ffigurau'n gyffredinol yn eithaf siomedig. Dengys ffigurau a gyflwynwyd i'r pwyllgor menter gan y Ffederasiwn Busnesau Bach i 42 o fusnesau gael eu sefydlu yng Nghymru am bob 10,000 yn 2011 o'i gymharu â 64 o fusnesau am bob 10,000 yn y DU. Felly, 42 yng Nghymru, o'i gymharu â 64 yn y DU. Yng ngoleuni argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes, a ydych wedi dechrau ymchwilio i'r rheswm pam bod mwy o ddatgysylltiad rhwng bwriad ac entrepreneuriaeth yng Nghymru? Pa bolisïau penodol y gallech eu cyflwyno a fyddai'n helpu i bontio'r bwlch hwn yn eich barn chi?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you are aware, I will be formally responding to the report and will be looking at all of the issues around it. I will update Members on progress appropriately

Fel y gwyddoch, byddaf yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad ac yn edrych ar yr holl faterion cysylltiedig. Byddaf yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd fel y bo'n briodol.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydym yn deall fod pobl yn dweud fod addysg yn bwysig pan fyddant yn dewis dod â busnes mewn i Gymru. A ydych chi wedi ystyried hyn o ran edrych ar sut y mae addysg yn gallu helpu gyda'r economi yng Nghymru?

Minister, we understand that people say that education is important when they choose to bring their business into Wales. Have you considered this looking at how education can assist with the economy in Wales?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, when we put the offer to companies that may be attracted to invest in Wales and to expand in Wales, they have always been extremely complimentary about the level of help and assistance that they have had from the Welsh Government and other people. There have obviously been issues when we have looked for trained personnel and required different skills, and we are trying to address that particular agenda. However, in the main, one of the key considerations for employers is the skills base.

Ydw, pan fyddwn yn cyflwyno'r cynnig i gwmnïau a all gael eu denu i fuddsoddi yng Nghymru ac ehangu yng Nghymru, maent bob amser wedi canmol yn fawr y lefel o help a chymorth y maent wedi'i chael gan Lywodraeth Cymru a phobl eraill. Yn amlwg mae problemau wedi codi pan rydym wedi chwilio am bersonél hyfforddedig ac wedi gofyn am sgiliau gwahanol, ac rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r agenda benodol honno. Fodd bynnag, ar y cyfan, un o'r ystyriaethau allweddol i gyflogwyr yw'r sylfaen sgiliau.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:37 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you are no doubt aware, the project that was chosen for the south Powys growth zone, namely the FYI Brecon and associated FYI Talgarth websites have got off to a very positive start in the work that they were set up to deliver. In fact, this week at the Royal Welsh Winter Fair I was involved in extending this to the local farming community by introducing the project leader. In the context of this success of the south Powys zone, would the Minister update the Chamber regarding progress in the mid Powys and north Powys projects?

Weinidog, fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae'r prosiect a ddewiswyd ar gyfer ardal twf de Powys, sef gwefan FYI Aberhonddu a gwefan gysylltiedig FYI Talgarth, wedi gwneud cychwyn cadarnhaol iawn i'r gwaith y cafodd ei sefydlu i'w gyflawni. Yn wir, yr wythnos hon yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru roeddwn wedi helpu i'w ymestyn i'r gymuned ffermio leol drwy gyflwyno arweinydd y prosiect. Yng nghyd-destun y llwyddiant hwn yn ardal de Powys, a fyddai'r Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ynglŷn â chynnydd y prosiectau yng nghanolbarth Powys a gogledd Powys?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be delighted to update the Chamber in due course. Like you, I am exceptionally pleased by the success of that project. I think that when you look at that project, you will see that it merits some consideration as to how it can be expanded outside of Powys as well.

Byddaf yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr maes o law. Fel chi, rwy'n fodlon iawn ar lwyddiant y prosiect hwnnw. Credaf, pan fyddwch yn edrych ar y prosiect hwnnw, y byddwch yn gweld y dylid ystyried sut y gellir ei ymestyn y tu allan i Bowys hefyd.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

**Busnesau Bach**

**Small Businesses**

14:38 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach? OAQ(4)0348(EST)*

*7. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for small businesses? OAQ(4)0348(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We provide a wide range of information, guidance and support to small businesses across Wales through the Business Wales service.

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth, arweiniad a chymorth i fusnesau bach ledled Cymru drwy wasanaeth Busnes Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Independent traders are vital to the rural economy and to the tourism sector. Small Business Saturday provides us with an opportunity to recognise their contribution and to encourage people to rediscover the fantastic businesses on their doorstep. I have been delighted to see support from the Welsh Government and from other Assembly Members for the day. The successful marketplace Wales events also showcase and celebrate our small businesses. What plans do you have for further events in my region?

Mae masnachwyr annibynnol yn hanfodol i'r economi wledig a'r sector twristiaeth. Mae Dydd Sadwrn y Busnesau Bach yn rhoi cyfle inni gydnabod eu cyfraniad ac annog pobl i ailddarganfod y busnesau gwych sydd ar garreg eu drws. Rwyf wedi bod yn falch o weld cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad eraill i'r diwrnod. Mae digwyddiadau llwyddiannus marchnad Cymru hefyd yn arddangos ac yn dathlu ein busnesau bach. Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer digwyddiadau eraill yn fy rhanbarth?

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I have to say that I agree with you that the Small Business Saturday and the social media campaign that we are running are really essential, because it is very important to raise awareness of the support available to small businesses via the Business Wales service. The marketplace Wales event is a real celebration, in my opinion, of what Welsh businesses can offer. That has received support through the Welsh Government's start-up service. If I have any specific requests to support events to showcase and celebrate small local businesses in the future, I will be delighted to consider supporting them again.

Rhaid imi ddweud fy mod yn cytuno â chi bod Dydd Sadwrn y Busnesau Bach a'r ymgyrch yr ydym yn ei chynnal yn y cyfryngau cymdeithasol yn wirioneddol hanfodol, oherwydd mae'n bwysig iawn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau bach drwy wasanaeth Busnes Cymru. Mae digwyddiad marchnad Cymru yn ddathliad go iawn, yn fy marn i, o'r hyn y gall busnesau yng Nghymru ei gynnig. Mae wedi derbyn cefnogaeth trwy wasanaeth dechrau busnes Llywodraeth Cymru. Os caf unrhyw geisiadau penodol i gefnogi digwyddiadau sy'n arddangos ac yn dathlu busnesau bach lleol yn y dyfodol, byddaf yn falch o ystyried eu cefnogi eto.

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, many of the small businesses in my constituency are located in small town centres. One of the big problems that town centres have when competing with out-of-town centres is related to access to free parking. I wonder what work you might be able to do with local authorities in Wales, where they are responsible for car parks, to see the eradication of car parking charges in our town centres.

Weinidog, mae llawer o'r busnesau bach yn fy etholaeth wedi'u lleoli yng nghanol trefi bach. Un o'r problemau mawr sy'n wynebu canol trefi wrth iddynt gystadlu â chanolfannau ar gyrion trefi yw mynediad at gyfleusterau parcio am ddim. Tybed pa waith y gallech ei wneud gydag awdurdodau lleol yng Nghymru, os ydynt yn gyfrifol am feysydd parcio, er mwyn dileu taliadau parcio ceir yng nghanol ein trefi.

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Obviously, this is a matter for local authorities to consider, but I will be meeting leaders from local authorities to discuss economic development and other related issues in January. I would be delighted to put it on the agenda.

Yn amlwg, mae hwn yn fater i awdurdodau lleol ei ystyried, ond byddaf yn cwrdd ag arweinwyr awdurdodau lleol i drafod datblygu economaidd a materion cysylltiedig eraill ym mis Ionawr. Byddwn yn falch o'i roi ar yr agenda.

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Plaid Cymru has long called for reform of the business rates system, and in particular the introduction of a two-tier multiplier system. I know that Professor Brian Morgan is currently leading an investigation on this matter, but does the Minister personally agree that this would be fairer, in that it would let us target support for the small and medium-sized businesses that are the backbone of our economy, and is she personally committed to introducing this change?

Mae Plaid Cymru wedi galw ers amser am ddiwygio'r system ardrethi busnes, ac yn benodol am gyflwyno system lluosydd dwy-haen. Gwn fod yr Athro Brian Morgan wrthi'n arwain ymchwiliad i'r mater hwn, ond a yw'r Gweinidog yn cytuno'n bersonol y byddai hyn yn decach, gan y byddai'n ein galluogi i dargedu cymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig, sef asgwrn cefn ein heconomi , ac a yw wedi ymrwymo'n bersonol i gyflwyno'r newid hwn?

14:40 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It will be a collective decision by the Government.

Bydd yn benderfyniad ar y cyd gan y Llywodraeth.

**Dyfodol Gwasanaethau Bysiau**

**The Future of Bus Services**

14:40 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau bysiau yng Nghymru? OAQ(4)0344(EST)*

*8. Will the Minister make a statement on the future of bus services in Wales? OAQ(4)0344(EST)*

14:40 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government is committed to supporting bus services now and in the future. We are actively looking at ways to maximise value for money and secure the best possible provision of services in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau bysiau yn awr ac yn y dyfodol. Rydym wrthi'n edrych ar ffyrdd o sicrhau'r gwerth gorau am arian a sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl o wasanaethau yng Nghymru.

14:40 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There is an unprecedented concern in the transport industry in relation to the concessionary fares scheme and the effect that any rejection would have on rural bus services, and, in particular, the lack of information and direction at the moment by the Government. Any further depletion of funding on top of the bus service operators grant cuts last year will see rural bus services in turmoil, with services seriously depleted. Will you give an assurance to the Chamber that there will be no slashing of funding, and, will you, therefore, provide a good-news Christmas message to cheer up the industry?

Mae pryder digynsail yn y diwydiant trafnidiaeth am y cynllun tocynnau teithio rhatach a'r effaith y byddai unrhyw wrthodiad yn ei chael ar wasanaethau bysiau gwledig, ac, yn benodol, am y diffyg gwybodaeth a chyfarwyddyd ar hyn o bryd gan y Llywodraeth. Bydd unrhyw ostyngiadau ariannol pellach ar ben y toriadau a wnaed i grantiau gweithredwyr gwasanaethau bysiau y llynedd yn peryglu gwasanaethau bysiau gwledig, gyda phrinder gwasanaethau difrifol. A wnewch chi roi sicrwydd i'r Siambr na fydd unrhyw doriadau ariannol, ac, a wnewch chi, felly, roi newyddion da i godi calon y diwydiant y Nadolig hwn?

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I make it quite clear that we have not finished discussions on these particular issues yet? I am cognisance of Members' views about the importance of bus services, and I will return to this issue, hopefully with announcements, in January.

A allaf ddatgan yn gwbl glir nad ydym wedi gorffen trafodaethau ar y materion penodol hyn eto? Rwy'n ymwybodol o farn yr Aelodau am bwysigrwydd gwasanaethau bysiau, a byddaf yn dychwelyd at y mater hwn, gobeithio gyda chyhoeddiadau, ym mis Ionawr.

14:41 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yng Ngheredigion a sir Gâr, fe fyddwch chi'n gwybod fod y tendrau bysys wedi eu gosod wythnos diwethaf i gwmnïau lleol gymryd drosodd oddi wrth Arriva ddiwedd y mis hwn, pan fydd yn tynnu mas o'r ardal honno. Mae pawb wedi cydweithio yn wych i gael datrysiad i'r argyfwng, ond fe fydd angen datrysiad tymor hir hefyd. A fedrwch chi gadarnhau yn awr y byddwch chi'n gweithio gyda'r cynghorau sir i sicrhau bod y 'routes' pwysig hyn yn cael eu gosod fel partneriaethau bysys strategol yn enw'r Llywodraeth?

In Ceredigion and Carmarthenshire, you will know that the bus tenders were let last week to local companies to take over from Arriva at the end of this month, when it withdraws from that area. Everyone has worked exceptionally well to get a solution to this crisis, but there will also be a need for a long-term solution. Can you confirm that you will now work with the county councils to ensure that these important routes are let as strategic bus partnerships in the name of the Welsh Government?

14:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, and I place on record my thanks to the local authorities that you mentioned, which have worked extremely collaboratively with us to deal with the short-term issues. However, this is a long-term problem, and I assure you that we will continue to work with them on a resolution for the benefit of the citizens of Wales in the long term.

Diolch ichi am hynny, ac rwyf am gofnodi fy niolch i'r awdurdodau lleol a grybwyllwyd gennych, sydd wedi cydweithio'n helaeth â ni i ddelio â'r materion byrdymor. Fodd bynnag, mae hon yn broblem hirdymor, ac rwy'n eich sicrhau y byddwn yn parhau i weithio gyda hwy ar ateb a fydd o fudd i ddinasyddion Cymru yn yr hirdymor.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I underline the concern among those living on marginally funded routes about the future of the subsidies from the Welsh Government for those routes. What work are you doing with local authorities to try to minimise the impact of any changes to subsidy over the next year?

Tanlinellaf bryder y rhai sy'n byw ar lwybrau sydd ond yn cael ychydig o gyllid am ddyfodol y cymorthdaliadau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y llwybrau hynny. Pa waith yr ydych yn ei wneud gydag awdurdodau lleol i geisio lleihau effaith unrhyw newidiadau i gymorthdaliadau dros y flwyddyn nesaf?

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

There is a real issue about the way that local authorities may, or may not, subsidise routes, and we have to particularly look at the ability of people to get back and forth to work, to be able to go to hospital appointments and all those issues. There is a strand of work going on in health, but we also need to be more imaginative in terms of which buses are used for what. That involves buses that are commissioned for education routes to school and buses that are used in health et cetera. I have been discussing with the Minister for Finance a piece of work that we might do to evaluate how we can have change in regime. Across the border in England, they have successfully looked at some of the issues in terms of dealing with the multi-use of buses.

Mae yna broblem wirioneddol o ran y ffordd y gall neu na all awdurdodau lleol sybsideiddio llwybrau, a rhaid inni edrych yn benodol ar allu pobl i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, mynd i apwyntiadau ysbyty a'r holl faterion hynny. Mae ffrwd waith yn mynd rhagddi ym maes iechyd, ond mae angen inni hefyd fod yn fwy creadigol o ran pa fysiau sy'n cael eu defnyddio at ba ddiben. Mae hynny'n cynnwys bysiau sy'n cael eu comisiynu ar gyfer llwybrau addysg i'r ysgol a bysiau sy'n cael eu defnyddio ym maes iechyd ac ati. Rwyf wedi bod yn trafod darn o waith gyda'r Gweinidog Cyllid y gallem ei wneud i werthuso sut y gallwn newid y drefn. Ar draws y ffin yn Lloegr, maent wedi edrych yn llwyddiannus ar rai o'r materion sy'n gysylltiedig â defnyddio bysiau at fwy nag un defnydd.

Senedd.tv Fideo Video

### Trafnidiaeth Bysiau

### Bus Transport

14:43 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth bysiau yn Ninas-ranbarth Dwyrain De Cymru? OAQ(4)0343(EST)*

*9. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for bus transport in the South Wales East City Region? OAQ(4)0343(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

The transport infrastructure for the south-east Wales city region is at an early stage of development. Buses will have an important role within this network.

Mae'r seilwaith trafnidiaeth ar gyfer dinas-ranbarth y de-ddwyrain ar gam cynnar yn ei ddatblygiad. Bydd gan fysiau rôl bwysig i'w chwarae yn y rhwydwaith hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response. I was delighted to attend Cardiff Bus's recent launch at Cardiff City Stadium of 30 new single-decker buses with new on-board CCTV, bilingual audio and visual announcements, improved disabled access, quieter engines and fewer exhaust emissions. Will the Minister join me in welcoming this major new bus investment? What plans does she have to encourage green-bus technologies in the south-east Wales city region?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Roeddwn yn falch o fynychu digwyddiad diweddar Bws Caerdydd yn Stadiwm Dinas Caerdydd i lansio 30 o fysiau unllawr newydd sy'n cynnwys teledu cylch cyfyng newydd, cyhoeddiadau clywedol a gweledol dwyieithog, gwell mynediad i bobl anabl, peiriannau tawelach a llai o allyriadau. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i groesawu'r buddsoddiad newydd mawr hwn mewn bysiau? Pa gynlluniau sydd ganddi i annog technolegau bysiau-gwyrdd yn ninas-ranbarth y de-ddwyrain?

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

All investment by bus operators is warmly welcomed. The financial circumstances are likely to be difficult for the foreseeable future, but I am keen to support investment in green public transport, should funding become available.

Croesewir pob buddsoddiad gan weithredwyr bysiau yn fawr. Mae'r amgylchiadau ariannol yn debygol o fod yn anodd yn y dyfodol agos, ond rwy'n awyddus i gefnogi buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus werdd, os daw cyllid ar gael.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

The construction of a new bus terminal in Newport Market Square is many months behind schedule. Last month it was reported that Newport City Council had to wait two more months for ministerial approval for a grant. Will the Minister advise us of the reason for this delay, which has put back the delivery of a much-needed new bus station for great Newport?

Mae'r gwaith o adeiladu terfynell bws newydd yn Sgwâr Marchnad Casnewydd sawl mis ar ei hôl hi. Fis diwethaf, dywedwyd bod yn rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd aros deufis arall am gymeradwyaeth weinidogol ar gyfer grant. A wnaiff y Gweinidog ein hysbysu o'r rheswm dros yr oedi hwn, sy'n golygu bod y gwaith o ddarparu gorsaf fysiau newydd sydd ei mawr angen ar gyfer dinas wych Casnewydd ar ei hôl hi?

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you for raising that issue with me. I will certainly check with my officials whether there are many matters outstanding with me. I would be grateful if you could send me a copy of the offending article that relates to my lack of diligence in this matter.

Diolch ichi am godi'r mater hwnnw gyda mi. Byddaf yn sicr yn holi fy swyddogion a oes llawer o faterion yn aros imi roi sylw iddynt. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi imi o'r erthygl dan sylw sy'n ymwneud â diffyg diwydrwydd ar fy rhan i yn y mater hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

There are limitations to the current bus service delivery in south-east Wales, in the city region. Cross-valley transport is still very scant and, to get to my regional office in Pontypool from Abertridwr in Caerphilly by bus can take three hours, including changes and waiting times. That is a little unacceptable, I would suggest. Cross-valley bus transport is identified as a key priority in the city region impact report that you released in October. What discussions are you planning with bus operators to start implementing this key priority as soon as possible?

Mae cyfyngiadau i'r gwasanaeth bysiau presennol a ddarperir yn y de-ddwyrain, yn y dinas-ranbarth. Mae trafnidiaeth ar draws y cwm yn dal i fod yn brin iawn a gall gymryd tair awr i gyrraedd fy swyddfa ranbarthol ym Mhont-y-pŵl o Abertridwr yng Nghaerffili ar y bws, gan gynnwys newidiadau ac amseroedd aros. Awgrymaf fod hynny'n bur annerbyniol. Nodwyd bod trafnidiaeth bysiau ar draws y cwm yn flaenoriaeth allweddol yn adroddiad effaith y dinas-ranbarth a gyhoeddwyd gennych ym mis Hydref. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cynllunio gyda gweithredwyr bysiau er mwyn dechrau gweithredu'r flaenoriaeth allweddol hon cyn gynted â phosibl?

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I am considering how we will take forward the entire strategy on this, and we will be having discussions with bus operators, because you make an exceptionally valid point. It is not just an issue with you, but across all of the Valleys of south Wales.

Rwy'n ystyried sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r strategaeth gyfan ar hyn, a byddwn yn cynnal trafodaethau gyda gweithredwyr bysiau, oherwydd rydych yn gwneud pwynt eithriadol o ddilys. Nid dim ond problem ichi yw hon, ond i holl Gymoedd y de.

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, you quite rightly stepped in and offered assistance to communities in north and west Wales when they had their bus services scrapped by Arriva, but you will be aware that bus services in the Vale of Glamorgan have also been suffering a death by a thousand cuts recently. What support will you be able to offer to residents in the Vale who are no longer able to access work or school?

Weinidog, gwnaethoch gamu i mewn yn gwbl briodol i gynnig cymorth i gymunedau yn y gogledd a'r gorllewin pan wnaeth Arriva ddiddymu eu gwasanaethau bysiau, ond byddwch yn ymwybodol bod gwasanaethau bysiau ym Mro Morgannwg hefyd wedi bod yn wynebu tranc araf a phoenus yn ddiweddar. Pa gymorth y gallwch ei gynnig i drigolion yn y Fro na allant gyrraedd y gwaith neu'r ysgol mwyach?

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I am looking at the position in the Vale currently in relation to what has happened in terms of services. I had discussions recently with the local Member and I intend to discuss it now with the local authority.

Rwy'n edrych ar y sefyllfa yn y Fro ar hyn o bryd mewn perthynas â'r hyn sydd wedi digwydd i wasanaethau. Cefais drafodaethau'n ddiweddar gyda'r Aelod lleol ac rwy'n bwriadu trafod y mater yn awr gyda'r awdurdod lleol.

Senedd.tv Fideo Video

## Bro Abertawe

## Swansea Vale

14:46

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Faint o swyddi sydd wedi'u creu ym Mro Abertawe ers 1999? OAQ(4)0347(EST)*

*10. How many jobs have been created in Swansea Vale since 1999? OAQ(4)0347(EST)*

14:46

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Unfortunately, the data relating to gross job creation are not collected by me, but by the Office for National Statistics.

Yn anffodus, nid fi ond y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n casglu'r data ar swyddi gros a grëwyd.

14:46

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am surprised by that answer, because it is a joint venture between the Welsh Government and local authorities, so I thought that the Welsh Government might have the data. However, I can inform the Minister that the number is in the thousands. I would like to ask the Minister whether this successful model—which is what I believe it has been—will be used elsewhere in Swansea or in any other areas?

Mae'r ateb hwnnw yn fy synnu, gan mai menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ydyw, felly roeddwn yn meddwl y byddai gan Lywodraeth Cymru y data o bosibl. Fodd bynnag, gallaf hysbysu'r Gweinidog fod y ffigur yn filoedd. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog a gaiff y model llwyddiannus hwn—fel y credaf iddo fod—ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn Abertawe neu mewn unrhyw ardaloedd eraill?

14:46

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, the marketing of development plots in certain areas, particularly the other sites in Swansea—Felindre in particular—will commence during 2014, with high-tech manufacturing, emerging industries, and research and development companies being targeted. We will certainly continue in a similar vein to that pursued in Swansea vale.

Caiff, bydd y gwaith o farchnata lleiniau datblygu mewn ardaloedd penodol, yn enwedig y safleoedd eraill yn Abertawe—Felindre yn benodol—yn dechrau yn ystod 2014, gan dargedu gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg, diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, a chwmnïau ymchwil a datblygu. Byddwn yn sicr yn parhau i weithredu yn yr un modd ag y gwnaethom ym mro Abertawe.

14:47

### Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, some of us are hearing complaints from businesses based in the commercial areas of this part of Swansea, demonstrating their frustration with the lack of superfast broadband roll-out despite roll-out to the residential areas. How will we retain businesses and jobs in established commercial zones of Swansea if interconnectivity is unattractive and our PISA results even more so?

Weinidog, mae rhai ohonom yn clywed cwynion gan fusnesau a leolir yn ardaloedd masnachol y rhan hon o Abertawe, sy'n dangos eu rhwystredigaeth â'r diffyg gwasanaeth band eang cyflym iawn a gyflwynwyd er bod y gwasanaeth hwnnw wedi'i gyflwyno i'r ardaloedd preswyl. Sut mae cadw busnesau a swyddi yn ardaloedd masnachol sefydledig Abertawe os yw rhyng-gysylltedd yn anneniadol a'n canlyniadau PISA yn fwy anneniadol byth?

14:47

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would be grateful if you could send me any correspondence that you have had on that particular matter in terms of superfast broadband, and I can then arrange for my officials to engage with those individuals, because we do not want any frustration on the part of business stopping employment opportunities.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw ohebiaeth yr ydych wedi'i chael ar y mater penodol hwnnw o ran band eang cyflym iawn ataf, a gallaf wedyn drefnu bod fy swyddogion yn cysylltu â'r unigolion hynny, oherwydd nid ydym am i unrhyw rwystredigaeth ymhlith busnesau rwystro cyfleoedd cyflogaeth.

14:47 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will know that there is an ongoing review of the Driver and Vehicle Licensing Agency and, obviously, there is an office in Swansea vale. The Public and Commercial Services Union is worried that this could potentially lead to job losses. I asked before whether the Government had put in a response and whether we could see it as Assembly Members, because we are worried about the way in which the public sector seemed to be targeted in Swansea. The same argument was used, for example, with the Swansea coastguard issue, when public jobs were lost: it was said that the shortfall could be made up by the private sector, but this is not true.

Weinidog, gwyddoch fod adolygiad yn mynd rhagddo o'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau ac, yn amlwg, mae swyddfa ym mro Abertawe. Mae Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol yn poeni y gallai hyn o bosibl arwain at golli swyddi. Gofynnais yn flaenorol a oedd y Llywodraeth wedi ymateb ac a allem weld yr ymateb hwnnw fel Aelodau Cynulliad, am ein bod yn poeni am y ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn ymddangos fel pe bai'n cael ei dargedu yn Abertawe. Defnyddiwyd yr un ddadl, er enghraifft, â mater gwylwyr y glannau Abertawe, pan gollwyd swyddi cyhoeddus: dywedwyd y gallai'r sector preifat wneud iawn am y diffyg, ond nid yw hynny'n wir.

14:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have had discussions with the trade unions regarding the issues within the DVLA and the future prospects in terms of jobs. There is a review being undertaken, as you are obviously aware. That is being done by an independent individual, and we have had the opportunity as a Government, at official level, to engage in discussions about the importance of those jobs in Swansea and the importance of any expansion of jobs in Swansea.

Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r undebau llafur ynghylch y materion o fewn y DVLA a'r rhagolygon o ran swyddi yn y dyfodol. Mae adolygiad yn cael ei gynnal, fel y gwyddoch yn amlwg. Caiff ei gynnal gan unigolyn annibynnol, ac rydym wedi cael cyfle fel Llywodraeth, ar lefel swyddogion, i gymryd rhan mewn trafodaethau am bwysigrwydd y swyddi hynny yn Abertawe a phwysigrwydd unrhyw gamau i ehangu swyddi yn Abertawe.

## Maes Awyr Caerdydd

## Cardiff Airport

14:48 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun datblygu ar gyfer Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)0349(EST)*

*11. Will the Minister make a statement on the development plan for Cardiff Airport? OAQ(4)0349(EST)*

14:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The business plan is a matter for the board of Cardiff Airport.

Mae'r cynllun busnes yn fater i fwrdd Maes Awyr Caerdydd.

14:49 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I am sure that you will have heard my question to the First Minister on this subject last week. The First Minister said, as you have, that the master plan was not a Welsh Government document. However, constituents of mine were told by Vale of Glamorgan planning officers at an engagement event about the local development plan that they would be meeting Welsh Government officials to discuss the master plan on Friday 15 November. Did that meeting take place and, if so, why, if this is not a Welsh Government plan?

Diolch ichi, Weinidog. Rwy'n siŵr y byddwch wedi clywed fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog ar y pwnc hwn yr wythnos diwethaf. Dywedodd y Prif Weinidog, fel y gwnaethoch chi, nad oedd yr uwchgynllun yn ddogfen Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cafodd rhai o'm hetholwyr eu hysbysu gan swyddogion cynllunio Bro Morgannwg mewn digwyddiad ymgysylltu ar y cynllun datblygu lleol y byddent yn cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod yr uwchgynllun ddydd Gwener 15 Tachwedd. A gynhaliwyd y cyfarfod hwnnw ac, os felly, pam, os nad yw hwn yn un o gynlluniau Llywodraeth Cymru?

14:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The plan for the airport is a matter for the board and I have not been party to any discussions about that particular matter.

Mae cynllun y maes awyr yn fater i'r bwrdd ac nid wyf wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau ynghylch y mater penodol hwnnw.

14:49 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I would urge whoever is responsible to publish the plan as a matter of urgency so that we can scrutinise the assumptions on which it is based. However, you will be aware, Minister, that it has been announced in the last hour that Flybe will be withdrawing its routes from Cardiff to both Glasgow and Paris in the new year. What impact do you think this announcement will have on the future development of Cardiff Airport?

Diolch ichi, Weinidog. Byddwn yn annog pwy bynnag sy'n gyfrifol i gyhoeddi'r cynllun fel mater o frys fel y gallwn graffu ar y tybiaethau sy'n sail iddo. Fodd bynnag, gwyddoch, Weinidog, fod cyhoeddiad wedi'i wneud yn ystod yr awr ddiwethaf y bydd Flybe yn terfynu ei lwybrau o Gaerdydd i Glasgow a Pharis yn y flwyddyn newydd. Pa effaith y bydd y cyhoeddiad hwn yn ei chael ar ddatblygiad Maes Awyr Caerdydd yn y dyfodol yn eich barn chi?

14:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those will be issues that the board of the airport will take into account.

Mae'r rhain yn faterion y bydd yn rhaid i fwrdd y maes awyr eu hystyried.

14:50 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we are informed that there has been a recent increase in passenger numbers at the airport of 8%, as the First Minister told us yesterday, which is good news. However, this must be sustained if the airport is to be successful, and this is achieved by long-term strategic planning. You and the First Minister have alluded to what the First Minister described as 'exciting plans' to develop the airport's fabric. Will you provide more details on these exciting plans, particularly when so much public money has been invested in the airport?

Weinidog, cawsom wybod y gwelwyd cynnydd diweddar o 8% yn nifer y teithwyr yn y maes awyr, fel y dywedodd y Prif Weinidog wrthym ddoe, sy'n newyddion da. Fodd bynnag, rhaid cynnal hyn er mwyn sicrhau llwyddiant y maes awyr, a chaiff hyn ei gyflawni drwy gynllunio strategol hirdymor. Rydych chi a'r Prif Weinidog wedi cyfeirio at yr hyn a ddisgrifiodd y Prif Weinidog fel 'cynlluniau cyffrous' i ddatblygu'r maes awyr. A wnewch chi ddarparu mwy o fanylion am y cynlluniau cyffrous hyn, yn enwedig pan fo cymaint o arian cyhoeddus wedi'i fuddsoddi yn y maes awyr?

14:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that the board will be making its plans available as soon as possible when these are fully developed.

Rwy'n siŵr y bydd y bwrdd yn trefnu bod ei gynlluniau ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu datblygu'n llawn.

**Dinas-ranbarthau Cymru**

**Welsh City Regions**

14:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynlluniau ar gyfer dwy ddinas-ranbarth Cymru? OAQ(4)0335(EST)*

*12. Will the Minister provide an update on her plans for the two Welsh City Regions? OAQ(4)0335(EST)*

14:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I provided a statement on 19 November.

Rhoddais ddatganiad ar 19 Tachwedd.

14:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You did indeed, Minister, and thank you for that statement. Unusually, I think that there is universal support for the city region concept, if not entirely universal understanding among some about what the concept actually means. Minister, in the statement that you have just mentioned, you said that city regions were 'a long journey', yet Elizabeth Haywood, the chair of the group that authored the original report into the policy, recently commented that we need to build on the strengths that we have and do it quickly. Additionally, the south Wales economic forum also expressed concern about progress. What are you doing to make sure that city region development is taking place at the pace that it needs to?

Gwnaethoch yn wir, Weinidog, a diolch ichi am y datganiad hwnnw. Yn anarferol, credaf fod cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o ddinas-ranbarthau, hyd yn oed os nad oes pawb yn llwyr ddeall beth yn union y mae'r cysyniad yn ei olygu. Weinidog, yn y datganiad yr ydych newydd ei grybwyll, dywedasoch fod dinas-ranbarthau yn 'daith hir', ond dywedodd Elizabeth Haywood, cadeirydd y grŵp a luniodd yr adroddiad gwreiddiol ar y polisi, yn ddiweddar bod angen inni adeiladu ar y cryfderau sydd gennym a hynny'n gyflym. Yn ogystal, mynegodd fforwm economaidd de Cymru bryder am gynnydd hefyd. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod dinas-ranbarthau yn cael eu datblygu ar y cyflymdra sydd ei angen?

14:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Individuals and organisations are entitled to their opinion. As far as I am concerned, I have made the announcement on city regions, I have capable chairs and boards, and matters will move now swiftly forward.

Rhydd i bob unigolyn a sefydliad ei farn. O'm safbwynt i, rwyf wedi gwneud y cyhoeddiad ar ddinas-ranbarthau, mae gennyf gadeiryddion a byrddau galluog, a bydd materion yn symud ymlaen yn gyflym yn awr.

14:51 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roeddwn yn croesawu eich datganiad diwethaf a'r pwyslais ar agwedd hollranbarthol y polisi. Mae gan Lanelli gymaint i'w gynnig; er enghraifft, amgylchedd naturiol a diwydiannau creadigol, ac mae potensial i fanteisio, er enghraifft, ar swyddi drwy unrhyw 'tidal lagoon' a fydd yn cael ei dderbyn. Weinidog, rydych wedi amlinellu lefelau cydweithio da rhwng y pedwar awdurdod lleol yn y gorllewin. Beth yw'r disgwyliadau o ran sicrhau bod gweithlu Llanelli yn chwarae rhan lawn, ac y bydd manteision yn dod i ardaloedd allanol y rhanbarth yn ogystal â'r canol?

I welcome the previous statement and the emphasis on the whole-region aspect of the policy. Llanelli has so much to offer, such as its natural environment and creative industries, and the potential is there to take advantage of jobs through any tidal lagoon that may be approved. Minister, you have outlined good levels of collaboration between the four local authorities in west Wales. What are the expectations in terms of ensuring that the Llanelli workforce can play its full part in this and for benefits to come from outlying areas of the region as well as from the middle?

14:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The important thing to recognise is that the role of the city regions is about jobs, the economy and the creation of wealth and opportunities, so everyone in the area should benefit from any developments through the city region.

Y peth pwysig i'w gydnabod yw bod rôl y dinas-ranbarthau yn ymwneud â swyddi, yr economi a chreu cyfoeth a chyfleoedd, felly dylai pawb yn yr ardal gael budd o unrhyw ddatblygiadau a grëir trwy'r dinas-ranbarth.

**Rhwydwaith Cefnffyrdd**

**Trunk Road Network**

14:52 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhwydwaith cefnffyrdd yng Ngorllewin Clwyd? OAQ(4)0333(EST)*

*13. Will the Minister make a statement on the trunk road network in Clwyd West? OAQ(4)0333(EST)*

14:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I set out my priorities for transport in my written statement on 10 July.

Gosodais fy mlaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yn fy natganiad ysgrifenedig ar 10 Gorffennaf.

14:52 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that response, Minister. You will be aware that roads in Clwyd West are particularly dangerous in parts on the trunk road network, particularly around the Tan yr Unto bends on the trunk road in Llanbedr Dyffryn Clwyd. Will you ask your officials to look at the speed limits around these bends? There have been a number of accidents in recent weeks, and I am very concerned that one of them might lead to a fatality in the future.

Diolch yn fawr iawn ichi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod ffyrdd yng Ngorllewin Clwyd yn arbennig o beryglus mewn rhannau o'r rhwydwaith cefnffyrdd, yn enwedig o gwmpas troeon Tan yr Unto ar y gefnffordd yn Llanbedr Dyffryn Clwyd. A wnewch chi ofyn i'ch swyddogion edrych ar y terfynau cyflymder o gwmpas y troeon hyn? Mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac rwy'n bryderus iawn y gallai un ohonynt achosi marwolaeth yn y dyfodol.

14:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have done a speed limit review on this stretch of road, and confirmed that the existing speed limit is appropriate. However, we will be introducing traffic calming measures to encourage drivers to keep to this limit, and that work is expected to be completed early next year.

Rydym wedi cynnal adolygiad o'r terfyn cyflymder ar y darn hwn o ffordd, a chadarnhawyd bod y terfyn cyflymder presennol yn briodol. Fodd bynnag, byddwn yn cyflwyno mesurau gostegu traffig er mwyn annog gyrwyr i gadw at y terfyn hwn, a disgwylir i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**Economi Werdd**

**Green Economy**

14:53 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i hybu'r economi werdd? OAQ(4)0336(EST)*

*14. Will the Minister make a statement on efforts to promote the green economy? OAQ(4)0336(EST)*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:53 **Edwina Hart** [Bywgraffiad] [Biography]

Through the council for economic renewal, we have been considering green growth and its potential for beneficial economic development. A steering group has been set up and a baseline study has been commissioned.

Trwy gyngor adnewyddu'r economi, rydym wedi bod yn ystyried twf gwyrdd a'i botensial o ran datblygu economaidd buddiol. Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu ac mae astudiaeth sylfaenol wedi'i chomisiynu.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:53 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Thank you, Minister. The community energy sector is an area earmarked for growth by your Government. I would be interested to hear how many community-owned energy schemes have been established, and what work is being done to create more. Can we expect a statement soon on what impact is envisaged following the UK Government policy change in now favouring offshore renewable projects?

Diolch ichi, Weinidog. Mae'r sector ynni cymunedol yn faes a glustnodwyd ar gyfer twf gan eich Llywodraeth. Hoffwn glywed faint o gynlluniau ynni sy'n eiddo i'r gymuned sydd wedi cael eu sefydlu, a pha waith sy'n cael ei wneud i greu mwy. A allwn ddisgwyl datganiad yn fuan am ba effaith a ragwelir yn dilyn y newid i bolisi Llywodraeth y DU sydd bellach yn ffafrio prosiectau adnewyddadwy ar y môr?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad] [Biography]

I do not take the lead on all these matters. I work on green growth in collaboration with Alun Davies, the Minister for Natural Resources and Food, and on energy issues with the First Minister. We will give consideration to your request.

Nid fi sy'n arwain yr holl faterion hyn. Rwy'n gweithio ar dwf gwyrdd mewn cydweithrediad ag Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ac ar faterion ynni gyda'r Prif Weinidog. Byddwn yn ystyried eich cais.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:54 **Russell George** [Bywgraffiad] [Biography]

One of the key recommendations proposed by the UK Committee on Climate Change was that the Welsh Government should do more to increase community energy generation. In incentivising that generation locally, what considerations have you made to allow communities and local authorities that host renewable technologies to keep the business rates generated by those energy developers and operators?

Un o'r prif argymhellion a gynigiwyd gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd oedd y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gynhyrchu mwy o ynni cymunedol. Wrth gymell cynhyrchiant o'r fath yn lleol, pa ystyriaethau yr ydych wedi'u gwneud er mwyn galluogi cymunedau ac awdurdodau lleol lle lleolir technolegau adnewyddadwy i gadw'r ardrethi busnes a gynhyrchir gan y datblygwyr a'r gweithredwyr ynni hynny?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad] [Biography]

This is one of the issues that we can look at when we look at business rates issues.

Mae hwn yn un o'r materion y gallwn ei ystyried pan fyddwn yn edrych ar faterion ardrethi busnes.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

### Ardaloedd Menter

### Enterprise Zones

14:55 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno adrodd ar berfformiad Ardaloedd Menter yng Nghymru? OAQ(4)0350(EST)*

*15. Will the Minister make a statement on the introduction of reporting on Enterprise Zone performance in Wales? OAQ(4)0350(EST)*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:55 **Edwina Hart** [Bywgraffiad] [Biography]

As I have previously indicated, we will be publishing key performance indicators at the end of this year, which will set out how we will measure progress on jobs and other key areas in each of the enterprise zones.

Fel y dywedais o'r blaen, byddwn yn cyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol ar ddiwedd y flwyddyn hon, a fydd yn nodi sut y byddwn yn mesur cynnydd o ran swyddi a meysydd allweddol eraill ym mhob un o'r ardaloedd menter.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:55 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for that. Could I have clarification on that? Will the data that you say will be published at the end of this year also capture the business start-ups that have occurred over the last two years, since the enterprise zones have been established in Wales? More importantly, will they also capture the number of jobs created by those businesses that have started during the introduction period of enterprise zones here in Wales?

Diolch ichi, Weinidog, am hynny. A allaf gael eglurhad o hynny? A fydd y data yr ydych yn dweud a gaiff eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn hon hefyd yn cynnwys y busnesau newydd a sefydlwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ers i'r ardaloedd menter gael eu sefydlu yng Nghymru? Yn bwysicach, a fyddant hefyd yn cynnwys nifer y swyddi a grëwyd gan y busnesau hynny sydd wedi dechrau yn ystod cyfnod cyflwyno ardaloedd menter yma yng Nghymru?

14:55 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will certainly give further consideration to the data that we will publish in light of your comments.

Byddaf yn sicr yn rhoi ystyriaeth bellach i'r data y byddwn yn eu cyhoeddi yng ngoleuni eich sylwadau.

14:55

## Datganiad: Ymgyrch Jasmine

## Statement: Operation Jasmine

Senedd.tv
Fideo Video

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Members of this Assembly will be familiar with the historical events and alleged abuse that occurred in care homes in Gwent in the early years of this century. These events resulted in a major police investigation called Operation Jasmine, which led to a number of cases in the criminal courts. In March this year, the cases against the owners and manager of these care homes were placed on file due to the condition of one of the defendants following an unrelated assault. This means that, potentially, these cases could be revived should the condition of the defendant improve.

Bydd Aelodau'r Cynulliad hwn yn gyfarwydd â'r digwyddiadau hanesyddol a'r achosion honedig o gam-drin a ddigwyddodd mewn cartrefi gofal yng Ngwent yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif hon. Cynhaliodd yr heddlu ymchwiliad mawr o'r enw Ymgyrch Jasmine yn sgil y digwyddiadau hyn, a arweiniodd at nifer o achosion yn y llysoedd troseddol. Ym mis Mawrth eleni, gosodwyd yr achosion yn erbyn perchenogion a rheolwr y cartrefi gofal hyn ar ffeil oherwydd cyflwr un o'r diffynyddion yn dilyn ymosodiad nad oedd yn ymwneud â'r achos dan sylw. Mae hyn yn golygu, o bosibl, y gellid ailystyried yr achosion hyn pe gwellai cyflwr y diffynnydd.

Today, I want to inform Members of the Assembly of my decision to establish an important review of this case in order that we may learn from it for the future. It had always been our intention to review the lessons of this serious and tragic case following the conclusion of the criminal proceedings. However, the unusual circumstances we find ourselves in have warranted further consideration of options. I have, therefore, sought advice and guidance from a number of quarters, including legal officials. I have corresponded with and met the group that represents the families of the victims. I have also met the Commissioner for Older People in Wales, who has taken a special interest in these events.

Heddiw, hoffwn hysbysu Aelodau'r Cynulliad am fy mhenderfyniad i sefydlu adolygiad pwysig o'r achos hwn er mwyn inni ddysgu ohono ar gyfer y dyfodol. Bu'n fwriad erioed gennym adolygu gwersi'r achos difrifol a thrasig hwn ar ôl i'r achos troseddol ddod i ben. Fodd bynnag, yn sgil yr amgylchiadau anarferol a gododd, bu'n rhaid ystyried opsiynau pellach. Felly, gofynnais am gyngor ac arweiniad o sawl tu, gan gynnwys swyddogion cyfreithiol. Rwyf wedi gohebu â'r grŵp sy'n cynrychioli teuluoedd y dioddefwyr ac wedi cwrdd â hwy. Rwyf hefyd wedi cwrdd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sydd wedi cymryd diddordeb arbennig yn y digwyddiadau hyn.

I recognise that much has been done by the sector already to learn lessons from what happened. We have introduced new procedures for the inspectorate on managing escalating concerns with care homes, we have funded a dignity in care programme to improve practice and, in the new Social Services and Well-being (Wales) Bill, there are provisions to significantly strengthen the law around adult protection in Wales. We are also currently consulting on a major White Paper on regulation and inspection of social care. The Care and Social Services Inspectorate for Wales has also modernised its approach to inspection and regulation to give a stronger voice to care home residents and their families.

Rwy'n cydnabod bod y sector eisoes wedi bwrw ati i ddysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd. Rydym wedi cyflwyno gweithdrefnau newydd i'r arolygiaeth mewn perthynas â rheoli pryderon cynyddol ynghylch cartrefi gofal, rydym wedi ariannu rhaglen urddas mewn gofal er mwyn gwella arfer ac mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd yn cynnwys darpariaethau i atgyfnerthu'n sylweddol y gyfraith ynghylch amddiffyn oedolion yng Nghymru. Rydym hefyd wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar Bapur Gwyn pwysig ar reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru hefyd wedi moderneiddio ei hymagwedd tuag at arolygu a rheoleiddio er mwyn rhoi llais cryfach i breswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd.

However, I believe that we need a full and independent review of these events, to understand whether there is anything else the social care sector and policy makers need to learn, and whether there is anything else we need to put in place. I have, therefore, decided to establish an independent review to quickly and effectively look at the major issues raised by the events surrounding Operation Jasmine. I expect the review to speak with the families of those involved, as well as the local authorities involved, the police, the professionals and the regulators. I am sure that these groups will be keen to be involved in this review and will want to share their experiences so that we may continue to learn lessons.

Fodd bynnag, credaf fod angen cynnal adolygiad llawn ac annibynnol o'r digwyddiadau hyn, er mwyn deall a oes unrhyw beth arall y mae angen i'r sector gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n llunio polisi ei ddysgu, ac a oes unrhyw beth arall y mae angen inni ei roi ar waith. Felly, rwyf wedi penderfynu sefydlu adolygiad annibynnol er mwyn edrych yn gyflym ac yn effeithiol ar y prif faterion a godwyd gan y digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig ag Ymgyrch Jasmine. Disgwyliaf i'r adolygiad siarad â theuluoedd y bobl berthnasol, yn ogystal â'r awdurdodau lleol dan sylw, yr heddlu, y gweithwyr proffesiynol a'r rheoleiddwyr. Rwy'n siŵr y bydd y grwpiau hyn yn awyddus i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn ac y byddant am rannu eu profiadau fel y gallwn barhau i ddysgu gwersi.

I am pleased to say that Dr Margaret Flynn has agreed to lead this review. Dr Flynn is a much-admired figure within the social care sector. She is currently the independent chair of Lancashire's safeguarding adults board and has been the chair and author of high-profile serious case reviews concerning older people. Members may be most familiar with her role as author of the important review into care at Winterbourne View hospital published last year. Her appointment is a reflection of the importance that we place on this review and what it can achieve. I have talked with Dr Flynn. We are both committed to a review that must be serious and comprehensive. She has agreed to ensure that a full report is available by the end of 2014 and, where appropriate, to provide any interim findings to Welsh Ministers in the summer so that these might inform changes to our policy or future legislation in this area.

Mae'n dda gennyf ddatgan bod Dr Margaret Flynn wedi cytuno i arwain yr adolygiad hwn. Mae Dr Flynn yn unigolyn uchel ei pharch yn y sector gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd, hi yw cadeirydd annibynnol bwrdd diogelu oedolion Swydd Gaerhirfryn a bu'n gadeirydd ac yn awdur adolygiadau proffil uchel o achosion difrifol yn ymwneud â phobl hŷn. Efallai y bydd yr aelodau yn fwyaf cyfarwydd â'i rôl fel awdur yr adolygiad pwysig o ofal yn ysbyty Winterbourne View a gyhoeddwyd y llynedd. Mae ei phenodiad yn adlewyrchu pwysigrwydd yr adolygiad hwn inni a'r hyn y gall ei gyflawni. Rwyf wedi siarad â Dr Flynn. Rydym ill dau o'r farn bod yn rhaid i'r adolygiad fod yn ddifrifol ac yn gynhwysfawr. Mae wedi cytuno i sicrhau bod adroddiad llawn ar gael erbyn diwedd 2014, a, lle y bo'n briodol, i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau interim i Weinidogion Cymru yn ystod yr haf fel y gallant lywio newidiadau i'n polisi neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn y maes hwn.

Finally, I will say a few words on the record to the victims and their families. I received a letter from the chairperson of the families group Justice for Jasmine in October, which contained the personal stories of many of those involved in this case. Those stories were moving and powerful. They captured, better than any speech that I could make, the importance of protecting our older people in care, and of putting their wellbeing at the heart of our public services. The victims and their families have acted throughout with great dignity and fortitude, and are an example to us all.

Yn olaf, hoffwn ddweud ychydig eiriau ar goedd i'r dioddefwyr a'u teuluoedd. Cefais lythyr oddi wrth gadeirydd grŵp y teuluoedd, Justice for Jasmine, ym mis Hydref, a oedd yn cynnwys straeon personol llawer o'r rhai y mae'r achos yn ymwneud â hwy. Roedd y straeon hynny yn ingol. Roeddent yn cyfleu pwysigrwydd diogelu ein pobl hŷn mewn gofal, a sicrhau bod eu lles wrth wraidd ein gwasanaethau cyhoeddus, yn well nag unrhyw araith y gallwn i ei gwneud. Mae'r dioddefwyr a'u teuluoedd wedi ymddwyn ag urddas a dewrder rhyfeddol drwy gydol yr achos hwn, ac maent yn esiampl i bob un ohonom.

I do not want the events that happened in Gwent a decade ago to ever be repeated. This review will be an important part of ensuring that that is the case. I ask this Assembly and its Members to support the proposed way forward.

Nid wyf am i'r digwyddiadau yng Ngwent ddegawd yn ôl gael eu hailadrodd fyth. Bydd yr adolygiad hwn yn bwysig o ran sicrhau hynny. Gofynnaf i'r Cynulliad hwn a'i Aelodau gefnogi'r ffordd ymlaen a gynigir.

15:00

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

On behalf of the Welsh Conservatives, First Minister, may I offer an unqualified welcome to your decision in this case? It is clearly important that we learn the lessons of this tragic case. There is a real necessity to establish an independent review. You will recall our request for such a statement in June this year, but we fully appreciate that there were, shall we say, operational difficulties that prevented a statement coming forward until this time.

Ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, Brif Weinidog, a gaf groesawu eich penderfyniad yn yr achos hwn yn llwyr? Mae'n amlwg yn bwysig ein bod yn dysgu'r gwersi o'r achos trasig hwn. Mae gwir angen sefydlu adolygiad annibynnol. Fe gofiwch ein cais am ddatganiad o'r fath ym mis Mehefin eleni, ond rydym yn llwyr werthfawrogi bod anawsterau gweithredol, fel petai, ac na ellid bod wedi cyflwyno datganiad tan heddiw o ganlyniad i hynny.

Many will view the outcome of this investigation as unsatisfactory. It is widely acknowledged that Gwent Police worked effectively on this case and that significant recommendations will arise out of their reports. I note that the First Minister also referred to the Dignity in Care programme, and the Deputy Minister will know that I am very keen, and others are very keen, that we should have a definition of 'dignity' on the face of the Bill that is presently going through the Assembly.

Bydd llawer o'r farn bod canlyniad yr ymchwiliad hwn yn anfoddhaol. Cydnabyddir yn gyffredinol bod Heddlu Gwent wedi gweithio'n effeithiol ar yr achos hwn ac y bydd argymhellion arwyddocaol yn deillio o'i adroddiadau. Nodaf i'r Prif Weinidog gyfeirio hefyd at y rhaglen Urddas mewn Gofal, a bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol fy mod yn awyddus iawn, a bod eraill yn awyddus iawn, inni gael diffiniad o 'urddas' ar wyneb y Bil sydd ar ei hynt drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd.

Today's announcement of a review is welcome. It is important that we ensure that the recommendations that arise are fully considered and acted upon. We need to establish why it took seven years to complete this investigation and how to avoid any future incidents that might have slowed down the progressing of this case.

Croesewir cyhoeddiad heddiw am adolygiad. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau y caiff yr argymhellion sy'n codi eu hystyried yn llawn a'u rhoi ar waith. Mae angen inni ganfod pam y cymerodd saith mlynedd i gwblhau'r ymchwiliad hwn a sut y gellid osgoi yn y dyfodol unrhyw ddigwyddiadau a allai fod wedi arafu hynt yr achos hwn.

We welcome the appointment of Dr Flynn. Her report on the Steven Hoskin case is acknowledged by commentators to be a remarkable document in itself. I concur also, with the last remarks that the First Minister made about the families group. May I ask two questions? The first is on how the interim reports from Dr Flynn will be circulated among Members—I hope that that will be done by oral statement. The second is whether the letter from the chairperson could, perhaps, be placed in the Library of the Assembly, so that Members who wish to do so, may read that letter and fully understand the circumstances in which the families were placed, and their great dignity in achieving what has happened today.

Croesawn benodiad Dr Flynn. Cydnabuwyd gan sylwebyddion bod ei hadroddiad ar achos Steven Hoskin yn ddogfen hynod ynddi'i hun. Cytunaf hefyd â'r sylwadau olaf a wnaeth y Prif Weinidog am grŵp y teuluoedd. A gaf ofyn dau gwestiwn? Mae'r cyntaf yn ymwneud â sut y caiff yr adroddiadau interim gan Dr Flynn eu dosbarthu ymhlith Aelodau—gobeithio mai drwy ddatganiad llafar y gwneir hynny. Mae'r ail yn ymwneud â pha un a ellid, efallai, osod y llythyr gan y cadeirydd yn Llyfrgell y Cynulliad, er mwyn i'r Aelodau sy'n dymuno gwneud hynny allu darllen y llythyr hwnnw a deall yn llawn yr amgylchiadau roedd y teuluoedd yn eu hwynebu, a'u hurddas eithriadol wrth gyflawni'r hyn sydd wedi digwydd heddiw.

15:02

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for his comments. In relation to the second question, I would, of course, need to secure permission from the chairperson for putting the letter in the Library, but I will seek to do so. On the interim reports, there is no reason why progress regarding those reports cannot be made public where that is possible. It is, of course, my intention that the full report at the end of 2014 will be a public document.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. O ran yr ail gwestiwn, byddai angen, wrth gwrs, imi gael caniatâd y cadeirydd i roi'r llythyr yn y Llyfrgell, ond ceisiaf wneud hynny. O ran yr adroddiadau interim, nid oes unrhyw reswm pam na ellir cyhoeddi cynnydd mewn perthynas â'r adroddiadau hynny lle bo hynny'n bosibl. Fy mwriad, wrth gwrs, yw y bydd yr adroddiad llawn ar ddiwedd 2014 yn ddogfen gyhoeddus.

15:03

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, my connection with this is that the matter was raised by constituents of mine, who had connections with those events. I am sure that there are many others who have family connections further afield. The first thing to do is place on record the acknowledgement of this important announcement. The one weapon that members of the public and families have is the transparency of information, to know that events are being fully explored and to know about everything that happened. It is also about people feeling confident that everything that could possibly be done, has been done. I also want to acknowledge on the record the work of Nick Smith, MP for Blaenau Gwent, who raised this matter very significantly in a debate in the House of Commons.

Brif Weinidog, mae gennyf gysylltiad â'r achos hwn gan fod rhai o'm hetholwyr, a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiadau hynny, wedi codi'r mater gyda mi. Rwy'n siŵr bod gan lawer o bobl eraill gysylltiadau teuluol pellach. Yn gyntaf, hoffwn gofnodi fy mod yn cydnabod y cyhoeddiad pwysig hwn. Un arf sydd gan aelodau o'r cyhoedd a'r teuluoedd, sef tryloywder gwybodaeth, gwybod bod ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal i'r digwyddiadau a gwybod am bopeth a ddigwyddodd. Mae'n ymwneud hefyd â rhoi hyder i bobl bod popeth y gellid bod wedi'i wneud wedi'i wneud. Hoffwn gydnabod hefyd ar goedd waith Nick Smith, AS Blaenau Gwent, a gododd y mater hwn yn amlwg iawn mewn dadl yn Nhŷ'r Cyffredin.

15:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, indeed; I acknowledge that. It is important that families feel that everything has been investigated and that they can gain satisfaction. It is also important for Government at all levels, not just Welsh Government, but also local government, to understand that what has been put in place is sufficient. We believe that it is. It is important that there is an independent review in order to ensure that that is, in reality, the case, which is why this review will be exceptionally important in ensuring that we understand how this occurred. Much of that has been explored already, particularly in terms of criminal prosecutions, but that factor is relevant. We must also be assured that what is already in place is sufficient, and about whether there is anything else that can be done in order to avoid this situation being repeated in the future.

Ie'n wir; rwy'n cydnabod hynny. Mae'n bwysig bod teuluoedd yn teimlo bod popeth wedi cael ei ystyried ac y gallant gael boddhad. Mae hefyd yn bwysig i'r Llywodraeth ar bob lefel, nid dim ond Llywodraeth Cymru, ond llywodraeth leol hefyd, ddeall bod yr hyn sydd wedi cael ei roi ar waith yn ddigonol. Dyna yw ein barn ni. Mae'n bwysig cynnal adolygiad annibynnol er mwyn sicrhau mai felly y mae, mewn gwirionedd, a dyna pam y bydd yr adolygiad hwn yn bwysig iawn o ran sicrhau ein bod yn deall sut y digwyddodd hyn. Ymchwiliwyd i hynny eisoes i raddau helaeth, yn enwedig o ran erlyniadau troseddol, ond mae'r ffactor hwnnw yn berthnasol. Rhaid inni hefyd fod yn dawel ein meddwl bod yr hyn sydd eisoes ar waith yn ddigonol, ac o ran pa un a oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath eto yn y dyfodol.

15:04 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I will not 'welcome' this statement; that is not a word that I would want to use, I am afraid, but I think that saying that I appreciate the statement is more appropriate. I am sure that the families appreciate your statement greatly, and I thank you for it. There have been concerns about this company, going back for many years now, and it is clear that families and residents have been failed by the system—an over-complex system that really should have been simple.

Brif Weinidog, ni 'chroesawaf' y datganiad hwn; nid yw hynny'n air y byddwn am ei ddefnyddio, yn anffodus, ond credaf ei bod yn fwy priodol dweud fy mod yn gwerthfawrogi'r datganiad. Rwy'n siŵr bod y teuluoedd yn gwerthfawrogi eich datganiad yn fawr, a diolch ichi amdano. Bu pryderon am y cwmni hwn ers sawl blwyddyn bellach, ac mae'n amlwg bod y system wedi gwneud tro sâl â theuluoedd a phreswylwyr—system orgymhleth a ddylai, a dweud y gwir, fod wedi bod yn syml.

I am very sorry that £11 million in police and social services investigations have been, seemingly, wasted if the responsible individuals are not brought to justice, but there may be time for that. I understand, and I am sorry, that one individual is very ill and they cannot proceed, but I cannot, I am afraid, accept that Puretruce was a one-man band, and I wonder whether your review will look at that aspect of the investigation, First Minister. How satisfied are you that the review will look at the fact that all directors and managers involved are held to account? Will the review thoroughly examine that, please? Can you please answer whether you will ensure that the new White Paper on regulation and inspection of social care concentrates on vital issues such as training and whistleblowing, so that we are never in this rather sad position again?

Mae'n ddrwg iawn gennyf fod ymchwiliadau'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol gwerth £11 miliwn wedi cael ei wastraffu yn ôl pob tebyg oni chaiff yr unigolion sy'n gyfrifol eu dwyn ger bron eu gwell, ond mae'n bosibl y gwnaiff hynny ddigwydd. Caf ar ddeall fod un unigolyn yn ddifrifol wael ac na ellir parhau â'r achos, ac mae'n ddrwg gennyf am hynny, ond ni allaf dderbyn, mae arnaf ofn, mai un dyn yn unig a oedd yn gyfrifol am Puretruce, a thybed a wnaiff eich adolygiad ystyried yr agwedd honno ar yr ymchwiliad, Brif Weinidog. Pa mor fodlon ydych y gwnaiff yr adolygiad ystyried y ffaith y dylai pob cyfarwyddwr a rheolwr dan sylw fod yn atebol? A wnaiff yr adolygiad ymchwilio'n drwyadl i hynny, os gwelwch yn dda? A fyddech cystal â datgan pa un a fyddwch yn sicrhau bod y Papur Gwyn newydd ar reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar faterion hanfodol megis hyfforddiant a chwythu'r chwiban, er mwyn sicrhau na fyddwn byth yn wynebu'r sefyllfa drist hon eto?

I would like to examine in further detail the sentence in your statement about the issue of a stronger voice for care home residents and their families. Again, I believe that we as Members will scrutinise the regulation and inspection Bill to vigorously ensure that we are never in this position again. My colleague William Graham has asked the other questions that I wanted to ask, so I will leave it at that and thank you.

Hoffwn ystyried yn fanylach y frawddeg yn eich datganiad am roi llais cryfach i breswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd. Unwaith eto, credaf y byddwn ninnau fel Aelodau yn craffu ar y Bil rheoleiddio ac arolygu er mwyn sicrhau'n bendant na fyddwn byth yn wynebu'r sefyllfa hon eto. Mae fy nghyd-Aelod William Graham wedi gofyn y cwestiynau eraill yr oeddwn am eu gofyn, felly, fe'i gadawaf ar hynny a diolch.

15:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the issues that the Member has raised, the review that I have announced today is intended to feed in to the regulation and inspection White Paper. Clearly, from our point of view, it is an important part of what the Bill might look like in the future, so there is no question of the review not feeding in to that process.

O ran y materion a godwyd gan yr Aelod, bwriedir i'r adolygiad a gyhoeddwyd gennyf heddiw fwydo i'r Papur Gwyn ar reoleiddio ac arolygu. Yn amlwg, o'n safbwynt ni, mae'n rhan bwysig o gyfeiriad y Bil yn y dyfodol, felly nid oes unrhyw amheuaeth na ddylai'r adolygiad fod yn rhan o'r broses honno.

In terms of the structure of the company, I am wary about moving onto what was the ground of the criminal investigation. That is not what this review can deal with. Those are matters for the Crown Prosecution Service. I understand the frustration, of course, of the families that proceedings are to lie on file. I know that, where proceedings lie on file, it is almost inevitable that they will not be proceeded with. That was one factor that I took into account in making this announcement. While it might be true to say that conducting an independent review while there are extant criminal proceedings might interfere with those proceedings, I do not think that that is a risk in these circumstances, because it is difficult to see, unfortunately, a situation where those proceedings could be reinstated. So, that is not, to my mind, a significant factor anymore, which is why I felt that it was possible to make this announcement this afternoon.

O ran strwythur y cwmni, rhaid gochel rhag trafod yr hyn a ystyriwyd yn yr ymchwiliad troseddol. Ni all yr adolygiad hwn ymdrin â hynny. Materion i Wasanaeth Erlyn y Goron yw'r rheini. Wrth gwrs, deallaf rwystredigaeth y teuluoedd bod yr achos wedi'i roi ar ffeil. Pan gaiff achos ei roi ar ffeil, gwn ei bod fwy neu lai'n anochel na chaiff ei ailystyried. Roedd hynny'n un ffactor a ystyriais wrth wneud y cyhoeddiad hwn. Er y gellid dweud o bosibl y gallai cynnal adolygiad annibynnol tra bod achos troseddol yn bodoli o hyd ymyrryd â'r achos hwnnw, ni chredaf fod perygl o hynny o dan yr amgylchiadau hyn, gan ei bod, yn anffodus, yn anodd gweld sefyllfa lle y gellid ailddechrau'r achos hwnnw. Felly, nid yw hynny, yn fy marn i, yn ffactor pwysig mwyach, a dyna pam fy mod o'r farn ei bod yn bosibl gwneud y cyhoeddiad hwn y prynhawn yma.

15:08 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn cefnogi'r datganiad rydych wedi ei wneud y prynhawn yma. Mae'r achos yn un difrifol iawn. Yn ystod eich datganiad ym mis Gorffennaf, dywedoch eich bod yn ystyried ymchwiliad cyhoeddus yn hytrach nag adolygiad, a hynny oherwydd bod materion o ran cyfiawnder troseddol ond eich bod eisiau ystyried hynny mewn trafodaethau pellach â Llywodraeth Prydain. A yw'r trafodaethau wedi digwydd? Os nad yw'n bosibl, fel rydych wedi dweud, i gynnwys materion sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol o fewn yr adolygiad hwn—mae Heddlu Gwent wedi dweud eu bod yn rhwystredig oherwydd rhai materion o fewn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol—sut yr ymdrinnir â'r problemau hynny? A yw Llywodraeth Prydain yn mynd i ymwneud â hynny, ynteu a ydych chi yn mynd i orfod gwneud mwy o ddatganiadau neu ymholiadau ynglŷn â'r diffygion hynny gan nad ydynt o fewn maes llafur yr adolygiad hwn gan Lywodraeth Cymru?

First Minister, I think that we all support the statement that you have made this afternoon. This is a very serious case. In your statement in July, you said that you were considering a public inquiry rather than a review, because there were criminal justice issues but that you wanted to consider that through further discussions with the UK Government. Have those discussions taken place? If it is not possible, as you said, to include issues of criminal justice within this review—Gwent Police have said that they are frustrated because of some criminal justice issues—how will those problems be dealt with? Will the UK Government deal with that, or are you going to have to make further statements or inquiries on those deficiencies as they are not within the remit of this Welsh Government review?

15:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Y broblem yw ein bod yn siarad am feysydd nad ydynt wedi cael eu datganoli. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dweud nad yw o blaid ymchwiliad cyhoeddus. Nid yw hynny'n golygu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn yr un sefyllfa ond, wrth gwrs, mae'n dylanwadu ar unrhyw benderfyniad sydd gennyf i'w wneud. Fodd bynnag, yr hyn yr hoffwn ei wneud yw gweld beth yw canlyniadau'r adolygiad hwn ac yna, os oes unrhyw beth yn codi ynglŷn â'r system cyfiawnder troseddol, bydd cyfle i roi argymhellion neu syniadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid wyf yn diystyru hynny.

The problem is that we are talking about non-devolved issues. The Home Office has said that it is not in favour of a public inquiry. That does not mean that the Welsh Government should take the same view, but, of course, it does influence any decision that I have to make. However, what I would like to do is to see what the outcome of this review is and then, if anything arises regarding the criminal justice system, there will be an opportunity to make recommendations or propose ideas to the UK Government. I am not ruling that out.

15:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

# Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Diogelu Plant

Cynnig NDM5358 Joyce Watson, Mark Isherwood, Suzy Davies, Jenny Rathbone, Aled Roberts, Rhodri Glyn Thomas.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi â phryder difrifol:

a) yr achosion o droseddwyr yn targedu plant agored i niwed er mwyn cam-fanteisio'n rhywiol arnynt;

b) bod plant sydd ar goll o ofal yn wynebu perygl penodol o gam-fanteisio rhywiol;

c) y dystiolaeth nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru hyd yma yn gweithredu'n llawn ganllawiau Llywodraeth Cymru i ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o ofal;

d) y gall yr arfer o leoli y tu allan i ardal olygu bod plant sy'n derbyn gofal yn wynebu mwy o berygl o gamdriniaeth a cham-fanteisio.

2. Yn cymeradwyo gwaith Prosiect Plant ar Goll Gwent ac yn nodi'r angen am ddata cymaradwy, cyson a dibynadwy ar yr achosion o blant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll o gartrefi plant a gofal maeth.

# Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Protecting Children

Motion NDM5358 Joyce Watson, Mark Isherwood, Suzy Davies, Jenny Rathbone, Aled Roberts, Rhodri Glyn Thomas.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes with grave concern:

a) the targeting of vulnerable children for sexual exploitation by criminals;

b) that children missing from care are at particular risk of sexual exploitation;

c) evidence that local authorities in Wales are not yet fully implementing Welsh Government guidelines to protect children who go missing from care;

d) that the practice of out of area placements can put looked after children at greater risk of abuse and exploitation.

2. Commends the work of the Gwent Missing Children Project and notes the need for comparable, consistent and reliable data on cases of looked after children who go missing from children's homes and foster care.

15:10

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion in my name and the names of Mark Isherwood, Suzy Davies, Jenny Rathbone, Aled Roberts and Rhodri Glyn Thomas.

First, I give my thanks to the Business Committee for selecting this topic for debate, and to the Members who have expressed an interest in contributing to the discussion. I also thank David Melding and the cross-party group for looked-after children for taking an interest in my work and helping organise today.

We have all heard the one about the bedpan being dropped in the Tredegar hospital. Aneurin Bevan said that the noise of it should reverberate in the corridors of Westminster. Putting to one side the question of top-down micromanagement, the point about accountability is an important one. So it should be for the children in the care of the state. The wellbeing of every looked-after child should be uppermost in the minds of the councillor at county hall, and their voices should reverberate in this Assembly.

Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac enwau Mark Isherwood, Suzy Davies, Jenny Rathbone, Aled Roberts a Rhodri Glyn Thomas.

Yn gyntaf, diolch i'r Pwyllgor Busnes am ddewis y pwnc hwn ar gyfer dadl, ac i'r Aelodau sydd wedi mynegi diddordeb mewn cyfrannu at y drafodaeth. Diolch hefyd i David Melding a'r grŵp trawsbleidiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal am ddangos diddordeb yn fy ngwaith a helpu i drefnu heddiw.

Rydym i gyd wedi clywed am y badell wely a ollyngwyd yn ysbyty Tredegar. Dywedodd Aneurin Bevan y dylai ei sŵn atseinio yng nghoridorau San Steffan. Gan roi'r mater ynghylch microreoli o'r brig i lawr o'r neilltu, mae'r pwynt am atebolrwydd yn un pwysig. Felly y dylai fod i'r plant sydd yng ngofal y wladwriaeth. Dylai lles pob plentyn sy'n derbyn gofal fod ar flaen meddyliau'r cynghorwyr yn neuadd y sir, a dylai eu lleisiau atseinio yn y Cynulliad hwn.

While the motion is alarming, we should not be alarmist. The fact that we hear and read so many appalling stories of adults mistreating children should not obscure the fact that children in Wales are better protected and safer than they have ever been. This motion states that, after a child is taken into care, it is not a case of thinking 'job done; end of story'; rather, corporate parents must provide protection and nurturing. My concern is that, far from being job done, some Welsh councils are not doing that job well enough. As chair of the cross-party human trafficking group, I know that vulnerable children are targeted by abusive adults; yet, my own research tells me that some Welsh councils are failing to report and record when children go missing from care. It also tells me that too many children are being plant placed far away from home, leaving them more vulnerable. As of last March, there were 5,743 children in care in Wales—a 24% increase in the past five years—and more than a quarter were living outside their home area.

Er bod y cynnig yn frawychus, ni ddylem fod yn codi bwganod. Ni ddylai'r ffaith ein bod yn clywed ac yn darllen cymaint o straeon ofnadwy am oedolion yn cam-drin plant daflu cysgod ar y ffaith bod plant yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn yn well ac yn fwy diogel nag erioed. Mae'r cynnig hwn yn datgan na ddylid meddwl, ar ôl i blentyn gael ei dderbyn i ofal, bod y gwaith wedi'i wneud a dyna'i diwedd hi; yn lle hynny, rhaid i rieni corfforaethol eu hamddiffyn a'u meithrin. Nid yw'r gwaith wedi'i wneud o bell ffordd, a phryderaf nad yw rhai cynghorau yng Nghymru yn gwneud y gwaith hwnnw'n ddigon da. Fel cadeirydd y grŵp masnachu mewn pobl trawsbleidiol, gwn fod plant sy'n agored i niwed yn cael eu targedu gan oedolion sy'n cam-drin; ac eto, dengys fy ymchwil fy hun nad yw rhai cynghorau yng Nghymru yn adrodd nac yn cofnodi pan fydd plant mewn gofal yn mynd ar goll. Dywed wrthyf hefyd fod gormod o blant yn cael eu lleoli ymhell o gartref, gan eu gadael yn fwy agored i niwed. O fis Mawrth diwethaf, roedd 5,743 o blant mewn gofal yng Nghymru—cynnydd o 24% dros y pum mlynedd diwethaf—ac roedd mwy na chwarter yn byw y tu allan i ardal eu cartref.

On top of that, we have a chronic shortage of foster families and I have read that care costs are higher than the fees for Eton. I am not sure that that is a helpful comparison, but we can understand the pressures on local authorities with more demand and less money. We know that a child who goes missing is at greater risk of physical abuse and sexual exploitation. A recent Barnardo's report suggests that more than 10% of young people who run away will experience sexual exploitation. Last month, a WalesOnline investigation revealed that 221 children in Wales were reported missing from care placements in the past two years; some disappearing as many as 20 times, and for several months.

Ar ben hynny, mae gennym brinder difrifol o deuluoedd maeth a darllenais fod costau gofal yn uwch na'r ffioedd ar gyfer Eton. Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n gymhariaeth ddefnyddiol, ond gallwn ddeall y pwysau sydd ar awdurdodau lleol gyda mwy o alw a llai o arian. Gwyddom fod plentyn sy'n mynd ar goll yn wynebu mwy o risg o gam-drin corfforol a cham-fanteisio rhywiol. Awgryma adroddiad diweddar gan Barnardo's y bydd mwy na 10% o bobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd yn profi cam-fanteisio rhywiol. Fis diwethaf, datgelodd ymchwiliad gan WalesOnline fod 221 o achosion o blant yn mynd ar goll o leoliadau gofal yng Nghymru wedi'u cofnodi dros y ddwy flynedd diwethaf; gyda rhai yn diflannu cymaint ag 20 o weithiau, ac am sawl mis.

Dr Helen Beckett from the University of Bedfordshire has found that, in Northern Ireland, sexual exploitation is an issue for one in seven young people known to social services. Last year, a report by a Westminster all-party group found that the care system was failing to keep track of missing children. That was in England. When I asked questions of Wales' local authorities, I found worrying inconsistencies on how they reported and recorded cases of children going missing from children's homes and foster care. For me, it boils down to a simple question: without reliable data, how on earth can we know who needs what support?

Canfu Dr Helen Beckett o Brifysgol Swydd Bedford fod cam-fanteisio rhywiol yn broblem i un o bob saith person ifanc sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol yng ngogledd Iwerddon. Y llynedd, canfu adroddiad gan grŵp trawsbleidiol yn San Steffan nad oedd y system gofal yn llwyddo i gadw cofnod o blant coll. Yn Lloegr yr oedd hynny. Pan ofynnais gwestiynau am awdurdodau lleol yng Nghymru, gwelais anghysondebau sy'n peri pryder o ran y modd y maent yn cofnodi achosion o blant yn mynd ar goll o gartrefi plant a gofal maeth ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Yn fy marn i, mae'r cwestiwn yn syml: heb ddata dibynadwy, sut ar y ddaear y gallwn wybod ar pwy sydd angen pa gymorth?

In response to my research, the Deputy Minister for Social Services wrote to local safeguarding children's boards to stress the importance of Welsh Government guidance on this. I wish to put on record my thanks to the Deputy Minister for her support. It is indeed critical that safeguarding boards take responsibility for their lead role in this. They are in a position to bring together social care, health services, education, the police, youth justice and the voluntary sector, but they need accurate information. When I asked Welsh authorities how many children had gone missing, only seven councils could provide an answer. Six councils told me that they did not keep central records, and the rest had only partial records. A third of the councils I asked said that they had recently brought in, or would soon be introducing, new recording procedures. That is encouraging. In Gwent, the five local authorities are already working together as part of a new missing children hub, bringing together the police, social services and other agencies to intervene early, pooling resources and sharing information.

Mewn ymateb i'm gwaith ymchwil, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at fyrddau lleol diogelu plant er mwyn pwysleisio pwysigrwydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar hyn. Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei chefnogaeth. Yn wir, mae'n hanfodol bod byrddau diogelu yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl arweiniol yn hyn o beth. Maent mewn sefyllfa i ddod â gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, addysg, yr heddlu, cyfiawnder ieuenctid a'r sector gwirfoddol ynghyd, ond mae angen gwybodaeth gywir arnynt. Pan ofynnais i awdurdodau Cymru faint o blant oedd wedi mynd ar goll, dim ond saith cyngor allai ateb. Dywedodd chwe chyngor wrthyf nad oeddent yn cadw cofnodion canolog, a dim ond cofnodion rhannol oedd gan y gweddill. Dywedodd traean o'r cynghorau a holais eu bod wedi cyflwyno gweithdrefnau cofnodi newydd yn ddiweddar, neu y byddent yn gwneud hynny'n fuan. Mae hynny'n galonogol. Yng Ngwent, mae'r pum awdurdod lleol eisoes yn gweithio gyda'i gilydd fel rhan o ganolfan plant coll newydd, gan ddwyn ynghyd yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill i ymyrryd yn gynnar, cyfuno adnoddau a rhannu gwybodaeth.

We all recognise that working in partnership is the way forward for local authorities in Wales. It is effective and it is cost-effective. People are understandably uncomfortable discussing the care costs, but we cannot ignore or wish away the reality. Why is it that nearly half the children in residential care in Britain do not live in their local area? It is because the independent sector, which runs around three quarters of our residential homes, bases itself where property is cheap. That was one of the issues to come out of the Rochdale sex abuse scandal. One of the victims had been living in one of the country's 47 children's homes that houses children from all over Britain. We know that a disproportionate number of children in care were also targeted by the paedophile gangs in Derby and Oxford. We also know that taking a child away from the people and the area they know can lead to them running away. Therefore, local authorities must be completely open and transparent about those decisions. Each decision to place a child across a border must be scrutinised, and in these cases, the home authority must co-ordinate services with the host authority to make sure that the child does not disappear through gaps in the system—because dangerous people will always look to exploit those gaps.

Cydnabyddwn mai gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd ymlaen ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n effeithiol ac mae'n gost-effeithiol. Nid yw pobl yn gyfforddus yn trafod costau gofal, ac mae hynny'n ddealladwy, ond ni allwn anwybyddu'r realiti. Pam nad yw bron hanner y plant mewn gofal preswyl ym Mhrydain yn byw yn eu hardal leol? Y rheswm am hynny yw bod y sector annibynnol, sy'n rhedeg tua thri chwarter ein cartrefi preswyl, yn lleoli ei hun lle mae eiddo'n rhad. Roedd hynny'n un o'r materion a ddeilliodd o sgandal cam-drin rhywiol Rochdale. Roedd un o'r dioddefwyr wedi bod yn byw yn un o 47 o gartrefi plant y wlad sy'n gartref i blant o bob cwr o Brydain. Gwyddom fod nifer anghymesur o blant mewn gofal hefyd wedi'u targedu gan y gangiau o bedoffiliaid yn Derby a Rhydychen. Gwyddom hefyd y gall symud plentyn i ffwrdd oddi wrth y bobl y mae'n eu hadnabod a'r ardal y mae'n gyfarwydd â hi arwain ato'n rhedeg i ffwrdd. Felly, rhaid i awdurdodau lleol fod yn gwbl agored ac yn dryloyw am y penderfyniadau hynny. Rhaid craffu ar bob penderfyniad i leoli plentyn dros y ffin, ac yn yr achosion hyn, rhaid i'r awdurdod cartref gyd-gysylltu gwasanaethau gyda'r awdurdod lletya er mwyn sicrhau nad yw'r plentyn yn diflannu drwy fylchau yn y system—oherwydd bydd pobl beryglus bob amser yn ceisio manteisio ar y bylchau hynny.

Finally, I want to raise the question of advocacy. People need a trusted, responsible adult to fight their corner and to empower them to have a voice. Advocacy is crucial. We have Meic Cymru and other services. Is the Minister confident that children in care know about the support available to them, and how does that feed back to corporate parents? Are there children's champions in every local authority? If there are, when do they discuss their responsibilities? How do councillors know where their looked-after children are? Do they get regular reports, or do they believe that out of sight is out of mind?

Yn olaf, hoffwn godi cwestiwn ynghylch eiriolaeth. Mae angen oedolyn cyfrifol y gellir ymddiried ynddo ar bobl i frwydro drostynt a rhoi llais iddynt. Mae eiriolaeth yn hanfodol. Mae gennym Meic Cymru a gwasanaethau eraill. A yw'r Gweinidog yn hyderus bod plant mewn gofal yn gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt, a sut mae hynny'n bwydo'n ôl i rieni corfforaethol? A oes eiriolwyr dros blant ym mhob awdurdod lleol? Os felly, pryd maent yn trafod eu cyfrifoldebau? Sut mae cynghorwyr yn gwybod ble mae eu plant sy'n derbyn gofal? A ydynt yn cael adroddiadau rheolaidd, neu a ydynt yn bell o'r golwg ac yn bell o'r cof?

Waterhouse introduced a set of questions that councillors should be constantly asking, and I remember from my time on Pembrokeshire County Council that that happened. Is it happening now? Should new questions be asked, and should the answers be collected? The recent north Wales case that looked into activities in the 1970s, 1980s and 1990s surely helps us to see the reason for tight regulation and the need to act. The collection of data is not an academic exercise; how can we ever know if there are problems in placements if the data are not there? How can we know if a child or children are congregating in a said place at a said time if there are no data to inform us of the fact? How do we know that children are safe?

Cyflwynodd Waterhouse gyfres o gwestiynau y dylai cynghorwyr fod yn eu gofyn yn gyson, a chofiaf o'm cyfnod ar Gyngor Sir Penfro i hynny ddigwydd. A yw'n digwydd nawr? A ddylid gofyn cwestiynau newydd, ac a ddylid casglu'r atebion? Mae'r achos diweddar yn y gogledd a ystyriodd weithgareddau yn y 1970au, 1980au a'r 1990au yn sicr yn ein helpu i weld y rheswm dros bennu rheoliadau caeth a'r angen i weithredu. Nid yw casglu data yn ymarfer academaidd; sut y gallwn fyth wybod a oes problemau mewn lleoliadau os nad yw'r data ar gael? Sut y gallwn wybod a yw plentyn neu blant yn ymgynnull mewn man penodol ar adeg benodol os nad oes unrhyw ddata i ddangos hynny? Sut y gwyddom fod plant yn ddiogel?

There are, therefore, three glaring issues. The first is the response of authorities to unexplained absences and the inconsistency in approach across Wales. The second is the issue of why so many children are placed far from their homes without clear reason. The third is the use of advocacy for the benefit of children and young people, as well as for social workers and other professionals involved in the process.

Felly, mae tri mater amlwg. Y cyntaf yw ymateb awdurdodau i absenoldebau heb eglurhad a'r anghysondeb mewn dulliau gweithredu ledled Cymru. Yr ail yw'r cwestiwn pam bod cynifer o blant yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi heb reswm clir. Y trydydd yw'r defnydd o eiriolaeth er budd plant a phobl ifanc, yn ogystal ag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o'r broses.

Time is short when you are young, and action needs to be taken by us and by people in authority in general as a matter of urgency. Let that be the message to reverberate in this Chamber and in county halls throughout Wales.

Mae amser yn brin pan fyddwch yn ifanc, ac mae angen inni a phobl mewn awdurdod yn gyffredinol weithredu fel mater o frys. Gadewch i'r neges honno atseinio yn y Siambr hon ac mewn neuaddau sir ledled Cymru.

15:20

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The situation is shocking and scandalous. A freedom of information request by the National Society for the Prevention of Cruelty to Children revealed that, last year, North Wales Police recorded 510 incidents of being asked to look for missing children from care. Of these children, 88 went missing more than once. Across Wales, 1,796 children and teenagers went missing from care in the north Wales, Gwent and Dyfed-Powys police force areas. South Wales Police did not respond.

Mae'r sefyllfa yn frawychus ac yn warthus. Dangosodd cais rhyddid gwybodaeth gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cofnodi 510 o geisiadau y llynedd i chwilio am blant a oedd wedi mynd ar goll o ofal. O'r plant hyn, aeth 88 ohonynt ar goll fwy nag unwaith. Ledled Cymru, aeth 1,796 o blant a phobl ifanc yn eu harddegau ar goll o ofal yn ardaloedd heddlu'r gogledd, Gwent a Dyfed-Powys. Nid ymatebodd Heddlu De Cymru.

A WalesOnline investigation reported last month that hundreds of vulnerable children in the care of social services in Wales, including babies less than a year old, are going missing and being left at risk of abuse. Despite high-profile revelations earlier this year about older men plying girls in care with alcohol and drugs, and leading them into a life of prostitution, the investigation suggests that hundreds of children in Wales are still at risk. We heard that at least 221 looked-after children were reported missing over the last two years and many were unaccounted for over several months. At least 117 were girls and 99 were boys.

Nododd ymchwiliad gan WalesOnline fis diwethaf fod cannoedd o blant sy'n agored i niwed yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys babanod llai na blwydd oed, yn mynd ar goll ac mewn perygl o gael eu cam-drin. Er gwaethaf datgeliadau proffil uchel yn gynharach eleni am ddynion hŷn yn rhoi alcohol a chyffuriau i ferched mewn gofal, ac yn eu harwain at fywyd o buteindra, awgryma'r ymchwiliad fod cannoedd o blant yng Nghymru mewn perygl o hyd. Clywsom fod o leiaf 221 o blant sy'n derbyn gofal wedi mynd ar goll dros y ddwy flynedd diwethaf ac roedd llawer ar goll am sawl mis. Roedd o leiaf 117 ohonynt yn ferched a 99 yn fechgyn.

The NSPCC's national head of service for Wales said that,

Dywedodd pennaeth gwasanaeth cenedlaethol Cymru yr NSPCC

'When children frequently go missing it puts them at increased risk of harm and this can include being groomed by individuals and gangs who specifically target vulnerable youngsters for sexual exploitation.'

Pan fydd plant yn mynd ar goll yn aml, maent yn wynebu mwy o risg o niwed a gall hyn gynnwys meithrin cydberthynas amhriodol ag unigolion a gangiau sy'n targedu pobl ifanc sy'n agored i niwed yn benodol er mwyn camfanteisio'n rhywiol arnynt.

In its annual review and evaluation of Cardiff Council, Care and Social Services Inspectorate Wales said,

Yn ei adolygiad blynyddol a gwerthusiad o Gyngor Caerdydd, dywedodd Cyfarwyddiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod

'Performance indicators for looked after children are of concern'.

Dangosyddion perfformiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn peri pryder.

A 17-year-old who was reported missing from the care of Anglesey council on 17 April last year has been missing for 19 months. Newport has the highest number and proportion of children missing from care, with 68 of 463 looked-after children reported missing—almost 15%. In Conwy, a 17-year-old boy was missing for eight months from April last year; and, in Denbighshire, a teenage girl was reported missing a total of 20 times. The Children's Commissioner for Wales has said that if arrangements in the national protocol are not being followed

Mae person ifanc 17 oed y cofnodwyd ei fod ar goll o ofal cyngor Ynys Môn ar 17 Ebrill y llynedd wedi bod ar goll ers 19 mis. Casnewydd sydd â'r gyfran uchaf o blant sydd wedi mynd ar goll o ofal, gyda 68 o 463 o blant sy'n derbyn gofal wedi'u cofnodi ar goll—bron 15%. Yng Nghonwy, bu bachgen 17 oed ar goll am wyth mis o fis Ebrill y llynedd; ac, yn Sir Ddinbych, cofnodwyd bod merch yn ei harddegau wedi mynd ar goll 20 o weithiau. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi dweud, oni ddilynir trefniadau yn y protocol cenedlaethol

'then we are not protecting the most vulnerable children and young people at a time when they need our support the most'.

yna nid ydym yn amddiffyn y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed ar adeg pan fo angen ein cymorth arnynt fwyaf.

As Joyce Watson has said, the very fact that we have taken children into care means that we recognise their vulnerability and, quite frankly, we must do everything that we can to ensure that they do not become even more vulnerable. As the chief executive of the charity Children in Wales has said,

Fel y dywedodd Joyce Watson, mae'r ffaith ein bod wedi derbyn plant i ofal yn golygu ein bod yn cydnabod eu bod yn agored i niwed ac, a dweud y gwir, rhaid inni wneud popeth posibl i sicrhau nad ydynt yn mynd hyd yn oed yn fwy agored i niwed. Fel y dywedodd prif weithredwr elusen Plant yng Nghymru,

'If a child is in public care the local authority has responsibility for looking after the child—they cannot lose a child.'

Os yw plentyn mewn gofal cyhoeddus, mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb am ofalu am y plentyn—ni all golli plentyn.'

As Detective Superintendent Roberts, who works as part of the Gwent missing children project, has said,

Fel y dywedodd y Ditectif Uwcharolygydd Roberts, sy'n gweithio fel rhan o brosiect plant coll Gwent,

'There is some underlying reason that needs to be tackled—drugs, alcohol, abuse in the home, vulnerabilities to prostitution or sexual exploitation.'

Mae rhesymau sylfaenol y mae angen mynd i'r afael â hwy—cyffuriau, alcohol, cam-drin yn y cartref, bod yn agored i buteindra neu gamfanteisio rhywiol.'

He added,

Ychwanegodd,

'What is certainly recognised is that among that group of missing children, quite a few of them will be vulnerable to sexual exploitation because of their lifestyle and things they are involved with.'

Yr hyn a gydnabyddir yn sicr yw y bydd cryn dipyn o'r grŵp hwnnw o blant coll yn agored i gam-fanteisio rhywiol oherwydd eu ffordd o fyw a'r pethau y maent yn ymwneud â hwy.

Gwent Police has joined forces with agencies, including social workers and health staff, and the third sector must not be left on the side lines. Officers say that they receive around 300 reports of missing children every month who they fear are at risk of harm. Gwent chief constable, Jeff Farrar, who is Wales's policing lead for human trafficking and gave evidence to committee here last week, said that he hoped that the initiative would be extended across Wales.

Mae Heddlu Gwent wedi ymuno ag asiantaethau, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a staff iechyd, ac ni ddylid gadael y trydydd sector o'r neilltu. Dywed swyddogion fod 300 o achosion o blant coll yn cael eu cofnodi bob mis y pryderir eu bod mewn perygl o niwed. Dywedodd prif gwnstabl Gwent, Jeff Farrar, sef arweinydd plismona Cymru ar fasnachu mewn pobl a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor yma yr wythnos diwethaf, ei fod yn gobeithio y byddai'r fenter yn cael ei hymestyn ledled Cymru.

Last Thursday, Barnardo's Cymru delivered a conference in north Wales, entitled 'Stronger Together', on collaborative working to tackle child sexual exploitation and trafficking. It heard that projects with a focus on working with young people who experience running away and/or child sexual exploitation report that anywhere between 50% and 90% of young people that they work with experience both running away and child sexual exploitation; that no-one is immune but there are particular life experiences associated with increased risk; that it was necessary to implement a tiered approach to identifying vulnerability relating to parents, carers, the police, other professionals who come into contact with young people and social care professionals; and that we need to educate young people about risk with targeted preventative work with at-risk populations.

Ddydd Iau diwethaf, cynhaliodd Barnardo's Cymru gynhadledd yn y gogledd, o'r enw 'Yn Gryfach Gyda'n Gilydd, yn ymwneud â mynd i'r afael â cham-fanteisio rhywiol a masnachu mewn plant. Clywodd fod prosiectau sy'n canolbwyntio ar weithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o redeg i ffwrdd a/neu gam-fanteisio rhywiol yn dangos bod rhwng 50% a 90% o bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy yn rhedeg i ffwrdd a bod rhywun yn cam-fanteisio'n rhywiol arnynt; nad oes neb yn ddiogel ond bod profiadau bywyd penodol yn gysylltiedig â risg uwch; y bu'n angenrheidiol gweithredu dull aml-haen o nodi unigolion sy'n agored i niwed mewn perthynas â rhieni, gofalwyr, yr heddlu, gweithwyr proffesiynol eraill sy'n dod i gysylltiad â phobl ifanc a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol; a bod angen inni addysgu pobl ifanc am risg drwy waith ataliol wedi'i dargedu gyda phoblogaethau mewn perygl.

However, none of this is new. In May 2000, a whistleblower made serious allegations to the Social Services Inspectorate for Wales of malpractice in Flintshire social services regarding sexual and physical abuse of children. Flintshire County Council's internal audit manager won his subsequent tribunal after bringing 38 protected disclosures under the Public Interest Disclosure Act 1998, including allegations of massive salary and overtime payments to a council officer servicing the Waterhouse inquiry into child sexual abuse. When I raised this in the Assembly Chamber a decade ago, Ministers accused me of bringing the Assembly into disrepute. Well, a decade on, let us unite to put zero tolerance before any vested interests.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn fater newydd. Ym mis Mai 2000, gwnaeth chwythwr chwiban honiadau difrifol i Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am achosion o gamymddygiad yng ngwasanaethau cymdeithasol Sir y Fflint yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ac yn gorfforol. Enillodd rheolwr archwilio mewnol Cyngor Sir y Fflint ei dribiwnlys dilynol ar ôl cyflwyno 38 o ddatgeliadau gwarchodedig o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, gan gynnwys honiadau o daliadau cyflog a goramser enfawr i un o swyddogion y cyngor a oedd yn ymdrin ag ymchwiliad Waterhouse i achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Pan godais y mater hwn yn Siambr y Cynulliad ddegawd yn ôl, cefais fy nghyhuddo gan Weinidogion am ddwyn anfri ar y Cynulliad. Wel, ddegawd yn ddiweddarach, gadewch inni uno er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw fuddiannau personol eu goddef.

15:25

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Bryn Estyn scandal in north Wales, which is yet to complete its journey, and Operation Jasmine in Gwent, which the First Minister has just spoken about, ought to be permanent reminders of the importance of listening to children and young people. Mark Isherwood has just spoken about the importance of ensuring that our looked-after children are safeguarded. Of course, they deserve special attention because the state has made the decision to intervene and take responsibility for those individuals, so they have every right to expect that the state will behave as an exemplary corporate parent. But, the thing that was most striking and sobering for me about the report by the Deputy Children's Commissioner for England last month, which is called 'If only someone had listened…', was that it is not just looked-after children who are at risk—although they are quite scandalously at risk, which, I think, is reasonably well documented—and not just the missing children who are at risk, which is self-evident, because it is extremely unlikely that they are safe. I was particularly struck by the fact that this issue of child sexual exploitation is not just an issue around organised criminal gangs or indeed about organised groups of predatory paedophiles, but it is about, in many cases, gangs of children and young people who are sexually exploiting members of their gangs or groups. That, to me, is a real wake-up call for society.

Dylai sgandal Bryn Estyn yn y gogledd, na ddaeth i ben eto, ac Ymgyrch Jasmine yng Ngwent, y mae'r Prif Weinidog newydd gyfeirio ato, ein hatgoffa'n barhaus o bwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc. Mae Mark Isherwood newydd sôn am bwysigrwydd sicrhau bod ein plant sy'n derbyn gofal yn cael eu diogelu. Wrth gwrs, maent yn haeddu sylw arbennig gan fod y wladwriaeth wedi penderfynu ymyrryd a chymryd cyfrifoldeb dros yr unigolion hynny, felly mae ganddynt bob hawl i ddisgwyl y bydd y wladwriaeth yn ymddwyn fel rhiant corfforaethol perffaith. Ond, y peth mwyaf trawiadol a sobreiddiol am adroddiad Dirprwy Gomisiynydd Plant Lloegr fis diwethaf, sy'n dwyn y teitl 'If only someone had listened…', oedd y ffaith nad dim ond plant sy'n derbyn gofal sy'n wynebu risg —er eu bod yn wynebu risg ddifrifol, y mae cryn dystiolaeth o hynny, yn fy marn i—ac nad dim ond plant coll sy'n wynebu risg, sy'n amlwg ynddo'i hun, oherwydd mae'n annhebygol iawn eu bod yn ddiogel. Cefais fy synnu'n benodol gan y ffaith nad dim ond mater yn ymwneud â gangiau troseddol cyfundrefnol neu grwpiau cyfundrefnol o bedoffiliaid rheibus yw camfanteisio'n rhywiol ar blant, ond mae'n ymwneud, mewn llawer o achosion, â gangiau o blant a phobl ifanc sy'n camfanteisio'n rhywiol ar aelodau o'u gangiau neu eu grwpiau eu hunain. Mae hynny, yn fy marn i, yn agoriad llygad i gymdeithas.

We have to have local services that put children at the centre of everything that we do. They are the ones who are going to be most likely to observe causes for concern, and intervene before things become too damaging. So, the English slogan 'see me, hear me' is absolutely how it needs to be. People have to be thinking, when they are observing the young people who are in their care, whether it is in school, college, a youth club or a scouts club, 'Is this child behaving differently from the way that I would normally expect him or her to behave and what are the causes of that distress?'.

Mae'n rhaid inni gael gwasanaethau lleol sy'n rhoi plant wrth wraidd popeth a wnawn. Y gwasanaethau hynny sydd fwyaf tebygol o nodi achosion pryder, ac ymyrryd cyn i bethau fynd yn rhy niweidiol. Felly, mae'r slogan Saesneg 'see me, hear me' yn taro deuddeg. Mae'n rhaid i bobl fod yn meddwl, pan fyddant yn arsylwi'r bobl ifanc sydd yn eu gofal, boed hynny yn yr ysgol, coleg, clwb ieuenctid neu glwb sgowtiaid, 'A yw'r plentyn hwn yn ymddwyn yn wahanol i'r ffordd y byddwn fel arfer yn disgwyl iddo ymddwyn a beth sy'n achosi'r gofid hwnnw?'.

I particularly commend the work of Barnardo's, which has campaigned for so many years on the issue of these young people who are targeted by abusers. I remember at least 15 years ago seeing a very powerful video about the way in which abusers are so clever in the way that they groom people and set them up to be abused. They are methodical, they are devious and, ultimately, they will use violent methods.

Cymeradwyaf yn benodol waith Barnardo's, sydd wedi ymgyrchu ers blynyddoedd lawer dros y bobl ifanc hyn sy'n cael eu targedu gan gamdrinwyr. Cofiaf o leiaf 15 mlynedd yn ôl weld fideo pwerus iawn am y modd y mae camdrinwyr mor glyfar yn y ffordd y maent yn meithrin cydberthynas amhriodol â phobl ac yn eu gwneud yn agored i gael eu cam-drin. Maent yn drefnus, yn gyfrwys ac, yn y pen draw, byddant yn defnyddio dulliau treisgar.

What is it about our society that means that our children are sometimes at risk from people they ought to be regarding as their friends and colleagues? We have to have, in my mind, a systematic approach to sex and relationship education by people who are trained in this field, comfortable talking about the subject, and able to address the full gamut of relationship education, which embraces bullying as well as positive relationship building, and strategies for staying safe from, for example, the internet grooming that we are disturbed to hear about.

Beth sydd wedi digwydd mewn cymdeithas sy'n golygu bod ein plant weithiau'n wynebu risg gan bobl y dylent fod yn eu hystyried yn ffrindiau a chydweithwyr? Mae'n rhaid inni sicrhau, yn fy marn i, ymagwedd systematig at addysg rhyw a chydberthynas gan bobl sydd wedi'u hyfforddi yn y maes hwn, sy'n gyfforddus yn siarad am y pwnc, ac sy'n gallu ymdrin â phob agwedd ar addysg cydberthynas, sy'n cwmpasu bwlio yn ogystal â meithrin cydberthynas gadarnhaol, a strategaethau ar gyfer bod yn ddiogel rhag, er enghraifft, bobl sy'n meithrin perthynas amhriodol â phlant ar-lein, yr ydym wedi dychryn o glywed amdanynt.

On the report from the English deputy commissioner, one of the most disturbing things about it is that, in some areas, children were identified as being exploited, but they did not meet the threshold for intervention. That is a very disturbing thing to read. Of course that relates to areas of England, but it would be foolish of us not to think that it might also be the case in Wales.

Yn yr adroddiad gan ddirprwy gomisiynydd Lloegr, un o'r pethau sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r ffaith, mewn rhai ardaloedd, bod achosion o gam-fanteisio ar blant wedi'u nodi, ond nad oeddent yn bodloni'r trothwy ar gyfer ymyrryd. Mae hynny'n peri pryder mawr. Wrth gwrs, mae hynny'n ymwneud â rhannau o Loegr, ond byddai'n ffôl inni beidio â meddwl y gallai hefyd fod yn wir yng Nghymru.

So, as well as the questions that Joyce Watson has posed for the Deputy Minister, I want to add some questions of my own. Are you satisfied that all safeguarding boards in Wales have a specific child sexual exploitation problem profile for their area? Do they have some way of weighing up the likely activity that is going on around this issue? How well are they working with the people who have everyday contact with young people, in schools, colleges, and so on? These are the people who really do see young people every day, because children are obliged to go to school; if they are absent, that in itself is a cause for concern. I also wanted to ask the Deputy Minister what she thinks of the possibility of setting up a multi-agency approach along the lines of the multi-agency risk assessment conference, which has been so successful in getting all agencies to tackle domestic violence.

Felly, yn ogystal â'r cwestiynau a ofynnodd Joyce Watson i'r Dirprwy Weinidog, hoffwn ychwanegu rhai o'm cwestiynau fy hun. A ydych yn fodlon bod gan bob bwrdd diogelu yng Nghymru broffil penodol o ran problemau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn eu eu hardal? A oes ganddynt ryw ffordd o bwyso a mesur y gweithgarwch tebygol sy'n digwydd o ran y mater hwn? Pa mor dda y maent yn gweithio gyda phobl sydd mewn cysylltiad bob dydd â phobl ifanc, mewn ysgolion, colegau, ac ati? Dyma'r bobl sydd wirioneddol yn gweld pobl ifanc bob dydd, oherwydd mae'n rhaid i blant fynd i'r ysgol; os ydynt yn absennol, mae hynny ynddo'i hun yn peri pryder. Hoffwn hefyd ofyn i'r Dirprwy Weinidog am ei barn ar y posibilrwydd o sefydlu dull aml-asiantaeth tebyg i gynhadledd asesu risg aml-asiantaeth, sydd wedi bod mor llwyddiannus wrth annog yr holl asiantaethau i fynd i'r afael â thrais domestig.

15:31

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yn y lle cyntaf, a gaf i longyfarch Joyce Watson, sydd wedi sbarduno'r ddadl hon yn y Siambr y prynhawn yma? Roeddwn i'n hapus iawn i roi fy enw i'r cynnig, oherwydd rwy'n credu ei bod yn ddadl eithriadol o amserol.

May I, first of all, congratulate Joyce Watson, who has brought this debate in the Chamber this afternoon? I was very happy to add my name to the motion, because I think that it is an exceptionally timely debate.

Mae'n rhaid i ni sylweddoli, rwy'n credu, bod Cymru wedi gwneud cryn lawer yng nghyd-destun hawliau plant, a hawliau plant mewn gofal hefyd. Roedd sefydlu swydd Comisiynydd Plant Cymru yn symudiad eithriadol o bwysig. Roedd y ffordd yr aethpwyd ati i benodi'r comisiynydd plant cyntaf hefyd yn bwysig, oherwydd roedd plant yn rhan annatod o'r broses honno, ac roedd eu lleisiau'n cael eu clywed yn y broses o benodi Peter Clarke yn gomisiynydd plant cyntaf Cymru. Roedd hynny'n rhoi hygrededd i'r swydd honno yn llygaid plant a phobl ifanc Cymru. Roedd yn rhywbeth yr oeddent wedi bod yn rhan o'r broses o'i sefydlu.

I think that we do need to realise that Wales has done a lot in the context of the rights of children, and the rights of children in care, too. The establishment of the post of Children's Commissioner for Wales was an exceptionally important development. The way in which the first children's commissioner was appointed was also important, because children were an integral part of that process, and their voices were heard throughout the process of appointing Peter Clarke as Wales's first children's commissioner. That gave credibility to that post in the eyes of children and young people in Wales. It was something that they had participated in establishing.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r gwaith y mae David Melding a'i grŵp trawsbleidiol wedi ei wneud yn y Cynulliad dros nifer helaeth o flynyddoedd yn awr yn tynnu sylw at anghenion plant mewn gofal—ac mae ystod eang o anghenion, lle mae plant mewn gofal yn perfformio'n is na phlant sy'n cael eu magu mewn cartrefi â rhiant ganddynt. Mae'n bwysig ein bod yn parhau â'r gwaith hwnnw, ac yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael yr un cyfle, beth bynnag fo'i amgylchiadau.

I also want to pay tribute to the work that David Melding and his cross-party group have done in the Assembly over many years now in highlighting the needs of children in care—and there are a wide range of needs, where children in care at performing at a lower level than children brought up in traditional family settings. It is important that we continue with that work, and ensure that every child in Wales has the same opportunity, whatever their circumstances.

Mae'n ddiddorol ein bod newydd wrando ar ddatganiad gan y Prif Weinidog yn ymwneud â cham-drin oedolion mewn cartrefi preswyl. Rydym yn symud i'r pegwn arall o ran oedran yn awr, ac yn sôn am gam-drin plant, a cham-drin plant yn benodol yn rhywiol, ac oedolion yn cymryd mantais o'r plant a'r bobl ifanc hynny. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng y naill a'r llall yw y byddai rhywun yn dweud na ddylai hynny fyth fod wedi digwydd—dylai rhywun fod wedi sylwi ar yr hyn oedd yn digwydd. Pan ydym yn meddwl am yr hyn sydd wedi dod i'r wyneb yn ddiweddar ynglŷn â'r ffordd yr oedd Jimmy Savile, ac eraill, yn manteisio ar eu statws yn y gymdeithas i gam-drin—yn gyffredinol, ond i gam-drin plant a phobl ifanc yn benodol—mae'r un peth yn codi: dylai fod rhywun wedi sylwi, a bod diwylliant o dawelwch wedi ei fagu o gwmpas y digwyddiadau hynny.

It is interesting that we have just listened to a statement by the First Minister relating to the abuse of adults in residential homes. We are now moving to the other end of the spectrum in terms of age, and talking about the abuse of children, and particularly the sexual abuse of children, and adults taking advantage of those children and young people. What is common to both is that one would say that it should never have happened—someone should have noticed what was happening. When we think about what has recently emerged in relation to how Jimmy Savile, and others, exploited their status in society to abuse—in general, but to abuse children and young people in particular—the same matter arises: someone should have noticed, and that a culture of silence had developed around those events.

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi dweud yn glir iawn mai un o'r pethau pwysicaf i blant sydd yn cael eu cam-drin mewn unrhyw ffordd yw bod rhywun yno i wrando arnynt. Soniodd Joyce Watson am rôl lladmerydd ar ran y plant a'r bobl ifanc hyn, ac mae hynny'n eithriadol o bwysig. Fodd bynnag, y cam cyntaf yw bod y plant a'r bobl ifanc yn ymwybodol bod unigolion y gallant ymddiried ynddynt, a fydd yn barod i wrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, ac yn barod i gredu'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Yn y gorffennol, mae arnaf ofn bod diwylliant hefyd o beidio â chredu plant a phobl ifanc mewn achosion fel hyn wedi bodoli.

The Children's Commissioner for Wales has stated very clearly that one of the most important things for children who are abused in any way is that there is someone there to listen to them. Joyce Watson mentioned the role of advocates for these children and young people, and that is hugely important. However, the first step is that those children and young people are aware that there are individuals whom they can trust, who are willing to listen to what they have to say, and who are willing to believe what they have to say. In the past, I am afraid that there has been a culture of not believing children and young people in such cases.

Mae mwy nag un cyfeiriad wedi'i wneud eisoes at adroddiad Barnardo's a'r gynhadledd a gynhaliwyd yn ddiweddar. Yn ddiddorol iawn, roedd nifer o'r cyfraniadau yn y gynhadledd honno yn sôn am y cysylltiad rhwng plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol. Roedd un o'r cyflwyniadau hynny'n sôn am y plant a'r bobl ifanc hynny yn symud o'r hyn yr oeddent yn ei gasáu tuag at yr hyn yr oeddent yn tybio i fod yn rhyw fath o gariad.

Reference has been made more than once already to the Barnardo's report and to the recent conference. Very interestingly, many contributions to that conference mentioned the link between children and young people who go missing and children and young people being sexually abused. One contribution talked about these children and young people moving from what they hated towards what they took to be a form of love.

Yn y sefydliadau sydd wedi'u creu er mwyn cynnig cyfleoedd a gobaith i blant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfaoedd anfanteisiol, mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn creu'r amgylchedd hwnnw o gariad. Os bydd y plant a'r bobl ifanc yn credu bod pobl yn gofalu amdanynt, yn poeni amdanynt ac yn barod i wrando arnynt, ac yn teimlo y gallant ymddiried yn y bobl hynny, byddwn wedi cymryd cam mawr iawn i gyfeiriad diogelu buddiannau'r plant a phobl ifanc hynny.

In the institutions created to offer opportunities and hope to children and young people in disadvantaged situations, it is vitally important that we create that environment of love. If the children and young people believe that there are people who care for them, who are looking out for them and who are there to listen to them, and in whom they can trust, we will have taken a big step in the direction of safeguarding the interests of those children and young people.

15:36

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf i hefyd eisiau ategu'r hyn y mae nifer wedi ei ddweud wrth ddiolch i Joyce Watson a David Melding am y gwaith maent wedi'i wneud ar y pwnc hwn. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, fel y dywedodd Rhodri Glyn, ein bod yn nodi'r camau sydd wedi'u cymryd yng Nghymru ynghlych y sefyllfa hon. Hefyd, mae'n werth nodi bod cryn dipyn o dristwch ynghylch y ffaith ein bod, rhyw 20 mlynedd ymlaen, yn dal i sôn am broblemau yn ymwneud â diffygion awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill o ran ymdrin â hyn. Mae'n anodd credu bod canllawiau cenedlaethol yn eu lle ond nad ydynt yn cael eu gweithredu yn gyson gan nifer o asiantaethau.

I, too, want to endorse what many have said in thanking Joyce Watson and David Melding for their work on this subject. I think that it is important, as Rhodri Glyn said, that we note the steps taken in Wales in this regard. It is also worth noting that there is significant sadness that we are still, after some 20 years, talking about problems with regard to the failure of local authorities and other agencies to deal with this. It is difficult to believe that there are national guidelines in place but that they are not consistently implemented by many agencies.

Fel y dywedodd Joyce Watson, mae rhai o'r ystadegau yn syfrdanol. Mae 221 o blant o dan ofal cynghorau sir wedi mynd ar goll. Mae yna blant unigol sydd wedi mynd ar goll mwy nag 20 o weithiau mewn rhai achosion. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn tristáu wrth glywed y ffigur hwnnw. Fel y dywedodd Mark Isherwood, mae enghreifftiau o rai siroedd lle mae mwy na 15% o'r plant sydd dan eu gofal wedi mynd ar goll dros y cyfnod.

As Joyce Watson said, some of the statistics are astounding. A total of 221 children in the care of county councils have gone missing. In some cases, individual children have gone missing more than 20 times. I am sure that we are all saddened by that figure. As Mark Isherwood said, there are examples of some counties where more than 15% of the children in their care have gone missing over the period.

Bûm yn meddwl yn ôl wrth baratoi'r anerchiad hwn y prynhawn yma dros fy nghyfnod fel rhiant corfforaethol am ryw 10 mlynedd yng nghyngor sir Wrecsam. Nid wyf yn cofio un adeg pan oedd unrhyw ffigur yn cael ei nodi ynglŷn â'r plant a oedd wedi mynd ar goll tra'u bod o dan ofal y cyngor sir. Rhaid gofyn y cwestiwn, os nad yw'r wybodaeth honno ar gael i gynghorwyr sy'n gweithredu fel rhieni corfforaethol, sut yn union maent yn ymwneud â'u cyfrifoldebau?

In preparing my speech for this afternoon, I have been thinking back over my 10 years as a corporate parent in Wrexham county council. I cannot recall a single occasion when a figure was given with regard to the children who had gone missing while under the care of the county council. The question must be asked: if that information is not available to councillors in their role as corporate parents, how exactly are they dealing with their responsibilities?

Mae'n syndod hefyd bod mwy na chwarter y 5,900 o blant —mwy na 1,200 ohonynt—yn cael eu symud allan o'u cynefin a'u sir ac nad yw'r wybodaeth sydd gan y cyngor sir hwnnw amdanynt yn cael ei drosglwyddo i'r cyngor sir arall, hyd yn oed o fewn Cymru, lle mae'r un protocol i fod i gael ei weithredu gan gynghorau sir. Nid yw'r diffyg cydweithio hwn rhwng cynghorau sir yn dderbyniol. Y prynhawn yma, rwyf eisiau clywed pa fath o weithredu sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, os yw'n ymwybodol o'r methiannau hyn.

It is also surprising that more than a quarter of the 5,900 children—more than 1,200 children—are moved away from their locality and out of their county and that the information held is not shared with the new council, even within Wales, where the same protocol is meant to be operated by all councils. This lack of collaboration between county councils is unacceptable. This afternoon, I want to hear what steps are being taken by the Welsh Government if it is aware of these failings.

Rwyf hefyd yn cofio sefyllfa lle'r oeddwn, am ryw bedair blynedd, yn trafod gyda'r heddlu drosglwyddo gwybodaeth rhwng y cyngor sir a'r heddlu, i'r ddau gyfeiriad. Roedd rhwystredigaeth lwyr ei bod yn cymryd pedair blynedd i'r trafodaethau hynny gael unrhyw fath o lwyddiant. Rwyf ar ddeall yn awr bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r drafodaeth honno rhwng cynghorau sir y gogledd a'r heddlu, gan nad oes symud wedi bod ar y pwnc o fewn y pedair neu bum mlynedd diwethaf.

I also remember a situation where, for about four years, I was discussing with the police the transfer of information, in both directions, between the police and the council. There was a great deal of frustration that it took four years for those to bear fruit. I now understand that the Welsh Government is funding that discussion between the police and councils in north Wales, as there has been no progress on the issue for the last four or five years.

Mae byrddau diogelu plant wedi cael eu sefydlu ar draws Cymru, ac eto mae'r wybodaeth gan Barnardo's yn awgrymu nad oes tystiolaeth yn cael ei rhannu rhwng y byrddau, a hefyd nad oes data yn cael eu casglu ar lefel leol, lle mae'r asiantaethau sydd yn cydweithio'n ymwybodol o faint y broblem ar lawr gwlad.

Safeguarding children boards have been set up across Wales, yet information from Barnardo's suggests that evidence is not being shared between boards, and that data are not being collected at a local level, where the agencies that are working together know the extent of the problem on the ground.

Mae hefyd yn syndod, wrth ddarllen yr adroddiad, bod nifer o bobl broffesiynol o fewn y maes gofal plant nad ydynt yn ymwybodol o'r cyswllt rhwng y plant sydd yn rhedeg i ffwrdd a'r rhai sydd yn cael eu hecsploetio'n rhywiol.

It is also surprising, from reading the report, that a number of childcare professionals are unaware of the link between children who run away and those who are sexually exploited.

Felly, mae'n syndod, ar ôl i ni gael y canllawiau cenedlaethol, bod diffyg cyd-fynd â'r canllawiau. Rwy'n meddwl ei bod yn bryd inni ofyn i'r Llywodraeth beth yn union y mae'n mynd i'w wneud. Nid oes gwerth inni ofyn i'r heddlu ac asiantaethau eraill erlyn y bobl hyn unwaith bod y peth wedi digwydd: dylem wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw'r weithred yn digwydd yn y lle cyntaf.

So, it is surprising that, even though we have national guidelines, they are not being complied with. I think that it is about time that we asked the Government what exactly it intends to do. There is no point our asking the police and other agencies to prosecute these people retrospectively: we should do everything within our power to prevent these things from happening in the first place.

15:41

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

I welcome the opportunity to discuss these important issues, and I thank Joyce Watson and all Members for their valuable contributions this afternoon. Ensuring the safety of young people is of paramount importance to the Welsh Government.

Croesawaf y cyfle i drafod y materion pwysig hyn, a diolchaf i Joyce Watson a'r holl Aelodau am eu cyfraniadau gwerthfawr y prynhawn yma. Mae sicrhau diogelwch pobl ifanc o'r pwys mwyaf i Lywodraeth Cymru.

I ymateb i Rhodri Glyn Thomas ac Aled Roberts, rwyf yn cytuno â chi bod gan blant hawl i fod yn ddiogel, i gael eu hamddiffyn ac i gael eu clywed.

To respond to Rhodri Glyn Thomas and Aled Roberts, I agree with you that children have a right to be safe, to be protected, and to be heard.

Local authorities and their partners have a duty to safeguard and promote the welfare of children and must ensure that robust arrangements are in place, especially when children go missing. The Welsh Government is committed to placements close to home wherever possible. Children should only be placed out of area if it is considered to be in the child's best interests.

Mae gan awdurdodau lleol a'u partneriaid ddyletswydd i ddiogelu a hybu lles plant a rhaid iddynt sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith, yn enwedig pan fydd plant yn mynd ar goll. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau y caiff plant eu lleoli'n agos i gartref lle bynnag y bo'n bosibl. Dim ond os ystyrir ei fod er budd y plentyn y dylid ei leoli y tu allan i'r ardal.

We have strengthened arrangements for the health, education and wellbeing of looked-after children, including those placed out of area. Local authorities must secure a sufficient range of placements to meet the needs of their local population. Some local authorities have identified areas for improvement and are being supported by the Care and Social Services Inspectorate Wales to take immediate action.

Rydym wedi atgyfnerthu trefniadau ar gyfer iechyd, addysg a lles plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rhai a leolir y tu allan i'r ardal. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau amrywiaeth digonol o leoliadau i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol. Mae rhai awdurdodau lleol wedi nodi meysydd i'w gwella ac yn cael eu cefnogi gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i weithredu ar unwaith.

When children do go missing, the all-Wales protocol on missing children, agreed by key statutory agencies, defines the action that should be taken. I am aware of the concerns, raised by Joyce Watson and all of you this afternoon, that local authorities are not yet fully implementing the protocol. The Care and Social Services Inspectorate Wales, however, reports that protocols are being followed and I am assured that CSSIW inspection regimes will ensure continuous improvement in these areas. These inspection regimes must also provide reports on some of the issues raised this afternoon.

Pan fydd plant yn mynd ar goll, mae'r protocol Cymru gyfan ar blant coll, y cytunwyd arno gan asiantaethau statudol allweddol, yn diffinio'r camau y dylid eu cymryd. Rwy'n ymwybodol o'r pryderon, a godwyd gan Joyce Watson a phob un ohonoch y prynhawn yma, nad yw awdurdodau lleol eto'n gweithredu'r protocol yn llawn. Fodd bynnag, dywed Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, fod protocolau yn cael eu dilyn a chaf sicrwydd y bydd cyfundrefnau arolygu AGGCC yn sicrhau gwelliant parhaus yn y meysydd hyn. Rhaid i'r cyfundrefnau arolygu hyn hefyd ddarparu adroddiadau ar rai o'r materion a godwyd y prynhawn yma.

Effective and co-ordinated action is essential. The police, social services, and those in the residential children's homes and fostering sectors, all have a critical role. The Gwent missing children project is an example of a new and innovative way to safeguard and protect children and young people who go missing. The project represents collaboration at its best, and I take Jenny Rathbone's point here that children must always be at the centre of our thinking. This is public services coming together to improve the way we respond to, and support, the most vulnerable people in society. I understand that the project is already seeing dramatic reductions in the number of children going missing repeatedly. In the first three months, the number of repeat reports reduced by 50%.

Mae camau gweithredu effeithiol a chydgysylltiedig yn hanfodol. Mae gan yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, a'r rhai mewn cartrefi plant preswyl a'r sectorau maethu, i gyd ran hollbwysig i'w chwarae. Mae prosiect plant coll Gwent yn enghraifft o ffordd newydd ac arloesol o ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll. Mae'r prosiect yn cynrychioli cydweithio ar ei orau, a derbyniaf bwynt Jenny Rathbone yma fod yn rhaid i blant fod wrth wraidd ein ffordd o feddwl bob amser. Dyma enghraifft o wasanaethau cyhoeddus yn dod ynghyd i wella'r ffordd rydym yn ymateb i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac yn eu cefnogi. Deallaf fod y prosiect eisoes yn gweld gostyngiadau sylweddol yn nifer y plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro. Yn ystod y tri mis cyntaf, gwelwyd nifer yr achosion o blant a oedd yn mynd ar goll dro ar ôl tro yn gostwng 50%.

These early figures are encouraging. However, a formal evaluation to properly understand the impact the new approach is having and why, will be essential. I recognise all too well that children and young people who do go missing can fall prey to those who wish to sexually exploit them. Sexual exploitation is an extremely uncomfortable thought for many. It is shocking that children and young people in Wales fall victim to this terrible crime. However, we cannot shirk that responsibility and we have to tackle these difficult issues head on. The Welsh Government is committed to do all that it can to protect children from sexual exploitation and to support robust multi-agency action to ensure that vulnerable children are kept safe.

Mae'r ffigurau cynnar hyn yn galonogol. Fodd bynnag, bydd gwerthusiad ffurfiol i ddeall yr effaith y mae'r dull gweithredu newydd yn ei chael, a pham, yn hanfodol. Cydnabyddaf y gall plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll gael eu twyllo gan y rhai sy'n dymuno camfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae camfanteisio rhywiol yn ystyriaeth hynod anghyfforddus i lawer. Mae'n ffaith frawychus bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn dioddef y drosedd ofnadwy hon. Fodd bynnag, ni allwn osgoi'r cyfrifoldeb hwnnw a rhaid inni fynd i'r afael â'r materion anodd hyn yn uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ei gallu i amddiffyn plant rhag achosion o gamfanteisio rhywiol ac i gefnogi camau gweithredu aml-asiantaethol cadarn i sicrhau bod plant agored i niwed yn cael eu cadw'n ddiogel.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 15:46.*

*Sandy Mewies took the Chair at 15:46.*

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

In 2011, I issued national statutory guidance, 'Safeguarding Children and Young People from Sexual Exploitation', to help practitioners identify children at risk, take steps to protect them and support action against perpetrators. Barnardo's Cymru was commissioned to deliver training to support the implementation of the guidance and the all-Wales protocol on sexual exploitation, which formed part of the national child protection procedures. The all-Wales protocols on missing children and safeguarding children and young people from sexual exploitation are being reviewed by the child protection procedures group. My officials are keeping in touch with this work and are talking to key partners about measures that the Welsh Government might take to ensure that the revised protocols are implemented consistently and effectively. I take Aled Roberts's point here with regard to the role of the local safeguarding children boards, particularly the new ones that are being set up on the footprint.

Yn 2011, cyhoeddais ganllawiau statudol cenedlaethol, sef 'Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol', er mwyn helpu ymarferwyr i nodi plant sy'n wynebu risg, cymryd camau i'w hamddiffyn a chefnogi camau yn erbyn troseddwyr. Comisiynwyd Barnardo's Cymru i ddarparu hyfforddiant i gefnogi'r broses o weithredu'r canllawiau a phrotocol Cymru gyfan ar gamfanteisio rhywiol, a oedd yn rhan o'r gweithdrefnau cenedlaethol ar amddiffyn plant. Mae protocolau Cymru gyfan ar blant coll a diogelu plant a phobl ifanc rhag achosion o gamfanteisio rhywiol yn cael eu hadolygu gan y grŵp gweithdrefnau amddiffyn plant. Mae fy swyddogion yn cadw mewn cysylltiad â'r gwaith hwn ac yn siarad â phartneriaid allweddol am fesurau y gallai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau y caiff y protocolau diwygiedig eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol. Derbyniaf bwynt Aled Roberts yma mewn perthynas â rôl y byrddau lleol diogelu plant, yn enwedig y rhai newydd sy'n cael eu sefydlu ar yr ôl-troed.

The Welsh Government and Barnardo's have also worked collaboratively to develop the leaflet 'Sexual Exploitation: Sex Secrets and Lies', which I was pleased to launch in Cardiff in October. Mark Isherwood made reference to Barnardo's conference last week. I commend this leaflet to you. It raises awareness of the dangers of sexual exploitation. Children and young people, some of whom who were sexually exploited themselves, were instrumental in its development. Jenny Rathbone has made the point here about the roles of schools and colleges, and we must see to it that the existence of this leaflet is widely known and that it is distributed widely. It will help young people to recognise the signs of grooming and advises them of how they can keep themselves safe and where to find further support and information. It also helps young people to understand how to avoid putting themselves into risky and potentially dangerous situations. I have written to all key safeguarding agencies about the leaflet. I hope that they will do all they can to make sure that vulnerable young people have access to it.

Mae Llywodraeth Cymru a Barnardo's hefyd wedi cydweithio i ddatblygu'r daflen 'Camfanteisio Rhywiol: Rhyw, Cyfrinachau a Chelwyddau', yr oeddwn yn falch o'i lansio yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Cyfeiriodd Mark Isherwood at gynhadledd Barnardo's yr wythnos diwethaf. Cymeradwyaf y daflen hon ichi. Mae'n codi ymwybyddiaeth o beryglon camfanteisio rhywiol. Bu plant a phobl ifanc, yr oedd rhai ohonynt wedi profi achosion o gamfanteisio rhywiol eu hunain, yn allweddol wrth ei datblygu. Cyfeiriodd Jenny Rathbone yma at rolau ysgolion a cholegau, a rhaid inni sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i fodolaeth y daflen hon ac y caiff ei dosbarthu'n eang. Bydd yn helpu pobl ifanc i nodi pobl sy'n ceisio meithrin perthynas amhriodol â hwy ac yn rhoi cyngor iddynt ar sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel a ble i ddod o hyd i gymorth a gwybodaeth bellach. Mae hefyd yn helpu pobl ifanc i ddeall sut i osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd sy'n peri risg ac a allai fod yn beryglus. Rwyf wedi ysgrifennu at yr holl asiantaethau diogelu allweddol am y daflen. Gobeithio y byddant yn gwneud popeth posibl i sicrhau bod pobl ifanc agored i niwed yn gallu cael gafael arni.

Members will be very well aware that the Social Services and Well-being (Wales) Bill is currently before the National Assembly, and this will further strengthen arrangements for the placement, safeguarding and protection of children and young people.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol iawn o'r ffaith bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd, a bydd hyn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau ar gyfer lleoli, diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc.

15:48

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Joyce Watson for suggesting this debate today and pay tribute to David Melding's cross-party group on looked-after children. The NSPCC report, 'How Safe are our Children?' of April this year, reported on abuse and neglect in the UK and confirmed, as Joyce mentioned, that the hidden nature of child trafficking makes it difficult to identify the true extent of this particular crime. Not even all identified cases end up being referred to the relevant professionals. The figures that the NSPCC used in its report, which come from 2011, suggested that there were between 300 and 500 children at risk of being trafficked. However, of course, we already know, even from today's debate, that those at risk are considerably more in number than that.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am awgrymu'r ddadl hon heddiw a thalaf deyrnged i grŵp trawsbleidiol David Melding ar blant sy'n derbyn gofal. Cyfeiriodd adroddiad yr NSPCC, 'How Safe are our Children?'a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni, at gam-drin ac esgeulustod yn y DU a chadarnhaodd, fel y soniodd Joyce, fod natur gudd masnachu mewn plant yn ei gwneud hi'n anodd nodi graddau gwirioneddol y drosedd benodol hon. Nid yw'r holl achosion a nodir hyd yn oed yn cael eu hatgyfeirio yn y pen draw at y gweithwyr proffesiynol perthnasol. Awgrymodd y ffigurau a ddefnyddiodd yr NSPCC yn ei hadroddiad, sy'n deillio o 2011, fod rhwng 300 a 500 o blant yn wynebu risg o gael eu masnachu. Fodd bynnag, wrth gwrs, gwyddom eisoes, hyd yn oed o ddadl heddiw, fod nifer sylweddol fwy na'r ffigur hwnnw yn wynebu risg.

The difficulty in identifying children at risk was also confirmed by Barnardo's in its report, which has also been referred to in the debate today, in which it also confirms that were specialist expertise services exist, the issue is more likely to be recorded. The NSPCC, via referral to its own specialist service, came up with some very interesting information. It said that the criminal exploitation of trafficked children comes in various forms, particularly forced labour for an illegal activity such as cannabis cultivation—that was the main reason for trafficking—followed by benefit fraud and then sexual exploitation. However, it accepts that children in this position are likely to be exploited in all of those ways.

Cadarnhawyd yr anhawster o ran nodi plant sy'n wynebu risg hefyd gan Barnardo's yn ei adroddiad, y cyfeiriwyd ato hefyd yn y ddadl heddiw, lle mae hefyd yn cadarnhau bod y mater yn fwy tebygol o gael ei gofnodi os yw gwasanaethau arbenigol yn bodoli. Casglodd yr NSPCC, drwy gyfeirio at ei gwasanaeth arbenigol ei hun, rywfaint o wybodaeth ddiddorol iawn. Dywedodd fod sawl ffordd o gamfanteisio'n droseddol ar blant a fasnachwyd, yn enwedig llafur gorfodol ar gyfer gweithgarwch anghyfreithlon fel amaethu canabis—dyna oedd y prif reswm dros fasnachu—wedi'i ddilyn gan dwyll budd-daliadau a chamfanteisio rhywiol. Fodd bynnag, derbynnir ei bod yn debygol y cam-fanteisir ar blant yn y sefyllfa hon ym mhob un o'r ffyrdd hynny.

Controversially, it found that three-quarters of these children are from Asian or African backgrounds and the remaining quarter are, more or less, from Europe, with Vietnam, Nigeria and Romania being the most strongly represented. Members, I am talking about children here and if particular children are at particular risk, I do not care where they come from and I do not care about the nationality of those who abet their trafficking; I care about stopping the abuse, and if that means targeting resources in the most effective way, I will not support political sensitivity getting in the way of protecting children.

Yn ddadleuol ddigon, canfuwyd bod tri chwarter y plant hyn yn perthyn i gefndiroedd Asiaidd neu Affricanaidd a bod y chwarter sy'n weddill, fwy neu lai, yn dod o Ewrop, gyda Fietnam, Nigeria a Romania yn cael eu cynrychioli fwyaf. Aelodau, rwy'n sôn am blant yma ac os yw plant penodol yn wynebu risg benodol, nid wyf yn poeni o ble y dônt, ac nid wyf yn poeni am genedligrwydd y rhai sy'n helpu i fasnachu ynddynt; yr hyn sy'n bwysig imi yw atal y cam-drin, ac os yw hynny'n golygu targedu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol, ni ddylai sensitifrwydd gwleidyddol atal plant rhag cael eu hamddiffyn.

The UK remains, according to the United Nations, the level 1 target destination for traffickers and level 2 as a transit country. Therefore, while we are looking at children going missing from care today, I do not want us to overlook the wider picture portrayed by the NSPCC, because Wales is part of the UK and we must be vigilant about becoming a safe haven for victims and a no-go area for exploiters.

Erys y DU, yn ôl y Cenhedloedd Unedig, yn gyrchfan darged lefel 1 i fasnachwyr ac yn gyrchfan darged lefel 2 fel gwlad gludo. Felly, er mai ystyried plant sy'n mynd ar goll o ofal a wnawn heddiw, nid wyf am inni anwybyddu'r darlun ehangach a bortreadir gan yr NSPCC, oherwydd mae Cymru'n rhan o'r DU a rhaid inni fod yn wyliadwrus o ran dod yn hafan ddiogel i ddioddefwyr ac yn wlad na fyddai masnachwyr yn meiddio dod iddi.

In her opening remarks, Joyce made the central point of this debate that if we fail to hold local authorities to account about taking their eye off these children, failing to report who goes missing and failing to collect the data about that, then we, as an Assembly, are culpable for leaving vulnerable children exposed to risk, because we hold local authorities to account. Mark Isherwood was right to call this scandalous, because those risks genuinely are hideous. When you hear that even babies are going missing, you cannot but shudder, remembering the appalling evidence that we have heard this week in the case of Ian Watkins.

Yn ei sylwadau agoriadol, nododd Joyce bwynt canolog y ddadl hon drwy ddweud, os byddwn yn methu â dwyn awdurdodau lleol i gyfrif am beidio â goruchwylio'r plant hyn, yn methu â chofnodi pwy sy'n mynd ar goll ac yn methu â chasglu'r data am hynny, yna rydym ni, fel Cynulliad, yn gyfrifol am beri risg i blant sy'n agored i niwed, gan ein bod yn dwyn awdurdodau lleol i gyfrif. Roedd Mark Isherwood yn iawn i alw hyn yn warthus, oherwydd mae'r risgiau hynny yn wirioneddol erchyll. Pan fyddwch yn clywed bod hyd yn oed fabanod yn mynd ar goll, ni all ond godi ias arnoch, gan gofio'r dystiolaeth ofnadwy yr ydym wedi ei chlywed yr wythnos hon yn achos Ian Watkins.

Jenny Rathbone's observation on peer abuse within groups must not be overlooked. People will be very nervous about reporting or even discussing suspicions when it concerns people they know. Even a child going missing from school should be something to alert us and I hope, Deputy Minister, that your leaflet will be very effective. However, I go back to Joyce's point that, if there is any doubt about the importance of advocacy—and how long must we sing that song, Deputy Minister—the importance of protection for whistleblowers and the importance of whistleblowers being taken seriously, then surely this debate has dispelled those doubts. Children have the right to safety, as Rhodri Glyn Thomas pointed out.

Ni ddylid anwybyddu sylwadau Jenny Rathbone ar gam-drin cyfoedion o fewn grwpiau. Bydd pobl yn nerfus iawn am nodi neu hyd yn oed drafod amheuon pan fyddant yn ymwneud â phobl y maent yn eu hadnabod. Dylai hyd yn oed blentyn sy'n mynd ar goll o'r ysgol fod yn rhywbeth i'n rhybuddio a gobeithio, Ddirprwy Weinidog, y bydd eich taflen yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, dychwelaf at bwynt Joyce a nododd, os oes unrhyw amheuaeth ynghylch pwysigrwydd eiriolaeth—a pha mor hir y mae'n rhaid inni ganu'r gân honno, Ddirprwy Weinidog—pwysigrwydd diogelu chwythwyr chwiban a phwysigrwydd cymryd chwythwyr chwiban o ddifrif, yna onid yw'r ddadl hon wedi chwalu'r amheuon hynny. Mae gan blant yr hawl i fod yn ddiogel, fel y nododd Rhodri Glyn Thomas.

I recognise that there is financial pressure on councils, but that cannot be an excuse to forget about children placed across county boundaries. Aled Roberts was right to build on this point and to identify that councillors themselves cannot fulfil their corporate parenting duties properly if they are not given information by their officers. As a result of this debate, every councillor in Wales should now know that they have questions to ask of their officers to help them to stop that invisibility and absence from happening in the first place.

Cydnabyddaf fod pwysau ariannol ar gynghorau, ond ni all hynny fod yn esgus dros anghofio am blant a leolir dros ffiniau sirol. Roedd Aled Roberts yn iawn i ymhelaethu ar y pwynt hwn ac i nodi na all cynghorwyr eu hunain gyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol yn briodol oni chânt wybodaeth gan eu swyddogion. O ganlyniad i'r ddadl hon, dylai pob cynghorydd yng Nghymru wybod bellach fod ganddo gwestiynau i'w gofyn i'w swyddogion er mwyn atal yr anweledigrwydd a'r absenoldeb hwnnw yn y lle cyntaf.

I would like to thank the Deputy Minister for reiterating that the safety of children is a Welsh Government priority. It is probably fairer to say that it is a National Assembly priority. However, it was important for you, Deputy Minister, to reiterate that local authorities have a duty to these children and a duty to implement your protocol—albeit subject to revision—that the Welsh Government has put in place to protect those children. Regrettably, Deputy Minister, some CSSIW reports that I have seen are less than rigorous, and I hope that you will continue to exercise quality control over those reports as well as the reports of local authorities themselves.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ailadrodd bod diogelwch plant yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n debyg ei bod yn decach dweud ei bod yn flaenoriaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd yn bwysig ichi, Ddirprwy Weinidog, ailadrodd y ffaith bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i'r plant hyn a dyletswydd i weithredu eich protocol—er ei fod yn destun adolygiad—a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i amddiffyn y plant hynny. Yn anffodus, Ddirprwy Weinidog, mae rhai o'r adroddiadau yr wyf wedi'u gweld gan AGGCC yn bell o fod yn drylwyr, a gobeithiaf y byddwch yn parhau i reoli ansawdd yr adroddiadau hynny yn ogystal ag adroddiadau'r awdurdodau lleol eu hunain.

I would like to finish by saying that professionals in residential homes are supposed to act like parents, as indeed foster parents are. Placing a child in residential or foster care is not, as you said, Joyce, a job well done or job over; that is just the beginning. I would like, at the end of this debate, to remind us all that the EU has certain responsibilities and ideas with regard to child protection, too, and I hope that those are being mainstreamed into the kind of policy development that you are considering, Deputy Minister.

Hoffwn orffen drwy ddweud y dylai gweithwyr proffesiynol mewn cartrefi preswyl fod yn gweithredu fel rhieni, fel, yn wir, y mae rhieni maeth. Nid yw rhoi plentyn mewn gofal preswyl neu faeth, fel y dywedasoch, Joyce, yn ddiwedd ar y mater; megis dechrau yw hynny. Hoffwn, ar ddiwedd y ddadl hon, atgoffa pob un ohonom fod gan yr UE gyfrifoldebau a syniadau penodol o ran amddiffyn plant hefyd, a gobeithiaf fod y cyfrifoldebau hynny'n cael eu prif-ffrydio i mewn i'r math o broses datblygu polisi yr ydych yn ei hystyried, Ddirprwy Weinidog.

15:54 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Darlledu Cyhoeddus

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.*

## Welsh Conservatives Debate: Public Service Broadcasting

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Elin Jones, and amendments 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5380 William Graham

Motion NDM5380 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod:

1. Recognises:

a) pwysigrwydd y BBC ym mywyd Cymru fel rhan o'r cyfryngau amrywiol;

a) the importance of the BBC, in Welsh life as part of a pluralistic media;

b) yr angen i adnewyddu'r siarter sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli presennol a'r setliad datganoli sy'n datblygu; a

b) the need for charter renewal which reflects the current and developing devolution settlement; and

c) y cyfraniad arloesol y mae'r BBC a darlledwyr cyhoeddus eraill yn ei wneud i ddiwylliant Cymru, y Gymraeg a'r economi.

c) the innovative contribution that the BBC and other public service broadcasters make to Welsh culture, the Welsh language and the economy.

15:55 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I thank everyone who will be taking part in what I hope will be another thoughtful and open debate brought forward by the Welsh Conservatives today.

Hoffwn ddiolch i bawb a fydd yn cymryd rhan yn yr hyn a fydd, gobeithio, yn drafodaeth ystyriol ac agored arall a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig heddiw.

The relationship between this Assembly and the public service broadcasters that serve and operate in Wales is one that we have debated more than once already during this Assembly. Our exchanges here back in 2011 were built around the picture then, and already much has changed. It is that continuing change that gives me no doubt that we will be coming back to this at some point in the future.

Mae'r berthynas rhwng y Cynulliad hwn a'r darlledwyr cyhoeddus sy'n gwasanaethu ac yn gweithredu yng Nghymru yn un yr ydym wedi ei thrafod fwy nag unwaith eisoes yn ystod y Cynulliad hwn. Roedd ein trafodaethau yma nôl yn 2011 yn seiliedig ar y darlun ar y pryd, ac eisoes mae llawer wedi newid. Y newid parhaus hwnnw sy'n golygu, yn ddiau, y byddwn yn dychwelyd at hyn rywbryd yn y dyfodol.

In the last two years, we have seen a new broom at S4C, the bedding in of a funding and governance relationship between S4C and the BBC at a time of financial challenges, a separate licence for ITV and the gathering of evidence for Silk part 2. While we may raise a wry smile at the intensity and frequency with which the broadcast media likes to talk about itself, we will continue to talk about it here, too. This is not just because of its particularly powerful place in Wales's media as a whole, but because broadcasting is an industry that needs to be able to respond to the demands of a rapidly evolving Wales.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld arweinyddiaeth newydd yn S4C, cydberthynas ariannu a llywodraethu yn ymsefydlu rhwng S4C a'r BBC ar adeg o heriau ariannol, trwydded ar wahân ar gyfer ITV a thystiolaeth yn cael ei chasglu ar gyfer rhan 2 Silk. Er bod y ffordd ddwys a mynych y mae'r cyfryngau darlledu yn hoffi sôn amdanynt eu hunain yn codi gwên, byddwn yn parhau i sôn amdanynt yma, hefyd a hynny nid oherwydd ei le arbennig o rymus yng nghyfryngau Cymru yn gyffredinol, ond am fod y maes darlledu yn ddiwydiant y mae angen iddo allu ymateb i alwadau Cymru sy'n prysur ddatblygu.

In recent months, we as Welsh Conservatives have challenged the Welsh Government on its actions, not just in terms of policy but also on the question of whether those actions fell within devolved competencies. The current settlement has left some fuzzy edges in rather inconvenient places, but in the case of broadcasting, it is the very clear reservation of powers to the UK Government and duties to the UK Parliament that are beginning to cause the inconvenience. I do not want Plaid to get too overexcited about this; I have explained my position in the previous debates that I mentioned. I am therefore afraid that we cannot support amendment 2, as we do not accept that the need for the devolution of broadcasting, which is what the amendment calls for, has yet been proven. However, we see good reason why the various arguments should be tested.

Dros y misoedd diwethaf, rydym ni fel Ceidwadwyr Cymreig wedi herio Llywodraeth Cymru ar ei gweithredoedd, nid yn unig o ran polisi, ond hefyd ar y cwestiwn o ran pa un a wnaeth y camau gweithredu hynny ddod o dan gymwyseddau datganoledig. Mae'r setliad presennol wedi gadael rhai ymylon niwlog mewn mannau braidd yn anghyfleus, ond yn achos darlledu, yr hyn sy'n dechrau achosi'r anghyfleustra yw'r pwerau clir a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU a dyletswyddau i Senedd y DU. Nid wyf am i Blaid orgynhyrfu ynghylch hyn; rwyf wedi egluro fy safbwynt yn y dadleuon blaenorol a grybwyllais. Felly, ofnaf na allwn gefnogi gwelliant 2, gan nad ydym yn derbyn bod angen datganoli darlledu, sef yr hyn y mae'r gwelliant yn galw amdano, wedi ei brofi eto. Fodd bynnag, rydym yn gweld rheswm da pam y dylai'r gwahanol ddadleuon gael eu profi.

The third part of our motion just reminds Members of previous arguments that the Welsh Conservatives have made that the operational activities of public service broadcasters frequently take place on territory where this place has the legislative and policy competence. These include skills and training in our digital and other creative industries, championing the Welsh language, providing educational programmes, as well as creating and showcasing our culture activities. It is reason enough for this place to be able to take evidence from public service broadcasters.

Mae trydedd ran ein cynnig yn atgoffa Aelodau o ddadleuon blaenorol a wnaed gan y Ceidwadwyr Cymreig sef bod gweithgareddau gweithredol darlledwyr cyhoeddus yn aml yn cael eu cynnal ar diriogaeth lle mae gan y lle hwn gymhwysedd deddfwriaethol a pholisi. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau a hyfforddiant yn ein diwydiannau digidol a chreadigol eraill, hyrwyddo'r iaith Gymraeg, darparu rhaglenni addysgol, yn ogystal â chreu ac arddangos ein gweithgareddau diwylliannol. Mae'n ddigon o reswm i'r lle hwn allu ofyn i ddarlledwyr cyhoeddus roi tystiolaeth.

However, beyond that, there is no doubt that the presence of the public service broadcast media in Wales, particularly television, is a mighty and even disproportionate presence. Unlike in other parts of the UK, it is streets ahead of regional media in terms of reach. Accordingly, it must be more conscious of its increased responsibility for the influence of its journalism, whether that is examining politics in Wales or informing and challenging us as Welsh residents to look at ourselves, our communities and our place in the wider world.

Fodd bynnag, y tu hwnt i hynny, nid oes amheuaeth nad yw presenoldeb y cyfryngau darlledu cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig teledu, yn bresenoldeb grymus a hyd yn oed anghymesur. Yn wahanol i rannau eraill o'r DU, mae ymhell ar y blaen i gyfryngau rhanbarthol o ran cyrhaeddiad. Yn unol â hynny, rhaid iddo fod yn fwy ymwybodol o'i gyfrifoldeb cynyddol am ddylanwad ei newyddiaduraeth, boed hynny yn edrych ar wleidyddiaeth yng Nghymru, neu ein hysbysu a'n herio fel trigolion Cymru i edrych arnom ni ein hunain, ein cymunedau a'n lle yn y byd ehangach.

Of our public service broadcasters, the BBC is by far the largest, and must be aware of its singular position of power in Wales. That is why, although this debate discusses all public service broadcasters, the first two parts of this motion do not shy away from the fact that it is the BBC that dominates current affairs reporting in both languages in Wales. However, it has no obligation to give account of its management and spending decisions here directly to the people of Wales.

O blith ein darlledwyr cyhoeddus, y BBC o bell ffordd yw'r mwyaf, a rhaid iddo fod yn ymwybodol o'i rym unigryw yng Nghymru. Dyna pam, er bod y ddadl hon yn trafod pob gwasanaeth cyhoeddus, nid yw'r ddwy ran gyntaf o'r cynnig hwn yn osgoi'r ffaith mai'r BBC sy'n tra-arglwyddiaethu ym maes materion cyfoes yn y ddwy iaith yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rwymedigaeth arno i roi cyfrif am ei benderfyniadau rheoli a gwario yma yn uniongyrchol i bobl Cymru.

The argument that public service broadcasters, particularly the BBC, should come to give account of themselves to this Assembly has been made in the Chamber before, and appears again in amendment 3. Although there is still a discussion to be had about how and how often, I will not allow that detail to prevent us supporting that amendment today. I hope that the Government will also support it, for in 2011 your predecessor, Minister, was plain that he considered that this Assembly represented the democratic voice of Wales rather than the Department for Culture, Media and Sport, and that he would continue to press DCMS to see that broadcasters in Wales reflected the needs of Wales. So, how much easier would you find it to do that, Minister, if you were joined by the voice of this Assembly, rather than speaking just as a Minister? How much easier would it be for that Assembly voice to have weight if it were able to scrutinise broadcasters formally alongside Parliament? How much easier would it be for Parliament to hold broadcasters to account for their activities in our part of the UK, if it could call on evidence gathered and conclusions reached by a sister Parliament?

Mae'r ddadl y dylai darlledwyr cyhoeddus, yn enwedig y BBC, ddod i roi cyfrif amdanynt hwy eu hunain gerbron y Cynulliad hwn wedi cael ei gwneud yn y Siambr o'r blaen, ac mae'n ymddangos unwaith eto yng ngwelliant 3. Er bod trafodaeth i'w chael o hyd am sut a pha mor aml, ni fyddaf yn gadael i'r manylion hynny ein hatal rhag cefnogi'r gwelliant hwnnw heddiw. Gobeithio y bydd y Llywodraeth hefyd yn ei gefnogi, oherwydd yn 2011 roedd eich rhagflaenydd, Weinidog, yn amlwg yn credu mai'r Cynulliad hwn sy'n cynrychioli llais democrataidd Cymru yn hytrach na'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac y byddai'n parhau i bwyso ar yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod darlledwyr yng Nghymru yn adlewyrchu anghenion Cymru. Felly, oni fyddai'n haws i chi ei wneud, Weinidog, pe bai llais y Cynulliad hwn yn ymuno â chi, yn hytrach na siarad fel Gweinidog yn unig? Oni fyddai'n haws i'r llais hwnnw gan y Cynulliad fod o bwys pe bai'n gallu craffu ar ddarlledwyr yn ffurfiol ochr yn ochr â'r Senedd? Oni fyddai'n haws i'r Senedd ddwyn darlledwyr i gyfrif am eu gweithgareddau yn ein rhan ni o'r DU, pe gallai alw ar dystiolaeth a gasglwyd a chasgliadau y daethpwyd iddynt gan chwaer-Senedd?

So, let us consider going further than Plaid's amendment 3. Let us work on the basis that in holding broadcasters to account, Parliament perhaps will not give its work in Wales the attention that we believe that it needs in view of Wales's rapidly evolving needs. Let the Assembly help with that scrutiny. Let us start with the BBC and modernising the terms of the charter to accommodate the diverse demands of a UK that has devolved some responsibilities to some of its constituent nations. My understanding is that both DCMS and the BBC are open to that conversation. So, I call on you, Minister, to have that conversation.

Felly, gadewch inni ystyried mynd ymhellach na gwelliant 3 Plaid Cymru. Gadewch inni weithio ar y sail na fydd y Senedd efallai, wrth ddwyn darlledwyr i gyfrif, yn rhoi'r sylw i'w gwaith yng Nghymru sydd ei angen, yn ein barn ni, o gofio anghenion Cymru sy'n prysur ddatblygu. Gadewch i'r Cynulliad helpu gyda'r broses graffu honno. Gadewch inni ddechrau gyda'r BBC a moderneiddio telerau'r siarter i ddarparu ar gyfer gofynion amrywiol y DU sydd wedi datganoli rhai cyfrifoldebau i rai o'i gwledydd cyfansoddol. Yn ôl a ddeallaf, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC yn agored i'r sgwrs honno. Felly, galwaf arnoch, Weinidog, i gael y sgwrs honno.

One advantage of this idea is that it does not diminish the role of Parliament in holding public service broadcasters to account. So, there is no need—to use that word—to consider further devolution at this stage. Another advantage is that it tests the strengths and weaknesses of the current arrangements to gather evidence about the pros and cons of the ideas—for example, those put forward by the Liberal Democrats in their amendment. So, I am sorry, Peter, we cannot support your amendments today because they put the cart before the horse. All three ask for new powers for the Welsh Government, and that is a call for devolution supported by principle rather than evidence. The Welsh Conservative position would allow the Assembly to gather evidence on whether your proposed changes would be good for Wales. Furthermore, amendment 5 is unclear in what it means by 'greater involvement' and 'senior positions', which would have made it tricky to support anyway.

Un o fanteision y syniad hwn yw nad yw'n lleihau rôl y Senedd o ran dwyn darlledwyr cyhoeddus i gyfrif. Felly, nid oes angen—gan ddefnyddio'r gair hwnnw—ystyried datganoli pellach ar hyn o bryd. Mantais arall yw ei fod yn profi cryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol i gasglu tystiolaeth am fanteision ac anfanteision y syniadau—er enghraifft, y rhai a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn eu gwelliant. Felly, mae'n ddrwg gennyf, Peter, na allwn gefnogi eich gwelliannau heddiw am eu bod yn rhoi'r cart o flaen y ceffyl. Mae'r tri yn gofyn am bwerau newydd i Lywodraeth Cymru, ac mae hynny'n alwad am ddatganoli a gefnogir gan egwyddor yn hytrach na thystiolaeth. Byddai cynnig y Ceidwadwyr Cymreig yn caniatáu i'r Cynulliad gasglu tystiolaeth ynghylch a fyddai eich newidiadau arfaethedig o fudd i Gymru. Ar ben hynny, mae gwelliant 5 yn aneglur o ran ystyr 'mwy o gyfranogiad' ac 'uwch swyddi', a fyddai wedi ei gwneud yn anodd i'w gefnogi beth bynnag.

16:01 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you accept that there has been, in fact, a full sub-committee inquiry on this particular issue, which actually came to these conclusions having taken a wide range of evidence? Therefore, your call evidence before you decide on these motions is possibly a bit belated.

A ydych yn derbyn inni gael, mewn gwirionedd, ymchwiliad is-bwyllgor llawn i'r mater penodol hwn, a ddaeth i'r casgliadau hyn mewn gwirionedd ar ôl derbyn ystod eang o dystiolaeth? Felly, mae eich galwad am dystiolaeth cyn i chi benderfynu ar y cynigion hyn, o bosibl, ychydig yn hwyr.

16:01 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you are missing my point. The Assembly as a whole has not had an opportunity to test out some of the processes that you are calling for in your amendments. Until we get a chance to run scrutiny alongside Parliament, I find it rather difficult to accept just one committee report as the final conclusion on this.

Rydych yn camddeall fe gredaf. Nid yw'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd wedi cael cyfle i brofi rhai o'r prosesau yr ydych yn galw amdanynt yn eich gwelliannau. Hyd nes y cawn gyfle i graffu ochr yn ochr â'r Senedd, rwy'n ei chael yn anodd braidd derbyn un adroddiad pwyllgor yn unig fel y casgliad terfynol ar hyn.

Finally, we will be supporting amendment 1 because it is clear in its intention and it is an intention that we share. However, to safeguard S4C funding is an entirely new debate.

Yn olaf, byddwn yn cefnogi gwelliant 1 am ei fod yn un clir, ac mae'n fwriad a rannwn. Fodd bynnag, mae diogelu cyllid S4C yn ddadl hollol newydd.

16:02 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Presiding Officer has selected the six amendments to the motion, and I call on Bethan Jenkins to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Elin Jones.

Mae'r Llywydd wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*Add a new sub-point at end of point 1:*

*yr angen i ddiogelu cyllid priodol ar gyfer S4C.*

*the need to safeguard appropriate funding for S4C.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*Add as new sub-point at end of point 1:*

*yr angen i ddatganoli pwerau darlledu pellach i Gymru.*

*the need for further devolution of powers over broadcasting to Wales.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add a new point at end of motion:*

*Yn gwahodd BBC Cymru Wales i roi tystiolaeth yn flynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch sut y mae'n gofalu am fuddiannau pobl Cymru, a sut y mae'n adlewyrchu'r setliad datganoli presennol sy'n newid.*

*Invites BBC Wales to give yearly evidence to the National Assembly on how it is serving the interests of the people of Wales, and how it is reflecting the current and changing devolved settlement.*

16:02 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3.

I move amendments 1, 2 and 3.

Diolch i'r Torïaid am ddod â'r ddadl hon gerbron y Siambr heddiw. O ran gwelliant 1, rwy'n meddwl y gallwn ni i gyd gytuno yma heddiw fod S4C wedi datblygu ers yr adeg gythryblus sbel yn ôl, er bod y gyllideb wedi cael ei thorri o draean—neu 36% mewn termau real—dros gyfnod o bedair blynedd. Cyhoeddwyd toriadau pellach ar ôl datganiad hydref y Canghellor y llynedd a datganiad cyllideb y gwanwyn yn 2013, tra bod y DCMS wedi cadarnhau y bydd y cyfraniad ar gyfer 2015-16 yn aros ar yr un lefel y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod beth fydd y DCMS yn cyfrannu ar gyfer 2016-17 ymlaen. Mae S4C yn gwneud arbedion, ond mae'n bwysig mesur yr hyn sydd yn y fantol pan nad ydym yn gwybod pa gyllid sydd ar gael yn y dyfodol. Roedd gwariant S4C o £63.7 miliwn ar raglenni a chynnwys yn 2012 wedi mynd at gwmnïau annibynnol yng Nghymru, a chafodd hyn effaith economaidd ychwanegol o £60.5 miliwn, a chyfanswm effaith economaidd o £124.3 miliwn i'r diwydiannau creadigol. Mae hynny hefyd wedi golygu 2,011 o swyddi llawn amser yma yng Nghymru.

I thank the Tories for bringing this debate to the Chamber this afternoon. In terms of amendment 1, I think that we can all agree today that S4C has developed since the troubled times some months ago, even though the budget has been cut by a third—or 36% in real terms—over a period of four years. Further cuts were announced after the Chancellor's autumn statement last year and the spring budget statement in 2013, while DCMS has confirmed that the contribution for 2015-16 will stay at the same level next year. At present, we do not know what DCMS will contribute for 2016-17 onwards. S4C is making savings, but it is important to measure what is in the balance given that we do not know what funding will be available in the future. S4C's expenditure of £63.7 million on programming and content in 2012 went to independent companies in Wales, having an additional economic impact of £60.5 million, and a total economic impact of £124.3 million for the creative industries. This has also led to 2,011 full-time jobs here in Wales.

Fodd bynnag, nid dim ond swyddi ac arian sy'n bwysig yn y drafodaeth am S4C. Mae rhaglenni fel 'Y Gwyll' wedi dangos bod y sianel wedi ailddarganfod ei 'mojo', ac mae cynulleidfaoedd yn cytuno. Roedd mwy na 5 miliwn o bobl yn gwylio S4C y llynedd, ac roedd 3.3 miliwn ohonynt yn gwylio o'r tu allan i Gymru. Gyda 'Y Gwyll' eisoes wedi cael ei gwerthu i BBC Four a'r darlledwr o Ddenmarc, DR, mae allbwn creadigol y sianel yn mynd y ffordd iawn. Er hyn, mae S4C yn hollol ymwybodol o fy nghonsýrn i a chonsýrn nifer o Aelodau Cynulliad eraill fod angen iddi edrych ar ei hallbwn i bobl ifanc, yn enwedig pobl yn eu harddegau, nad ydynt ar hyn o bryd yn gwylio'r sianel yn aml iawn, os o gwbl.

However, it is not just money and jobs that are important in the debate about S4C. Programmes such as 'Y Gwyll' have demonstrated that the channel has found its mojo once again, and audiences agree. More than 5 million people watched S4C last year, and 3.3 million of them from outside Wales. With 'Y Gwyll' already sold to BBC Four and the Danish broadcaster DR, the creative output of the channel is moving in the right direction. Despite this, S4C is entirely aware of my concern, and the concern of many other Assembly Members, that it needs to look at its output for young people, particularly for teenagers, who currently do not watch the channel very often, if at all.

O ran gwelliant 2, mae barn Plaid Cymru ar ddatganoli darlledu yn adnabyddus. Yn wir, y tro diwethaf imi godi hyn, dywedodd y Gweinidog diwylliant ar y pryd, Huw Lewis, ein bod yn gwthio yn erbyn drws agored pan fyddwn yn trafod hyn gyda Llywodraeth Cymru. Mae rhesymau economaidd, diwylliannol a democrataidd cryf dros drosglwyddo rheolaeth dros deledu a radio i Gymru. Os ydym wedi ymrwymo i wneud gwaith yn y Cynulliad er lles Cymru, rhaid inni gael mwy o graffu a mwy o sylw yn y cyfryngau yma yng Nghymru. Mae Cynulliad gyda mwy o bwerau ond llai o ffocws yn creu paradocs democrataidd. Mae toriadau i rai rhaglenni gwleidyddol BBC Cymru yn ddiweddar yn dangos hynny, yn anffodus.

In terms of amendment 2, Plaid Cymru's view on the devolution of broadcasting powers is well known. Indeed, the last time that I raised this issue, the Minister for culture at the time, Huw Lewis, said that we were pushing at an open door when discussing this issue with the Welsh Government. There are strong economic, cultural and democratic reasons for transferring control over television and radio to Wales. If we are committed to working in the Assembly for the benefit of the whole of Wales, we need greater scrutiny and greater coverage in the media here in Wales. The Assembly with more powers but less focus actually creates a democratic paradox. There are cuts to some political output from BBC Wales that demonstrate just that, unfortunately.

Byddai cymryd rheolaeth dros ddarlledu yn rhoi cyfle i ddarparu gwell rhaglenni ac atebolrwydd i gynulleidfaoedd Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid i arian ddod ynghyd â datganoli pwerau o'r fath, ond hoffem archwilio'r potensial ar gyfer ffïoedd trwydded a fydd yn cael eu codi yng Nghymru ac yn cael eu rhoi i BBC Cymru fel canlyniad i hynny.

Taking control of broadcasting would give us an opportunity to provide better programming and accountability for Welsh audiences. We appreciate the fact that money would have to come along with the devolution of such powers, but we would like to look at the potential for licence fees charged in Wales to be provided to BBC Wales as a result of that.

Bydd datganoli holl bwerau darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu sector darlledu Cymru a fydd yn gwasanaethu anghenion Cymru, oherwydd, 14 mlynedd yn ddiweddarach, ac er gwaethaf barn BBC Cymru, nid yw'r BBC yn Llundain eto wedi llwyr addasu i ddatganoli. Gyda refferendwm yn yr Alban a datganiadau gan Alex Salmond am siâp a ffurf y BBC mewn Alban annibynnol, mae'n bwysig ein bod ni'n dechrau trafod y materion hyn o ddifrif yma yng Nghymru.

Devolving all powers over broadcasting to the National Assembly for Wales would secure a Welsh broadcasting sector that would actually serve the needs of the people of Wales, because, 14 years on, and despite the view of BBC Wales, the BBC in London has not yet fully adapted to devolution. With the Scottish referendum and statements by Alex Salmond about the shape and form of the BBC in an independent Scotland, it is important that we start to debate these issues seriously in Wales.

O ran gwelliant 3, rydym yn gweld ei fod yn dilyn yn naturiol o gynnig gwreiddiol y Ceidwadwyr. Mae'r allbwn sy'n cael ei greu yng Nghymru ar BBC Cymru yn parhau i ostwng, gan gynnwys allbwn newyddion a materion cyfoes. Mae gwariant y BBC ar raglenni Saesneg yng Nghymru hefyd yn parhau i ostwng—rhywbeth a ddylai peri pryder i ni i gyd. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn credu ei bod yn briodol bod uwch-swyddogion BBC Cymru yn ymddangos yn flynyddol gerbron Aelodau'r Cynulliad, fel y gallwn ni eu holi am eu blaenoriaethau i'r cyhoedd, gan nad yw'r swyddogion hynny'n uniongyrchol yn ymatebol i ni yma yng Nghymru, ond i uwch-swyddogion yn Llundain.

In terms of amendment 3, we believe that it follows on naturally from the Conservatives' original motion. The output created in Wales on BBC Wales continues to reduce, including news and current affairs output. The BBC's expenditure on English-language programming in Wales also continues to fall—something that should be a cause of concern for us all. In such circumstances, we believe that it is appropriate that senior officials from BBC Wales should appear annually before Assembly Members, so that we can question them on their priorities on behalf of the public, given that those officials are not directly accountable to us here in Wales, but to senior officials in London.

Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig i nodi rôl y Llywodraeth yn hynny o beth. Yn fy marn bitw i, nid wyf yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o 'emphasis' ar ddarlledu fel rhan o brif raglen y Llywodraeth. Roeddwn yn siarad â nifer o bobl yn y sector yn ddiweddar, ac maen nhw'n gofyn i'r Llywodraeth, 'Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r paneli diwydiannau creadigol? Beth sy'n digwydd i roi darlledu ar flaen yr agenda wleidyddol yma yng Nghymru?' Dim digon. Rwy'n credu gyda datganiadau gan Hargreaves a datganiadau cryf gan bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad hwn, mae angen i'r Llywodraeth fod yn fwy gweithredol yn y sector hwn er mwyn tyfu'r sector diwylliannol yma yng Nghymru.

I also believe that it is important that we note the role of the Government in this regard. In my humble opinion, I do not think that the Welsh Government has placed adequate emphasis on broadcasting as part of the Government's main programme. I have been talking to many people in the sector recently, and they are asking the Government, 'What's happening at the moment in terms of the creative industries panels? What's happening to put broadcasting on top of the political agenda in Wales?' Not enough. I think that with statements from Hargreaves and strong statements from all political parties in this Assembly, the Government needs to be far more proactive within this sector in order to develop this cultural sector here in Wales.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am benodi aelodau Cymru y BBC ac Ofcom.*

*Believes the Welsh Government should be responsible for the appointment of Welsh members of the BBC and Ofcom.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael mwy o ran yn y broses o benodi pobl i swyddi uwch yn S4C.*

*Believes the Welsh Government should have greater involvement in appointments for senior positions within S4C.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylai trwyddedu radio cymunedol gael ei ddatganoli i Gymru.*

*Believes community radio licensing should be devolved to Wales.*

16:07

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

I thank the Conservatives for bringing this debate to us today. We appreciate that the motion recognises the positive contribution of the BBC, and a need for involvement, so that it might represent and reflect a devolved Wales. I think that that is very important. I am relieved that they have not managed to reflect what was in the alternative Queen's speech, in in which it is proposed that the BBC should be privatised. Clearly, that is something that is unpalatable, even for the Welsh Conservatives opposite me today.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddadl hon inni heddiw. Gwerthfawrogwn fod y cynnig yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol y BBC, a'r angen i ymwneud, fel y gallai gynrychioli ac adlewyrchu Cymru ddatganoledig. Credaf fod hynny'n bwysig iawn. Rwy'n falch nad ydynt wedi llwyddo i adlewyrchu'r hyn a oedd yn araith amgen y Frenhines, lle y cynigiwyd y dylai'r BBC gael ei breifateiddio. Yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth sy'n annymunol, hyd yn oed i'r Ceidwadwyr Cymreig gyferbyn â mi heddiw.

I referred in my intervention to Suzy Davies that we had had a committee report already on this. In actual fact, there have been two committee reports looking at broadcasting in Wales, which took a wide range of evidence from across the creative industries in Wales, including the broadcasters themselves. The first one had Michael Grade in front of us —

Cyfeiriais yn fy ymyriad i Suzy Davies ein bod wedi cael adroddiad pwyllgor eisoes ar hyn. Mewn gwirionedd, bu dau adroddiad pwyllgor yn edrych ar ddarlledu yng Nghymru, a gymerodd ystod eang o dystiolaeth o bob rhan o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan gynnwys y darlledwyr eu hunain. Yn yr un cyntaf daeth Michael Grade ger ein bron-

16:08 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:08 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a second. The first one had Michael Grade in front of us when he was in charge of ITV. Following those reports, we have had two Plenary debates. So, what I have put in front of you in amendments 4, 5 and 6 very much reflects what was in those reports and is based on the evidence that came before the committee as part of those reports.

Mewn eiliad. Yn yr un cyntaf daeth Michael Grade ger ein bron pan oedd yn gyfrifol am ITV. Yn dilyn yr adroddiadau hynny, rydym wedi cael dwy ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Felly, mae'r hyn yr wyf wedi ei roi o'ch blaenau yng ngwelliannau 4, 5 a 6 yn adlewyrchu i raddau helaeth iawn yr hyn a oedd yn yr adroddiadau hynny ac mae'n seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth gerbron y pwyllgor fel rhan o'r adroddiadau hynny.

16:08 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. I do not want to minimise the importance of those reports, but the point that I was trying to make is that the evidence that was given about the problems that exist at the moment were evidenced by things that had already happened—they could bring material information to those inquiries. However, the alternatives were supported only by opinion. Our alternative suggestions today allow that opinion to be supported by evidence that can be grown by doing it this way.

Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad. Nid wyf am fychanu pwysigrwydd yr adroddiadau hynny, ond y pwynt yr oeddwn yn ceisio'i wneud yw bod y dystiolaeth a roddwyd am y problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn seiliedig ar bethau a oedd eisoes wedi digwydd¾gallent gyflwyno gwybodaeth berthnasol i'r ymchwiliadau hynny. Fodd bynnag, dim ond gan farn yr ategwyd y dewisiadau amgen. Mae ein hawgrymiadau amgen heddiw yn caniatáu i'r farn honno gael ei hategu gan dystiolaeth y gellir ei datblygu drwy ei gwneud yn y modd hwn.

16:09 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your motion does not actually say anything to that effect at all. It just notes the fact that we have the BBC and that it is very diverse, et cetera.

Nid yw eich cynnig mewn gwirionedd yn dweud dim byd i'r perwyl hwnnw. Mae ond yn nodi'r ffaith bod gennym y BBC a'i fod yn amrywiol iawn, ac ati.

The important thing here is that, if we are going to have broadcasters in Wales accountable to this Assembly, that is fine—and I totally agree with all three Plaid Cymru amendments—as we need to have them reporting to committee and being scrutinised by committee. However, if you are going to have a proper level of accountability, you have to have some say over how those bodies are being run. That is why, in amendment 1, we have talked about the Welsh Government being responsible for the Welsh members of the BBC and Ofcom. In amendment 5, we talk about the Welsh Government having great involvement in the appointments to senior positions within S4C. Those people, at the moment, are appointed by the UK Government, and one of the things that we discovered when we looked at this in some detail—it is partly responsible, as well, for the debacle around S4C funding at the beginning of the coalition Government's term—is that there is very little scrutiny of Welsh broadcasting going on in DCMS. It is more of an afterthought, and when they came to look at the funding, particularly for S4C, civil servants were saying, 'It's S4C, we don't look at that properly'. They did not give it proper scrutiny. Very little scrutiny goes on in Parliament. If you are going to have scrutiny of Welsh broadcasting, the only place that it is going to work effectively is in the Assembly, and if you are going to have accountability, the only way that you are going to have accountability is if it is to the Welsh Government and, through the Welsh Government, to the Assembly. It seems to me that the only way that you are going to achieve that is if you have some solid handle on appointments in relation to how Wales is represented on those bodies.

Y peth pwysig yma yw, os ydym am gael darlledwyr yng Nghymru sy'n atebol i'r Cynulliad hwn, mae hynny'n iawn¾a chytunaf yn llwyr â thri gwelliant Plaid Cymru¾gan fod angen inni sicrhau eu bod yn cyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor a bod y pwyllgor yn craffu arnynt. Fodd bynnag, os ydych am gael lefel briodol o atebolrwydd, rhaid ichi gael rhywfaint o ddylanwad dros y modd y caiff y cyrff hynny eu rhedeg. Dyna pam, yng ngwelliant 1, rydym wedi sôn am Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am aelodau Cymreig y BBC ac Ofcom. Yng ngwelliant 5, rydym yn sôn am Lywodraeth Cymru yn chwarae rhan fawr yn y penodiadau i uwch swyddi yn S4C. Penodir y bobl hynny, ar hyn o bryd, gan Lywodraeth y DU, ac un o'r pethau a ganfuwyd gennym pan edrychwyd ar hyn yn eithaf manwl—mae'n rhannol gyfrifol, hefyd, am yr helbulon ynghylch ariannu S4C ar ddechrau tymor y Llywodraeth glymblaid hon—yw mai prin yw'r craffu a wneir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ddarlledu yng Nghymru. Ôl-ystyriaeth ydyw, i ryw raddau, a phan ddaeth yr adeg i ystyried y cyllid, yn enwedig ar gyfer S4C, roedd gweision sifil yn dweud, 'S4C ydyw, nid ydym yn edrych ar hynny yn iawn'. Ni chraffwyd yn briodol arno. Prin iawn yw'r craffu a wneir yn y Senedd. Os ydych yn mynd i graffu ar ddarlledu yng Nghymru, yr unig fan lle y bydd hynny yn gweithio'n effeithiol yw yn y Cynulliad, ac os ydych yn mynd i gael atebolrwydd, yr unig ffordd yr ydych yn mynd i gael atebolrwydd yw os mai i Lywodraeth Cymru y mae'n atebol a, thrwy Lywodraeth Cymru, i'r Cynulliad. Ymddengys i mi mai'r unig ffordd y byddwch yn cyflawni hynny yw drwy gael rhywfaint o reolaeth gadarn dros benodiadau o ran sut y caiff Cymru ei chynrychioli ar y cyrff hynny.

16:10

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

On the Welsh Government making appointments, I am undecided on that, because I would lean more towards supporting an independent situation in terms of appointing people to the BBC, not so much under Welsh Government control. I wondered whether you could expand on that.

O ran sefyllfa lle mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penodiadau, nid wyf wedi penderfynu ar hynny, oherwydd byddwn yn gwyro mwy tuag at gefnogi sefyllfa annibynnol o ran penodi pobl i'r BBC, nid yn gymaint o dan reolaeth Llywodraeth Cymru. Tybed a allech ymhelaethu ar hynny.

16:11

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We chose the Welsh Government because, of course, the appointments, at the moment, are UK Government appointments, as opposed to being independent, so it is right to reflect that these are Government appointments. I think that we could have a discussion about whether they should be independent appointments, but, of course, there are independent appointees in the BBC and, I think, S4C as well. Therefore, that is covered in that regard.

Dewiswyd Llywodraeth Cymru gennym oherwydd, wrth gwrs, penodiadau Llywodraeth y DU yw'r penodiadau, ar hyn o bryd, yn hytrach na rhai annibynnol, felly mae'n briodol nodi mai penodiadau'r Llywodraeth yw'r rhain. Credaf y gallem gael trafodaeth ynghylch a ddylent fod yn benodiadau annibynnol, ond, wrth gwrs, mae penodeion annibynnol yn y BBC ac, fe gredaf, yn S4C hefyd. Felly, caiff hynny ei gynnwys yn hynny o beth.

*Suzy Davies a gododd—*

*Suzy Davis rose—*

16:11

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I want to make some progress, Suzy, if I can. If I could refer to amendment 6, one of the issues raised in the investigation was about community radio licensing. It is very much a regime that is designed for England, so the scope of the community radio station or how wide a community radio signal goes is based on the centre of Birmingham as opposed to, for example, the Valleys of south Wales. I think that it is very important that we have a Welsh perspective on that.

Rwyf am fwrw ymlaen, Suzy, os gallaf. Os caf gyfeirio at welliant 6, un o'r materion a godwyd yn yr ymchwiliad oedd un yn ymwneud â thrwyddedu radio cymunedol. Mae'n gyfundrefn a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr i raddau helaeth, felly mae cwmpas yr orsaf radio gymunedol neu pa mor eang y ceir signal radio cymunedol yn seiliedig ar ganol Birmingham yn hytrach na Chymoedd de Cymru, er enghraifft. Credaf ei bod yn bwysig iawn bod gennym safbwynt Cymreig ar hynny.

I am running out of time, so I am just going to make some quick comments about the Plaid Cymru amendments. We very much support the need to safeguard the appropriate funding for S4C and very much support the idea of having BBC Wales and ITV Wales, and S4C for that matter, giving regular evidence to Assembly committees. In fact, when we took evidence in those committees, all of them said that they were prepared to do that; I think that it is just a matter of us inviting them here. I support amendment 2 because it says

Mae fy amser yn dod i ben, felly hoffwn wneud ychydig o sylwadau cyflym am welliannau Plaid Cymru. Rydym yn gefnogol iawn i'r angen am ddiogelu'r cyllid priodol ar gyfer S4C ac yn gefnogol iawn i'r syniad bod BBC Cymru ac ITV Cymru, ac S4C yn hynny o beth, yn rhoi tystiolaeth reolaidd i bwyllgorau'r Cynulliad. Yn wir, pan gymerwyd tystiolaeth gennym yn y pwyllgorau hynny, dywedodd pob un ohonynt eu bod yn barod i wneud hynny; credaf mai'r cyfan sydd angen ei wneud yw eu gwahodd yma. Cefnogaf welliant 2 oherwydd mae'n dweud

'further devolution of powers over broadcasting'

'datganoli pwerau darlledu pellach'

and does not say 'full devolution of powers over broadcasting'. In that regard, amendment 2 very much reflects what we have in amendments 4, 5 and 6. I think that a debate about full devolution would have to be had in a wider context, but that certainly was not the conclusion of the Silk commission that looked at this issue.

ac nid yw'n dweud 'datganoli pwerau darlledu yn llawn'. Yn hynny o beth, mae gwelliant 2 yn adlewyrchu i raddau helaeth yr hyn sydd gennym yng ngwelliannau 4, 5 a 6. Credaf y byddai'n rhaid i ddadl am ddatganoli llawn fod mewn cyd-destun ehangach, ond yn sicr nid hynny oedd casgliad comisiwn Silk a edrychodd ar y mater hwn.

16:12

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to take part in this debate this afternoon on the BBC in Wales. The BBC annual report for 2012-13 showed a strong performance by BBC Cymru Wales, both in Wales and across the BBC network channels. It went on to say that the studios at Roath Lock made another record contribution to BBC network drama. 'Doctor Who', 'Casualty', 'Sherlock', 'Atlantis' and 'Merlin' are just some of the critically acclaimed dramas made by BBC Wales. I recently had the opportunity to visit and tour the Roath Lock studios, which provide a purpose-built home for 'Doctor Who' and 'Casualty' as well as the Welsh-language drama 'Pobol y Cwm' among its nine studios. These programmes and others provide great economic benefits to Wales. In 2011-12, BBC expenditure in Wales of £154 million generated a gross average of £276,000. This is a fantastic achievement by the BBC.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma ar y BBC yng Nghymru. Dangosodd adroddiad blynyddol y BBC ar gyfer 2012-13 berfformiad cryf gan BBC Cymru, yma yng Nghymru ac ar draws sianelau rhwydwaith y BBC. Aeth ymlaen i ddweud bod y stiwdios ym Mhorth y Rhath wedi gwneud cyfraniad neilltuol arall i ddrama rhwydwaith y BBC. Dim ond rhai o'r dramâu a wnaed gan BBC Cymru ac a gafodd eu canmol yn fawr yw 'Doctor Who', 'Casualty', 'Sherlock', 'Atlantis' a 'Merlin'. Yn ddiweddar, cefais y cyfle i ymweld â stiwdios Porth y Rhath a mynd o'u hamgylch, sy'n gartref pwrpasol ar gyfer 'Doctor Who' a 'Casualty' yn ogystal â'r ddrama Gymraeg 'Pobol y Cwm' yn ei naw stiwdio. Mae'r rhaglenni hyn ac eraill yn rhoi manteision economaidd mawr i Gymru. Yn 2011-12, gwnaeth gwariant y BBC o £154 miliwn gynhyrchu cyfartaledd gros o £276,000. Mae hyn yn gyflawniad gwych gan y BBC.

Coverage of digital audio broadcasting on both Radio Wales and Radio Cymru increased by 25% according to the latest report. New transmitters—[Inaudible.]—18,000 new listeners to tune into Radio Wales FM, although serious concern remains about the overall lack of digital audio broadcasting in Wales. The main sources of Welsh-language broadcasting are Radio Cymru and, of course, S4C. The new operating agreement between the BBC Trust and the S4C authority secures S4C editorial, managerial and operational independence, while setting out accountability to the trust for the funding of the services.

Gwnaeth darllediadau sain digidol ar Radio Wales a Radio Cymru gynyddu 25% yn ôl yr adroddiad diweddaraf. Trosglwyddyddion newydd— [Anghlywadwy.]—18,000 o wrandawyr newydd yn gwrando ar Radio Wales FM, er bod pryderon mawr yn parhau ynghylch y diffyg darlledu sain digidol yn gyffredinol yng Nghymru. Prif ffynonellau darlledu Cymraeg yw Radio Cymru ac, wrth gwrs, S4C. Mae'r cytundeb gweithredu newydd rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C yn sicrhau annibyniaeth olygyddol, rheolaethol a gweithredol i S4C, tra'n nodi atebolrwydd i'r ymddiriedolaeth am ariannu'r gwasanaethau.

S4C receives £76 million of direct funding from the BBC. This is spent through BBC Cymru and some independent producers. Since its establishment by the Conservative Government in 1982, S4C has invested over £2.2 billion into the Welsh economy. It is a fantastic figure, Plaid Cymru. So, S4C continues to play an important role in broadcasting to Welsh-speaking communities, and I hope that it will continue to do so in the future.

Mae S4C yn cael £76 miliwn o gyllid uniongyrchol gan y BBC. Caiff hyn ei wario drwy BBC Cymru a rhai cynhyrchwyr annibynnol. Ers i S4C gael ei sefydlu gan y Llywodraeth Geidwadol yn 1982, mae wedi buddsoddi dros £2.2 biliwn yn economi Cymru. Plaid Cymru, mae'n ffigur gwych. Felly, mae S4C yn parhau i chwarae rhan bwysig mewn darlledu i gymunedau Cymraeg eu hiaith, a gobeithio y bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

The contribution that the BBC makes to Welsh culture, the Welsh language and the Welsh economy is not in dispute here. The question for us now is how to make BBC Wales more accountable to the people of Wales. The BBC operates under a royal charter, which is renewed every 10 years. The current charter expires at the end of December 2016. As part of its remit, part 2 of the Silk commission is looking at broadcasting to see whether or not it should be fully devolved. Wholesale devolution of broadcasting incurs a serious financial commitment, and we cannot prejudice the outcome of the Silk commission in this regard. However, it is appropriate that this Assembly should have the power to scrutinise and hold accountable the BBC Trust in Wales. This would be done alongside, and not in place of, Westminster, thereby increasing accountability and scrutiny of the BBC.

Nid oes amheuaeth ynghylch y cyfraniad a wna'r BBC i ddiwylliant Cymru, yr iaith Gymraeg ac economi Cymru. Y cwestiwn inni yn awr yw sut i wneud BBC Cymru yn fwy atebol i bobl Cymru. Mae'r BBC yn gweithredu yn unol â siarter frenhinol, a adnewyddir bob 10 mlynedd. Mae'r siarter gyfredol yn dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2016. Fel rhan o'i gylch gwaith, mae rhan 2 comisiwn Silk yn edrych ar ddarlledu i weld a ddylid ei ddatganoli yn llawn ai peidio. Mae datganoli darlledu yn llawn yn golygu ymrwymiad ariannol difrifol, ac ni allwn achub y blaen ar ganlyniad comisiwn Silk yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae'n briodol bod y Cynulliad hwn yn cael y pŵer i graffu a dwyn Ymddiriedolaeth y BBC i gyfrif yng Nghymru. Câi hyn ei wneud ochr yn ochr â San Steffan ac nid yn lle San Steffan, gan gynyddu atebolrwydd a systemau craffu'r BBC.

Last May, a task and finish group at the Assembly recommended the establishment of an independent group to advise on policy in relation to the media in Wales. Surprisingly, the Welsh Government rejected this. I believe that it is time for the Assembly to apply the same checks and balances to the BBC in Wales that are applied in the United Kingdom—or in England. With free, fair and fearless journalism, the BBC is doing a great service, not nationally, but internationally. Lord Patten is also a great chairman, who is doing a wonderful job for the BBC, not in Wales but all around the United Kingdom.

Fis Mai diwethaf, argymhellodd grŵp gorchwyl a gorffen yn y Cynulliad y dylid sefydlu grŵp annibynnol i gynghori ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru. Yn rhyfedd iawn, gwrthododd Llywodraeth Cymru hyn. Credaf ei bod yn bryd i'r Cynulliad gymhwyso'r un trefniadau pwyso a gwrthbwyso i'r BBC yng Nghymru ag a gymhwysir yn y Deyrnas Unedig—neu yn Lloegr. Gyda newyddiaduraeth ddi-dâl, sy'n deg ac yn ddi-ofn, mae'r BBC yn rhoi gwasanaeth gwych, nid yn genedlaethol, ond yn rhyngwladol. Mae'r Arglwydd Patten hefyd yn gadeirydd gwych, ac yn gwneud gwaith gwych i'r BBC, nid yng Nghymru, ond ledled y Deyrnas Unedig.

Finally, my point is that the BBC employs 23,000 employees all over the United Kingdom, with 3% to 5% from ethnic minorities in this country. Our representation in this job sector is definitely not achieved, which is the area that we have to look for.

Yn olaf, fy mhwynt yw bod y BBC yn cyflogi 23,000 o weithwyr ledled y Deyrnas Unedig, gyda 3% i 5% o leiafrifoedd ethnig yn y wlad hon. Yn bendant ni chyflawnir ein cynrychiolaeth yn y sector swyddi hwn, sef yr hyn y mae'n rhaid inni anelu ato.

16:17

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma hefyd, ac rwy'n derbyn cynnig y Ceidwadwyr. Rwy'n cydnabod rôl allweddol ac eang y BBC, gyda bron i 1 miliwn o wylwyr ar raglenni Saesneg BBC Cymru a 468,000 o wrandawyr ar Radio Cymru. Mae hynny'n dangos gwirionedd hyn.

I am also pleased to contribute to this debate this afternoon, and I accept the Conservatives' motion. We acknowledge the fundamental and wide-ranging role of the BBC, with nearly 1 million viewers of English programmes produced by BBC Wales, and 468,000 listeners for Radio Cymru. This shows the reality of the situation.

Rwy'n derbyn bod y sefyllfa ariannol yn anodd, a bydd yn heriol cynnal ansawdd, ond mae'r BBC i'w weld yn llwyddo. Cyn belled ag y bo'r economi yn y cwestiwn—ac mae Oscar newydd ddweud hyn—clywsom fod S4C wedi bod gwerth £2.2 biliwn i economi Cymru a bod pob £1 a wariwyd ar y sianel yn dod â budd o £2. Mae ffigurau pellach yn dangos bod yr un peth yn wir am BBC Cymru.

I accept that the financial situation is difficult and that it will be challenging to maintain quality, but the BBC seems to be succeeding. As far as the economy is concerned—and as Oscar has just said—we heard that S4C is worth £2.2 billion to the Welsh economy, and that every £1 spent on the channel attracts £2. Further figures show that the same is true for BBC Wales.

Mae'r sefyllfa ieithyddol yn heriol hefyd, ond rwy'n falch o weld cyfraniad y BBC. Yn amlwg, mae darpariaeth Gymraeg y BBC yn cael effaith fuddiol ar yr iaith, yn enwedig i'r rhai hynny sy'n gwylio neu'n gwrando. O fewn teuluoedd, er enghraifft, neu dai a chymunedau Cymraeg, mae'n chwarae rôl bwysig iawn. Gallwch wneud pa bynnag ddefnydd ohono—teledu, radio, cyfryngau cymdeithasol neu gyfrifiaduron.

The linguistic situation is also challenging, but I am pleased to see the BBC's contribution. It is evident that the BBC's Welsh provision has a beneficial effect on the language, particularly for those who view or listen. Within families, for example, in Welsh-language homes and communities, it plays an extremely important role. You can make whatever use you want of it—television, radio, social media or computers.

Rwyf am ddweud dau beth am yr iaith. Yn gyntaf, nid yn unig mae'r BBC yn cynhyrchu rhaglenni Cymraeg i S4C, ond—fel y dywedodd Bethan Jenkins—mae hefyd yn buddsoddi ar y cyd ag S4C, ac yn cynhyrchu rhaglenni fel 'Y Gwyll/Hinterland', a fydd o werth mawr i ni yng Nghymru. Yn ail, o ran datblygiadau digidol, ar gyfartaledd roedd 20,000 o ddefnyddwyr yr wythnos wedi ymweld â gwefannau Cymraeg y BBC y llynedd, gan godi i 35,000 eleni. Y bwriad yw codi hynny i 50,000 yr wythnos erbyn diwedd 2014. Rwy'n falch felly o longyfarch y BBC ar ei waith o gefnogi'r iaith, ac rwy'n cefnogi'r ddadl y prynhawn yma.

I wish to say two things about the language. First, it is good to see that not only does the BBC produce Welsh-language programmes for S4C, but—as Bethan Jenkins said earlier—it also invests jointly with S4C in producing such programmes as 'Y Gwyll/Hinterland', which will be of great value to us in Wales. Secondly, in terms of digital developments, on average, 20,000 users per week visited the BBC's Welsh websites last year, rising to 35,000 this year. The intention is to increase that to 50,000 a week by the end of 2014. I am pleased, therefore, to congratulate the BBC on its work of supporting the language, and I support the debate this afternoon.

16:20 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A point made eloquently by our Presiding Officer recently is that Wales is suffering a democratic deficit, whereby the people of Wales, probably without realising it, find themselves quite disenfranchised from the democratic processes of accountability in our political system. In a study by the Institute of Welsh Affairs, it was revealed that some 85% of people in Wales access their media from a London-based source. I know from my own ward that people have their aerials pointing the wrong way, as I often say, to the north-west of England, thereby missing out on fantastic Welsh programmes and picking up English news and channels only. All of this makes it less likely that they are engaged in and informed about matters of crucial importance to them. When the White Paper for Scottish independence was published, that made front-page headlines across the UK. Compare that with the exciting announcement that Wales is to receive further devolution of powers, which was not considered newsworthy enough to grace even the first few pages in the UK media.

Pwynt a wnaed yn huawdl gan ein Llywydd yn ddiweddar yw bod Cymru yn dioddef diffyg democrataidd, lle mae pobl Cymru, yn ddiarwybod yn ôl pob tebyg, mewn sefyllfa lle y maent wedi eu difreinio o brosesau democrataidd atebolrwydd yn ein system wleidyddol. Mewn astudiaeth gan y Sefydliad Materion Cymreig, datgelwyd bod tua 85% o bobl yng Nghymru yn dewis eu cyfryngau o ffynhonnell yn Llundain. Gwn o'm ward fy hun fod gan bobl erialau wedi'u troii'r cyfeiriad anghywir, fel y dywedaf yn aml, i ogledd-orllewin Lloegr, sy'n golygu na allant fanteisio ar raglenni Cymreig gwych a'u bod yn derbyn newyddion a sianelau Lloegr yn unig. Mae hyn i gyd yn ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn ymddiddori mewn materion sy'n hollbwysig iddynt ac yn cael eu hysbysu am faterion o'r fath. Pan gyhoeddwyd y Papur Gwyn ar annibyniaeth i'r Alban, ymddangosodd ar benawdau tudalennau blaen ledled y DU. Cymharwch hynny â'r cyhoeddiad cyffrous bod Cymru yn mynd i gael rhagor o bwerau, nas ystyriwyd yn rhywbeth a oedd yn werth rhoi sylw iddo hyd yn oed ar yr ychydig dudalennau cyntaf ym mhapurau'r DU.

As a fully democratic institution, it is vital that we have an informed public, able to receive and absorb Wales-centric information. We, too, wish to avoid sleepwalking into a situation where news that affects the lives of the people of Wales is not readily available and accessible. We must recognise the innovative contribution of the BBC and other public service broadcasters to our Welsh culture, our Welsh language and the economy. They really are a huge component in Wales, and very important to providing plurality and innovation—BBC Wales, S4C, various radio stations, and the BBC Wales website. The BBC Wales website alone receives over 2.5 million unique visitors every week. I have to say that ITV Wales does it for me—the 'Sharp End' being an excellent example of how they engage and reach out to the audience as regards democratic information and accountability.

Fel sefydliad gwirioneddol ddemocrataidd, mae'n hanfodol bod gennym gyhoedd gwybodus, sy'n gallu derbyn a deall gwybodaeth sy'n ganolog i Gymru. Rydym ni hefyd, am osgoi cerdded yn ddiarwybod i mewn i sefyllfa lle nad yw newyddion sy'n effeithio ar fywydau pobl Cymru ar gael yn hawdd ac yn hygyrch. Rhaid inni gydnabod cyfraniad arloesol y BBC a darlledwyr cyhoeddus eraill i'n diwylliant Cymreig, ein hiaith Gymraeg a'r economi. Maent yn wir yn rhan enfawr yng Nghymru, ac yn bwysig iawn o ran lluosogrwydd ac arloesedd—BBC Cymru, S4C, gwahanol orsafoedd radio, a gwefan BBC Cymru. Mae gwefan BBC Cymru yn unig yn derbyn dros 2.5 miliwn o ymwelwyr unigryw bob wythnos. Mae'n rhaid imi ddweud mai ITV Cymru sy'n rhagori i mi—mae'r 'Sharp End' yn enghraifft ardderchog o'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'r gynulleidfa ac yn estyn allan ati o ran gwybodaeth ac atebolrwydd democrataidd.

As a group, we strongly believe in the promotion of plurality in the Welsh news media. As identified by the Hargreaves review, maintaining plurality in news provision, in terms of broadcasting and community-based news, will be a vital challenge in the coming years. The review highlighted how the loss of a strong commercial news alternative to the BBC would prove detrimental to news output and the ability to develop our commercial marketing industries. As a member of the Communities, Equality and Local Government Committee, I took part in the task and finish group on the future outlook of the media in Wales. The group felt it vital to preserve the current public service broadcast provisions in the channel 3 licence relating to Wales, and any reduction, it was felt, would have a significant and negative impact on the plurality of public service broadcasting in Wales, echoing the very same views expressed by Professor Hargreaves and the consultation by Ofcom. So, I welcome the fact that, from 2015, there will be a separate Welsh-specific licence for channel 3. A number of respondents to the group stressed the need for the Welsh Government to take a more proactive role in scrutinising and supporting the media in Wales. With further devolution comes the need for further accountability, which can be provided by the presence of a pluralistic media.

Fel grŵp, credwn yn gryf mewn hyrwyddo lluosogrwydd yn y cyfryngau newyddion yng Nghymru. Fel y'i nodwyd gan adolygiad Hargreaves, bydd cynnal lluosogrwydd mewn darpariaeth newyddion, o ran darlledu a newyddion yn y gymuned, yn her hollbwysig yn y blynyddoedd i ddod. Tynnodd yr adolygiad sylw at sut y byddai colli sianel newyddion fasnachol gref amgen yn lle'r BBC yn niweidiol i allbwn newyddion a'r gallu i ddatblygu ein diwydiannau marchnata masnachol. Fel aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, cymerais ran yn y grŵp gorchwyl a gorffen ar ragolygon y cyfryngau yng Nghymru yn y dyfodol. Teimlai'r grŵp ei bod yn hanfodol gwarchod y darpariaethau darlledu cyhoeddus presennol yn nhrwydded sianel 3 sy'n ymwneud â Chymru, a theimlid y byddai unrhyw leihad yn cael effaith sylweddol a negyddol ar luosogrwydd darlledu cyhoeddus yng Nghymru, gan adleisio'r union un farn a fynegwyd gan yr Athro Hargreaves a'r ymgynghoriad gan Ofcom. Felly, croesawaf y ffaith y bydd trwydded wahanol yn benodol i Gymru ar gyfer sianel 3 o 2015. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr i'r grŵp yr angen i Lywodraeth Cymru ymgymryd â rôl fwy rhagweithiol o ran craffu ar y cyfryngau yng Nghymru a'u cefnogi. Gyda datganoli pellach daw'r angen am atebolrwydd pellach, y gall presenoldeb cyfryngau lluoseddol ei roi.

The Welsh Conservatives want to see greater accountability over the public service broadcasting responsibilities of those media outlets that have a significant presence in Wales. We believe that increasing the level of scrutiny will challenge media providers to up their game in providing coverage of Welsh political matters. The same applies to those who access news in the Welsh language. Some 81% of adults who speak Welsh reported watching S4C. Furthermore, 131,000 people in Wales listen to Radio Cymru every month. We should be ensuring that these audiences, too, have access to a plurality of news sources. It is not our intention to remove scrutiny powers from Parliament. Rather, it is to have a complimentary system of scrutiny that enables this Assembly to hold public service broadcasters to greater levels of account against their responsibility to encourage a well-informed public. Wales should have the ability to scrutinise the BBC Trust and the way in which it spends its public service broadcast money. We do not want to pre-empt or over-rule editorial decisions, as a free press is vital to democracy, but the very English-centric focus of the media means that people in Wales are not receiving an adequate return on their licence fee. The Welsh Conservatives want to see the directors or chair of the BBC Trust being held to account before a scrutiny committee of the Assembly. We believe that the renewal of the BBC charter in 2017 provides an excellent opportunity. It is only by securing this that we will increase interest, drive participation and promote true Welsh democracy.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld mwy o atebolrwydd am gyfrifoldebau darlledu cyhoeddus y darparwyr cyfryngol hynny sydd â phresenoldeb mawr yng Nghymru. Credwn y bydd mwy o graffu yn herio darparwyr y cyfryngau i roi mwy o sylw i faterion gwleidyddol yng Nghymru. Mae'r un peth yn wir am y rhai sy'n gweld y newyddion yn Gymraeg. Dywedodd tua 81% o oedolion sy'n siarad Cymraeg eu bod yn gwylio S4C. At hynny, mae 131,000 o bobl yng Nghymru yn gwrando ar Radio Cymru bob mis. Dylem fod yn sicrhau bod gan y cynulleidfaoedd hyn, hefyd, fynediad at lu o ffynonellau newyddion. Nid ein bwriad yw cael gwared ar bwerau craffu gan y Senedd. Yn hytrach, y nod yw cael system graffu gyflenwol sy'n galluogi'r Cynulliad hwn i ddwyn darlledwyr cyhoeddus i gyfrif yn well yn erbyn eu cyfrifoldeb i annog cyhoedd gwybodus. Dylai Cymru feddu ar y gallu i graffu ar Ymddiriedolaeth y BBC a'r ffordd y mae'n gwario ei harian darlledu cyhoeddus. Nid ydym am achub y blaen ar benderfyniadau golygyddol na'u gwrthod, gan fod gwasg rydd yn hollbwysig i ddemocratiaeth, ond mae ffocws y cyfryngau ar Loegr yn golygu nad yw pobl yng Nghymru yn cael budd digonol o ffi'r drwydded. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld cyfarwyddwr neu gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC yn cael eu dwyn i gyfrif gerbron pwyllgor craffu'r Cynulliad. Credwn y bydd adnewyddu Siarter y BBC yn 2017 yn gyfle gwych. Dim ond drwy sicrhau hyn y byddwn yn ennyn mwy o ddiddordeb, yn hybu cyfranogi ac yn hyrwyddo democratiaeth wirioneddol Gymreig.

16:25

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is 20 years ago this year that I joined the staff of the BBC in London as the corporation's head of public affairs. At that time, the BBC was at the same stage of its charter renewal as it is at the present time. I will say a word about that in a minute.

Ugain mlynedd yn ôl i eleni ymunais â staff y BBC yn Llundain fel pennaeth materion cyhoeddus y gorfforaeth. Ar y pryd, roedd y BBC ar yr un cam yn y broses o adnewyddu ei siarter ag y mae ar hyn o bryd. Dywedaf air am hynny yn y man.

Let me start by saying that I think that the creation of the BBC was the invention of the most important cultural institution in the British isles in the twentieth century. It has made a huge contribution in helping to define what is meant by Britishness and what is meant by Welshness, as Cynog Dafis reflected on in the first debate of this Assembly in its first term, which was on on the media in Wales, and as John Davies has confirmed in his book on the history of the BBC in Wales. However, it is not just at a Welsh or UK level that the BBC matters: it matters at a community level as well. In my own constituency, whether it is Vincent Kane's celebrated programmes about the Rhondda nearly 50 years ago or the engagement of BBC Wales in the digital story-telling projects that we have held in the Rhondda with local organisations, called 'Rhondda Lives', the BBC has made a real difference in helping people to tell the stories of their own communities.

Gadewch imi ddechrau drwy ddweud fy mod yn credu mai creu'r BBC oedd creu'r sefydliad diwylliannol pwysicaf ym Mhrydain yn yr ugeinfed ganrif. Mae wedi gwneud cyfraniad enfawr i'n helpu i ddiffinio ystyr Prydeindod ac ystyr Cymreictod, fel yr ystyriodd Cynog Dafis yn nadl gyntaf y Cynulliad hwn yn ei dymor cyntaf, ar y cyfryngau yng Nghymru, ac fel y mae John Davies wedi ei gadarnhau yn ei lyfr ar hanes y BBC yng Nghymru. Fodd bynnag, nid dim ond ar lefel Cymru neu'r DU y mae'r BBC yn bwysig: mae'n bwysig ar lefel gymunedol hefyd. Yn fy etholaeth i, boed yn rhaglenni enwog Vincent Kane am gwm Rhondda bron 50 mlynedd yn ôl neu ymwneud BBC Cymru â phrosiectau adrodd straeon digidol a gynhaliwyd gennym yn y Rhondda gyda sefydliadau lleol, o'r enw 'Rhondda Lives', mae'r BBC wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i helpu pobl i adrodd hanes eu cymunedau eu hunain.

The BBC has been a very important technological innovator as well, from BBC online to iPlayer. The quality programmes that it makes not only enliven and entertain us, they also, through the drama output, take Wales to the world, as we have seen recently with 'Doctor Who'. It is important, of course, in a digital era that the BBC continues to modernise but, at the same time, retains its public service values. I think that we would all agree that we have seen mistakes in recent years, which have been widely recognised. I happen to believe that Tony Hall, as the director general, is the right person to sort out the challenges that the BBC faces. I am also confident that he understands devolution and I am hopeful that he will address the shortcomings that sometimes I, for one, complain about.

Mae'r BBC wedi bod yn arloeswr technolegol pwysig iawn hefyd, o BBC ar-lein i iPlayer. Mae'r rhaglenni o safon a wneir ganddo nid yn unig yn ein bywiogi ac yn ein diddanu, maent hefyd, drwy'r allbwn drama, yn cyflwyno Cymru i'r byd, fel y gwelsom yn ddiweddar gyda 'Doctor Who'. Mae'n bwysig, wrth gwrs, mewn oes ddigidol bod y BBC yn parhau i foderneiddio, ond, ar yr un pryd, yn cadw ei werthoedd o ran gwasanaeth cyhoeddus. Credaf y byddai pob un ohonom yn cytuno ein bod wedi gweld camgymeriadau dros y blynyddoedd diwethaf, a gydnabuwyd yn eang. Rwy'n digwydd credu mai Tony Hall, fel y cyfarwyddwr cyffredinol, yw'r person cywir i ateb yr heriau a wynebir gan y BBC. Rwyf hefyd yn hyderus ei fod yn deall datganoli ac rwy'n gobeithio y bydd yn mynd i'r afael â'r diffygion yr wyf i, o'm rhan i, yn cwyno amdanynt.

I want to turn to the political context of this debate. I do not doubt the sincerity of Suzy Davies about the BBC but I worry about the approach of the Conservative Party. The recent comments by the Conservative Party chairman, Grant Schapps—sometimes, I believe, known as Michael Green—have been worrying in terms of what has been said about the potential use of the licence fee for other broadcasters or the possible loss of the licence fee by the BBC. Let us make no mistake: this has been a long-standing project of the Tory right since the Peacock report in the 1980s, and that needs to be remembered. Of course, it has already happened in respect of the funding of S4C. I still do not understand why the S4C board did not orchestrate a public campaign in Wales in 2010 against the illegal action by the UK Government to reduce its funding. I think that there could have been a national crusade in defence of the Welsh language.

Rwyf am droi at gyd-destun gwleidyddol y ddadl hon. Nid wyf yn amau didwylledd Suzy Davies ynghylch y BBC, ond pryderaf am ymagwedd y Blaid Geidwadol. Mae'r sylwadau diweddar gan gadeirydd y Blaid Geidwadol, Grant Schapps—a elwir weithiau, fe gredaf, yn Michael Green—wedi peri pryder o ran yr hyn a ddywedwyd am y defnydd posibl o ffi'r drwydded ar gyfer darlledwyr eraill, neu am y BBC yn colli ffi'r drwydded o bosibl. Na foed unrhyw gamddeall: bu hwn yn un o brosiectau hirfaith y Torïaid ers adroddiad Peacock yn y 1980au, ac mae angen cofio hynny. Wrth gwrs, mae eisoes wedi digwydd o ran ariannu S4C. Nid wyf yn deall o hyd pam na wnaeth bwrdd S4C drefnu ymgyrch gyhoeddus yng Nghymru yn 2010 yn erbyn y camau gweithredu anghyfreithlon gan Lywodraeth y DU i leihau ei chyllid. Credaf y gellid bod wedi cynnal ymgyrch genedlaethol i amddiffyn yr iaith Gymraeg.

Penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r gorau i fformiwla cyllido S4C a osodwyd mewn statud heb gynnal trafodaeth gyhoeddus effeithiol yw'r peth mwyaf niweidiol i ddigwydd i'r Gymraeg yn ystod y tair blynedd diwethaf. O ganlyniad, bydd cyllideb yr iaith o leiaf £60 miliwn yn llai dros y pum mlynedd hyd at 2014-15.

The UK Government's decision to end S4C's statutory funding formula without any effective public debate is the most detrimental thing to have happened to the Welsh language over the last three years. As a result, the budget for the language will be down at least £60 million over the three years to 2014-15.

A total of £60 million down for the Welsh language and broadcasting in Wales. So, I am afraid that the Conservative Party has form.

Cyfanswm o £60 miliwn yn llai i'r iaith Gymraeg ac i ddarlledu yng Nghymru. Felly, mae arnaf ofn fod gan y Blaid Geidwadol hanes o ran hyn.

We have seen, in recent weeks, an attempt at a softening-up exercise in respect of the BBC. There is nothing new in this. I recall that, when I was working at the BBC in the 1990s, we saw an orchestrated campaign in which five Cabinet Ministers attacked the impartiality of John Humphreys in a three-day period. So they have form. I hope that the Welsh Conservatives will defend the independence of the BBC. This is the time for all those who care about public service broadcasting and the quality of public debate to defend the BBC and to defend the unique form of funding that it has in the licence fee.

Rydym wedi gweld, yn ystod yr wythnosau diwethaf, ymgais i gynnal ymarfer gwanhau o ran y BBC. Nid oes dim byd newydd yn hyn. Cofiaf, pan oeddwn yn gweithio yn y BBC yn y 1990au, inni weld ymgyrch fwriadus lle yr ymosododd pump o Weinidogion y Cabinet ar ddiduedrwydd John Humphreys mewn cyfnod o dri diwrnod. Felly mae ganddynt hanes o wneud hyn. Gobeithio y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn amddiffyn annibyniaeth y BBC. Dyma'r adeg i bawb sy'n poeni am ddarlledu cyhoeddus ac ansawdd y ddadl gyhoeddus amddiffyn y BBC ac amddiffyn y ffurf unigryw o ariannu sydd ganddo diolch i ffi'r drwydded.

16:30

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the opportunity to make a short contribution to this debate this afternoon. I will get straight to the point of my theme: accountability. It is absolutely incongruous that an organisation such as the BBC has within its role, on the one hand, the responsibility to objectively report the politics of the day, particularly those of Government, and yet, on the other hand, it must seek funding from that same institution. Translate this into the Welsh context and I believe that we have, potentially, a very worrying scenario.

Diolch ichi am y cyfle i wneud cyfraniad byr i'r ddadl hon y prynhawn yma. Af yn syth at fyrdwn fy thema: atebolrwydd. Mae'n gwbl anghyson bod gan sefydliad fel y BBC o fewn ei rôl, ar y naill law, y cyfrifoldeb am roi sylw i wleidyddiaeth y dydd, mewn ffordd wrthrychol, yn enwedig gwleidyddiaeth y Llywodraeth, ac eto, ar y llaw arall, fod yn rhaid iddo geisio cyllid gan yr un sefydliad hwnnw. Troswch hyn i gyd-destun Cymru a chredaf fod gennym sefyllfa bryderus iawn, o bosibl.

The accountability of the BBC Trust has arguably not kept pace with devolution. As has been highlighted already, the Presiding Officer has recently hosted a series of events that have focused around the idea of a democratic deficit. Accountability for the Welsh Government and the Assembly have to go hand in hand and the same should be true, I believe, of the BBC Trust in Wales. It is my firm belief that, here in Wales, we should have the real power of being able to scrutinise the BBC Trust and its expenditure. No-one can deny that there is a very real English-centric focus in the media generally in Wales, and this of course denies the people of Wales a true reflection of what goes on in this Chamber, our committees and other levels of government in Wales. So, we have to ask the question: does the licence-fee payer here in Wales get value for money? I say, 'Probably not'.

Gellir dadlau nad yw atebolrwydd Ymddiriedolaeth y BBC wedi llwyddo i ddatblygu ochr yn ochr â datganoli. Fel y nodwyd eisoes, yn ddiweddar, mae'r Llywydd wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau sydd wedi canolbwyntio ar y syniad o ddiffyg democrataidd. Rhaid i atebolrwydd i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad fynd law yn llaw a dylai'r un peth fod yn wir, fe gredaf, am Ymddiriedolaeth y BBC yng Nghymru. Fy nghred sicr yw y dylem, yma yng Nghymru, gael y pŵer go iawn i allu craffu ar Ymddiriedolaeth y BBC a'i gwariant. Ni all neb wadu bod ffocws go iawn yn y cyfryngau ar Loegr yn gyffredinol yng Nghymru, ac mae hyn wrth gwrs yn golygu nad yw pobl Cymru yn cael y cyfle i weld yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn y Siambr, yn ein pwyllgorau ac ar lefelau eraill o lywodraeth yng Nghymru. Felly, rhaid inni ofyn y cwestiwn: a yw talwr ffi'r drwydded yma yng Nghymu yn cael gwerth am arian? Dywedaf, 'Nac ydy, yn ôl pob tebyg'.

There is a clear case for me that, as with Westminster, where the BBC Trust has to sit before the Public Accounts Committee, so should the chair of the BBC Trust, or indeed the directors of BBC Wales, additionally appear here before the National Assembly for Wales to give an account of themselves. Only last week, we heard of large sums being paid in redundancy at BBC Wales—something in the region of an average of £50,000, I believe. Should this escape without local scrutiny? Yes, the BBC in Wales is accountable to its audience through its audience council Wales, which scrutinises the BBC's performance on behalf of the audiences living here in Wales, but I really do believe that there is a dearth of current affairs programmes here in Wales that could make a valuable contribution to this institution. This will only be achieved by scrutiny of the BBC to ensure that politics in Wales, and current affairs, get a fair crack of the whip.

Mae achos clir i mi dros ddadlau, fel gyda San Steffan, lle mae'n rhaid i Ymddiriedolaeth y BBC ddod gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y dylai cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, neu yn wir gyfarwyddwyr BBC Cymru, hefyd ymddangos yma gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfrif amdanynt hwy eu hunain. Dim ond yr wythnos diwethaf, clywsom am symiau mawr yn cael eu talu mewn diswyddiadau yn BBC Cymru—oddeutu £50,000 ar gyfartaledd, fe gredaf. A ddylai hyn ddiflannu heb graffu arno'n lleol? Ydy, mae'r BBC yng Nghymru yn atebol i'w gynulleidfa drwy ei gyngor cynulleidfa yng Nghymru, sy'n craffu ar berfformiad y BBC ar ran cynulleidfaoedd sy'n byw yma yng Nghymru, ond credaf yn wir bod prinder rhaglenni materion cyfoes yma yng Nghymru a allai wneud cyfraniad gwerthfawr i'r sefydliad hwn. Dim ond drwy graffu ar y BBC er mwyn sicrhau bod gwleidyddiaeth yng Nghymru, a materion cyfoes, yn cael cyfle teg, y cyflawnir hyn.

16:32

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Culture and Sport, John Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths.

16:32 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Hoffwn ddiolch i Aelodau am eu cyfraniadau yn ystod y ddadl. Rwy'n rhannu nifer o'r pryderon sydd wedi eu codi am sefyllfa'r diwydiant darlledu yng Nghymru, ond mae llawer o bethau gennym i'w dathlu hefyd, fel llwyddiant diweddar 'Y Gwyll'.

I would like to thank Members for their contributions during today's debate. I share many of the concerns that have been raised about the situation of the broadcasting industry in Wales, but we also have a great deal to celebrate, such as the recent success of 'Y Gwyll'.

Let me turn to the amendments. We support amendment 1 in the name of Elin Jones. The Welsh Government has consistently expressed concern to the UK Government about the impact that any major funding cuts will have on S4C, and that it must remain independent, with its own budget. We welcomed the announcement in June that there was no further reduction in S4C's budget from the Department for Culture, Media and Sport. It is vital that S4C has sufficient funding, as well, of course, as editorial and managerial independence, to continue to play a crucial role in supporting the Welsh language, as well as the creative industries in Wales.

Gadewch imi droi at y gwelliannau. Cefnogwn welliant 1 yn enw Elin Jones. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder yn gyson i Lywodraeth y DU ynghylch yr effaith y bydd unrhyw doriadau ariannol mawr yn ei chael ar S4C, a bod yn rhaid iddi barhau i fod yn annibynnol, gyda'i chyllideb ei hun. Croesawn y cyhoeddiad ym mis Mehefin nad oedd unrhyw ostyngiad pellach yng nghyllideb S4C gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n hanfodol bod gan S4C ddigon o arian, hefyd, wrth gwrs, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, i barhau i chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi'r iaith Gymraeg, yn ogystal â'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

We support amendment 2 also. In the Welsh Government's written evidence to the Silk commission, we noted that, although the Welsh Government does not believe that it would be sensible to entirely devolve responsibility for broadcasting, we are however anxious to improve the accountability of UK broadcasting institutions to this National Assembly, and to Welsh viewers and listeners. Our evidence pointed out that the broadcasting landscape is changing rapidly. There is no guarantee that the structures currently in place will remain in the future. We will monitor developments closely and engage proactively with the UK Government, the broadcasters and the regulator to promote and protect the needs to Wales. That is why we also support amendment 6 in the name of Aled Roberts. Devolving community radio licensing will of course require changes to legislation, but this is a matter that we will consider in going forward.

Cefnogwn welliant 2 hefyd. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i gomisiwn Silk, nodwyd, er nad yw Llywodraeth Cymru yn credu y byddai'n synhwyrol datganoli cyfrifoldeb am ddarlledu yn gyfan gwbl, rydym yn awyddus, fodd bynnag, i wella atebolrwydd sefydliadau darlledu yn y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, ac i wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru. Nododd ein tystiolaeth fod y byd darlledu yn newid yn gyflym. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y strwythurau sydd ar waith ar hyn o bryd yn parhau yn y dyfodol. Byddwn yn monitro datblygiadau yn fanwl ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU, y darlledwyr a'r rheoleiddiwr i hyrwyddo a diogelu anghenion Cymru. Dyna pam rydym hefyd yn cefnogi gwelliant 6 yn enw Aled Roberts. Bydd datganoli trwyddedu radio cymunedol, wrth gwrs, yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth, ond mae hwn yn fater y byddwn yn ei ystyried yn y dyfodol.

Amendment 3 is another that we can support. As I have indicated, improving the accountability of broadcasters was reflected in our evidence to Silk, as well as our programme for government. Amendment 4, in the name of Aled Roberts, we also support. In our evidence to Silk, again, we proposed that the BBC Trust member for Wales should be appointed with the agreement of Welsh Ministers. We also argued that the Ofcom board should include one member specifically charged with representing the views of Welsh citizens and that that member should also be appointed with the agreement of Welsh Ministers.

Mae gwelliant 3 yn un arall y gallwn ei gefnogi. Fel y nodais, adlewyrchwyd yr awydd i wella atebolrwydd darlledwyr yn ein tystiolaeth i Silk, yn ogystal â'n rhaglen lywodraethu. Cefnogwn hefyd welliant 4, yn enw Aled Roberts. Yn ein tystiolaeth i Silk, unwaith eto, cynigiwyd y dylai aelod Ymddiriedolaeth y BBC dros Gymru gael ei benodi gyda chytundeb Gweinidogion Cymru. Dadleuwyd hefyd y dylai bwrdd Ofcom gynnwys un aelod sydd â'r cyfrifoldeb penodol am gynrychioli barn dinasyddion Cymru ac y dylai'r aelod hwnnw hefyd gael ei benodi gyda chytundeb Gweinidogion Cymru.

However, we are unable to support amendment 5. In our evidence to Silk, we proposed that the chair and members of the S4C authority should be appointed with the agreement of Welsh Ministers. However, it would not be appropriate to extend this to the appointment of senior managers within S4C. That is the Welsh Government's position with regard to the amendments. I will now turn to the issues included in the original motion.

Fodd bynnag, ni allwn gefnogi gwelliant 5. Yn ein tystiolaeth i Silk, cynigiwyd y dylai cadeirydd ac aelodau awdurdod S4C gael eu penodi gyda chytundeb Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol ymestyn hyn i benodiad uwch reolwyr o fewn S4C. Dyna safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwelliannau. Trof yn awr at y materion yn y cynnig gwreiddiol.

BBC Cymru Wales, Radio Wales, Radio Cymru and online services in both English and Welsh all make a crucial contribution towards informing and entertaining Welsh audiences. The BBC news services are, if anything, even more important in Wales because of the relative weakness of the Welsh print media and the lack of coverage of Welsh affairs in UK newspapers—matters raised in this debate and often raised by Members. We have been very concerned to see the proposals for reductions in BBC services in Wales as part of the 'Delivering Quality First' proposals. We have emphasised that there should be a clear commitment to safeguarding and strengthening the core services that are specifically aimed at Welsh viewers and listeners.

Mae BBC Cymru Wales, Radio Wales, Radio Cymru a gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg a Saesneg i gyd yn gwneud cyfraniad hollbwysig tuag at hysbysu a diddanu cynulleidfaoedd Cymru. Mae gwasanaethau newyddion y BBC, os rhywbeth, hyd yn oed yn fwy pwysig yng Nghymru oherwydd gwendid cymharol y wasg yng Nghymru a'r diffyg sylw a roddir i faterion Cymreig ym mhapurau'r DU —materion a godir yn y ddadl hon ac a godir gan Aelodau yn aml. Rydym wedi pryderu llawer wrth weld y cynigion ar gyfer gostyngiadau yng ngwasanaethau'r BBC yng Nghymru fel rhan o gynigion 'Rhoi Ansawdd yn Gyntaf'. Rydym wedi pwysleisio y dylai fod ymrwymiad clir i ddiogelu a chryfhau'r gwasanaethau craidd sydd wedi'u hanelu'n benodol at wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru.

Although there is evidence that there have been improvements in the coverage of devolved political issues in Wales since the King report, the improvement is largely confined to the BBC. The recommendations of King are also relevant to ITV news and Channel 4 news, and it is vital that those also appropriately reflect the devolved nations.

Er bod tystiolaeth bod gwelliannau yn y sylw a roddwyd i faterion gwleidyddol datganoledig yng Nghymru ers adroddiad King, mae'r gwelliant wedi'i gyfyngu i'r BBC yn bennaf. Mae argymhellion King hefyd yn berthnasol i newyddion ITV a newyddion Channel 4, ac mae'n hanfodol bod y rheini hefyd yn adlewyrchu'r gwledydd datganoledig yn briodol.

As far as non-news programmes and the BBC are concerned, the current provision on BBC Cymru Wales in the English language is insufficient. We recognise that the BBC in Wales is in a different position to the other devolved nations, in that its budget has to cater for Welsh and English-language programming, but, we remain concerned.

O ran rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â newyddion a'r BBC, mae'r ddarpariaeth bresennol ar BBC Cymru Wales yn yr iaith Saesneg yn annigonol. Rydym yn cydnabod bod y BBC yng Nghymru mewn sefyllfa wahanol i'r gwledydd datganoledig eraill, yn yr ystyr bod yn rhaid i'w gyllideb ddarparu ar gyfer rhaglenni Cymraeg a Saesneg, ond, rydym yn parhau i bryderu.

There are issues as well with regard to high definition in Wales. They have been resolved regarding BBC1 Wales, but there is an urgent need to resolve the comparable challenge surrounding the future of regional opt-out programmes on BBC2.

Mae problemau hefyd o ran manylder uwch yng Nghymru. Cawsant eu datrys o ran BBC1 Cymru, ond mae angen brys i ddatrys yr her debyg ynghylch dyfodol rhaglenni eithrio rhanbarthol ar BBC2.

Plurality, as Members have mentioned, is central to these issues. The Welsh Government is fully aware of the importance of ensuring that plurality with regard to English-language provision in Wales in news and also general programming aimed at Welsh viewers. ITV Wales continues to have a vital role as an alternative to the BBC for both news and non-news programming.

Mae lluosogrwydd, fel y soniodd yr Aelodau, yn ganolog i'r materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod lluosogrwydd o ran y ddarpariaeth Saesneg yng Nghymru mewn newyddion a rhaglenni cyffredinol hefyd wedi'u hanelu at wylwyr yng Nghymru. Mae ITV Cymru yn parhau i chwarae rhan hollbwysig fel dewis amgen yn lle'r BBC o ran rhaglenni newyddion a rhai nad ydynt yn ymwneud â newyddion.

The Welsh Government regularly stated, in terms of protecting the existing coverage provision, that there should be a minimum condition for the renewal of the channel 3 licence. Indeed, we would like to see an increase in provision. As reflected in our response to the Ofcom consultation earlier this year on the channel 3 licence, we noted that the Welsh Government did not view the existing level of provision as appropriate or even adequate.

Nododd Llywodraeth Cymru yn rheolaidd, o ran gwarchod y ddarpariaeth bresennol, y dylai fod amod gofynnol mewn perthynas ag adnewyddu trwydded sianel 3. Yn wir, hoffem weld cynnydd yn y ddarpariaeth. Fel y nodwyd yn ein hymateb i ymgynghoriad Ofcom yn gynharach eleni ar drwydded sianel 3, nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y lefel bresennol o ddarpariaeth yn briodol na hyd yn oed yn ddigonol.

The Welsh Government is fully aware of the importance of the renewal of the BBC charter, mentioned by Members, and the implications for BBC Cymru Wales as well as S4C. We will expect to be fully involved in negotiations and we will make the necessary representations to UK Government. Wales must have a voice in these deliberations, otherwise, the UK Government may instigate changes to the BBC that do not meet our needs.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd adnewyddu siarter y BBC, a grybwyllwyd gan Aelodau, a'r goblygiadau i BBC Cymru Wales ac i S4C. Byddwn yn disgwyl cymryd rhan lawn mewn trafodaethau a byddwn yn gwneud y sylwadau angenrheidiol i Lywodraeth y DU. Rhaid i Gymru gael llais yn y trafodaethau hyn, fel arall, efallai y bydd Llywodraeth y DU yn dechrau rhoi newidiadau i'r BBC ar waith nad ydynt yn diwallu ein hanghenion.

There are many issues involved in these matters, as reflected in the motion and the amendments, and we know that the contribution of the BBC and other public sector broadcasters, and Welsh broadcasters, to Welsh culture, the language and the economy is very significant for all of us. We must recognise, for example, that the BBC provides well over £100 million towards Welsh-language output, including funding for S4C and Radio Cymru—a major contribution to the language.

Mae llawer o bethau yn gysylltiedig â'r materion hyn, fel yr adlewyrchwyd yn y cynnig a'r gwelliannau, a gwyddom fod cyfraniad y BBC a darlledwyr eraill yn y sector cyhoeddus, a darlledwyr Cymreig, i ddiwylliant Cymru, yr iaith a'r economi yn bwysig iawn i bob un ohonom. Rhaid inni gydnabod, er enghraifft, fod y BBC yn darparu ymhell dros £100 miliwn tuag at allbwn Cymraeg, gan gynnwys cyllid ar gyfer S4C a Radio Cymru—cyfraniad mawr i'r iaith.

We must recognise that there are partnerships building between BBC and S4C, and between those organisations and others like the Arts Council of Wales, and that their economic impact has been evidenced—'Y Gwyll' was very important in this regard, with over £1 million spent in Aberystwyth in direct, indirect and induced rounds of spending. That is just one example. So, it is quite clear that we need a vibrant media sector in Wales, as an essential component of a modern democratic society. As a nation with its own language, culture and political institutions, a strong media is essential to provide a comprehensive service that informs, educates and inspires the people of Wales.

Rhaid inni gydnabod bod partneriaethau'n cael eu meithrin rhwng y BBC ac S4C, a rhwng y sefydliadau hynny ac eraill megis Cyngor Celfyddydau Cymru, a bod tystiolaeth wedi'i rhoi o'u heffaith economaidd—roedd 'Y Gwyll' yn bwysig iawn yn hyn o beth, gyda thros £1 filiwn yn cael ei wario yn Aberystwyth mewn cylchoedd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig o wariant. Un enghraifft yn unig yw honno. Felly, mae'n eithaf amlwg bod angen sector cyfryngau bywiog arnom yng Nghymru, fel elfen hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd fodern. Fel cenedl gyda'i hiaith, ei diwylliant a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae cyfryngau cryf yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn ysbrydoli pobl Cymru.

16:41

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddadl.

16:41

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a pleasure to be able to sum up in this debate, a debate on which there is widespread consensus in the four political groups, with the exception of the comments made by the Member for the Rhondda, who chose to see demons that clearly do not exist in this debate. I would like to take issue with one or two points that he chose to bring into the debate around S4C funding. I think that it is interesting to note that S4C suffered its most dramatic decline when a Labour Government was in residence in Whitehall. It is only now, with the rigour that has been brought by the new settlement, that S4C is enjoying a renaissance—a word that was used, I believe, on the other side of the Chamber—in terms of viewing figures and productions.

Mae'n bleser cael crynhoi yn y ddadl hon, dadl lle mae consensws ymhlith y pedwar grŵp gwleidyddol yn gyffredinol, ac eithrio'r sylwadau a wnaed gan yr Aelod dros Rondda, a ddewisodd weld cythreuliaid nad ydynt yn amlwg yn bodoli yn y ddadl hon. Hoffwn drafod un neu ddau o bwyntiau y dewisodd eu cynnwys yn y ddadl ar ariannu S4C. Credaf ei bod yn ddiddorol nodi i S4C ddioddef ei dirywiad mwyaf dramatig pan oedd Llywodraeth Lafur mewn grym yn Whitehall. Dim ond nawr, gyda'r trylwyredd a ddaeth gyda'r setliad newydd, y mae S4C yn mwynhau adfywiad—gair a ddefnyddiwyd, fe gredaf, ar ochr arall y Siambr—o ran ffigurau gwylio a chynyrchiadau.

16:42

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:42

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will in a minute, if you will let me make a bit of progress. I thought that I would get you on your feet. Secondly, so that he can comment on this as well, I would also like to point out that, in the early 2000s—was it not also under a Labour Government?—there was an almighty row between Government and the broadcasting corporation that ended up with the chairman of the governors and the director general resigning. We can all remember the aggravation of Labour Ministers, and the spin doctors that Downing Street used to employ, going for the jugular and trying to shut the BBC down. Perhaps the Member would like to comment on that.

Gwnaf mewn munud, os gadewch imi fwrw ymlaen ychydig. Roeddwn yn meddwl y byddwn yn llwyddo i'ch codi ar eich traed. Yn ail, er mwyn iddo allu gwneud sylwadau ar hyn hefyd, hoffwn nodi, ar ddechrau'r 2000au —onid Llywodraeth Lafur oedd mewn grym bryd hynny hefyd? —y bu ffrae aruthrol rhwng y Llywodraeth a'r gorfforaeth ddarlledu a phen draw hyn oedd bod cadeirydd y llywodraethwyr a'r cyfarwyddwr cyffredinol wedi ymddiswyddo. Gall pob un ohonom gofio agwedd waethygol Gweinidogion Llafur, a'r dewinoedd delwedd a arferai gael eu cyflogi gan Downing Street, a ymosododd yn ddinistriol ar y BBC a cheisio ei gau. Efallai yr hoffai'r Aelod wneud sylw ar hynny.

16:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The reasons why the chairman and director general resigned at the time clearly were matters for them, after a damning report by Lord Hutton. In respect of the issue that the Member posed, £60 million has been lost from the S4C budget. Can you find an equivalent cut in the budget of S4C under a Labour Government?

Roedd y rhesymau pam yr ymddiswyddodd y cadeirydd a'r cyfarwyddwr cyffredinol ar y pryd yn amlwg yn fater iddynt hwy, ar ôl adroddiad damniol gan yr Arglwydd Hutton. O ran y mater a gododd yr Aelod, collwyd £60 miliwn o gyllideb S4C. A allwch ddod o hyd i doriad cyfatebol yng nghyllideb S4C o dan Lywodraeth Lafur?

16:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a pleasure to hear the Member from the Labour benches again saying, 'Just throw money at it and you will solve the problem'. It is a fact that the crisis point that happened with S4C, happened under the previous Labour Government, and it is the current coalition Government that has pulled it together. This debate is about building a consensus within this Chamber that can ultimately reflect the democratic process that we enjoy here after devolution has bedded down.

Mae'n bleser clywed yr Aelod o'r meinciau Llafur unwaith eto yn dweud, 'Taflwch arian at hyn a byddwch yn datrys y broblem'. Mae'n wir bod yr argyfwng a ddigwyddodd gydag S4C, wedi digwydd o dan y Llywodraeth Lafur flaenorol, a'r Llywodraeth glymblaid gyfredol sydd wedi gwella pethau. Mae a wnelo'r ddadl hon â dod i gytundeb barn yn y Siambr hon a all, yn y pen draw, adlewyrchu'r broses ddemocrataidd yr ydym yn ei mwynhau yma ar ôl i ddatganoli ymsefydlu.

All the other speakers contributed very thoughtfully to the debate, I thought, pointing out the successes of the Welsh broadcasting industry—in particular the opening remarks from Suzy Davies, who highlighted the level of investment that goes into broadcasting in Wales. But, Wales is completely different to other parts of the United Kingdom, in particular with the bilingual broadcasting that goes on, and also the lack of real commercial competition in many parts of Wales. The sheer size of the BBC—a size that brings its own capacity, I might say—is actually a positive in many examples, especially on production. When we look at the new facilities just across the way from here, it is only an organisation like the BBC, in fairness, that could bring that capacity to Wales, and being part of a national organisation really does offer scope to allow that to happen.

Mae pob un o'r siaradwyr eraill wedi cyfrannu mewn modd ystyriol iawn at y ddadl, fe gredaf, gan dynnu sylw at lwyddiannau'r diwydiant darlledu yng Nghymru—yn enwedig sylwadau agoriadol Suzy Davies, a dynnodd sylw at y lefel o fuddsoddiad a wneir mewn darlledu yng Nghymru. Ond, mae Cymru yn gwbl wahanol i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yn arbennig o ran y darlledu dwyieithog sy'n mynd rhagddo, a hefyd y diffyg cystadleuaeth fasnachol go iawn mewn sawl rhan o Gymru. Mae maint enfawr y BBC—a maint sydd â'i allu ei hun, yn fy marn i—yn rhywbeth cadarnhaol mewn gwirionedd ar sawl cyfrif, yn enwedig o ran cynhyrchu. Pan edrychwn ar y cyfleusterau newydd yn union ar draws y ffordd o'r fan hon, dim ond sefydliad fel y BBC, a bod yn deg, a allai ddod â'r gallu hwnnw i Gymru, ac mae bod yn rhan o sefydliad cenedlaethol yn cynnig cyfle gwirioneddol i hynny ddigwydd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:44.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:44.*

**Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

We do now have a maturing devolved settlement here, with a legislature that has primary powers, but actually has little or no oversight in the field of broadcasting. Peter Black touched on the reports that have been brought forward by various working groups and committees of the Assembly. I think that I am right in saying that the current Minister for Natural Resources and Food chaired one such committee in the third Assembly and I believe that the Deputy Minister chaired another in this fourth Assembly. There is a route-map there that can be looked at as a body of evidence to complement some of the suggestions that have been brought forward in this debate today. I will gladly give way.

Mae gennym bellach setliad datganoledig sy'n aeddfedu yma, gyda deddfwrfa sydd â phwerau sylfaenol, ond mewn gwirionedd nad oes ganddi fawr ddim trosolwg ym maes darlledu. Cyfeiriodd Peter Black at yr adroddiadau a gyflwynwyd gan weithgorau a phwyllgorau amrywiol y Cynulliad. Credaf ei bod yn iawn dweud i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd cyfredol gadeirio un pwyllgor o'r fath yn y trydydd Cynulliad a chredaf i'r Dirprwy Weinidog gadeirio un arall yn y pedwerydd Cynulliad hwn. Cynigir map llwybr y gellir ei ystyried fel corff o dystiolaeth i ategu rhai o'r awgrymiadau a gyflwynwyd yn y ddadl hon heddiw. Rwy'n fodlon ildio.

16:45 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to understand what you will be doing as a Welsh party to bring your ideas forward to the UK Government, because what we are hearing from the Tories in Westminster is more about deregulation, and we want to be assured that we will retain the BBC as a public service broadcaster. I am heartened by what I hear today, but can you take that message to others in the UK Parliament?

Rwyf am ddeall yr hyn y byddwch yn ei wneud fel plaid yng Nghymru i gyflwyno eich syniadau i Lywodraeth y DU, oherwydd mae'r hyn a glywn gan y Toriaid yn San Steffan yn ymwneud mwy â dadreoleiddio, ac rydym am fod yn sicr y byddwn yn cadw'r BBC fel darlledwr cyhoeddus. Caf fy nghalonogi gan yr hyn a glywaf heddiw, ond a allwch fynd â'r neges honno i eraill yn Senedd y DU?

16:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I take your point, the point being that, with the renewal of the charter in 2017, now is the time to start having that debate and putting these points forward. I have spoken with the Secretary for culture in London and I have made formal representations to other departments, because there is no point in doing it as the date arrives with us, or after the date, and saying, 'Well, actually, we should have thought about this'. So, now is the time to start that process.

Derbyniaf eich pwynt, sef y pwynt mai dyma'r adeg, gyda'r siarter yn cael ei hadnewyddu yn 2017, i ddechrau cael y ddadl honno a chyflwyno'r pwyntiau hyn. Rwyf wedi siarad â'r Ysgrifennydd dros ddiwylliant yn Llundain ac wedi gwneud sylwadau ffurfiol i adrannau eraill, oherwydd nid oes diben gwneud hyn wrth i'r dyddiad agosáu, neu ar ôl y dyddiad, a dweud, 'Wel, mewn gwirionedd, dylem fod wedi meddwl am hyn'. Felly, dyma'r adeg i ddechrau'r broses honno.

We have heard contributions from all parts of this Chamber: Keith Davies touched on the Welsh-language element of broadcasting and the capacity that S4C brings, with its spend and the jobs it creates in the production of broadcasts. That shows that there is a whole range of aspects that need to be looked at. However, one of the biggest things coming up on the horizon for broadcasting, I would suggest, is the charter renewal. We need to be speaking with a joined-up voice and a voice that says, 'In a democratic Wales, this institution today has a significant role to play in making sure that the scrutiny of the BBC complements what goes on in Westminster and the role that Westminster clearly plays'. On these benches, we believe that the BBC is a better organisation by being a UK-wide organisation, but, ultimately, there should be the ability and the flexibility to recognise the devolved concept, that is, the countries and regions of the United Kingdom, and to put that local input in. My colleague Mohammad Asghar highlighted the capacity of the BBC here in Wales, with the number of jobs that are created here in Wales and the positive programming that is brought forward.

Rydym wedi clywed cyfraniadau gan bob rhan o'r Siambr hon: soniodd Keith Davies am yr elfen Gymraeg o ddarlledu a'r gallu y mae S4C yn ei gyflwyno, gyda'i wariant a'r swyddi y mae'n eu creu wrth gynhyrchu darllediadau. Mae hynny'n dangos bod ystod eang o agweddau y mae angen eu hystyried. Fodd bynnag, hoffwn awgrymu mai un o'r pethau mwyaf ar y gorwel o ran darlledu, yw adnewyddu'r siarter. Mae angen inni siarad â llais cytûn a llais sy'n dweud, 'Yn y Gymru ddemocrataidd, mae gan y sefydliad hwn heddiw rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod y broses o graffu ar y BBC yn ategu'r hyn sy'n digwydd yn San Steffan a'r rôl y mae San Steffan yn amlwg yn ei chwarae'. Ar y meinciau hyn, credwn fod y BBC yn well sefydliad am ei fod yn sefydliad i'r DU gyfan, ond, yn y pen draw, dylai'r gallu a'r hyblygrwydd fodoli i gydnabod y cysyniad datganoledig, hynny yw, gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chyflwyno'r mewnbwn lleol hwnnw. Tynnodd fy nghyd-Aelod Mohammad Asghar sylw at allu'r BBC yma yng Nghymru, gyda nifer y swyddi sy'n cael eu creu yma yng Nghymru a'r rhaglennu cadarnhaol a gyflwynir.

On the appointment to the S4C board, there is a mechanism already for the Secretary of State for Wales, and I believe that the Welsh Government also has a limited input into that process and is consulted for its views. Obviously, as we go forward, one would hope that there would be greater expansion of that consultation and the view from Wales from its political institution here, the Assembly as a whole. However, I sound caution with regard to a greater role for the Government on its own. I think that it is about a role for the National Assembly. There were lots of comments coming from the floor about the role of the Government, and I respect the role of the Government, because it has the majority of votes, but I think this would have greater credence and acceptability if the National Assembly as an institution had the lead on this and played a more proactive role. That is why the motion is tabled today.

O ran y penodiad i fwrdd S4C, mae dull gweithredu eisoes ar gael i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a chredaf fod gan Lywodraeth Cymru hefyd rywfaint o gyfraniad i'r broses honno ac yr ymgynghorir â hi am ei barn. Yn amlwg, yn y dyfodol, byddai rhywun yn gobeithio y byddai'r ymgynghori hwnnw yn ehangu a'r farn o Gymru o'i sefydliad gwleidyddol yma, y Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, hoffwn ddweud gair o rybudd ynghylch rôl fwy i'r Llywodraeth ar ei phen ei hun. Credaf fod a wnelo hyn â rôl i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cafwyd llawer o sylwadau o'r llawr am rôl y Llywodraeth, a pharchaf rôl y Llywodraeth, oherwydd mae ganddi'r mwyafrif o bleidleisiau, ond credaf y byddai hyn yn cael ei gredu a'i dderbyn yn fwy pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol fel sefydliad yn arwain ar hyn ac yn chwarae rôl fwy rhagweithiol. Dyna pam y cyflwynir y cynnig heddiw.

I did not detect any criticism of the motion before us today, other than from the Member for the Rhondda, and I believe that the Minister indicated that there was Government support for the motion. So, we look forward to that support and to this motion being passed and sending a very clear signal to colleagues across the United Kingdom about the seriousness with which we take broadcasting here in Wales and creating a diverse broadcast media, and also our ability to build a strong commercial footprint as a counter-weight to the BBC, because even the BBC, in fairness, would admit that it needs competition to create and sharpen its offering, and we must get that commercial offering right, whether that be in radio, social media, broadcast or old print media—the newspapers that serve so many of our communities well the length and breadth of Wales. I would be grateful if Members could support the motion this afternoon.

Ni synhwyrais unrhyw feirniadaeth o'r cynnig sydd ger ein bron heddiw, ac eithrio gan yr Aelod dros Rondda, a chredaf fod y Gweinidog wedi awgrymu bod y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig. Felly, edrychwn ymlaen at y gefnogaeth honno ac i'r cynnig hwn gael ei dderbyn ac anfon neges glir iawn at gyd-Aelodau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ynghylch pa mor ddifrifol yw darlledu i ni yma yng Nghymru a chreu cyfryngau darlledu amrywiol, a hefyd ein gallu i greu ôl-troed masnachol cryf i wrthbwyso'r BBC, oherwydd byddai'r BBC hyd yn oed, a bod yn deg, yn cyfaddef bod angen cystadleuaeth arno i greu a chryfhau'r hyn a gynigir ganddo, a rhaid inni sicrhau bod y cynnig masnachol yn gywir, boed ym myd radio, cyfryngau cymdeithasol, darlledu neu hen gyfryngau print—y papurau newydd sy'n gwasanaethu cymaint o'n cymunedau ar hyd a lled Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai Aelodau gefnogi'r cynnig y prynhawn yma.

16:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes. Felly, gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohirwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Dadl Plaid Cymru: Datblygu Economaidd

# Plaid Cymru Debate: Economic Development

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 4, 8, 9, 13 a 14 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3, 5, 6, 7, 10, 11 a 12 yn enw William Graham. Os derbynnir gwelliant 7, caiff gwelliant 8 ei ddad-dethol.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 4, 8, 9, 13 and 14 in the name of Aled Roberts, and amendments 3, 5, 6, 7, 10, 11 and 12 in the name of William Graham. If amendment 7 is agreed, amendment 8 will be de-selected.*

Cynnig NDM5379 Elin Jones

Motion NDM5379 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) mai'r bwlch cyllido a amcangyfrifir rhwng y galw am gyllid gan fusnesau Cymru a'r cyflenwad presennol o'r sector bancio yw £500 miliwn;

a) that the estimated funding gap between the demand for finance from Welsh businesses and the current supply from the banking sector is £500 million;

b) bod ardrethi annomestig yn cyfrif am gyfran sylweddol o gostau gweithredu ar gyfer microfusnesau a busnesau bach;

b) that non-domestic rates account for a significant proportion of operating costs for micro and small businesses;

c) bod cynnydd o 1% yng nghyfradd contractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymru yn creu 2,000 o swyddi newydd; a

c) that a 1% increase in the rate of public sector procurement contracts that go to Welsh businesses creates 2,000 new jobs; and

d) bod adnoddau naturiol Cymru yn cynnig cryn botensial ar gyfer budd economaidd.

d) that Wales' natural resources offer significant potential for economic benefit.

2. Yn gresynu:

2. Regrets:

a) mai'r GYC y pen yng Nghymru yw'r isaf o blith pob un o wledydd y DU sef cyfradd o 75.2% o ffigur y DU;

a) that Welsh GVA per capita is the lowest of all UK nations at 75.2% of the UK;

b) bod dulliau macro-economaidd yn aros yn nwylo Aelodau Seneddol yn Senedd y DU ond yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol i'w chwarae o ran tyfu economi Cymru;

b) that macro-economic levers remain in the hands of MPs in the UK Parliament but recognises that the Welsh Government has a significant role to play in growing the Welsh economy;

c) absenoldeb dangosyddion economaidd cyfredol i Gymru;

c) the absence of up-to-date economic indicators for Wales;

d) methiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra a thangyflogaeth; a

d) the failure of Welsh Government to tackle unemployment and underemployment; and

e) methiant cyrff y sector cyhoeddus i weithredu Polisi Llywodraeth Cymru ar gaffael.

e) the failure of public sector bodies to implement Welsh Government policy on procurement.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government:

a) cyhoeddi cynllun cynhwysfawr a hirdymor ar gyfer tyfu economi Cymru;

a) to publish a comprehensive and long-term plan for growing the Welsh economy;

b) bwysleisio i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yr angen i ddarparu dangosyddion economaidd rheolaidd a mynych i Gymru;

b) to impress upon the Office for National Statistics the need to provide regular and frequent economic indicators for Wales;

c) mabwysiadu polisi Plaid Cymru i estyn rhyddhad ardrethi busnesau bach i bob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai; a

c) to adopt the Party of Wales' policy to extend small business rate relief to all businesses with a rateable value of £15,000 or less; and

d) archwilio manteision sefydlu banc datblygu busnes cyhoeddus, hyd braich, nid er elw i'w ddosbarthu.

d) to explore the benefits of establishing a publicly-owned, arm's length, not-for-distributable-profit business development bank.

16:49

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Today's Plaid Cymru debate on the economy is timely. Tomorrow is the delayed autumn statement, and this weekend is Small Business Saturday. This month is, in general, the biggest month for many retail businesses, and I am sure that many of you here will be aware of Plaid Cymru's campaign to shop local this Christmas.

Mae dadl Plaid Cymru heddiw ar yr economi yn amserol. Yfory cawn ddatganiad yr hydref a ohiriwyd, a'r penwythnos hwn yw Dydd Sadwrn y Busnesau Bach. Y mis hwn, yn gyffredinol, yw'r mis pwysicaf i lawer o fusnesau manwerthu, ac rwy'n siŵr y bydd llawer ohonoch yma yn ymwybodol o ymgyrch Plaid Cymru i siopa'n lleol y Nadolig hwn.

I will not apologise for saying again that the economy is Plaid Cymru's priority. In recent years, we have published 'A Greenprint for the Valleys' and 'Plan C', which is a plan to improve the economy. We have said many times that we must improve public procurement at all levels in Wales. Under devolution, local procurement has increased from 35% to 52% and we know from Value Wales that every 1% increase creates 2,000 jobs. Reaching 75% would create almost 50,000 jobs.

Nid wyf am ymddiheuro am ddweud unwaith eto mai'r economi yw blaenoriaeth Plaid Cymru. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyhoeddi 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' a 'Cynllun C', sef cynllun i wella'r economi. Rydym wedi dweud lawer gwaith bod yn rhaid inni wella caffael cyhoeddus ar bob lefel yng Nghymru. O dan ddatganoli, mae caffael lleol wedi cynyddu o 35% i 52% a gwyddom drwy Gwerth Cymru fod pob cynnydd o 1% yn creu 2,000 o swyddi. Byddai cyrraedd 75% yn creu bron 50,000 o swyddi.

Plaid Cymru has said consistently that infrastructure investment is vital and is key to building our economy. We know, too, that there is a close relationship between skills and economic productivity. That is why yesterday's PISA results caused so much concern and it is why we strongly hope that they will improve in the future. That is also the reason behind Plaid Cymru's insisting on the creation of thousands of new apprenticeship posts as part of our budget deal last year.

Mae Plaid Cymru wedi dweud yn gyson bod buddsoddiad mewn seilwaith yn hanfodol ac yn allweddol i adeiladu ein heconomi. Gwyddom, hefyd, fod perthynas agos rhwng sgiliau a chynhyrchiant economaidd. Dyna pam yr achosodd canlyniadau PISA ddoe gymaint o bryder a dyna pam rydym yn gobeithio'n fawr y byddant yn gwella yn y dyfodol. Dyna'r rheswm hefyd dros alwad Plaid Cymru dros greu miloedd o swyddi prentisiaeth newydd fel rhan o'n cytundeb cyllidebol y llynedd.

16:51 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for giving way. You have welcomed infrastructure developments and you will, of course, welcome yesterday's announcement regarding the go-ahead for Wylfa B.

Diolch am ildio. Rydych wedi croesawu'r datblygiadau mewn seilwaith a byddwch, wrth gwrs, yn croesawu'r cyhoeddiad ddoe ynglŷn â'r sêl bendith i Wylfa B.

16:51 **Leanne Wood** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We have said that there are many opportunities for Wales through the creation of energy, but we would prefer the concentration and focus to be on the creation of renewable energy.

Rydym wedi dweud bod llawer o gyfleoedd i Gymru drwy greu ynni, ond byddai'n well gennym pe ba'i'r ffocws ar greu ynni adnewyddadwy.

I was talking specifically about skills, and improving the skill set of people in Wales is vital if we are to become the high-wage, high-value economy that we know we can be. However, despite attempts such as the excellent work of the economic renewal plan, it feels very much to us like there is no long-term vision for Wales. Developments are piecemeal, rather than holistic. We want to see a Welsh Government with direction, purpose and ambition—grabbing the opportunity to share powers over income tax, for example, as recommended by the Silk commission, as that would incentivise the Welsh Government to better consider our economic needs. Getting more people into work and more people into better-paid work would generate greater income for a Welsh treasury.

Sôn yn benodol am sgiliau yr oeddwn, ac mae gwella sgiliau pobl yng Nghymru yn hanfodol os ydym am ddod yn economi gwerth uchel, cyflog uchel y gwyddom y gallwn fod. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion fel y gwaith rhagorol ar y cynllun adnewyddu economaidd, ein teimlad ni yw nad oes gweledigaeth hirdymor i Gymru. Mae datblygiadau yn dameidiog, yn hytrach nag yn gyfannol. Rydym am weld Llywodraeth Cymru sydd â chyfeiriad, pwrpas ac uchelgais—sy'n achub ar y cyfle i rannu pwerau dros dreth incwm, er enghraifft, fel y'i hargymhellwyd gan gomisiwn Silk, gan y byddai hynny'n cymell Llywodraeth Cymru i ystyried ein hanghenion economaidd yn well. Byddai cael mwy o bobl i mewn i waith a mwy o bobl i mewn i waith sy'n talu'n well yn creu mwy o incwm i drysorlys yng Nghymru.

We often hear that small and medium-sized enterprises are the backbone of the Welsh economy. They make up 99% of the 209,000 companies in Wales. SMEs employ more than two thirds of all private sector staff. While many of these businesses are happy as sole traders or at their current size, others are the engines of our future growth. The recent entrepreneurs index showed that one in five of our mid-sized SMEs could be described as 'high growth'. If Wales is to benefit from an economic recovery—and there is still limited evidence that it is taking place here—then we must give all support possible to enable companies to grow and take on more people.

Rydym yn aml yn clywed mai busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru. Maent yn cyfrif am 99% o'r 209,000 o gwmnïau yng Nghymru. Mae busnesau bach a chanolig yn cyflogi mwy na dwy ran o dair o'r holl staff yn y sector preifat. Er bod llawer o'r busnesau hyn yn fodlon bod yn unig fasnachwyr neu'n fodlon ar eu maint presennol, bydd eraill yn sbarduno ein twf yn y dyfodol. Dangosodd y mynegai diweddar o entrepreneuriaid y gallai un o bob pump o'n busnesau bach a chanolig gael ei ddisgrifio'n fusnes 'twf uchel'. Er mwyn i Gymru elwa ar adferiad economaidd—a phrin yw'r dystiolaeth bod hynny'n digwydd yma o hyd—yna rhaid inni roi pob cefnogaeth bosibl i alluogi cwmnïau i dyfu a chyflogi mwy o bobl.

The recent report from Dylan Jones-Evans lays bare the funding gap that exists for Welsh SMEs. Plaid Cymru reached a similar conclusion some time ago. With intimate knowledge of the Welsh market and business opportunities, a Welsh public bank is, in our view, the best option. That is why Plaid Cymru's submission to that review outlined our case for a publicly owned Welsh bank that would invest in Wales's best interests.

Mae'r adroddiad diweddar gan Dylan Jones-Evans yn datguddio'r bwlch mewn cyllid sy'n bodoli ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Daeth Plaid Cymru i gasgliad tebyg beth amser yn ôl. Gyda gwybodaeth drylwyr o'r farchnad yng Nghymru a'r cyfleoedd i fusnesau, banc cyhoeddus i Gymru yw'r dewis gorau, yn ein barn ni. Dyna pam yr amlinellodd cyflwyniad Plaid Cymru i'r adolygiad hwnnw ein dadl dros fanc sy'n eiddo i'r cyhoedd yng Nghymru a fyddai'n buddsoddi er lles Cymru.

However, how else can we support businesses in Wales? A Plaid Cymru Government would increase small business rate relief so that 83,000 Welsh businesses would benefit and more than 70,000 would pay no business rates at all. This would help to secure jobs in our high streets and our communities, as well as providing support for those businesses looking to grow and create new employment. The new powers available will enable the Welsh Government to introduce a new multiplier rate. Currently, Wales has only one multiplier for business rates, whereas England has two and Scotland has three. This disadvantages Welsh businesses, and that is not acceptable. We will consult and listen to businesses to hear from them exactly how this should be done. Should it be based on what is done in England or Scotland, or are there other models that could be recommended?

Fodd bynnag, sut arall y gallwn gefnogi busnesau yng Nghymru? Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn cynyddu rhyddhad ardrethi busnesau bach fel y byddai 83,000 o fusnesau yng Nghymru yn elwa ac na fyddai mwy na 70,000 yn talu ardrethi busnes o gwbl. Byddai hyn yn helpu i sicrhau swyddi ar y stryd fawr ac yn ein cymunedau, yn ogystal â rhoi cymorth i'r busnesau hynny sydd am dyfu a chreu swyddi newydd. Bydd y pwerau newydd sydd ar gael yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyfradd lluosydd newydd. Ar hyn o bryd, dim ond un lluosydd sydd gan Gymru ar gyfer ardrethi busnes, tra bod dau yn Lloegr a thri yn yr Alban. Mae hyn yn peri anfantais i fusnesau yng Nghymru, ac nid yw hynny'n dderbyniol. Byddwn yn ymgynghori â busnesau ac yn gwrando arnynt er mwyn clywed ganddynt yn union sut y dylid gwneud hyn. A ddylai fod yn seiliedig ar yr hyn a wneir yn Lloegr neu'r Alban, neu a oes modelau eraill y gellid eu hargymell?

If a Welsh Government has any chance of improving economic outcomes, the data must be available so that it can monitor the effectiveness of its interventions. Plaid Cymru has argued this for quite some time, and this call has been supported by the Federation of Small Businesses among others. Not having up-to-date statistics such as Welsh GDP figures to monitor growth could mean making policy in the dark.

Er mwyn i Lywodraeth Cymru gael unrhyw obaith o wella canlyniadau economaidd, rhaid i'r data fod ar gael fel y gall fonitro effeithiolrwydd ei hymyriadau. Mae Plaid Cymru wedi dadlau dros hyn ers peth amser, ac mae'r alwad hon wedi cael ei chefnogi gan y Ffederasiwn Busnesau Bach ymhlith eraill. Os na chawn ystadegau cyfredol o'r fath megis ffigurau CMC Cymru mae hynny'n golygu bod yn rhaid llunio polisi yn y tywyllwch.

I mentioned earlier that this is Small Business Week, and it is worth noting that, in the majority of Welsh unitary authorities, the number of business deaths outnumber business start-ups. Will the soon-to-be-released 2012 GVA figures show convergence with the UK economy, or are they likely to show that we will have slipped further back? I very much hope that the former is true.

Soniais yn gynharach mai Wythnos y Busnesau Bach ydyw, ac mae'n werth nodi, yn y mwyafrif o awdurdodau unedol yng Nghymru, bod nifer y busnesau sy'n mynd i'r wal yn fwy na nifer y busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu. A fydd ffigurau GYC 2012 sydd ar fin cael eu cyhoeddi yn dangos cydgyfeirio ag economi'r DU, neu a ydynt yn debygol o ddangos ein bod wedi llithro'n ôl ymhellach? Gobeithio'n fawr mai'r cyntaf sy'n wir.

Unemployment is slowly falling in Wales, although it remains more than 40,000 higher than at the start of 2007. We also know that around 10% of people in work are underemployed. That means that they are working fewer hours than they want, or that they are working below their qualifications level. Unemployment figures for women are a particular concern. The recovery so far has substantially reduced male unemployment, while women have been pushed to the fringes of the job market. That is why more work must be done on childcare provision and on flexible working opportunities.

Mae diweithdra yn araf ostwng yng Nghymru, er ei fod yn parhau i fod yn fwy na 40,000 yn uwch nag yr oedd ar ddechrau 2007. Gwyddom hefyd fod tua 10% o bobl mewn gwaith wedi'u tangyflogi. Mae hynny'n golygu eu bod yn gweithio llai o oriau nag y dymunant, neu eu bod yn gweithio islaw lefel eu cymwysterau. Mae ffigurau diweithdra i fenywod yn achos pryder penodol. Mae'r adferiad hyd yma wedi lleihau diweithdra ymhlith dynion yn sylweddol, tra bod menywod wedi cael eu gwthio i ymylon y farchnad swyddi. Dyna pam mae'n rhaid gwneud mwy o waith ar y ddarpariaeth gofal plant ac ar gyfleoedd gweithio hyblyg.

Youth unemployment also remains stubbornly high, especially in particular Valleys communities. Most concerning is the growth of long-term youth unemployment. Those who have not been in education, employment or training for more than a year, or even two years, has quadrupled in the past two years.

Erys diweithdra ieuenctid yn gyndyn o uchel hefyd, yn enwedig mewn cymunedau penodol yn y Cymoedd. Y pryder mwyaf yw'r twf mewn diweithdra ieuenctid yn yr hirdymor. Mae nifer y rhai nad ydynt wedi bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant am fwy na blwyddyn, neu hyd yn oed ddwy flynedd, wedi cynyddu bedair gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

These are specific challenges that need particular plans to address them. Clearly, what is being done now is not enough. Plaid Cymru has a clear, linked, well-established, comprehensive, long-term plan for improving the Welsh economy by focusing on skills, infrastructure, the optimum use of our limited resources, and a clear ambition to drive Wales forward. That is why Plaid Cymru will head the next Government of Wales.

Mae'r rhain yn heriau penodol y mae angen cynlluniau penodol i fynd i'r afael â hwy. Yn amlwg, nid yw'r hyn sy'n cael ei wneud yn awr yn ddigon. Mae gan Blaid Cymru gynllun hirdymor, cynhwysfawr, sefydledig, cydgysylltiedig a chlir i wella economi Cymru drwy ganolbwyntio ar sgiliau, seilwaith, gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau cyfyngedig, ac uchelgais clir i sbarduno Cymru ymlaen. Dyna pam mai Plaid Cymru fydd yn arwain Llywodraeth nesaf Cymru.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the 14 amendments to the motion. If amendment 7 is agreed, amendment 8 will be deselected. I call on Eluned Parrott to move amendments 1, 2, 4, 8, 9, 13 and 14 in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol 14 gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 7, bydd gwelliant 8 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 1, 2, 4, 8, 9, 13 a 14 yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt 1a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub-point 1a) and renumber accordingly:*

*y twf yng Nghynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU yn 2013;*

*the growth in the UK's Gross Domestic Product in 2013;*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt 1a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub-point 1a) and renumber accordingly:*

*bod 29.8% o bobl Cymru yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, sy'n uwch na 23.5%, sef cyfartaledd y DU.*

*that 29.8% of people in Wales are employed in the public sector, above the 23.5% average for the UK;*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt 2a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub-point 2a) and renumber accordingly:*

*bod oddeutu 200,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cael trafferth cael gafael ar gyllid, yn ôl adroddiad Cam 1 o'r 'Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru' gan yr Athro Dylan Jones-Evans.*

*that around 200,000 SMEs in Wales are struggling to get funding, according to the Stage 1 report of the 'Access to Finance Review' by Professor Dylan Jones-Evans.*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Amendment 8—Aled Roberts*

*Dileu is-bwynt 3c) a rhoi yn ei le:*

*Delete sub-point 3c) and replace with:*

*ymestyn rhyddhad ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai, ac i fwy o gyfleusterau cymunedol fel swyddfeydd post, tafarndai a siopau annibynnol; a*

*to extend business rate relief to all businesses with a rateable value of £15,000 or less and more community facilities such as post offices, pubs and independent shops; and*

*Gwelliant 9—Aled Roberts*

*Amendment 9—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt 3d) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub-point 3d) and renumber accordingly:*

*rhoi cyfle i awdurdodau lleol gadw cyfran o'r ardrethi busnes y maent yn eu casglu er mwyn ysgogi twf economaidd lleol;*

*to enable local authorities to retain a proportion of the business rates they collect, in order to incentivise local economic growth;*

*Gwelliant 13—Aled Roberts*

*Amendment 13—Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*Add as new sub-point at end of point 3:*

*cefnogi mentrau cymdeithasol a busnesau llai a'u galluogi i dyfu drwy ddadfwndelu contractau'r sector cyhoeddus yn rhannau mwy hylaw, gan ei gwneud yn haws i'r busnesau hyn gyflwyno cynigion a chystadlu.*

*to support smaller businesses and social enterprises and enable them to grow by unbundling public sector contracts into more manageable parts, making it easier for these businesses to bid and compete.*

*Gwelliant 14—Aled Roberts*

*Amendment 14—Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*Add as new sub-point at end of point 3:*

*gweithio i godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o gyfleoedd cyllid sy'n bodoli ar hyn o bryd, a gwrando ar y gymuned fusnes ynghylch ffyrdd o wella cymorth.*

*to work to increase awareness amongst businesses of existing opportunities for finance, and listen to the business community on ways to improve support.*

16:57

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1, 2, 4, 8, 9, 13 and 14.

Cynigiaf welliannau 1, 2, 4, 8, 9, 13 a 14.

I thank Plaid Cymru for bringing this very comprehensive motion to the Chamber today. I hope that you will forgive me for, basically, responding in kind with the volume of amendments that we have added to it. I worry now that an hour will not cover it, but, given the scale of the issues that we face, I think it is right that we uncover that and try to add to the context.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r cynnig cynhwysfawr iawn i'r Siambr heddiw. Gobeithio y byddwch yn maddau imi am ymateb mewn ffordd debyg, yn y bôn, drwy ychwanegu nifer o welliannau ato. Rwy'n poeni bellach na fydd awr yn ddigon i'w drafod, ond, o ystyried maint y problemau sy'n ein hwynebu, credaf ei bod yn briodol ein bod yn ymdrin â hynny ac yn ceisio ychwanegu at y cyd-destun.

I am sure that we all welcome the growth that we saw in UK GDP in 2013, and I hope that Wales is taking advantage of what is an improving economic picture for the UK as a whole. However, accurate and timely economic data are crucial to understanding our position, and then understanding how we can best respond to it. The work of the Office for National Statistics is vital here. However, I am little concerned, given the tone of the motion, that there is a misunderstanding of the role of the ONS in this.

Mae pawb yn croesawu'r twf a welsom yn CMC y DU yn 2013 mae'n siŵr gennyf, a gobeithio bod Cymru yn manteisio ar yr hyn sy'n ddarlun economaidd sy'n gwella i'r DU yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae data economaidd cywir ac amserol yn hanfodol er mwyn deall ein sefyllfa, ac yna ddeall sut y gallwn ymateb orau iddi. Mae gwaith y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn hanfodol o ran hyn. Fodd bynnag, rwy'n pryderus braidd, o ystyried naws y cynnig, bod camddealltwriaeth ynglŷn â rôl y SYG yn hyn o beth.

The UK Government pays the Office for National Statistics to produce quarterly estimates of GDP, which are then formalised, when a full data set is available, into adjusted final annual figures for the UK as a whole, and for regions and nations as well. Wales only gets the annual figure. Scotland gets the quarterly estimates as well. The question is, of course: why does Scotland get those figures? Well, it is because the Scottish Government pays the Office for National Statistics to collect extra data for Scotland so that it is able to give a reasonable quarterly GDP estimate. If Wales wants the same, it will have to do the same. The question, of course, for us then is: would that investment give us a useful return? I believe that it would, but the Office for National Statistics cannot produce a calculation if we do not have the data in the first place. That data must be collected, and that needs to be paid for in some form.

Mae Llywodraeth y DU yn talu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am baratoi amcangyfrifon chwarterol o CMC, sydd wedyn yn cael eu ffurfioli, pan fydd data llawn ar gael, yn ffigurau blynyddol terfynol wedi'u haddasu ar gyfer y DU gyfan, ac ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau hefyd. Dim ond y ffigur blynyddol y mae Cymru yn ei gael. Mae'r Alban yn cael yr amcangyfrifon chwarterol hefyd. Y cwestiwn yw, wrth gwrs: pam mae'r Alban yn cael y ffigurau hynny? Wel, am fod Llywodraeth yr Alban yn talu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am gasglu data ychwanegol ar gyfer yr Alban fel y gall roi amcangyfrif chwarterol rhesymol o CMC. Os yw Cymru am gael yr un fath, bydd yn rhaid inni wneud yr un peth. Y cwestiwn inni wedyn, wrth gwrs, yw: a fyddai'r buddsoddiad hwnnw yn rhoi gwybodaeth defnyddiol inni? Credaf y byddai'n ddefnyddiol, ond ni all y Swyddfa Ystadegau Gwladol lunio amcangyfrif os nad oes gennym y data yn y lle cyntaf. Rhaid i'r data hynny gael eu casglu, ac mae angen talu am hynny rywsut neu'i gilydd.

I also want to note the significant structural difference in the Welsh employment market compared with the rest of the UK: 29.8% of Welsh workers are employed in the public sector, compared to a UK average of just 23.5%. We are far more reliant on public sector spend, not just with regard to employment, but on other things as well, in Wales than elsewhere. I think that is why procurement has become such an important issue for this Assembly.

oHoffwn hefyd nodi'r gwahaniaeth strwythurol sylweddol ym marchnad gyflogaeth Cymru o'i chymharu â gweddill y DU: mae 29.8% o weithwyr Cymru yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, o gymharu â chyfartaledd o 23.5% yn unig yn y DU. Rydym yn llawer mwy dibynnol ar wariant y sector cyhoeddus, nid yn unig o ran cyflogaeth, ond o ran pethau eraill hefyd, yng Nghymru nag mewn mannau eraill. Credaf mai dyna pam mae caffael wedi dod yn fater mor bwysig i'r Cynulliad hwn.

However, if we do not fully understand the nature, the capabilities and the structure of our private sector more fully as public purchasing authorities—not just as an Assembly, but as local authorities, as local health boards and other public authorities—we will never be able to make sure that Welsh businesses are able to take advantage of public spend in Wales. If we do not know what our private sector can do, we absolutely are not going to be able to design contracts that it will be able to deliver, because we simply do not know what it can do at this point in time.

Fodd bynnag, os nad ydym yn deall natur, gallu na strwythur ein sector preifat yn llawnach fel awdurdodau prynu cyhoeddus—nid dim ond fel Cynulliad, ond fel awdurdodau lleol, fel byrddau iechyd lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill—ni fyddwn byth yn gallu sicrhau y gall busnesau yng Nghymru fanteisio ar wariant cyhoeddus yng Nghymru. Os na wyddom yr hyn y gall ein sector preifat ei wneud, yn sicr, ni allwn lunio contractau y bydd yn gallu eu cyflawni, oherwydd nid ydym yn gwybod yr hyn y gall ei wneud ar hyn o bryd.

Of course, local authorities are incredibly important in this, but I believe that they also have a major role to play as drivers for local economic development. That is why the Welsh Liberal Democrats have consistently argued that local authorities should be able to retain a greater proportion of the business rates that they raise to incentivise work in this area, and to enable things like tax increment financing as a tool to help achieve that economic development. It is a virtuous circle that I think that we should aim to ignite, so that our local authorities are not only empowered to drive the economies forward in their own areas, but are also incentivised to do it. Give them the reason, give them the tools.

Wrth gwrs, mae awdurdodau lleol yn hynod bwysig yn hyn o beth, ond credaf fod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae hefyd i sbarduno datblygu economaidd yn lleol. Dyna pam mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dadlau'n gyson y dylai awdurdodau lleol gael cadw cyfran fwy o'r ardrethi busnes y maent yn eu codi er mwyn cymell gwaith yn y maes hwn, a galluogi pethau fel ariannu drwy gynyddrannau treth fel offeryn i helpu i gyflawni datblygu economaidd o'r fath. Mae'n gylch rhinweddol y dylem anelu at ei sbarduno, yn fy marn i, er mwyn sicrhau bod ein hawdurdodau lleol nid yn unig wedi eu grymuso i sbarduno'r economïau yn eu hardaloedd eu hunain, ond hefyd yn cael eu cymell i wneud hynny. Rhowch y rheswm iddynt, rhowch yr offer iddynt.

I want to raise the issue of access to finance—a crucial building block if Wales's SMEs are to be able to grow. In particular, I want to talk about the importance of pairing funding with support and advice to help businesses grow, because I think it would be false to say that a business that is growing only faces the challenge of getting the finance to allow it to grow. Of course, if it is successful in getting that finance, it might face all sorts of other challenges in coping with its growth, such as learning to manage a much bigger team than previously, learning to manufacture to a greater scale than previously, learning to address new markets and develop new products. These are all challenges that growing businesses face and that is why growing businesses need support to be matched to finance.

Rwyf am godi mater y cyllid sydd ar gael—sef conglfaen hanfodol er mwyn i fusnesau bach a chanolig Cymru allu tyfu. Yn benodol, hoffwn sôn am bwysigrwydd paru cyllid â chymorth a chyngor er mwyn helpu busnesau i dyfu, gan fy mod yn credu y byddai'n anghywir dweud bod busnes sy'n tyfu ond yn wynebu'r her o gael y cyllid i'w alluogi i dyfu. Wrth gwrs, os bydd yn llwyddo i gael y cyllid, gallai wynebu pob math o heriau eraill wrth ymdopi â'i dwf, megis dysgu sut i reoli tîm llawer mwy na chynt, dysgu sut i gynhyrchu ar raddfa fwy na chynt, dysgu sut i ymdrin â marchnadoedd newydd a datblygu cynnyrch newydd. Mae'r rhain i gyd yn heriau y mae busnesau sy'n tyfu yn eu hwynebu, a dyna pam mae angen cymorth ar fusnesau sy'n tyfu ochr yn ochr â'r cyllid.

In terms of the amendments, we are supporting most of the amendments today, but not amendment 5, because I think that we need to recognise that the economic levers that affect Wales are held at both ends of the M4 and that the macro levers are simply not in our hands at this point in time. We will not be supporting amendment 7, because I have a similar but slightly different amendment. We will not be supporting amendment 10, because I do not wish to adopt a Welsh Conservative policy and I do not really wish to jump to conclusions on Dylan Jones-Evans's excellent report.

O ran y gwelliannau, rydym yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r gwelliannau heddiw, ond nid gwelliant 5, oherwydd credaf fod angen inni gydnabod bod yr ysgogiadau economaidd sy'n effeithio ar Gymru i'w cael ar y naill ben a'r llall o'r M4 ac nad yw'r ffactorau macro-economaidd yn ein dwylo ar hyn o bryd. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 7, gan fy mod wedi cyflwyno gwelliant tebyg ond ychydig yn wahanol. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 10, oherwydd nid wyf am fabwysiadu un o bolisïau'r Ceidwadwyr Cymreig, ac nid wyf yn wir am ddod i gasgliadau rhy fyrbwyll ynglŷn ag adroddiad rhagorol Dylan Jones-Evans.

Finally, in terms of clarification on amendment 6, I wonder whether Plaid Cymru can give us some evidence to support the assertion in the motion that Welsh public authorities are not implementing Welsh Government policy. If you can do that, I will vote against that amendment as well.

Yn olaf, o ran eglurhad ynghylch gwelliant 6, tybed a all Plaid Cymru roi rhywfaint o dystiolaeth i ategu'r honiad yn y cynnig nad yw awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu polisi Llywodraeth Cymru. Os gallwch wneud hynny, byddaf yn pleidleisio yn erbyn y gwelliant hwnnw hefyd.

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Nick Ramsay to move amendments 3, 5, 6, 7, 10, 11 and 12 tabled in the name of William Graham.

Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig gwelliannau 3, 5, 6, 7, 10, 11 a 12 a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 3—William Graham*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*bod economi’r DU wedi cynyddu 0.8% yn ystod trydydd chwarter 2013, sy’n pwysleisio llwyddiant polisi economaidd Llywodraeth y DU.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Dileu is-bwynt 2b) a rhoi yn ei le:*

*methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio’r ysgogiadau economaidd sylweddol sydd ar gael iddi er mwyn sbarduno twf yn economi Cymru;*

*Gwelliant 6—William Graham*

*Dileu is-bwynt 2e).*

*Gwelliant 7—William Graham*

*Dileu is-bwynt 3c) a rhoi yn ei le:*

*mabwysiadu polisi’r Ceidwadwyr Cymreig i ymestyn rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a darparu rhyddhad sy’n lleihau’n raddol i’r rheini sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000;*

*Gwelliant 10—William Graham*

*Dileu is-bwynt 3d) a rhoi yn ei le:*

*ymateb cyn gynted â phosibl i adroddiad yr Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru—Cam 2, ac ystyried yr achos dros ddatblygu banciau busnes rhanbarthol fel yr amlinellwyd yn ‘Buddsoddi Cymru’.*

*Gwelliant 11—William Graham*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*ystyried y posibilrwydd o rannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr, a fyddai'n sicrhau bod y system ardrethi busnes yn deg a bod Cymru ar yr un lefel â Lloegr a'r Alban.*

*Gwelliant 12—William Graham*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*sicrhau bod polisïau’r llywodraeth yn symleiddio ein rheoliadau a’n prosesau caffael ar gyfer y sector cyhoeddus.*

*Amendment 3—William Graham*

*Insert as new sub-point at the end of point 1:*

*that the UK economy experienced 0.8% growth in the third quarter of 2013, highlighting the success of the UK Government’s economic policy.*

*Amendment 5—William Graham*

*Delete sub-point 2b) replace with:*

*the failure of the Welsh Government to use the significant economic levers at its disposal to stimulate growth in the Welsh economy;*

*Amendment 6—William Graham*

*Delete sub-point 2e).*

*Amendment 7—William Graham*

*Delete sub-point 3c) and replace with:*

*to adopt the Welsh Conservative policy to extend small business rate relief to all businesses with a rateable value of up to £12,000, and provide tapered relief for those up to £15,000;*

*Amendment 10—William Graham*

*Delete sub-point 3d) and replace with:*

*to respond as soon as possible to the Access to Finance Review Stage 2 report and examine the case for the development of regional business banks as outlined in ‘Invest Wales’.*

*Amendment 11—William Graham*

*Add as new sub-point at end of point 3:*

*to explore the possibility of splitting the Welsh multiplier into small and large businesses which would ensure fairness in the business rates system and bring Wales in line with England and Scotland.*

*Amendment 12—William Graham*

*Add as new sub-point at end of point 3:*

*to ensure that government policy simplifies our public sector procurement processes and regulations.*

17:02 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 3, 5, 6, 7, 10, 11 and 12.

Cynigiaf welliannau 3, 5, 6, 7, 10, 11 a 12.

I am grateful to Plaid Cymru for bringing forward this debate today and I am pleased to move the Welsh Conservative amendments tabled in the name of William Graham. There are a number of points in this not insignificant motion that Plaid Cymru has tabled that I would certainly agree with. One of those is the fact that the estimated funding gap between the demand for finance from Welsh businesses and the current supply from the banks is £500 million. Banks have indeed been reluctant to fulfil their key role of lending money to business over recent years. It was not businesses that caused the banking crisis and it should not be businesses that pay that price. I welcome the Government's efforts to put pressure on the banks to lend.

Rwy'n ddiolchgar i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw ac rwy'n falch o gael cynnig gwelliannau'r Ceidwadwyr Cymreig a gyflwynwyd yn enw William Graham. Mae nifer o bwyntiau yn y cynnig nid ansylweddol hwn gan Blaid Cymru y byddwn yn sicr yn cytuno â hwy. Un o'r rhain yw'r ffaith bod bwlch cyllido amcangyfrifedig o £500 miliwn rhwng y galw am gyllid gan fusnesau Cymru a'r cyflenwad presennol gan y banciau. Yn wir, mae banciau wedi bod yn amharod i gyflawni eu rôl allweddol o fenthyca arian i fusnesau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid busnesau a achosodd yr argyfwng bancio ac nid busnesau ddylai dalu'r pris hwnnw. Croesawaf ymdrechion y Llywodraeth i roi pwysau ar y banciau i roi benthyg arian.

Point (b) of the Plaid motion says that non-domestic rates are a big cost for small businesses. Yes, they certainly are. I am pleased to hear Members opposite echoing Welsh Conservative calls, reinforced today in amendment 7, for a reduction in business rates for small businesses with a rateable value of £15,000 or less. It is a policy that is certainly getting widening support—whether or not Eluned Parrott wants to sign up to a Welsh Conservative policy—and rightly so. We believe that the policy would free-up small businesses to invest in the future and further jobs. While the Welsh Government has invested effort in enterprise zones and, latterly, city regions, the policy of providing additional business rate relief would assist companies throughout the whole of Wales, and not just in specific areas.

Dywed pwynt (b) yng nghynnig Plaid fod trethi annomestig yn gost fawr i fusnesau bach. Ydynt, yn sicr. Rwy'n falch o glywed Aelodau gyferbyn yn adleisio galwadau'r Ceidwadwyr Cymreig, a atgyfnerthir heddiw yng ngwelliant 7, am ostyngiad yn yr ardrethi busnes i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai. Mae'n bolisi sydd, yn sicr, yn ennyn mwy a mwy o gefnogaeth—pa un a yw Eluned Parrott am gefnogi un o bolisïau'r Ceidwadwyr Cymreig ai peidio—a hynny'n briodol. Credwn y byddai'r polisi yn rhyddhau busnesau bach i fuddsoddi yn y dyfodol ac mewn swyddi pellach. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrech i sefydlu ardaloedd menter ac, yn fwy diweddar, ddinas-ranbarthau, byddai'r polisi o roi rhyddhad ardrethi busnes ychwanegol yn cynorthwyo cwmnïau ledled Cymru, ac nid dim ond mewn ardaloedd penodol.

We certainly support the Lib Dem amendment 9. Professor Brian Morgan was right to recommend that local authorities should be allowed to retain and spend a proportion or more of the business rates collected within their area to incentivise local economic growth and to encourage greater accountability. We need to support local authorities in strengthening that link between local enterprise and their revenue stream. I know that the Minister has previously had some concerns about this and there needs to be a certain change to funding formulas to achieve it. However, I think that it is something that opposition parties would like to see brought on board. The Welsh Conservatives certainly would.

Rydym yn sicr yn cefnogi gwelliant 9 y Democratiaid Rhyddfrydol. Roedd yr Athro Brian Morgan yn llygad ei le i argymell y dylai awdurdodau lleol gael yr hawl i gadw a gwario cyfran neu fwy o'r ardrethi busnes a gasglwyd yn eu hardal er mwyn cymell twf economaidd lleol ac annog mwy o atebolrwydd. Mae angen inni helpu awdurdodau lleol i gryfhau'r cysylltiad hwnnw rhwng mentrau lleol a'u ffrwd refeniw. Gwn fod y Gweinidog wedi cael ychydig o bryderon am hyn yn y gorffennol a bod angen newid penodol i fformiwlâu cyllido er mwyn cyflawni hyn. Fodd bynnag, credaf ei fod yn rhywbeth y byddai'r gwrthbleidiau yn hoffi gweld yn cael ei dderbyn. Dyna ddymuniad y Ceidwadwyr Cymreig yn sicr.

Finally, on business rates and amendment 11, splitting the Welsh multiplier into small and large businesses would ensure fairness and would bring the Welsh business rates system in line with England and Scotland, as Plaid Cymru has previously said. This would in itself help to reduce the burden on small businesses and would be especially important in Wales where small and medium-sized businesses form such a large part of the economy.

Yn olaf, o ran ardrethi busnes a gwelliant 11, byddai rhannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr yn sicrhau tegwch a byddai'n golygu bod system ardrethi busnes yng Nghymru yn unol â Lloegr a'r Alban, fel y dywedodd Plaid Cymru eisoes. Byddai hyn ynddo'i hun yn helpu i leihau'r baich ar fusnesau bach a byddai'n arbennig o bwysig yng Nghymru lle mae busnesau bach a chanolig yn rhan mor fawr o'r economi.

I share the motion's regret and the Plaid Cymru leader's regret that Welsh GVA per capita is the lowest of all of the UK nations at 75.2%, and we await the latest measure. I know that this is not a statistic that the Welsh Government particularly likes us to use, probably because it has missed its target on GVA by a mile over a number of years, but it is an internationally recognised measure of wealth, and relative wealth vis-à-vis England and neighbouring markets, is an important measure.

Fel y cynnig ac arweinydd Plaid Cymru rwyf innau hefyd yn gresynu mai'r GYC y pen yng Nghymru yw'r isaf o blith gwledydd y DU sef cyfradd o 75.2%, ac rydym yn aros am y mesur diweddaraf. Gwn nad yw hwn yn ystadegyn y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus inni ei ddefnyddio, a hynny, yn ôl pob tebyg, am ei bod wedi methu â chyrraedd ei tharged o ran GYC o bell ffordd dros nifer o flynyddoedd, ond mae'n fesur o gyfoeth a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac mae cyfoeth cymharol o ran Lloegr a marchnadoedd cyfagos, yn fesur pwysig.

Our amendment 5 highlights the failure of the Welsh Government to use the significant economic levers at its disposal to stimulate the Welsh economy. Yes, Eluned Parrott, many macro-economic levers do remain in the hands of the UK Government, but that does not mean that the Welsh Government does not have a range of economic tools at its disposal. Indeed, following the Silk commission, it has an increasing range of fiscal tools thanks to the efforts of UK Liberal-Conservative coalition Government, and far more fiscal powers than were devolved under the 13 years of the previous Labour UK Government. We rarely hear about that lack of devolution of power from the Welsh Government these days, do we? I wonder why.

Mae ein gwelliant 5 yn tynnu sylw at fethiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r ysgogiadau economaidd pwysig er mwyn sbarduno economi Cymru. Eluned Parrott, oes, mae llawer o ysgogiadau macro-economaidd yn nwylo Llywodraeth y DU o hyd, ond nid yw hynny'n golygu nad oes gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth o ysgogiadau economaidd sydd ar gael iddi. Yn wir, yn dilyn comisiwn Silk, mae amrywiaeth cynyddol o offer ariannol ar gael, diolch i ymdrechion Llywodraeth glymblaid Ryddfrydol-Geidwadol y DU, a llawer mwy o bwerau cyllidol nag a ddatganolwyd yn ystod 13 blynedd o Lywodraeth Lafur flaenorol y DU. Anaml y clywn am y methiant hwnnw i ddatganoli pwerau gan Lywodraeth Cymru y dyddiau hyn. Tybed pam.

The Liberal Democrats' amendment 2 highlights the fact that the private sector in Wales accounts for just under a third of all employment, and, let us face it, I think that we would all agree that the private sector is too small. We need to be supporting our business community to create jobs and grow its businesses as well as creating the right conditions for entrepreneurs to set up new businesses throughout Wales. I refer, as I did previously during questions, to the recommendation of the Enterprise and Business Committee's inquiries into apprenticeships and youth entrepreneurship, to name but two.

Mae gwelliant 2 y Democratiaid Rhyddfrydol yn tynnu sylw at y ffaith bod y sector preifat yng Nghymru yn cyfrif am ychydig o dan draean o'r holl gyflogaeth, a, gadewch inni wynebu'r gwirionedd, credaf y byddem i gyd yn cytuno bod y sector preifat yn rhy fach. Mae angen inni fynd ati i helpu ein cymuned fusnes i greu swyddi a chynyddu ei busnesau yn ogystal â chreu'r amodau cywir ar gyfer entrepreneuriaid i sefydlu busnesau newydd ledled Cymru. Cyfeiriaf, fel y gwneuthum o'r blaen yn ystod y cwestiynau, at argymhelliad ymchwiliadau'r Pwyllgor Menter a Busnes i brentisiaethau ac entrepreneuriaeth ieuenctid, i enwi dim ond dau.

Amendment 3 highlights the 0.8% growth that the UK economy witnessed in the third quarter of 2013. This is a testament of the tough but correct decisions that the Chancellor has taken in Westminster. We were told that George Osborne did not have a plan to tackle the stagnate economy that he inherited in 2010; well, with UK growth at its fastest pace for a number of years, this argument is becoming less relevant.

Mae gwelliant 3 yn tynnu sylw at y twf o 0.8% a welwyd yn economi'r DU yn ystod trydydd chwarter 2013. Mae hyn yn dyst i'r penderfyniadau anodd ond cywir a wnaed gan y Canghellor yn San Steffan. Dywedwyd wrthym nad oedd gan George Osborne gynllun i fynd i'r afael â'r economi a etifeddodd yn 2010 a oedd yn aros yn ei hunfan; wel, gyda thwf yn y DU ar ei lefel gyflymaf ers nifer o flynyddoedd, mae'r ddadl hon yn dod yn llai perthnasol.

Amendment 10 calls on the Government to respond to Professor Dylan Jones-Evans's access to finance review as soon as possible. Welsh businesses have had major difficulties in understanding and accessing Finance Wales over the years. There are and remain significant concerns about the level of interest rates that Finance Wales has been levying; those were exposed in the recent report by Professor Jones-Evans. The Welsh Conservatives would reconstitute Finance Wales, as 'Invest Wales', which has gained backing from across the business sector. This would make the organisation more local, more business-facing and business-friendly and more fit for purpose.

Mae gwelliant 10 yn galw ar y Llywodraeth i ymateb i adolygiad yr Athro Dylan Jones-Evans ar y cyllid sydd ar gael i fusnesau cyn gynted ag y bo modd. Mae busnesau yng Nghymru wedi cael anawsterau mawr o ran deall a cheisio arian gan Cyllid Cymru dros y blynyddoedd. Erys pryderon mawr o hyd ynghylch lefel y cyfraddau llog y mae Cyllid Cymru wedi bod yn eu codi; fe'u hamlygwyd yn adroddiad diweddar yr Athro Jones-Evans. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ailgyfansoddi Cyllid Cymru, yn 'Buddsoddi Cymru', sydd wedi ennill cefnogaeth o bob rhan o'r sector busnes. Byddai hyn yn gwneud y sefydliad yn fwy lleol, wedi'u hanelu'n well at fusnesau ac yn fwy ystyriol ohonynt ac yn fwy addas at y diben.

Finally, Deputy Presiding Officer, here in Wales, we cannot afford to be left behind while the economy improves elsewhere. Laying blame at the door of the UK Government is simply not enough and it is wearing thin with businesses and the public alike. Let us get on with the job of bolstering the Welsh economy. The people of Wales deserve better.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, yma yng Nghymru, ni allwn fforddio bod ar ei hôl hi tra bod yr economi yn gwella mewn mannau eraill. Nid yw beio Llywodraeth y DU yn ddigon da ac mae busnesau a'r cyhoedd fel ei gilydd yn dechrau diflasu ar hynny. Gadewch inni fwrw ymlaen â'r gwaith o gryfhau economi Cymru. Mae pobl Cymru yn haeddu gwell.

17:08

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mewn lle fel Ynys Môn, cymaint ag unrhyw le, rydym ni yn gwybod bod tyfu'r economi a chreu swyddi yn hollol ganolog i gadw'n ffordd ni o fyw mewn blynyddoedd i ddod, i gynnal ein cymunedau, i gynnal gwariant cyhoeddus, i ddyfodol yr iaith, ac ati. Heb economi ffyniannus, byddwn, mewn difrif, yn colli'n pobl ifanc. Heb fwrlwm economi dynamig, mae'n mynd i fod yn anodd iawn i ddefnyddio'r arfer da sy'n bodoli mewn rhai busnesau i dyfu'r busnesau hynny ac i'w efelychu mewn busnesau eraill. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'r un egwyddorion yn wir ledled Cymru.

In an area such as Anglesey, as much as anywhere else, we know that growing the economy and creating jobs are totally central to keeping our way of life in years to come, to support our communities, to maintain public expenditure, the Welsh language, and so on. Without a prosperous economy, we will lose our young people. Without a dynamic economy, it will be very difficult to use the good practice that exists within some businesses to grow those businesses and to emulate that good practice in other businesses. However, the same principles are of course true throughout Wales.

Cyn troi at yr hyn rydym ni ym Mhlaid Cymru eisiau ei wneud i wireddu'r uchelgais sydd gennym ar gyfer yr economi, hoffwn sôn ychydig mwy am yr angen am system o ddiagnosis economaidd ar gyfer Cymru. Edrychwn ymlaen at weld y ffigurau GVA diweddaraf mewn rhyw bythefnos. Mae hynny'n digwydd ar adeg pan fyddwn yn cael ffigurau 2012 o fewn ychydig o wythnosau i ddechrau 2014. Nid yw dibynnu ar ffigurau sydd mor hen â hynny yn ffordd arbennig o dda o redeg economi gwlad. Mae economi'r Deyrnas Unedig, fel rydym wedi'i glywed yn barod, yn cael ei fesur yn ofalus ac yn rheolaidd—mae'r ffigurau GDP yn cael eu mesur yn chwarterol ac yn cael eu hadolygu'n aml hefyd. Ar ben hynny, ceir dadansoddiadau eraill o wahanol sectorau o ran gweithlu, cyflogau ac ati. Mae'r rhestr yn faith iawn.

Before turning to what we in Plaid Cymru want to do to realise the ambition that we have for the economy, I would like to say a little more about the need for a system of economic diagnosis for Wales. We look forward to seeing the latest GVA figures in about a fortnight. That is happening at a time when we will be having the figures for 2012 within a few weeks of the beginning of 2014. Depending on figures that are as old as that is not an especially good way of running a country's economy. The United Kingdom's economy, as we have already heard, is measured carefully and regularly—the GDP figures are measured quarterly and are reviewed on a regular basis as well. On top of that, there are further analyses of various sectors in terms of workforce, salaries and so on. The list is vast.

Nid yw'r hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru yn rhyw fath o adlewyrchiad ar 'scale' llai o'r hyn sy'n digwydd trwy Brydain. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ffigurau cyfredol yn cael eu cyhoeddi dros Gymru, nid dim ond er mwyn i ni fel gwrthbleidiau allu craffu ar yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud ond er mwyn i'r Llywodraeth ei hunan allu mesur pa mor llwyddiannus yw ei pholisïau. Rwy'n edrych ymlaen at glywed beth yw barn y Gweinidog ar hynny a'r eglurhad o beth yn union mae hi am ei wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd.

What happens here in Wales is not some sort of a reflection on a smaller scale of what is happening through Britain. The Welsh Government has to ensure that the current figures are published for Wales, not only for us as opposition parties to be able to scrutinise what the Government is doing, but also for the Government itself to be able to measure how successful its policies are. I am looking forward to hearing what the Minister's views are on that and the explanation of what exactly she is going to do to ensure that this happens.

Let me turn to the nature of the Welsh economy. We know, as we have heard already, that 99% of Welsh businesses are SMEs—there are over 200,000 of them in Wales. The vast majority are microbusinesses, employing fewer than 10 people. In terms of the number of people employed, we are looking at two thirds of the private sector working in SMEs and a third in microbusinesses. They are a core part of the Welsh economy, so there is a very good reason why Plaid Cymru talks about them so much. It is not to say that we should neglect our large businesses, not at all, despite the fact that they account for just 1% of the numbers of businesses in Wales—that 1% produces over 60% of the turnover in the private sector in Wales. It is a startling statistic that tells us two things, I think. First, it tells us that large businesses are vital to our economy, but, secondly, we have to help make SMEs more competitive. We are delighted, of course, that the three unionist parties in the Chamber have been persuaded of the need to devolve the business rates portfolio. It is something that Plaid Cymru has been calling for for a very long time and something that the business community has been calling for for a very long time, and the announcement that the UK Government has made that business rates are to be fully devolved was, of course, very welcome. We look forward to hearing the outcome of the Welsh Government's latest review, but we can say now that we can proactively reform the business rate system to help our SMEs to compete.

Gadewch imi droi at natur economi Cymru. Gwyddom, fel y clywsom eisoes, fod 99% o fusnesau Cymru yn fusnesau bach a chanolig—mae dros 200,000 ohonynt yng Nghymru. Microfusnesau yw'r mwyafrif helaeth ohonynt, sy'n cyflogi llai na 10 o bobl. O ran nifer y bobl a gyflogir, rydym yn sôn am ddwy ran o dair o'r sector preifat sy'n gweithio mewn busnesau bach a chanolig ac un rhan o dair mewn microfusnesau. Maent yn rhan greiddiol o economi Cymru, felly mae rheswm da iawn pam mae Plaid Cymru yn sôn cymaint amdanynt. Nid yw hynny'n golygu y dylem anwybyddu ein busnesau mawr, dim o gwbl, er eu bod ond yn cyfrif am 1% o nifer y busnesau yng Nghymru—mae'r ganran honno o 1% yn cynhyrchu dros 60% o'r trosiant yn y sector preifat yng Nghymru. Mae'n ystadegyn syfrdanol sy'n dweud dau beth wrthym, fe gredaf. Yn gyntaf, mae'n dweud wrthym fod busnesau mawr yn hanfodol i'n heconomi, ond, yn ail, rhaid inni helpu i wneud busnesau bach a chanolig yn fwy cystadleuol. Rydym yn falch iawn, wrth gwrs, bod y tair plaid unoliaethol yn y Siambr wedi cael eu darbwyllo bod angen datganoli'r portffolio ardrethi busnes. Mae'n rhywbeth y mae Plaid Cymru wedi bod yn galw amdano ers amser maith ac yn rhywbeth y mae'r gymuned fusnes wedi bod yn galw amdano ers amser maith, ac mae'r cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU y bydd ardrethi busnes yn cael eu datganoli'n llawn i'w groesawu'n fawr, wrth gwrs. Rydym yn edrych ymlaen at glywed canlyniad adolygiad diweddaraf Llywodraeth Cymru, ond gallwn ddweud yn awr y gallwn fynd ati i ddiwygio'r system ardrethi busnes i helpu ein busnesau bach a chanolig i gystadlu.

We have to remember that, for small businesses, business rates account for a greater proportion of operating costs than they do for large businesses, and that is why we have been calling for an expansion to the current small business rate relief scheme to cover all businesses under a rateable value of £15,000. All those under £10,000 are eligible under our plans for 100% relief. It would cost an additional £40 million, but that would be funded through our proposals to rebalance the multiplier system. At the moment, Wales is the most expensive place in the UK for small businesses in terms of business rates, but the cheapest place in the UK for large businesses, and we need a second multiplier for large businesses that could fund that cut for smaller businesses.

Rhaid inni gofio, o ran busnesau bach, fod ardrethi busnes yn cyfrif am gyfran uwch o'u costau gweithredu nag y maent yn ei wneud ar gyfer busnesau mawr, a dyna pam rydym wedi bod yn galw am ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi cyfredol i fusnesau bach i gynnwys pob busnes o dan werth ardrethol o £ 15,000. Mae pob un o dan £10,000 yn gymwys o dan ein cynlluniau ar gyfer rhyddhad o 100%. Byddai'n costio £40 miliwn ychwanegol, ond byddai hynny'n cael ei ariannu drwy ein cynigion i ailgydbwyso'r system lluosydd. Ar hyn o bryd, Cymru yw'r lle mwyaf drud yn y DU ar gyfer busnesau bach o ran ardrethi busnes, ond y lle rhataf yn y DU ar gyfer busnesau mawr, ac mae angen ail luosydd ar gyfer busnesau mawr a allai ariannu'r toriad hwnnw i fusnesau llai.

We welcome, of course, the fact that the Conservatives seem to have adopted our multiplier policy with amendment 11; we hope that the Welsh Government will follow suit and act in the interest of Welsh businesses. These are the kinds of policies—

Rydym yn croesawu, wrth gwrs, y ffaith bod y Ceidwadwyr, i bob golwg, wedi mabwysiadu ein polisi ynglŷn â'r lluosydd drwy welliant 11; gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un fath ac yn gweithredu er budd busnesau Cymru. Dyma'r math o bolisïau—

*Nick Ramsay a gododd—*

*Nick Ramsay rose—*

17:12

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Time is running out, sorry. These are the kinds of policies that Plaid Cymru has long been pushing for, but we have been restricted in the past by the devolution settlement. In the future, we will be able to act. We must look forward to using these new tools to take another step towards creating the kind of growth that Wales so desperately needs.

Mae amser yn mynd yn brin, mae'n ddrwg gennyf. Dyma'r math o bolisïau y mae Plaid Cymru wedi bod yn pwyso amdanynt ers amser, ond rydym wedi cael ein cyfyngu yn y gorffennol gan y setliad datganoli. Yn y dyfodol, byddwn yn gallu gweithredu. Rhaid inni edrych ymlaen at ddefnyddio'r offer newydd hyn i gymryd cam arall tuag at greu'r math o dwf sydd ei angen mor ddybryd ar Gymru.

17:13 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This debate, put forward by Plaid Cymru, is obviously a very wide debate that covers lots of areas. I would like to start by also welcoming the fact that this is Small Business Week and that Small Business Saturday is next Saturday, as I am looking forward to being on Whitchurch High Street, where I have been working with the traders to advertise Small Business Saturday. There will be stalls and lots of effort made to promote buying locally, so I am looking forward to that very much.

Mae'r ddadl hon, a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, yn amlwg yn ddadl eang iawn sy'n cwmpasu llawer o feysydd. Hoffwn ddechrau drwy hefyd groesawu'r ffaith mai Wythnos y Busnesau Bach ydyw yr wythnos hon ac mai Dydd Sadwrn y Busnesau Bach ydyw ddydd Sadwrn nesaf, gan fy mod yn edrych ymlaen at fod ar y Stryd Fawr yn yr Eglwys Newydd, lle rwyf wedi bod yn gweithio gyda masnachwyr i hysbysebu Dydd Sadwrn y Busnesau Bach. Bydd stondinau a llawer o ymdrech i hyrwyddo prynu'n lleol, felly edrychaf ymlaen at hynny'n fawr iawn.

I wish to go back to the resolution. First of all, the resolution put forward by Plaid Cymru refers to the £500 million funding gap between the demand for finance from Welsh businesses and the supply from the banking centres, and I think that this estimate was made in the second half of the review commissioned by the Welsh Government to examine access to finance for SMEs by Professor Dylan Jones-Evans. I am very pleased that the Finance Committee is carrying out an inquiry into Finance Wales, and I hope that we will have the opportunity to get further analysis regarding how that figure of £500 million was reached, because I think that if we know more detail about that, that will help us in seeing where the money needs to go.

Hoffwn ddychwelyd at y cynnig. Yn gyntaf oll, mae'r cynnig a gynigiwyd gan Blaid Cymru yn cyfeirio at y bwlch cyllido o £500 miliwn rhwng y galw am gyllid gan fusnesau Cymru a'r cyflenwad gan y canolfannau bancio, a chredaf i'r amcangyfrif hwn gael ei wneud yn ail hanner yr adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried y cyllid sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig gan yr Athro Dylan Jones-Evans. Rwy'n falch iawn bod y Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad i Cyllid Cymru, a gobeithio y cawn gyfle i gael dadansoddiad pellach ynglŷn â sut y lluniwyd y ffigur hwnnw o £500 miliwn, gan fy mod yn credu, os cawn fwy o fanylion am hynny, y bydd yn ein helpu i weld lle mae angen dosbarthu'r arian.

The business bank for lending is in the process of being set up by the Secretary of State for Business, Innovation and Skills, Vince Cable, with the aim of providing development capital for UK companies, but it will not have any regional or country base, such as in Wales, so it is very important that Welsh companies get their fair share of that money. It is absolutely crucial that the Welsh Government works to ensure that that happens, and I know that it is doing that at the moment.

Mae'r banc busnes ar gyfer benthyca yn cael ei sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, Vince Cable, ar hyn o bryd gyda'r nod o ddarparu cyfalaf datblygu ar gyfer cwmnïau yn y DU, ond ni fydd ganddo unrhyw sylfaen ranbarthol na gwlad, megis yng Nghymru, felly mae'n bwysig iawn bod cwmnïau o Gymru yn cael eu cyfran deg o'r arian hwnnw. Mae'n gwbl hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod hynny'n digwydd, a gwn ei bod yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

I also think that Finance Wales has a crucial role to play in this. Finance Wales has 12 years' experience of working in Wales, which is very short in the life of a development bank, but it is 12 more years than the new business bank will have. Finance Wales is key to ensuring that we take advantage of the money that will be available from the new business bank.

Credaf hefyd fod gan Cyllid Cymru rôl hanfodol i'w chwarae yn hyn o beth. Mae gan Cyllid Cymru 12 mlynedd o brofiad o weithio yng Nghymru, sy'n gyfnod byr iawn ym mywyd banc datblygu, ond mae'n 12 yn fwy o flynyddoedd nag a fydd gan y banc busnes newydd. Mae Cyllid Cymru yn allweddol i sicrhau ein bod yn manteisio ar yr arian a fydd ar gael gan y banc busnes newydd.

Finance Wales also has the experience of working outside, in the north-east and north-west of England. This is positive for Wales in the corporate finance world because it gives Finance Wales more experience, clout and credibility with the potential private co-investors that it needs. Therefore, we certainly need Finance Wales to have the franchise to invest the capital from the business bank in Wales. This is an issue that is crucial and current, and we are having a lot of reports; many working parties are looking into all of this. However, I think that we should recognise what we actually have in Wales that no other part of the country has, and we should build upon it to ensure that we get the maximum benefits for Wales.

Mae gan Cyllid Cymru brofiad o weithio y tu allan i Gymru hefyd, yng ngogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Lloegr. Mae hyn yn gadarnhaol i Gymru ym myd cyllid corfforaethol oherwydd mae'n rhoi mwy o brofiad, grym a hygrededd ymhlith y darpar gyd-fuddsoddwyr preifat y mae eu hangen ar Cyllid Cymru. Felly, yn sicr, mae angen i Gyllid Cymru gael y fasnachfraint i fuddsoddi'r cyfalaf gan y banc busnes yng Nghymru. Mae hwn yn fater sy'n hanfodol ac yn gyfredol, ac rydym yn cael llawer o adroddiadau; mae llawer o weithgorau yn ystyried hyn i gyd. Fodd bynnag, credaf y dylem gydnabod yr hyn sydd gennym yng Nghymru nad oes gan unrhyw ran arall o'r wlad, ac y dylem adeiladu arno er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posibl i Gymru.

As I say, the resolution is wide-ranging, but I think that, crucially, at the moment, we need to get finance to the SMEs. The setting up of this British business bank for lending is the key way of doing that.

Fel y dywedais, mae'r cynnig yn eang ei gwmpas, ond credaf, yn hollbwysig, ar hyn o bryd, fod angen inni gael cyllid i'r busnesau bach a chanolig. Sefydlu banc busnes i Brydain ar gyfer benthyca yw'r ffordd allweddol o wneud hynny.

17:17 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch iawn i gael cyfrannu at y ddadl hynod bwysig hon ar yr economi, ac yn falch hefyd fod y cynnig yn cyfeirio at bwysigrwydd adnoddau naturiol Cymru i'n heconomi. Rwyf yn aml yn cyfeirio at enw'r corff newydd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r fersiwn Gymraeg, fel rwyf wedi'i ddweud lawer gwaith, yn fwy addas o lawer na'r fersiwn Saesneg, oherwydd y gair 'cyfoeth' yn benodol, sef 'wealth', yn hytrach na'r gair 'adnoddau' neu 'resources', sef y gair a ddefnyddir yn y fersiwn Saesneg. Rwy'n meddwl bod y gair 'cyfoeth' lawer yn fwy priodol gan ei fod yn creu darlun o werth ein hadnoddau naturiol a'u pwysigrwydd i bobl Cymru. Mae'r gwerth hwnnw yn werth uchel iawn ar sawl lefel, ac yn benodol ar lefel economaidd yng nghyd-destun y cynnig hwn heddiw.

I am pleased to contribute to this extremely important debate on the economy. I am particularly pleased that the motion refers to the importance of the natural resources of Wales to our country's economy. I often refer to the name of the new body, namely Cyfoeth Naturiol Cymru, or Natural Resources Wales. The Welsh version, as I have said many times, is far more appropriate than the English version because of the use of the word 'cyfoeth', which means 'wealth', rather than 'adnoddau', or 'resources', which is the word used in the English version of the title. I think that the word 'cyfoeth' is far more appropriate because it generates a picture of the value of our national resources and their importance to the people of Wales. That value, of course, is extremely high on a number of levels, but particularly on an economic level in the context of this motion today.

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan RenewableUK Cymru wedi dangos y bydd cyrraedd y nod o ddarparu cyfanswm o 2,000 MW o gapasiti gwynt ar y tir erbyn 2025 yn ychwanegu tua £60 miliwn at GVA Cymru bob blwyddyn, a dros 2,000 o swyddi llawn amser yn sgîl hynny. Yn y senario hwnnw, byddai gan Gymru gyfle i ychwanegu rhyw £2.3 biliwn at ein GVA erbyn 2050. Mae'r ffigurau hynny yn ymwneud â'r sector gwynt ar dir yn unig, wth gwrs. Mae angen ystyried y potensial ehangach sydd ym moroedd Cymru, er enghraifft, o safbwynt nid yn unig y gwynt ond y llanw. Dim ond heddiw, cyhoeddwyd ffigurau yn ymwneud â phrosiect lagŵn ym mae Abertawe, a fyddai'n dod â gwariant o ryw £300 miliwn i economi Cymru, 1,850 o swyddi yn y cyfnod adeiladu, 60 swydd hirdymor, 90 o swyddi ychwanegol yn sgîl gwariant ymwelwyr, a rhyw £5 miliwn o wariant ychwanegol yn lleol yn nghyfnod gweithredol y cynllun. Felly, mae potensial aruthrol.

Research commissioned by RenewableUK Cymru has demonstrated that reaching the target of providing a total of 2,000 MW of onshore wind capacity by 2025 will add some £60 million to the Welsh GVA per annum, and more than 2,000 full-time jobs will be created as a result. In that scenario, Wales could add some £2.3 billion to our GVA by 2050. Those figures relate only to the onshore wind industry, of course. We also need to consider the wider potential of our seas, for example, in terms of not only wind power, but tidal power. Just today, figures were published for the Swansea bay lagoon project, bringing expenditure of some £300 million into the Welsh economy, with some 1,850 jobs in the construction period, 60 long-term jobs, 90 additional jobs as a result of tourism income, and some £5 million of additional local expenditure during the operation of the scheme. So, there is huge potential.

Mae'r ail lanw mwyaf pwerus yn y byd ym moryd Hafren, heb sôn am ynni solar, hydro, ac yn y blaen. Serch hynny, mae'n destun pryder—fel mae pobl yn y fan hon wedi ein clywed yn dweud yn y gorffennol—nad oes gan Gymru yr hawl lawn i ddefnyddio ein hadnoddau fel y mynnwn nac yr hawl lawn i fanteisio ar eu potensial fel y dylem. Mae'n hanfodol, felly, fod y pleidiau unoliaethol yn ymrwymo i ddatganoli Ystâd y Goron a phortffolio ynni yn eu cyfanrwydd yn eu maniffestos ar gyfer etholiadau seneddol San Steffan yn 2015.

The Severn estuary has the second most powerful tidal range in the world, not to mention solar and hydro power, and so on. However, it is a cause of concern—as many of you will have heard us saying in the past—that Wales does not have full powers to make use of our resources as we choose, and neither do we have full powers to take advantage of their potential as we should. It is therefore crucially important that the unionist parties should commit to devolving the Crown Estate and the energy portfolio in their entirety in their manifestos for the next Westminster elections in 2015.

Mae arweinydd y blaid, Leanne Wood, wedi sôn yn y gorffennol am ennyn ail chwyldro diwydiannol yn y diwydiannau gwyrdd. Mae'r sector yn amlwg yn llawn potensial i economi Cymru, ond mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn gallu gwireddu'r potensial hwnnw, oherwydd y sector werdd yw sector y dyfodol, ac felly mae gwariant ar y sector honno, drwy ymchwil, addysg, technoleg ac unrhyw ffordd arall, yn fuddsoddiad yn ein dyfodol ni ac i'r cenedlaethau i ddod. Dyna ran o'r rheswm y gwthiodd Plaid Cymru am wariant cyfalaf, er enghraifft, ar gyfer parc gwyddoniaeth Menai fel rhan o'r cytundeb ar gyllideb y flwyddyn bresennol, i sicrhau bod ymchwil prifysgolion Bangor ac Aberystwyth yn cael ei chyplysu â diwydiant i ennyn mwy o waith ymchwil yn y sector werdd. Mae Cymru mewn lle da i fanteisio ar yr angen i symud tuag at economi werdd, ond rydym mewn cystadleuaeth â gwledydd eraill. Felly, mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth y gallwn ni i sicrhau bod Cymru'n cymryd y fantais lawn o bob cyfle sy'n dod i'n rhan ni.

The party leader, Leanne Wood, has previously mentioned a second industrial revolution in the green energy sector. The sector is clearly full of potential for the Welsh economy, but we must ensure that we can actually achieve that potential, because the green sector is the sector for the future and, therefore, expenditure in this sector, through research, education and technology, and any other investment, is an investment in our future and in our future generations. That is part of the reason that Plaid Cymru pushed for capital expenditure for the Menai science park as part of the budgetary agreement for this current year, to ensure that university research in Bangor and Aberystwyth can be linked with industry in order to encourage more research in the green sector. Wales is well placed to take advantage of the need to move towards a green economy, but we are in competition with other nations. Therefore, we must ensure that we do everything within our powers to ensure that Wales takes full advantage of every opportunity available to us.

Rydym ni, fel plaid, wedi sôn am sefydlu coleg sgiliau gwyrdd yn y Cymoedd. Byddai'r coleg hwn yn creu cyfleoedd i bobl ifanc ac yn helpu datblygu gweithlu Cymru er mwyn ein paratoi ar gyfer y dyfodol, heb sôn am unrhyw fudd economaidd uniongyrchol y byddai creu sefydliad o'r fath yn ei chael yn un o'r rhanbarthau cymharol dlawd sydd gennym yma yng Nghymru.

We, as a party, have mentioned the establishment of a green skills college in the Valleys. This college would create opportunities for young people and help to develop the Welsh workforce to prepare us for the future, never mind any direct economic benefit that would accrue from the establishment of such an institution in one of the more deprived regions of Wales.

Ar hyn o bryd, mae'r Alban yn bell ar y blaen o ran datblygu technolegau gwyrdd newydd. Mae Prif Weinidog yr Alban wedi bod yn ymweld â nifer o wledydd datblygedig i wthio am gytundebau masnach, ac mae'r arian wedi dod i'r Alban i ddatblygu llawer o'r technolegau hyn yn sgîl hynny. Nid yw'n rhy hwyr i ni ddal i fyny a sicrhau bod y byd hefyd yn ystyried Cymru yn wlad arloesol, ragorol ar gyfer y diwydiannau gwyrdd, ond mae hynny, i raddau helaeth, yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn dangos arweiniad yn y cyd-destun hwn ac yn sicrhau bod hynny'n digwydd.

At the moment, Scotland is way ahead in terms of developing new green technologies. The Scottish First Minister has visited a number of developed nations to press for trade agreements, and the funding has come to Scotland to develop many of these technologies as a result. It is not too late for us to catch up and to ensure that the world also considers Wales as an innovative country where there is excellence in terms of green industries, but it is, to a great extent, up to the Welsh Government to show leadership and guidance in this context and to ensure that that happens.

Roeddwn yn mynd i sôn ychydig am bwysigrwydd y sector twristiaeth hefyd, fel rhywun sy'n cynrychioli ardal lle mae'r sector honno'n arbennig o bwysig, ond mae amser yn fy nghuro, felly anogaf y Cynulliad i gefnogi'r cynnig sydd ger eich bron.

I was going to mention the importance of the tourism sector, as one who represents an area where that sector is particularly important, but time has beaten me, so I will encourage the Assembly to support the motion today.

17:22

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Despite an increase in consumer and business confidence, and 0.8% growth in the third quarter of 2013, signalling the onset of economic recovery, the fact remains that Wales is lagging behind. Unemployment is the highest in the UK, with 7.8% out of work, and the claimant count in Wales has never been below the UK average since 1997. Gross value added is significantly behind that of the UK average at 75.2%, compared with 98.6% in Scotland. New business start-up rates of 9.4% are well behind the UK average rate of 11.4%. I think that it is fair to say that we need to see a reversal of fortunes to improve the outlook for the people, businesses and economy of Wales.

Er bod mwy o hyder ymhlith defnyddwyr a busnesau, a thwf o 0.8% yn ystod trydydd chwarter 2013, sy'n arwydd o adferiad economaidd, erys y ffaith bod Cymru ar ei hôl hi. Yng Nghymru y mae'r diweithdra uchaf yn y DU, gyda 7.8% yn ddi-waith, ac nid yw nifer y rhai sy'n hawlio yng Nghymru byth wedi bod yn is na chyfartaledd y DU ers 1997. Mae gwerth ychwanegol crynswth yn sylweddol is na chyfartaledd y DU sef 75.2%, o gymharu â 98.6% yn yr Alban. Mae cyfraddau busnesau newydd o 9.4% dipyn yn is na'r gyfradd gyfartalog i'r DU sef 11.4%. Credaf ei bod yn deg dweud bod angen inni weld gweddnewidiad llwyr er mwyn gwella'r rhagolygon ar gyfer pobl, busnesau ac economi Cymru.

Micro, small and medium-sized businesses are the fulcrum of the Welsh economy, constituting some 99.3% of all enterprises. If we are truly to get our economy growing, it will be through establishing the right conditions to allow these businesses to develop, grow and excel. This will only be possible by ensuring access to the financial and practical support necessary to strengthen the sector. Smaller firms need easier access to financial support and sound business advice. The report by Professor Dylan Jones-Evans put into stark terms the desperate nature of the current situation. The value of borrowing-approved facilities to SMEs in Wales has fallen by 30% since the third quarter of 2011, demonstrating that much-needed funding is still beyond the reach of those businesses that could fire the engines of economic recovery. Professor Jones-Evans has further raised the possibility of a feasibility study into establishing a Welsh development bank. This would consolidate all available funding streams into one designated body, levelling the playing field in favour of the smaller businesses that sometimes lack the savvy or the capacity to otherwise locate them.

Microfusnesau a busnesau bach a chanolig yw ffwlcrwm economi Cymru, sy'n cyfrif am tua 99.3% o'r holl fusnesau. Os ydym am gael ein heconomi i dyfu o ddifrif, drwy greu'r amodau cywir i alluogi'r busnesau hyn i ddatblygu, tyfu a rhagori y byddwn yn gwneud hynny. Dim ond drwy sicrhau bod y cymorth ariannol ac ymarferol sydd eu hangen i gryfhau'r sector ar gael y bydd modd gwneud hynny. Mae angen iddi fod yn haws i gwmnïau llai gael gafael ar gymorth ariannol a chyngor busnes cadarn. Rhoddodd adroddiad yr Athro Dylan Jones-Evans ddisgrifiad di-flewyn-ar-dafod o natur enbyd y sefyllfa sydd ohoni. Mae gwerth cyfleusterau benthyca cymeradwy i BBaChau yng Nghymru wedi gostwng 30% ers trydydd chwarter 2011, gan ddangos bod arian mawr ei angen yn dal i fod y tu hwnt i gyrraedd y busnesau hynny a allai sbarduno adferiad economaidd. Cododd yr Athro Jones-Evans ymhellach y posibilrwydd o gynnal astudiaeth dichonoldeb ar sefydlu banc datblygu yng Nghymru. Byddai hyn yn cyfuno'r holl ffrydiau ariannu sydd ar gael yn un corff dynodedig, gan wneud pethau'n haws i fusnesau llai nad ydynt weithiau yn meddu ar y craffter na'r gallu i ddod o hyd iddynt fel arall.

I wish to put on record the importance of support for our microbusinesses. These enterprises have increased sixfold since the findings of the Bolton report in the 1970s and now constitute 94.6% of all Welsh enterprises. This sector has actually managed to grow in number by around 0.5 million since the onset of the recession, demonstrating its viability and its increased importance to our economy. In Lord Young's report on this sector, however, it was found that three quarters of microbusinesses are sole traders that have no employees, and were the right support forthcoming for these firms to employ just one member of staff, it would eradicate the unemployment rate in Wales and get our economy going and growing. The Welsh Conservatives believe in providing business rate relief to all those with a rateable value of up to £12,000—that has been our policy for years—and tapered relief for those up to £15,000. When combined with increased access to financial assistance and other business support, this would greatly improve confidence in this sector, increasing the number of who take those who take the risk of employing additional staff or accessing component financial products.

Hoffwn nodi ar goedd pa mor bwysig yw cefnogi ein microfusnesau. Mae'r busnesau hyn wedi cynyddu chwe gwaith ers canfyddiadau adroddiad Bolton yn y 1970au ac erbyn hyn maent yn cyfrif am 94.6% o holl fusnesau Cymru. Mae'r sector hwn wedi llwyddo i dyfu mewn niferoedd o tua 0.5 miliwn ers dechrau'r dirwasgiad, gan ddangos ei hyfywedd a'i bwysigrwydd cynyddol i'n heconomi. Fodd bynnag, yn adroddiad yr Arglwydd Young ar y sector hwn, gwelwyd mai unig fasnachwyr oedd tri chwarter y microfusnesau ac nad ydynt yn cyflogi gweithwyr, a phe bai'r cymorth cywir ar gael i'r cwmnïau hyn gyflogi un aelod o staff yn unig, y byddai'n dileu diweithdra yng Nghymru a sicrhau bod ein heconomi yn ffynnu ac yn tyfu. Cred y Ceidwadwyr Cymreig mewn rhoi rhyddhad ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000—sef ein polisi ers blynyddoedd—a rhyddhad sy'n lleihau'n raddol ar gyfer y rhai hyd at £15,000. Ynghyd â mwy o gymorth ariannol a mathau eraill o gymorth i fusnesau, byddai hyn yn ennyn hyder y sector hwn yn fawr, gan gynyddu nifer y rhai sy'n mentro cyflogi staff ychwanegol neu ddefnyddio cynhyrchion ariannol cydrannol.

The Welsh Conservatives' 'Invest Wales' document outlines our plans for encouraging lending to micro, small and medium-sized businesses. We believe, as does the stage 2 report on SME access to finance, that access to finance should be localised with six Invest Wales regions to match the geo-specific challenges faced across Wales. Additionally, each branch of Invest Wales would have designated staff to provide hands-on support with the intricacies of running a business and offer expert advice on the local market. It is this kind of hands-on, business-friendly approach that the Welsh Government should be taking to inspire economic growth in Wales with the announcement on the full devolution of business rates and financial powers to improve our infrastructure. The ball is now firmly in the court of the Welsh Government. The onus is on you to provide a comprehensive plan on how you intend to support the growth of our SME sector in Wales by improving access to funding and support. Our Welsh businesses face challenges that are not intractable but nor are they inconsequential. It is up to the Welsh Government to provide the support that these businesses want, need and certainly deserve.

Mae dogfen y Ceidwadwyr Cymreig 'Buddsoddi Cymru' yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer annog benthyca i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig. Credwn, fel y gwna adroddiad cam 2 ar y cyllid sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig, y dylai cyllid fod ar gael yn lleol gyda chwe rhanbarth Buddsoddi Cymru i gyd-fynd â'r heriau daearyddol penodol a wynebir ledled Cymru. Yn ogystal, byddai gan bob cangen o Buddsoddi Cymru staff dynodedig i roi cymorth ymarferol gyda chymhlethdodau rhedeg busnes a byddent yn cynnig cyngor arbenigol ar y farchnad leol. Dyma'r math o weithredu ymarferol sy'n ystyriol o fusnesau y dylai Llywodraeth Cymru ei fabwysiadu er mwyn ysbrydoli twf economaidd yng Nghymru gyda'r cyhoeddiad ar ddatganoli ardrethi busnes yn llawn a phwerau ariannol er mwyn gwella ein seilwaith. Tro Llywodraeth Cymru i weithredu yn awr ydyw. Mae'r cyfrifoldeb arnoch chi i ddarparu cynllun cynhwysfawr ynglŷn â sut rydych yn bwriadu cefnogi twf ein sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy wella'r cyllid a'r cymorth sydd ar gael. Mae ein busnesau yng Nghymru yn wynebu heriau nad ydynt yn amhosibl eu hateb, ond nad ydynt yn ddibwys ychwaith. Mater i Lywodraeth Cymru yw rhoi'r cymorth sydd ei eisiau, sydd ei angen ac yn sicr sydd ei haeddu ar y busnesau hyn.

17:26

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn gyfeirio at un adran lle gellid, yn sicr, ddatblygu economi Cymru i raddau helaeth iawn, a'r adran honno yw caffael cyhoeddus. Yng Nghymru, mae caffael cyhoeddus yn cynrychioli cyfle gwirioneddol i gwmnïau o Gymru i sicrhau cytundebau a fyddai'n creu swyddi, yn cryfhau ac yn rhoi egni i'r economi yng Nghymru i raddau helaeth iawn. Ar hyn o bryd, mae 52% o gontractau o fewn caffael cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i gwmnïau yng Nghymru. Mae hynny'n welliant sylweddol ar y sefyllfa a oedd yn bodoli yn 2003 pan oedd 35% o'r cytundebau hynny'n mynd i gwmnïau o Gymru. Mae'r 52% o gytundebau hynny yn cynrychioli 98,000 o swyddi. Uchelgais Plaid Cymru yw gweld canran y cytundebau yn codi o 52% i 75%. Byddai hynny'n creu 46,000 o swyddi ychwanegol yng Nghymru. Rhag ofn eich bod yn credu fy mod i'n creu ffigurau ac yn creu swyddi, mae adran gaffael y Llywodraeth yn dweud wrthym fod cynyddu canran y cytundebau sy'n mynd i gwmnïau o Gymru o 1% yn creu oddeutu 2,000 o swyddi newydd. Felly, mae cyfle gwirioneddol yn y fan hon.

I would like to refer to one area where we could most definitely develop the economy of Wales to a great extent, and that area is public procurement. In Wales, public procurement represents a real opportunity for Welsh companies to win contracts that would create jobs and, therefore, strengthen and energise the economy of Wales singificantly. At the moment, 52% of public procurement contracts go to Welsh companies. That is a substantial improvement on the situation that existed in 2003, when 35% of those contracts went to Welsh companies. That 52% of contracts represents 98,000 jobs. It is Plaid Cymru's ambition to see that percentage of contracts increasing from 52% to 75%. That would create 46,000 additional jobs in Wales. In case you thought that I was plucking figures and jobs from the air, the Government's procurement department tells us that increasing the percentage of contracts that go to Welsh companies by 1% would lead to some 2,000 new jobs. Therefore, there is real opportunity in this regard.

Efallai fod rhai ohonoch am ddweud y byddai'n braf iawn pe gellid gwneud hynny ond mae rheoliadau Ewropeaidd yn atal hynny rhag digwydd. Rwy'n clywed hynny'n aml iawn wrth siarad â llywodraeth leol yng Nghymru. Maent yn dadlau bod yn rhaid iddynt sicrhau bod sefyllfa o dendro agored. Fodd bynnag, mae modd dehongli'r rheoliadau hyn. Mae Ffrainc a'r Almaen, er enghraifft, yn sicrhau bod bron 100% o gontractau caffael cyhoeddus yn mynd i gwmnïau lleol yn y gwledydd hynny. Os oes modd gwneud hynny yn Ffrainc a'r Almaen, mae modd gwneud hynny yng Nghymru hefyd. Yn anffodus, nid yw hynny'n digwydd i'r graddau y byddwn yn dymuno iddo ddigwydd. Felly, sut yn union y gallwn ni sicrhau ein bod yn gwneud yng Nghymru yr hyn sy'n digwydd mewn cynifer o wledydd Ewropeaidd? Rwyf wedi sôn am yr Almaen a Ffrainc, a gallwn sôn am bron bob gwlad yn Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd sy'n sicrhau bod canran uwch o'r cytundebau hyn o ran caffael cyhoeddus yn mynd i gwmnïau lleol.

Perhaps some of you are thinking that it would be very good if we could do that but that there are European regulations that restrict that from happening. I hear that very often in conversations with local government in Wales. They argue that they have to ensure that there is a situation of open tendering. However, these regulations are open to interpretation. France and Germany, for example, ensure that almost 100% of public procurement contracts go to local companies in their respective countries. If there is a means of doing so in France and Germany, there is a way of doing so in Wales as well. Unfortunately, that is not happening to the extent that we would wish it to happen. Therefore, how exactly can we ensure that we in Wales are doing what is being done in a number of other European countries? I have mentioned Germany and France, but we could mention almost every country in Europe and the European Union, where they ensure that a higher percentage of public procurement contracts go to local companies.

Nid wyf yn credu mai'r polisi sy'n ddiffygiol; o'r hyn rwy'n ei ddeall oddi wrth arbenigwyr ar yr economi, maent yn cytuno bod hwn yn faes a allai fod yn llewyrchus iawn i Gymru. Maent yn teimlo bod y polisi yn gywir, ond maent yn credu, o ran y sector cyhoeddus, bod y dehongliad o'r modd y mae'r cytundebau hyn yn cael eu penderfynu yn anghywir. Byddwn am glywed gennych, Weinidog, sut y gellir sicrhau bod y neges yn mynd allan yn glir iawn i'r sector cyhoeddus yma bod modd cyfeirio'r cytundebau hyn i gwmnïau yng Nghymru.

I do not think that it is the policy that is deficient; from what I understand from experts on the economy, they agree that this is an area that could be very profitable for Wales. They feel that the policy is correct, but they think that, in terms of the public sector, the interpretation of how these contracts are decided is wrong. I would like to hear from you, Minister, how we can ensure that the message goes out very clearly to the public sector that it is possible to refer these contracts to companies in Wales.

Nid yw'r Llywodraeth ychwaith yn gwbl ddifai yn hyn o beth, oherwydd rydych yn defnyddio fframwaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cytundebau hyn—fframwaith BIS. Pe baech yn creu fframwaith Cymreig er mwyn ateb y gofyn yng Nghymru, byddai modd inni sicrhau bod llawer iawn mwy o'r cytundebau hyn yn mynd i gwmnïau Cymru. Mae hwn yn gyfle euraid i ni yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y gallwn gydweithio yn hyn o beth. Edrychwch ar y cynnydd sydd wedi bod o 35% i 52% mewn 10 mlynedd; pe baem, dros y 10 mlynedd nesaf, yn gallu codi'r ganran honno eto o'r un maint, byddem yn sôn am 25,000 neu 30,000 o swyddi newydd yma, a byddai hynny'n gwneud byd o wahaniaeth i gwmnïau yng Nghymru ac i'r economi yng Nghymru.

The Government is not completely without fault here, because you use the UK Government framework to make decisions on these contracts—the BIS framework. If you were to create a Welsh framework in order to meet the demand in Wales, we would be able to ensure that many more of these contracts went to Welsh companies. This is a golden opportunity for us in Wales. I hope that we can work together on this. Look at the increase that there has been from 35% to 52% in 10 years; if we could, over the next 10 years, see a further increase of the same amount, we would be talking about 25,000 or 30,000 new jobs here, and that would make a world of difference to Welsh companies and to the Welsh economy.

17:31

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I think that we have had a good and wide-ranging debate today on the issues that were raised in Plaid Cymru's motion. If I can turn first to the Liberal Democrats' amendments, we will be supporting amendment 1. We will be opposing amendment 2, as the latest official figures show that, in 2013 quarter 2, 25.2% of employment in Wales was in the public sector compared with 19% in the UK. That is the reason for our opposition.

Credaf ein bod wedi cael dadl dda ac eang heddiw ar y materion a godwyd yng nghynnig Plaid Cymru. Os caf droi'n gyntaf at welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, byddwn yn cefnogi gwelliant 1. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 2, gan fod y ffigurau swyddogol diweddaraf yn dangos mai 25.2% o gyflogaeth yng Nghymru oedd yn y sector cyhoeddus yn ystod ail chwarter 2013 o gymharu â 19% yn y DU. Dyna'r rheswm dros ein gwrthwynebiad.

We will certainly be supporting amendment 4. Amendment 8 we cannot currently support, on the small business position. We might have further announcements on this matter later this week, given the speculation in the press on this. We will also be opposing amendment 9, because I have accepted the business rates task and finish group's finding that retention can encourage local authorities to focus on economic development. It will be something that I will consider as part of Brian Morgan's review. We will be supporting amendment 13 and amendment 14.

Byddwn yn sicr yn cefnogi gwelliant 4. Ni allwn gefnogi gwelliant 8 ar hyn o bryd, o ran sefyllfa busnesau bach. Efallai y bydd cyhoeddiadau pellach ar y mater hwn yn ddiweddarach yr wythnos hon, o ystyried y dyfalu yn y wasg ar hyn. Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 9, oherwydd rwyf wedi derbyn canfyddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar ardrethi busnes y gall cadw cyfran ohonynt annog awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar ddatblygu economaidd. Bydd yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried fel rhan o adolygiad Brian Morgan. Byddwn yn cefnogi gwelliant 13 a gwelliant 14.

Turning to Eluned Parrott's contribution, I would certainly agree in principle with her comments on matching growth to finance. I think that this is one of the key issues that has not been dealt with. It is easy to talk about what money you are going to borrow or who is going to lend it to you, but, at the end of the day, how do you expand your business, how do you look at your export opportunities, and who is there to hold your hand? That is very important. You want to know that the person who is holding your hand is not going to rip you off, in terms of what you are doing with them. It is very important that people have confidence in those mechanisms. Certainly, I think that that is a role and function that could be developed far more in the context of Finance Wales, whatever shape that organisation takes after the reviews have been undertaken.

Gan droi at gyfraniad Eluned Parrott, byddwn yn sicr yn cytuno mewn egwyddor â'i sylwadau ar baru twf â chyllid. Credwn mai hwn yw un o'r materion allweddol nad yw wedi cael sylw. Mae'n hawdd sôn am yr arian yr ydych yn bwriadu ei fenthyg neu pwy fydd yn ei fenthyca ichi, ond, yn y pen draw, sut rydych yn ehangu'ch busnes, sut rydych yn edrych ar eich cyfleoedd allforio, a phwy sydd ar gael i roi help llaw ichi? Mae hynny'n bwysig iawn. Rydych am wybod nad yw'r sawl sy'n rhoi help llaw yn mynd i'ch twyllo, o ran yr hyn yr ydych yn ei wneud gyda hwy. Mae'n bwysig iawn bod gan bobl hyder yn y systemau hynny. Yn sicr, credaf fod rôl a swyddogaeth y gellid ei datblygu llawer mwy yng nghyd-destun Cyllid Cymru, waeth beth fo ffurf y sefydliad ar ôl i'r adolygiadau gael eu cynnal.

Turning to the Conservative Party's amendments, we will be opposing amendment 3. The UK's GDP grew by 0.8% in the third quarter, but there is no evidence to prove or disprove that the increase in GDP can be attributed to the UK Government's economic policy. I know that they would like to say that that is the case, but there is no evidence or statistics to bear it out.

Gan droi at welliannau'r Blaid Geidwadol, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 3. Tyfodd CMC y DU 0.8% yn ystod y trydydd chwarter, ond nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n profi neu'n gwrthbrofi y gellir priodoli'r cynnydd mewn CMC i bolisi economaidd Llywodraeth y DU. Gwn yr hoffent ddweud bod hynny'n wir, ond nid oes unrhyw dystiolaeth nac ystadegau sy'n ategu hynny.

We will also be opposing amendment 5, because I believe that the Welsh Government has a range of policy and financial levers available to it to stimulate jobs and growth. We will, however, be supporting amendment 6. I think that public sector bodies in Wales are following the Welsh Government's procurement policy and do share our commitment to use public procurement responsibly in support of our jobs and growth. The points were well made by Rhodri Glyn Thomas in his contribution. We need to look more at what goes on with our continental friends. We need to make sure that the policy grows, that we have numbers that take us above 52% and that we see success. I know that that is work going on in terms of the framework and how they can be broken down further, and hopefully we will have some good news in the long term on that.

Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 5, gan fy mod yn credu bod gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth o bolisïau ac ysgogiadau ariannol ar gael iddi er mwyn sbarduno swyddi a thwf. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi gwelliant 6. Credaf fod cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dilyn polisi caffael Llywodraeth Cymru ac yn rhannu ein hymrwymiad i ddefnyddio caffael cyhoeddus yn gyfrifol er mwyn cefnogi ein swyddi a'n twf. Gwnaed y pwyntiau hynny'n dda gan Rhodri Glyn Thomas yn ei gyfraniad. Mae angen inni edrych yn fanylach ar yr hyn sy'n digwydd gyda'n cyfeillion ar y cyfandir. Mae angen inni wneud yn siŵr bod y polisi yn tyfu, bod gennym niferoedd sy'n mynd â ni yn uwch na 52% a'n bod yn gweld llwyddiant. Gwn fod gwaith yn mynd rhagddo o ran y fframwaith a sut y gellir eu dadansoddi ymhellach, a gobeithio y byddwn yn cael rhywfaint o newyddion da yn yr hirdymor ar hynny.

We will also be opposing amendment 7 from William Graham, because of what I indicated on small business relief in my comments to the Liberal Democrats. We will support amendment 10 in the name of William Graham, because the second stage of the review is completed and is out to consultation till 6 December. I hope that everybody will take the opportunity to respond. In addition, we will support amendments 11 and 12, also in the name of William Graham.

Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 7 gan William Graham, oherwydd yr hyn a nodais ynglŷn â rhyddhad i fusnesau bach yn fy sylwadau i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Byddwn yn cefnogi gwelliant 10 yn enw William Graham, gan fod ail gam yr adolygiad wedi ei gwblhau ac yn destun ymgynghoriad tan 6 Rhagfyr. Gobeithio y bydd pawb yn achub ar y cyfle i ymateb. At hynny, byddwn yn cefnogi gwelliannau 11 a 12, hefyd yn enw William Graham.

A great deal of issues were raised in this debate that I want to give some time to in responding, because growth and sustainable jobs are at the heart of our programme for government. I was very much taken by Llyr Gruffydd's point on the role of renewables and the energy sector as part of the overall economy. It is important to realise that we are a wealthy country. It is not just about resource; it is about wealth and the utilisation of wealth. On his comments on tidal power and lagoons, they are issues that we will increasingly look at from a Government perspective.

Codwyd llawer iawn o faterion yn y ddadl hon yr wyf yn awyddus i roi rhywfaint o amser i ymateb iddynt, oherwydd twf a swyddi cynaliadwy sydd wrth wraidd ein rhaglen lywodraethu. Fe'm trawyd gan bwynt Llyr Gruffydd ynglŷn â rôl ynni adnewyddadwy a'r sector ynni fel rhan o'r economi yn gyffredinol. Mae'n bwysig sylweddoli mai gwlad gyfoethog ydym. Nid oes a wnelo hynny ag adnoddau yn unig; mae'n ymwneud â chyfoeth a defnyddio cyfoeth. O ran ei sylwadau ar ynni'r llanw a morlynnoedd, maent yn faterion y byddwn yn eu hystyried yn gynyddol o safbwynt y Llywodraeth.

The main influence on the Welsh economy in the short to medium term is the prevailing condition of the global economy and the monetary and fiscal policy of the UK Government. Nevertheless, we have taken significant steps to improve the position of businesses in Wales. While we are in agreement with some of the issues covered by the motion, we are unable to support the motion in its entirety. If I turn to statistics—I will not bore us all with our discussions on GVA in real terms—GVA per capita is an important economic indicator, but it should not be viewed in isolation from other indicators. For example, for households, the most important economic indicators are employment and income. Wales performs better on these measures of economic development.

Y prif ddylanwad ar economi Cymru yn y tymor byr i'r tymor canolig yw cyflwr cyffredinol yr economi fyd-eang a pholisi ariannol a chyllidol Llywodraeth y DU. Serch hynny, rydym wedi cymryd camau breision i wella sefyllfa busnesau yng Nghymru. Er ein bod yn cytuno â rhai o'r materion a gwmpesir gan y cynnig, ni allwn gefnogi'r cynnig yn ei gyfanrwydd. Os trof at ystadegau—ni wnaf ddiflasu pawb drwy drafod GYC mewn termau real—mae GYC y pen yn ddangosydd economaidd pwysig, ond ni ddylid ei hystyried ar wahân i ddangosyddion eraill. Er enghraifft, ar gyfer cartrefi, y dangosyddion economaidd pwysicaf yw cyflogaeth ac incwm. Mae Cymru yn perfformio'n well ar y mesurau hyn o ddatblygu economaidd.

The employment rate in Wales is currently 70.2%, which is higher than the employment rate in north-east England, north-west England, the west midlands and Northern Ireland. Household disposable income increased by 39% in the 10 years to 2011 in Wales—a larger increase than the 36% increase recorded in the UK. The most up-to date indicators cover the labour market, which is probably the most important single area for monitoring economic progress. We also publish short term indicators of output covering most of the private sector and approximately 75% of the total economy.

Ceir cyfradd cyflogaeth o 70.2%, yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n uwch na'r gyfradd cyflogaeth yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, gogledd-orllewin Lloegr, gorllewin canolbarth Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cynyddodd incwm gwario cartrefi 39% yn y 10 mlynedd hyd at 2011 yng Nghymru—cynnydd uwch na'r cynnydd o 36% a gofnodwyd yn y DU. Mae'r dangosyddion mwyaf cyfredol yn cynnwys y farchnad lafur, sef y maes pwysicaf ar gyfer monitro cynnydd economaidd yn ôl pob tebyg. Rydym hefyd yn cyhoeddi dangosyddion byrdymor o allbwn sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r sector preifat a thua 75% o gyfanswm yr economi.

We have identified gaps in the availability of statistics. I take on board the point that Eluned Parrott made on the position of the Scottish Government. We have worked with the Office for National Statistics to fill those gaps with additional surveys of businesses and households and we will continue to do so. I will continue to monitor that, to make sure that we have the appropriate data.

Rydym wedi nodi bylchau yn yr ystadegau sydd ar gael. Derbyniaf y pwynt a wnaeth Eluned Parrott ynglŷn â sefyllfa Llywodraeth yr Alban. Rydym wedi gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i lenwi'r bylchau hynny gydag arolygon ychwanegol o fusnesau ac aelwydydd a byddwn yn parhau i wneud hynny. Byddaf yn parhau i fonitro hynny, er mwyn sicrhau bod gennym y data priodol.

With regard to access to finance, a number of points have been made, particularly by Janet Finch-Saunders. We are all agreed on the banks and the attitude that the banks have taken. When we saw the report that Vince Cable commissioned into what had happened with RBS, we felt shock and horror about how some individuals had been affected. I have written to Vince Cable to ask if we will now have a look at the other banks in that regard, and what type of scheme the banks should be paying into to reimburse those poor individuals, because they will not be able to afford to go to litigation on some of the issues raised by that report.

O ran y cyllid sydd ar gael, gwnaed nifer o bwyntiau, yn enwedig gan Janet Finch-Saunders. Rydym i gyd yn gytûn ynglŷn â'r banciau ac agwedd y banciau. Pan welsom yr adroddiad a gomisiynwyd gan Vince Cable ar yr hyn a oedd wedi digwydd gyda'r RBS, roeddem yn teimlo sioc ac arswyd ynghylch sut yr effeithiwyd ar rai unigolion. Rwyf wedi ysgrifennu at Vince Cable i ofyn a fyddwn bellach yn edrych ar y banciau eraill o ran hynny, a pha fath o gynllun y dylai'r banciau ei ariannu er mwyn ad-dalu'r unigolion hynny druain, oherwydd ni fyddant yn gallu fforddio ymgyfreitha ynghylch rhai o'r materion a godwyd gan yr adroddiad hwnnw.

We have taken steps to improve finance to business. Julie Morgan indicated that some of the work done by Finance Wales has been excellent. A number of people are writing to me to compliment Finance Wales on the work that it has undertaken. I am not sure that I necessarily agree with Julie about the fact that it is working in the north-west and north-east. My concern is that it must have a Wales focus. Those are some of the issues that we have to start to look at.

Rydym wedi cymryd camau i wella cyllid i fusnesau. Nododd Julie Morgan fod rhywfaint o'r gwaith a wnaed gan Cyllid Cymru wedi bod yn ardderchog. Mae nifer o bobl yn ysgrifennu ataf i ganmol Cyllid Cymru am y gwaith y mae wedi'i wneud. Nid wyf yn siŵr fy mod o reidrwydd yn cytuno â Julie am y ffaith ei fod yn gweithio yng gogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain Lloegr. Yr hyn sy'n bwysig imi yw bod yn rhaid iddo ganolbwyntio ar Gymru. Dyna rai o'r materion y mae'n rhaid inni ddechrau eu hystyried.

On business rates, I totally concur; we now have the opportunity to do something about business rates. That is why I have indicated that we are going to look at it. Professor Morgan will consult with businesses about the areas that we should look at first. The devolution of business rates will offer great policy flexibility to get the right approach for Wales.

O ran ardrethi busnes, cytunaf yn llwyr; mae gennym gyfle bellach i wneud rhywbeth ynglŷn ag ardrethi busnes. Dyna pam rwyf wedi dweud y byddwn yn edrych arno. Bydd yr Athro Morgan yn ymgynghori â busnesau ynglŷn â'r meysydd y dylem edrych arnynt yn gyntaf. Bydd datganoli ardrethi busnes yn cynnig hyblygrwydd polisi gwych er mwyn cael y dull gweithredu cywir i Gymru.

On public procurement, the leader of Plaid Cymru's comments were well made in terms of the percentage increase. The importance of public procurement in Wales is that it is worth £4.3 billion per year. Wales-based suppliers are now winning a larger share, but they have to win a much larger share. In July, I announced the new Sell2Wales website, which will hopefully improve business access to contracts. We are doing a lot of work on encouraging, whether it is for the right business strategy or consortia building. We are working with these organisations.

O ran caffael cyhoeddus, roedd sylwadau arweinydd Plaid Cymru yn rhai da o ran y cynnydd canrannol. Yr hyn sy'n bwysig ynglŷn â chaffael cyhoeddus yng Nghymru yw ei fod yn werth £4.3 biliwn y flwyddyn. Mae cyflenwyr a leolir yng Nghymru bellach yn ennill cyfran fwy, ond rhaid iddynt ennill cyfran lawer mwy. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddais wefan newydd GwerthuiGymru, a fydd, gobeithio, yn ei gwneud yn haws i fusnesau ennill contractau. Rydym yn gwneud llawer o waith ar annog busnesau, boed hynny ar gael y strategaeth fusnes gywir neu ar greu consortia. Rydym yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn.

In real terms, there is a wide range of advice on initiatives and we have all the tools. However, an important issue, also mentioned in the leader of Plaid Cymru's contribution, is the importance of childcare to economic development. Childcare is a key and emerging issue for all of us. If you cannot afford childcare, you cannot afford to get back into employment. For people employed on reasonable wages, even with two people working, childcare costs are absolutely horrendous and affect their ability to carry on.

Mewn gwirionedd, mae ystod eang o gyngor ar fentrau ac mae gennym yr holl adnoddau. Fodd bynnag, un mater pwysig, a grybwyllwyd hefyd yng nghyfraniad arweinydd Plaid Cymru, yw pwysigrwydd gofal plant i ddatblygu economaidd. Mae gofal plant yn allweddol ac yn fater sy'n dod i'r amlwg i bob un ohonom. Os na allwch fforddio gofal plant, ni allwch fforddio dychwelyd i weithio. I bobl a gyflogir ar gyflogau rhesymol, hyd yn oed gyda dau berson yn gweithio, mae costau gofal plant yn arswydus ac yn effeithio ar eu gallu i barhau i weithio.

In future, we are looking to develop an economic framework for investment that will capture our current actions and signal future direction for economic policy in Wales. I am delighted to contribute to the debate.

Yn y dyfodol, byddwn yn ystyried datblygu fframwaith economaidd ar gyfer buddsoddi a fydd yn dal ein camau gweithredu presennol a rhoi arwydd o'r cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer polisi economaidd yng Nghymru. Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Alun Ffred Jones to reply to the debate.

Galwaf ar Alun Ffred Jones i ymateb i'r ddadl.

17:40

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i bawb am gyfrannu. Ar y cyfan, mae hon wedi bod yn ddadl adeiladol. Mae nifer o bwyntiau sydd wedi eu gwneud o'r blaen wedi cael eu hailadrodd a'u pwysleisio. Nid wyf am ymddiheuro am gynnal dadl ar lawr y Cynulliad ar yr angen i greu economi ffyniannus yng Nghymru, achos hynny sydd yn mynd i roi gobaith i'n pobl ifanc ni a hyder i'n cymunedau, ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi ar draws y wlad.

I thank everyone who has contributed. On the whole, it has been a constructive debate. Many points that have been made previously have been reiterated and emphasised. I do not apologise for staging a debate on the floor of the Assembly on the need to create a prosperous economy in Wales, because that is what will give hope to our young people and confidence to our communities, cities, towns and villages across the country.

Gallwn ddadlau am y ffigurau, a gweld gwelliant yma a methiant fan draw, ond yn sylfaenol, byddwn i'n dadlau bod y farchnad swyddi, amrywiaeth swyddi a bywiogrwydd economaidd yn ddiffygiol yn y rhan helaethaf o Gymru, gydag eithriadau prin. Mae'r ffigurau GDP neu GVA presennol yn adrodd stori. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi dweud na ddylem edrych ar y rhain ar eu pennau eu hunain—digon gwir—ond mae stori yma. Roedd GDP y pen yng Nghymru ar ddechrau'r 1960au yn 92% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Erbyn 1997, roedd y ffigur hwnnw wedi gostwng i 78%. Gallwn gynnig bob math o resymau am hynny—colli diwydiannau trymion ac yn y blaen—ond y ffaith amdani yw bod y ffigur, erbyn 2011, wedi gostwng i 75%, er gwaethaf dau gynnydd yn 2010 a 2011, y rhai cyntaf ers y 1990au. Byddwn yn cofio i Brif Weinidog blaenorol Llywodraeth Cymru ddweud mai ei nod oedd cynyddu'r ganran ar draws Cymru i 90% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Breuddwyd yw honno o hyd, mae arnaf ofn.

We can argue over the figures, and see improvements here and failings there, but fundamentally, I would argue that the labour market, the variety of jobs and economic vibrancy is deficient across most of the country, with some rare exceptions. Current GDP or GVA figures do tell a story. I know that the Minister has said that we should not look at these in isolation—that is correct—but there is a story here. GDP per capita in Wales at the beginning of the 1960s was 92% of the UK average. By 1997, that figure had reduced to 78%. We can put forward all sorts of reasons for that—the loss of heavy industry and so on—but the fact of the matter is that the figure, by 2011, had fallen to 75%, despite two steps forward in 2010 and 2011, the first since the 1990s. We recall that the previous First Minister in the Welsh Government had said that his target was to increase that percentage across Wales to 90% of the UK average. I am afraid, that that remains a pipe dream.

Gŵyr pawb hefyd bod y ffigur yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn llawer iawn is—yn nes at 65%. Fel yr wyf yn dweud, gallech ddadlau bod ffigurau eraill—fel incwm y pen ac yn y blaen—sy'n rhoi darlun gwahanol o'r economi, ond cysur gwag iawn yw hynny. Heb economi fywiog a chwmnïau ffyniannus—bach a mawr—mae cymdeithas yn cael ei thlodi, gyda llai o gyfleoedd swyddi a llai o gyfleoedd datblygu gyrfa, pobl ifanc yn mudo o'n bröydd ni a diffyg arian i fuddsoddi mewn busnesau newydd.

Everyone knows that the figure for west Wales and the Valleys is far lower—closer to 65%. As I say, you can argue that there are other figures, such as income per capita, that give you a different picture of the economy, but that is of little comfort. Without a vibrant economy and prosperous companies—large and small—society is impoverished, with fewer job opportunities and career development opportunities, young people leaving local areas and a lack of money to invest in new business start-ups.

Hefyd, mae llai o gefnogaeth i weithgarwch lleol, boed yn weithgarwch diwylliannol—eisteddfod, côr neu barti dawns—neu glybiau o bob math, fel clybiau chwaraeon. Byddwn i'n dadlau—rwy'n credu ei fod yn weddol amlwg—bod gwendid timau rygbi rhanbarthau Cymru yn rhannol oherwydd y diffyg nawdd o fyd busnes. Nid yw'r arian ar gael. Bydd hynny yn ein gwneud yn dlotach wrth i ni fynd ymlaen os nad ydym yn newid y sefyllfa.

There is also less support for local activities, be that cultural activity—eisteddfod, choir or dance party—or clubs of all kinds, such as sports clubs. I would argue—I think that it is fairly obvious—that the weakness of Welsh rugby regions is partly down to the lack of sponsorship from business. The money is not available. That will leave us more impoverished as we move forward, unless we change things.

Y gwir amdani yw na allwn fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus heb gynyddu ein hincwm o dreth incwm ac o drethi busnes. Wrth inni edrych ymlaen at dderbyn pwerau trethiannol, mae'n rhaid inni gynyddu hynny drwy gynyddu nifer y busnesau a thyfu'r busnesau hynny sydd yn bodoli.

The truth is that we cannot invest in our public services unless we increase our take from income tax and from business rates. As we look to receive taxation powers, we need to increase that by increasing the number of businesses and growing existing businesses.

Wales seems to have suffered a productivity problem, rooted largely in low levels of capital stock, a peripheral location and low qualifications. The latest PISA figures merely underline the deficiencies. The director of CBI Wales said today that

Ymddengys bod problem o ran cynhyrchiant yng Nghymru, sy'n deillio'n bennaf o lefelau isel o stoc cyfalaf, lleoliad ymylol a chymwysterau isel. Mae ffigurau diweddaraf PISA ond yn tanlinellu'r diffygion. Dywedodd cyfarwyddwr CBI Cymru heddiw

'There are still too many businesses out there who are having to invest time and money and resources in teaching people to read, to write, to answer the phone, which frankly they shouldn't be doing.'

Mae gormod o fusnesau o hyd sy'n gorfod rhoi amser ac arian ac adnoddau i ddysgu pobl i ddarllen, ysgrifennu ac ateb y ffôn, rhywbeth, a dweud y gwir, na ddylent fod yn ei wneud.

That is hardly a rallying call to attract companies to establish a base in Wales. It was informative to hear Sir Tom Hunter's comments last week in an interview on Radio 4 on the Scottish referendum. Sir Tom Hunter is a successful businessman and philanthropist, but he is undecided which way to vote. He said that what he wanted to hear from both sides was what their vision was for Scotland and how they proposed to create a vibrant, robust economy to create an entrepreneurial spirit among young people to financially sustain good-quality public services. That is the challenge, I would suspect, for us in Wales—starting from an even lower base than that in Scotland.

Go brin bod hynny'n alwad i ddenu cwmnïau i ymsefydlu yng Nghymru. Roedd yn ddiddorol clywed sylwadau Syr Tom Hunter yr wythnos diwethaf mewn cyfweliad ar Radio 4 ar refferendwm yr Alban. Mae Syr Tom Hunter yn ddyn busnes llwyddiannus ac yn ddyngarwr, ond mae'n ansicr ynghylch pa ffordd i bleidleisio. Dywedodd ei fod am glywed gan y ddwy ochr beth oedd eu gweledigaeth ar gyfer yr Alban a sut y maent yn bwriadu creu economi fywiog a chadarn i greu ysbryd entrepreneuraidd ymhlith pobl ifanc er mwyn cynnal gwasanaethau cyhoeddus o safon dda yn ariannol. Dyna'r her, fe dybiwn, i ni yng Nghymru—gan ddechrau o sylfaen hyd yn oed yn is nag sydd yn yr Alban.

O ran y gwelliannau, yn fyr, mae gwelliannau 7 ac 8 yn sôn am gynyddu'r gefnogaeth ardrethi busnes. Dyna fu safbwynt Plaid Cymru ers blynyddoedd, ond gan fod gennym gynllun penodol wedi ei gostio, ni allwn gefnogi'r gwelliannau hynny er ein bod yn gwerthfawrogi bod y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid, yn hyn o beth, yn gyd-deithwyr.

In terms of the amendments, very briefly, amendments 7 and 8 talk about increasing the support for business rates. That has been Plaid Cymru's stance over a number of years, but as we have a specific scheme that is costed, we cannot support those amendments, although we do appreciate that the Liberal Democrats and the Tories are fellow travellers in this.

Rydym yn cefnogi nifer o'r gwelliannau eraill, gan gynnwys rhifau 2, 4, 5, 11, 12, 13 ac 14. Mae'n rhaid i ni, fel y Gweinidog, wrthwynebu gwelliannau 1 a 3. Maent yn cyfeirio at welliant yn ffigurau twf y Deyrnas Unedig fel prawf o lwyddiant polisïau Osborne a'r glymblaid. Mae pob economi yn dod allan o ddirwasgiad rhyw dro, ond dyma'r dyfnaf a'r hiraf mewn cof, a does dim byd yn dangos mai polisïau Osborne sy'n gyfrifol am y gwelliant. Un peth arall, hyd y gallwn weld, mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn yn digwydd yn ne-ddwyrain Lloegr, yn wir, yn Llundain ei hun, lle mae canran y GVA tua 170% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Nid yw gweld twf yn Llundain yn arwain at dwf yma yng Nghymru, a dyna lle mae ein ffocws ni heddiw.

We support a number of the other amendments, including numbers 2, 4, 5, 11, 12, 13 and 14. We, like the Minister, have to oppose amendments 1 and 3. They refer to improvements in UK-wide growth figures as proof of the success of the policies of Osborne and the coalition. Every economy emerges from a recession at some point, but this is the deepest and lengthiest recession in memory, and there is nothing to demonstrate that Osborne's policies are responsible for the improvement. Another thing, as far as we can see, most of this increase is taking place in the south-east of England, and, indeed, in London itself, where the percentage of GVA is some 170% of the UK average. Seeing growth in London does not lead to growth here in Wales, and that is where our focus is today.

O ran pwrcasu, roedd Eluned Parrott yn gofyn pam ein bod yn gofyn am hyn. Mae gwahaniaeth mawr rhwng lefel a chanran y cytundebau sy'n mynd i gwmnïau o Gymru yn y gwahanol siroedd. Mae Gwynedd, er enghraifft, yn gosod tua 75% o'i gontractau i gwmnïau o Gymru. Erbyn i chi gyrraedd Wrecsam a Fflint, mae'r ffigur hwnnw wedi gostwng i rhywbeth fel 30% a 40%. Mae'n bosibl gwneud hynny, ond mae'n rhaid cael yr ewyllys i wneud hynny. Rwy'n cytuno â'r Gweinidog yn hynny o beth.

In terms of procurement, Eluned Parrott asked why we were requesting this. There is a great difference between the level and percentage of contracts awarded to Welsh companies in the various counties. Gwynedd, for example, awards some 75% of its contracts to Welsh companies. By the time that you get to Wrexham and Flint, that figure has reduced to something like 30% and 40%. It can be achieved, but you need the political will to do it. I agree with the Minister on that.

Mae'r sefyllfa bresennol yn annerbyniol. Mae'n rhaid i ni godi ein golygon. Mae'n rhaid i ni godi ein perfformiad a chynllunio ar gyfer hynny er mwyn creu'r wlad honno rydym i gyd eisiau ei gweld, sef gwlad ffyniannus sy'n rhoi gobaith i'n pobl ifanc a hyder i'n cymunedau.

The current situation is unacceptable. We have to raise our sights. We have to improve our performance and plan for that in order to create that country that we all want to see, that is, a prosperous country that gives hope to our young people and confidence to our communities.

17:47

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I will defer voting until voting time. Voting time now follows. Before I proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung. There are not.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes. Felly, gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi fynd ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu. Nac oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5380

Result of the vote on motion NDM5380

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 41, Against 15, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5379

Result of the vote on motion NDM5379

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 46, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 46, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5379

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5379

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 46, Against 10, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5379

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5379

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Diprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5379

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5379

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 37, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5379.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5379.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5379.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 46, Against 10, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5379.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5379.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5379.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 10 to motion NDM5379.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 41, Against 15, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 11 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 11 to motion NDM5379.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 12 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 12 to motion NDM5379.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 13 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 13 to motion NDM5379.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 14 i gynnig NDM5379.

Result of the vote on amendment 14 to motion NDM5379.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5379 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5379 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) y twf yng Nghynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU yn 2013;

a) the growth in the UK's Gross Domestic Product in 2013;

b) mai'r bwlch cyllido a amcangyfrifir rhwng y galw am gyllid gan fusnesau Cymru a'r cyflenwad presennol o'r sector bancio yw £500 miliwn;

b) that the estimated funding gap between the demand for finance from Welsh businesses and the current supply from the banking sector is £500 million;

c) bod ardrethi annomestig yn cyfrif am gyfran sylweddol o gostau gweithredu ar gyfer microfusnesau a busnesau bach;

c) that non-domestic rates account for a significant proportion of operating costs for micro and small businesses;

d) bod cynnydd o 1% yng nghyfradd contractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymru yn creu 2,000 o swyddi newydd; a

d) that a 1% increase in the rate of public sector procurement contracts that go to Welsh businesses creates 2,000 new jobs; and

e) bod adnoddau naturiol Cymru yn cynnig cryn botensial ar gyfer budd economaidd.

e) that Wales' natural resources offer significant potential for economic benefit.

2. Yn gresynu:

2. Regrets:

a) bod oddeutu 200,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cael trafferth cael gafael ar gyllid, yn ôl adroddiad Cam 1 o'r 'Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru' gan yr Athro Dylan Jones-Evans.

a) that around 200,000 SMEs in Wales are struggling to get funding, according to the Stage 1 report of the 'Access to Finance Review' by Professor Dylan Jones-Evans.

b) mai'r GYC y pen yng Nghymru yw'r isaf o blith pob un o wledydd y DU sef cyfradd o 75.2% o ffigur y DU;

b) that Welsh GVA per capita is the lowest of all UK nations at 75.2% of the UK;

c) bod dulliau macro-economaidd yn aros yn nwylo Aelodau Seneddol yn Senedd y DU ond yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol i'w chwarae o ran tyfu economi Cymru;

c) that macro-economic levers remain in the hands of MPs in the UK Parliament but recognises that the Welsh Government has a significant role to play in growing the Welsh economy;

d) absenoldeb dangosyddion economaidd cyfredol i Gymru;

d) the absence of up-to-date economic indicators for Wales;

e) methiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra a thangyflogaeth; a

e) the failure of Welsh Government to tackle unemployment and underemployment; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government:

a) cyhoeddi cynllun cynhwysfawr a hirdymor ar gyfer tyfu economi Cymru;

a) to publish a comprehensive and long-term plan for growing the Welsh economy;

b) bwysleisio i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yr angen i ddarparu dangosyddion economaidd rheolaidd a mynych i Gymru;

b) to impress upon the Office for National Statistics the need to provide regular and frequent economic indicators for Wales;

c) mabwysiadu polisi Plaid Cymru i estyn rhyddhad ardrethi busnesau bach i bob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai; a

c) to adopt the Party of Wales' policy to extend small business rate relief to all businesses with a rateable value of £15,000 or less; and

d) ymateb cyn gynted â phosibl i adroddiad yr Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru – Cam 2, ac ystyried yr achos dros ddatblygu banciau busnes rhanbarthol fel yr amlinellwyd yn'Buddsoddi Cymru'.

d) to respond as soon as possible to the Access to Finance Review Stage 2 report and examine the case for the development of regional business banks as outlined in 'Invest Wales'.

e) ystyried y posibilrwydd o rannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr, a fyddai'n sicrhau bod y system ardrethi busnes yn deg a bod Cymru ar yr un lefel â Lloegr a'r Alban.

e) to explore the possibility of splitting the Welsh multiplier into small and large businesses which would ensure fairness in the business rates system and bring Wales in line with England and Scotland.

f) sicrhau bod polisïau’r llywodraeth yn symleiddio ein rheoliadau a’n prosesau caffael ar gyfer y sector cyhoeddus.

f) to ensure that government policy simplifies our public sector procurement processes and regulations.

g) cefnogi mentrau cymdeithasol a busnesau llai a'u galluogi i dyfu drwy ddadfwndelu contractau'r sector cyhoeddus yn rhannau mwy hylaw, gan ei gwneud yn haws i'r busnesau hyn gyflwyno cynigion a chystadlu.

g) to support smaller businesses and social enterprises and enable them to grow by unbundling public sector contracts into more manageable parts, making it easier for these businesses to bid and compete.

h) gweithio i godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o gyfleoedd cyllid sy’n bodoli ar hyn o bryd, a gwrando ar y gymuned fusnes ynghylch ffyrdd o wella cymorth.

h) to work to increase awareness amongst businesses of existing opportunities for finance, and listen to the business community on ways to improve support.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5379 fel y’i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5379 as amended.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 46, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 46, Abstain 0.*

17:53

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy’n gadael y Siambr wneud hynny’n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

*Daeth Sandy Mewies i’r Gadair am 17:54.*

*Sandy Mewies took the Chair at 17:54.*

17:54

## Dadl Fer: Yr ‘Hun-lun’ Cenedlaethol: Pam mae Geiriadur Cenedlaethol Cymraeg yn Helpu I Ddiffinio’r Genedl

## Short Debate The National ‘Selfie’: Why a National Welsh Dictionary Helps Define the Nation

Senedd.tv Fideo Video

### Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Mae’n dda gennyf gyflwyno dadl fer ar bwnc ‘Geiriadur Prifysgol Cymru’ a dyfodol y geiriadur, ac mae Peter Black wedi gofyn am funud yn ystod y ddadl hon.

I am pleased to introduce a short debate on the issue of ‘Geiriadur Prifysgol Cymru’ and the future of the dictionary, and Peter Black has asked for a minute of my time during this debate.

Mae sawl pen-blwydd yn cael eu gweld yn garreg filltir ym mywyd dyn, ac rwyf ar fin dathlu un o'r rheini a dweud y gwir, ond efallai taw’r pwysicaf yw'r pen-blwydd yn 18 mlwydd oed—er, nid dyna’r pen-blwydd yr wyf ar fin ei dathlu. Mae anrhegion y pen-blwydd hwnnw yn dangos diddordeb person ar y pryd a’r ffaith ei fod ar fin bod yn oedolyn. Gwnewch felly beth a wneloch chi o'r ffaith taw fy anrheg pen-blwydd i yn 18 oed gan fy mam oedd yr ‘Oxford English Dictionary’—yr holl eiriadur at hynny, nid y ‘shorter’. Nid fy mod i na fy nheulu yn gallu fforddio’r fath wariant, sef y 23 cyfrol o’r llyfr cyfan, ond roeddem yn aelodau o glwb llyfrau ar y pryd, ac roedd yr hen ‘book club’ yn gwneud dwy gyfrol fawr o'r ‘Oxford English’ gyda phedair tudalen wedi'u hargraffu ar bob tudalen, ac roedd angen chwyddwydr i'w darllen. Dyna beth ges i. Mae'r geiriadur hwnnw ar fy silffoedd llyfrau o hyd. Ar y pryd, roeddwn yn teimlo fy mod yn meddu ar holl ogoniaint yr iaith Saesneg, a thrwy fanylder y cofnodion, fy mod yn gallu gweld cyfoeth hanes yr iaith, ei datblygiad a'r defnydd ohoni gan yr awduron gorau.

There are a number of significant birthdays that are seen as milestones in one’s life, and I am about to celebrate one of those, if truth be told, but perhaps the most significant is one’s eighteenth birthday—although, that is not the one that I am about to celebrate, by the way. The gifts given on that birthday reflect an individual’s interests at that time and the fact that he or she is entering adulthood. Make what you will therefore of the fact that my gift on my eighteenth birthday from my mother was the ‘Oxford English Dictionary’—the entire dictionary to boot, and not the ‘shorter’ either. My family and I could not afford such expenditure for the 23 volumes of the entire book, but we were members of a book club at the time and it was the old book club that provided two lengthy tomes of the ‘Oxford English’ with four pages printed on each page, and you needed a magnifier to enlarge the print. That is what I received. That dictionary is on my bookshelves to this day. At the time, I felt that I had the entire glory of the English language at my fingertips, and through the detail of the entries I could identify with the rich history of the language, its development and the use made of it by the language’s finest authors.

Wrth gwrs, mae'r cyfrolau hynny yn awr yn chwarter canrif a llawer mwy mewn oedran. Mae datblygiad yr iaith Saesneg ers eu cyhoeddi wedi bod yn syfrdanol. Gair y flwyddyn eleni yn ôl yr 'Oxford English Dictionary' yw 'selfie', sef y gair a ddefnyddiais ar gyfer teitl Saesneg y ddadl hon, ac mae geiriau a geiriau cyfansawdd newydd yn cael eu hychwanegu fesul mil bob blwyddyn i'r 'Oxford English Dictionary'.

Of course, those volumes are now 25 years old or more. The development of the English language since their publication has been quite staggering. The word of the year this year according to the 'Oxford English Dictionary' is 'selfie', the word that I used in the English title of this debate, and words and composite words are added by the thousand every year to the 'Oxford English Dictionary'.

Ar y pryd, ni wyddwn am y cyfrolau bach achlysurol a oedd yn cyhoeddi fesul tipyn y fersiwn Gymraeg o'r 'Oxford English', sef 'Geiriadur Prifysgol Cymru', ond buan y dysgais a buan y bûm yn chwennych ychwanegu'r geiriadur hwnnw at fy silffoedd hefyd. Yn wir, fel sawl myfyriwr Cymraeg, treuliais un haf yn darllen hen rifynnau o'r cylchgrawn enwog hwnnw, 'Y Faner', yn cloddio am eiriau newydd neu ddefnydd anghyffredin ar air, a llenwi slip papur i fynd yn ôl i'r geiriadur. Pwy a ŵyr, efallai darganfyddais berl o air sydd bellach wedi ei drysori yno?

At the time, I knew nothing about the occasional and piecemeal publication of the OED's Welsh equivalent, 'Geiriadur Prifysgol Cymru', but I soon learnt and I soon sought to add those volumes to my bookshelves. Indeed, like many students of Welsh, I spent one summer reading back issues of that famous magazine, 'Y Faner', seeking new vocabulary or the unusual usage of a word, and filling in a slip to take back to the dictionary editors. Who knows, but I may have discovered a treasure that is now treasured there?

Nid oedd fy mhen-blwydd yn eiriaduron i gyd—cefais y noson feddw orfodol yn y clwb rygbi hefyd—ond rwyf nawr mewn sefyllfa nid yn unig i werthfawrogi cyfoeth geiriadur, ond i bledio achos cyllido parhaol i un o drysorau'r genedl Gymraeg, ac un o'r ymdrechion hynny sydd yn ein diffinio fel cenedl. Nid yw'n bosib meddwl am y byd Saesneg heb yr 'Oxford English', na'r gwledydd Ffrangeg heb eu 'Dictionnaire de l'Académie Française', ac ni ddylai fod chwaith yn gwestiwn a ddylid cyllido Geiriadur Prifysgol Cymru ar gyfer y dyfodol digidol. Fodd bynnag, ceir cwestiynau o'r fath ac ansicrwydd, a chredaf ei bod yn briodol datgan yn groyw pa mor hanfodol a chreiddiol yw geiriadur o'r fath i'r Gymraeg a'r genedl.

My birthdays were not all about dictionaries—I had the essential drunken evening in the rugby club as well—but I am now in a position not only to appreciate the wealth provided by our dictionaries, but to make the case for continued funding for one of the treasures of our nation, and one of those endeavours that define us as a nation. One cannot think about the English language without the OED or France without the 'Dictionnaire de l'Académie Française', and it should not be a question as to whether Geiriadur Prifysgol Cymru should be funded for the digital future. However, such questions and uncertainties do exist, and therefore I feel that it is important to clearly state how important such a dictionary is to the Welsh language and the nation.

I'r rhai nad ydynt yn gwybod, Geiriadur Prifysgol Cymru yw'r cynllun ymchwil mwyaf hirhoedlog ac uchaf ei fri gan Brifysgol Cymru. Dechreuodd y gwaith casglu ym 1920 a chyhoeddwyd y geiriadur mewn rhannau nes ei gwblhau yn 2002, pan gafodd pedair cyfrol fawr eu cyhoeddi gyda'i gilydd a'u lansio yma yn y Cynulliad. Yn 2006, yn adroddiad Eureka UK gan brifysgolion y Deyrnas Gyfunol, cafodd ei ganmol fel un o'r 100 prosiect ymchwil mwyaf dylanwadol yn ystod yr hanner canrif diwethaf, gan ei roi yn yr un categori â phrosiectau ymchwil prifysgolion megis darganfod strwythur DNA. Ar hyd y daith, bu'r geiriadur yn cartrefu ym Mhrifysgol Cymru, yn ddiweddaraf yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, drws nesaf i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Nid yw'n rhan o'r llyfrgell, fel mae llawer yn ei gredu, ond, wrth gwrs, mae benthyg a rhannu gwybodaeth helaeth rhwng y ddau sefydliad. Cydnabuwyd ei gyfraniad academaidd gwerthfawr drwy gyllido pellach dros y blynyddoedd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'i ragflaenwyr, yn ogystal â Phrifysgol Cymru.

For those who do not know, Geiriadur Prifysgol Cymru is the longest established and most highly acclaimed research project of the University of Wales. The compilation work commenced in 1920 and the dictionary was published in sections until it was completed in 2002 when four major volumes were published simultaneously and launched here in the Assembly. In 2006, the Eureka UK report by the UK universities, it was praised as one of the 100 most influential research projects of the previous 50 years, putting it in the same category as university research projects such as the discovery of the structure of DNA. Along the way, the dictionary has made its home in the University of Wales, most recently in the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, next door to the National Library of Wales in Aberystwyth. It is not part of the library, as many assume, but, of course, there is great sharing of information between the two institutions. Its valuable academic contribution has been recognised by funding from the Higher Education Funding Council for Wales and its predecessors, as well as the University of Wales.

Fy mhwrpas heddiw yw gosod yr achos dros gyllido cyhoeddus cenedlaethol i fenter mor allweddol â geiriadur cynhwysfawr, a dangos hefyd beth all ddeillio o gyllido o'r fath. Pan brynais 'Geiriadur Prifysgol Cymru' yn y pedair cyfrol hardd ond trwm, costiodd tua £200 i mi. Y pris bellach yw £350. Mae hyn yn mynd yn rhannol at y ddadl ynglŷn â sicrhau bod ymchwil academaidd a dalwyd amdano gan bwrs y wlad ar gael am ddim i'r bobl hynny a dalodd amdano.

My aim today is to make the case for public funding for such a crucial initiative as a comprehensive dictionary, and to show what can emerge from such funding. When I bought 'Geiriadur Prifysgol Cymru' in the four beautiful, but hefty volumes, it cost me some £200. The price is now £350. This is therefore partly a debate about ensuring that academic research paid for by the public purse should be freely available to those people who paid for it.

Gan fod y gwaith cyhoeddi wedi bod mor allweddol i ddatblygiad y genedl Gymraeg dros y ganrif ddiwethaf, a'r genedl ddwyieithog bellach, mae'n gynyddol bwysig ein bod yn gweld y gwaith ar gael i bawb. Dechreuodd y gwaith cyhoeddi yn ôl ym 1950 ac, yn rhesymol iawn ar gyfer geiriadur, fe ddechreuodd gyda'r llythyren 'A', ac fe'i cwblhawyd tua degawd yn ôl. Erbyn hyn, mae ail-wneud y geiriadur—dim ond y llythrennau 'A' a 'B'—wedi ychwanegu 28% at y nifer o gofnodion, sy'n dangos twf yr iaith ers 50au'r ganrif ddiwethaf. Erbyn hyn, mae'r geiriadur yn wynebu ailolygu'r llythyren 'C'. Dyma, gyda llaw, lle mae'r rhan fwyaf o eiriau Cymraeg, mae'n debyg, gyda 18% o'r cofnodion. Meddyliwch am yr holl eirfa fodern Cymraeg—cyfrifiadur, cyfathrebu, cymuned, cadwraethol, camweinyddu, cyfrannedd—nid oes yr un o'r geiriau hyn yn yr hen eiriadur, ond maent yn eiriau bob dydd fan hyn yn y Cynulliad, yn sicr. Felly, gellir dychmygu pa fath o waith sy'n aros.

As the publication has been so crucial to the development of the Welsh nation over the last century, and the bilingual nation as it is now, it is increasingly important that we see that that work should be available and accessible to all. The publication started in 1950 and, quite reasonably for a dictionary, it started with the letter 'A', and it was completed about a decade ago. By now, reworking that dictionary—just the letters 'A' and 'B'—has added 28% to the number of records, which demonstrates the growth of the language since the 1950s. Now, the dictionary is facing re-editing the letter 'C'. That, by the way, is where most Welsh words exist, it seems, with 18% of records. Think of all of the modern Welsh terminology—cyfrifiadur, cyfathrebu, cymuned, cadwraethol, camweinyddu, cyfrannedd—not one of these words is in the old dictionary, but they are words that are in daily use here in the Assembly. So, you can only imagine what sort of work awaits.

Mae'r geiriadur, felly, yn wynebu dau brif her: diwygio ac ailolygu'r cofnodion presennol, sy'n dyddio'n ôl bron i ganrif yn awr, a chanfod y ffordd orau o wneud yr holl ddefnydd a chyfoeth sydd ynddo yn agored i bawb yn y ffordd fwyaf hwylus, sef yn ddigidol. Rydym ni fel cenedl hefyd yn wynebu her, sef sut i sicrhau bod y gwaith pwysig hwn yn cael ei gyllido a'i ddiogelu at y dyfodol.

The dictionary, therefore, is facing two major challenges: to amend and re-edit the current records, which date back over a century now, and to find the best way of making all the material and riches that are in it accessible to everyone in the easiest way, which is digitally. We as a nation also face a challenge, which is how to ensure that this important work is funded and safeguarded for the future.

Yn fy marn i, mae angen y sicrwydd i sicrhau dau beth pwysig: bod y gwaith o ailolygu'r geiriadur yn mynd yn ei flaen, gan gynnwys casglu termau newydd, nid dim ond y defnydd hanesyddol, a bod y cyfoeth a geir yn y geiriadur yn cael ei agor i bawb am ddim. Mae digiteiddo llawn yn golygu y byddai'r holl gofnodion, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn chwiliadwy ac, yn lle'r maen tramgwydd presennol o gost, y byddai'r holl gynnwys yn agored.

In my opinion, we need assurances to ensure two important things: that the re-editing work can proceed, including collecting new terms, not just historic usage, and that the wealth available in the dictionary should be accessible to all, free of charge. Full digitisation means that all of the records, in Welsh and English, would be searchable, and, taking away the current barrier of cost, the contents would be fully accessible to all.

Dyma'r patrwm a ddilynir gan sawl gwlad arall. Mae geiriaduron hanesyddol a chenedlaethol ieithoedd megis Daneg—defnyddiol ar gyfer 'Borgen'—Isalmaeneg, Afrikaans a Swedeg i gyd ar gael ar-lein am ddim. Yn wir, mae'r Saesneg yn eithriad, gan fod rhaid talu i danysgrifio i'r 'Oxford English Dictionary' ar-lein.

That is the pattern followed by a number of different countries. Historic and national dictionaries in languages such as Danish—handy for 'Borgen'—Dutch, Afrikaans and Swedish are all available, free of charge, on line. Indeed, English is an exception, because one has to pay to subscribe to the 'Oxford English Dictionary' online.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan y geiriadur yn 2009, a'r casgliad oedd bod angen i'r geiriadur fod ar gael ar-lein ac am ddim, a hefyd bod angen iddo fod yn ddigon hyblyg i gofnodi'r iaith fel mae'n newid o ddydd i ddydd. Paratowyd cynllun busnes gan y geiriadur i wireddu'r casgliadau hyn.

There was a public consultation by the dictionary in 2009, and the conclusion was that the dictionary needed to be on line, free of charge, and that it should be sufficiently flexible to record the language as it changes on a daily basis. A business case was prepared by the dictionary to achieve these aims.

Mae'r Gymraeg, wrth gwrs, yn bathu geiriau newydd bob dydd. Rwyf eisoes wedi rhoi rhestr o rai yn dechrau gydag 'C'. Fodd bynnag, gofynnais ar drydar—gan ddefnyddio technoleg newydd—cyn y ddadl hon, am enghreifftiau o eiriau newydd roedd pobl ar drydar yn eu hiwsio. Dyma'r rhai a gefais: 'caru gwib', sef 'speed dating', 'twercio', nad oes angen cyfieithiad ohono, efallai, ac nid yw'n digwydd yn y Siambr hon, 'Tashwedd'—nid oeddwn wedi clywed am hwn—sef yr arfer ym mis Tachwedd o wisgo rhyw fath o flew ar ben eich gwefus.

Welsh, of course, does come up with new terminology every day. I gave you a list of those starting with 'C'. However, I asked on Twitter—using new technology—before this debate, for examples of new words that people used on Twitter. These are some examples: 'caru gwib', that is, 'speed dating', 'twercio', 'twerking', which does not need translating perhaps, and which does not happen in this Chamber, 'Tashwedd'—I had not heard this one—which is 'Movember', the practice of growing a moustache in November.

Down at y gair 'selfie' ei hun, felly. 'Hun-lun' yw'r Gymraeg am hwnnw. Yn fy achos i, hunllef yw 'selfie', ond beth bynnag am hynny. A beth am 'trydar' ei hun? Mae'r hen air Cymraeg am y sŵn y mae adar yn ei wneud wedi'i addasu'n gwbl naturiol—roedd rhai yn dechrau meddwl mai 'trydaru' oedd y gair i fod, ond 'trydar' ydyw bellach—ar gyfer cyfrwng newydd. Fodd bynnag, yn wir, ai ystyr newydd yw hwn mewn gwirionedd? Dywedodd Iolo Goch yn ôl yn y bedwaredd ganrif ar ddeg:

Then we come to the word 'selfie' itself. 'Hun-lun' is the Welsh term for that. In my case, a 'selfie' is a 'hunllef', a nightmare. What about 'trydar' or Twitter itself? The old Welsh word describing birdsong has been naturally adapted—some thought initially that it should be 'trydaru', but it is now 'trydar'—to describe a new medium. However, is this a new meaning in reality? Iolo Goch said back in the fourteenth century:

'Pob dyn o'i ddyfyn a ddaw / yr undydd yno i wrandaw / ar y farn flin,'—

Every man from his dwelling house shall come / on that one day to listen / to the harsh judgment—

rydym ni'n cael hynny fan hyn—

we get that here—

'gadarn floedd, / a thrydar eu gweithredoedd.'

the mighty shout / and 'trydar' their activities.

Nid oes defnydd mwy modern na Iolo Goch saith canrif yn ôl yn dweud bod rhywun yn trydar eu gweithredoedd. Erbyn hyn mae trydar yn Gymraeg wedi tyfu'n aruthrol. Deallaf fod y Gymraeg ymysg yr ieithoedd llai sydd â'r defnydd mwyaf helaeth ar y cyfrwng; mor helaeth, yn wir, fel bod Prifysgol Caergrawnt yn defnyddio trydar Cymraeg mewn prosiect ymchwil i olrhain a chofnodi newidiadau tafodieithol a gramadegol. Mae'r geiriadur ei hun yn trydar, gyda llaw. Fe gewch air y dydd gan y geiriadur os dilynwch chi 'malwen geiriadur'—y gair Cymraeg 'malwen' yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun newydd, sef ar gyfer '@'.

There could not be a more modern use of the use of the word 'trydar' by Iolo Goch seven centuries ago. Twitter in Welsh has grown tremendously. I understand that the Welsh language is among the minority languages that make the most use of the medium; to such an extent, in fact, that the University of Cambridge is using Welsh Twitter usage in a research project to identify changes in grammar and dialect. The dictionary itself tweets, by the way. You get a word of the day if you follow 'malwen geiriadur'—the Welsh word 'malwen' is another word being used in a new context, which is for '@'.

Y ddealltwriaeth hon o rod hanes, a'r ffordd mae ystyr geiriau yn newid ac yn newid drachefn, yw'r trysor y mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn cynnig i genedl ddwyieithog. Mae'n hanfodol bod y gwaith pwysig hwn yn parhau ac yn cael ei gyllido'n briodol. Ceir nifer o gyrff sydd â diddordeb byw yn y maes, wrth gwrs. Yn ogystal â'r geiriadur, mae Canolfan Bedwyr Prifysgol Bangor, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, swyddfa'r comisiynydd iaith, ein Cynulliad ni—sydd yn awr yn deddfu yn y ddwy iaith—a Llywodraeth Cymru.

This understanding of historical progression, and the way that the meaning of words changes and changes again, is the treasure that Geiradur Prifysgol Cymru offers a bilingual country. It is crucial that this important work should continue and should be properly funded. There are a number of bodies that are very interested in this area, of course. In addition to the dictionary, there is Canolfan Bedwyr at Bangor University, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, the office of the language commissioner, our Assembly—which now legislates bilingually—and the Welsh Government.

Dros y blynyddoedd, bu cyfraniad pwysig y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ar y cyd gyda Phrifysgol Cymru, yn allweddol. Yn 2011, cytunodd y cyngor cyllido i ariannu'r geiriadur am dair blynedd yn unig tan y flwyddyn ariannol hon. Y bwriad oedd annog y geiriadur i ganfod ffynonellau eraill erbyn hynny. Y drafferth, wrth gwrs, yw bod nifer o'r ffynonellau eraill, yn eu tro, yn cael eu hariannu yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru. Nid oes ots pa un a ddaw cyllid o'r cyngor cyllido, o'r comisiynydd, neu o'r Llywodraeth—daw yn y pen draw o'r un pair sy'n prysur wagio.

Over the years, the Higher Education Funding Council for Wales, along with the University of Wales, has made an important contribution, which has been crucial. In 2011, the funding council agreed to fund the dictionary for just three years until this financial year. The intention was to encourage the dictionary to fund other funding sources by that point. The difficulty, of course, is that many of those funding sources are, in turn, funded ultimately by the Welsh Government. It does not matter whether the funding comes from the funding council, the commissioner, or from the Government—it comes in the end from the same purse, which is swiftly emptying.

Mae ffynonellau amgen, megis y cronfeydd loteri, yn rhai sydd yn ariannu prosiectau, nid gwaith craidd, ac nid ydynt yn gynaliadwy yn y tymor hir. Deallaf, erbyn hyn, fod y cyngor cyllido wedi addo blwyddyn arall o gyllido, wedi'i gwtogi, i roi cyfle pellach i ganfod ateb parhaol i ddyfodol y geiriadur. Da o beth yw hynny, ond hoffwn bwysleisio ei fod, yn fy marn i, yn ddyletswydd genedlaethol i weld parhad gwaith y geiriadur a'i ddemocrateiddio, fel petai, drwy agor ei dudalennau am ddim i bawb drwy ddull y we, 'apps' a thechnoleg newydd.

Alternative sources, such as lottery funds, are ones that fund projects, rather than core work, and they are not sustainable in the long term. I understand that, by now, the funding council has pledged another year's funding, which has been cut, to give a further opportunity to find a permanent solution for the future of the dictionary. That is positive, but I want to emphasise that, in my opinion, it is a national duty to secure the future of the work of the dictionary and to democratise it, as it were, by making it freely available to everyone online, through apps and new technology.

Os edrychwn ni ar y ffordd mae geiriaduron tebyg yn cael eu cyllido, fe welwn fod arian cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol. Mae gennych 'Foclóir na Nua-Ghaeilge'—roeddwn i'n gwybod byddai blwyddyn yn Aberystwyth yn astudio Gwyddeleg yn mynd i fod o help rhyw bryd—sef geiriadur Gwyddeleg cyfoes a chafodd arian sylweddol gan Awdurdod Addysg Uwch Weriniaeth Iwerddon. Wedyn, mae 'Faclair na Gàidhlig', geiriadur Galeg yr Alban, sy'n cael cefnogaeth sylweddol gan gyngor cyllido'r Alban. I droi at iaith arall, mae'r 'Dictionary of the Scots Language' yn derbyn cyllid gan Fwrdd Ymchwil y Dynoliaethau a'r Celfyddydau.

If we look at the way that similar dictionaries are funded, we see that public funding plays a crucial role. We have 'Foclóir na Nua-Ghaeilge'—I knew that a year in Aberystwyth studying Irish would come in handy at some point—which is a modern Irish dictionary, which receives significant amounts of funding from the Higher Education Authority in Ireland. Then there is 'Faclair na Gàidhlig', the Scots Gaelic dictionary, which receives a great deal of support from the Scottish funding council. Turning to another language, the 'Dictionary of the Scots Language' receives funding from the Arts and Humanities Research Board.

Felly, hoffwn annog y Gweinidog i ddefnyddio grym a chyfeiriad cenedlaethol y Llywodraeth i sicrhau nid yn unig bod gwaith Geiriadur Prifysgol Cymru hyd heddiw yn cael ei ddiogelu a'i agor i'r cyhoedd, ond hefyd bod y gwaith pwysig o gasglu, cofnodi a safoni un o ieithoedd hynaf a mwyaf cyfoethog gwledydd Ewrop yn saff yn nwylo'r Llywodraeth bresennol.

Therefore, I would encourage the Minister to use the powers and national direction of Government to ensure not only that the work of the dictionary to date is safeguarded and made accessible to the public, but also that the important work of compiling, recording and standardising one of the richest and oldest languages in Europe is safe in the hands of the current Government.

18:06

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I feel a bit out of place, being an English speaker commenting on a Welsh-language dictionary, but Simon makes very important points that I think need to be taken on board. Certainly, in terms of the development of language, a dictionary forms a central part of any development process. If you look at the English language, the introduction of the printing press by William Caxton effectively ossified the English language and the way that it developed, so that it did not always follow the spoken word. However, when Samuel Johnson published his English dictionary in April 1755, it made a huge impact on English and standard English and certainly helped in terms of the acceptance of a standard form of English across what was then England, but is now the UK.

Rwy'n teimlo braidd yn chwithig, gan mai Sais ydwyf yn cyflwyno sylwadau ar eiriadur Cymraeg, ond mae pwyntiau Simon yn bwyntiau pwysig iawn y credaf fod angen eu hystyried. Yn sicr, o ran datblygiad yr iaith, mae geiriadur yn rhan greiddiol o unrhyw broses ddatblygu. Os ystyriwch yr iaith Saesneg, pan gyflwynodd William Caxton y wasg argraffu, rhoddodd asgwrn cefn i'r iaith Saesneg i bob diben a'r ffordd y datblygodd, fel nad oedd bob amser yn dilyn y gair llafar. Fodd bynnag, pan gyhoeddodd Samuel Johnson ei eiriadur Saesneg ym mis Ebrill 1755, cafodd effaith aruthrol ar Saesneg a Saesneg safonol ac yn sicr, bu o gymorth o ran derbyn ffurf safonol ar Saesneg ledled Lloegr ar y pryd, sef y DU erbyn hyn.

It is absolutely right that any language that is going to be supported and is a living language, has to have an accessible dictionary. The geiriadur—if I may attempt to pronounce the word—is a crucial part of that. If we are committed to the Welsh language as an Assembly, and if the Government is committed to the Welsh language, then it needs to make sure that there is certainty of funding for that dictionary, so that it continues to develop, evolve and take on board new words as they come into being, as the current 'Oxford English Dictionary' and other English language dictionaries do. I think that the Welsh language deserves the same treatment and the same support, particularly given that Welsh, although an important part of Welsh culture, is still a minority language in this country.

Mae'n hollol briodol bod yn rhaid i unrhyw iaith a gaiff ei chefnogi ac sy'n iaith fyw gael geiriadur hygyrch. Mae'r geiriadur—os caf roi cynnig ar ynganu'r gair—yn rhan hanfodol o hynny. Os ydym yn ymrwymedig i'r Gymraeg fel Cynulliad, ac os yw'r Llywodraeth yn ymrwymedig i'r Gymraeg, yna mae angen iddi sicrhau bod arian ar gael ar gyfer y geiriadur hwnnw, er mwyn iddo barhau i ddatblygu, esblygu a chynnwys geiriau newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg, fel y gwna'r 'Oxford English Dictionary' presennol a geiriaduron Saesneg eraill. Credaf fod y Gymraeg yn haeddu'r un driniaeth a'r un gefnogaeth, yn enwedig o ystyried bod y Gymraeg, er ei bod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru, yn iaith leiafrifol yn y wlad hon o hyd.

18:08

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Culture and Sport to reply to the debate—John Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ymateb i'r ddadl—John Griffiths.

18:08

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro, a diolch am y cyfle i drafod y pwnc hwn, Simon. Mae'r maes yn gorgyffwrdd â nifer o bortffolios gwahanol, ond rwy'n falch iawn o'r cyfle i ymateb.

Thank you very much, temporary Deputy Presiding Officer, and thank you for the opportunity to debate this issue, Simon. This area overlaps a number of different portfolios, but I am pleased to have the opportunity to respond.

O fwrw golwg yn ôl dros eiriau'r flwyddyn yr 'Oxford English Dictionary', fe welwn eu bod nhw'n adlewyrchu termau am lawer o'r pethau sy'n amlwg ar y pryd mewn bywyd bob dydd. Er enghraifft, yn 2007, cafwyd 'carbon footprint', yn 2008, 'credit crunch', yn 2009, 'simples', yn 2010, 'big society', yn 2011, 'squeezed middle', yn 2012, 'omnishambles' ac, yn awr, yn 2013, 'selfie'.

Looking back over the words of the year of the 'Oxford English Dictionary', we see that they reflect terms a number of things that are prominent at the time in daily life. For example, in 2007, there was 'carbon footprint', in 2008, 'credit crunch, in 2009, 'simples', in 2010, 'big society', in 2011, 'squeezed middle', in 2012, 'omnishambles' and, now, in 2013, 'selfie'.

Mae geiriaduron yn llinynnau mesur ar gyfer pa mor iach yw iaith, pa mor ddeinamig yw'r eirfa, ac i ba raddau y mae'r eirfa honno'n llwyddo i gadw'n gyfoes â'r datblygiadau diweddaraf. I fi'n bersonol fel dysgwr, mae geiriaduron cywir a chyfoes yn gwbl hanfodol.

Dictionaries are a yardstick to measure the vibrancy of a language, how dynamic is its vocabulary, and to what extent that vocabulary succeeds in keeping up to date with the latest developments. For me personally, as a Welsh learner, correct and current dictionaries are completely essential.

A dictionary is one of those books that, the moment that it rolls off the presses, it is already out of date, of course. Dictionaries are important from the perspective of a language's past, present and future. They preserve, standardise and help develop its diction. We are fortunate, perhaps, in Wales to have a wealth of dictionaries to keep tabs on the language and, indeed, the latest terminology.

Mae geiriadur yn un o'r llyfrau hynny sydd, o'r adeg y caiff ei gyhoeddi, eisoes wedi dyddio, wrth gwrs. Mae geiriaduron yn bwysig o safbwynt gorffennol iaith, ei phresennol a'i dyfodol. Maent yn gwarchod, yn safoni ac yn helpu i ddatblygu ei hynganiad. Yn ffodus, efallai, yng Nghymru, mae gennym gyfoeth o eiriaduron i gadw golwg ar ddatblygiad yr iaith ac, yn wir, y derminoleg ddiweddaraf.

Our Welsh language strategy 'Iaith Fyw: Iaith Byw' covers many different aspects with the aim of making the Welsh language thrive, and that includes infrastructure, which involves ensuring that we have up-to-date linguistic resources. Since April 2012, the Welsh Language Commissioner, as mentioned by Simon, has been responsible for co-ordinating the development of terminology and the standardisation of place names. She has put together a group to review and to seek to rationalise the current arrangements and to promote greater co-ordination of dictionary and terminology provision. I am pleased that that group includes representatives from the Welsh Government Translation Service.

Mae ein strategaeth Gymraeg 'Iaith Fyw: Iaith Byw' yn cynnwys llawer o wahanol agweddau ac yn anelu at sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu, ac mae hynny'n cynnwys seilwaith, sy'n golygu sicrhau bod gennym adnoddau ieithyddol cyfoes. Ers mis Ebrill 2012, bu Comisiynydd y Gymraeg, fel y crybwyllodd Simon, yn gyfrifol am gydgysylltu'r broses o ddatblygu terminoleg a safoni enwau lleoedd. Mae wedi llunio grŵp i adolygu'r trefniadau presennol a'u symleiddio ac i annog gwell cydgysylltiad rhwng y geiriaduron a'r derminoleg a ddarperir. Rwy'n falch bod y grŵp hwnnw yn cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru.

As I just mentioned, I think that it is true to say that we are not short of dictionaries here in Wales. These approach the Welsh and English languages from a number of different angles and cater for different needs. We have terminologies, which are different from dictionaries in that they are collections of technical terms in specific fields. A well-known example of a dictionary is 'The Welsh Academy English-Welsh Dictionary' edited by Bruce Griffiths and Dafydd Glyn Jones, first published in 1995. A fourth impression, including a number of new words and amendments, was published in 2000. It is an English-Welsh dictionary following British English spellings. In February 2012, a version of that dictionary was made available online, to reference the need to be up-to-date with new technologies, as Simon mentioned, and the technical work has been done by Canolfan Bedwyr in Bangor University.

Fel y crybwyllais, mae'n wir dweud nad ydym yn brin o eiriaduron yma yng Nghymru. Mae'r rhain yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg o nifer o wahanol safbwyntiau ac yn diwallu gwahanol anghenion. Mae gennym derminolegau, sy'n wahanol i eiriaduron gan mai casgliadau o dermau technegol mewn meysydd penodol ydynt. Enghraifft adnabyddus o eiriadur yw 'Geiriadur Saesneg-Cymraeg yr Academi' a olygwyd gan Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1995. Cyhoeddwyd pedwerydd argraffiad, sy'n cynnwys nifer o eiriau a diwygiadau newydd, yn 2000. Mae'n eiriadur Saesneg-Cymraeg sy'n dilyn sillafiadau Saesneg Prydain. Ym mis Chwefror 2012, lansiwyd fersiwn o'r geiriadur hwnnw ar-lein, er mwyn ystyried yr angen i fanteisio ar dechnolegau newydd, fel y crybwyllodd Simon, a gwnaed y gwaith technegol gan Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor.

Moving on to the 'University of Wales Dictionary of the Welsh Language' or 'Geiriadur Prifysgol Cymru', as Simon Thomas highlighted, work on that began—I have it as 1921, actually, Simon, so we have a difference of the year there. The University of Wales invested heavily in it and it is printed in the form of a series of volumes. It is the standard historical Welsh dictionary, and, obviously, that is why Simon has emphasised its importance and the importance of funding, which I will come on to later. It is similar in scope and layout to the 'Oxford English Dictionary', and contains a definition of each word and English equivalents. Simon has mentioned this and its importance. Its aim is to include every word used in Welsh from what has come down to us from old Welsh—the earliest entry dates from 631 AD—to the time of the dictionary's publication, so it is a tremendous work and a tremendous resource for Wales. In fact, after over 80 years of work, the fourth and final volume, published in 2002, was launched by our former First Minister Rhodri Morgan here in the Assembly. Again, as Simon has mentioned, the project team is revising sections 'A' to 'C', adding terms as it goes along, and the revision of words beginning with 'B' is nearing completion.

Gan symud ymlaen at 'Eiriadur Prifysgol Cymru', fel y nododd Simon, dechreuodd y gwaith ar hwnnw—yn ôl y wybodaeth sydd gennyf i, yn 1921, yn ôl pob sôn, Simon, felly mae gennym flwyddyn wahanol. Gwnaeth Prifysgol Cymru fuddsoddi'n helaeth ynddo ac fe'i hargraffwyd ar ffurf cyfres o gyfrolau. Dyma'r geiriadur Cymraeg hanesyddol safonol, ac, yn amlwg, dyna pam mae Simon wedi pwysleisio ei bwysigrwydd a phwysigrwydd ei ariannu, a drafodaf yn nes ymlaen. Mae'n debyg o ran cwmpas a diwyg i'r 'Oxford English Dictionary', ac mae'n cynnwys diffiniad o bob gair a'r gair Saesneg cyfatebol. Soniodd Simon am hyn a'i bwysigrwydd. Ei nod yw cynnwys pob gair a ddefnyddir yn Gymraeg o'r hyn a etifeddwyd gennym o'r hen Gymraeg—mae'r cofnod cynharaf yn dyddio o 631 OC—i adeg cyhoeddi'r geiriadur, felly mae'n ddarn o waith eithriadol ac yn adnodd eithriadol i Gymru. Mewn gwirionedd, ar ôl 80 mlynedd o waith, lansiwyd y bedwaredd gyfrol, sef y gyfrol olaf, a gyhoeddwyd yn 2002, gan ein cyn Brif Weinidog, Rhodri Morgan, yma yn y Cynulliad. Unwaith eto, fel y crybwyllodd Simon, mae tîm y prosiect yn diwygio adrannau 'A' i 'C', gan ychwanegu termau wrth wneud hynny, ac mae ar fin cwblhau'r gwaith o ddiwygio'r geiriau sy'n dechrau gyda 'B'.

So, it is a very important piece of work and, also, as Simon said, of course, HEFCW budgets have been helping with this work, and, historically, it has provided funding to the University of Wales to support the work. We know that HEFCW budgets are under substantial pressure, but, nonetheless, the council recently agreed to continue the funding, as we heard, into the academic year 2014-15, the aim being to make the dictionary financially sustainable in future so that it can continue this important work.

Felly, mae'n ddarn pwysig iawn o waith a, hefyd, fel y dywedodd Simon, wrth gwrs, bu cyllidebau CCAUC yn helpu gyda'r gwaith hwn, ac, yn hanesyddol, darparodd gyllid i Brifysgol Cymru i gefnogi'r gwaith. Gwyddom fod cyllidebau CCAUC o dan bwysau mawr, ond, serch hynny, cytunodd y cyngor yn ddiweddar i barhau i ddarparu cyllid, fel y clywsom, hyd at flwyddyn academaidd 2014-15, gyda'r nod o sicrhau bod y geiriadur yn gynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol fel y gall barhau â'r gwaith pwysig hwn.

Again, Simon has mentioned that and the need to use new technologies as part of that future work. We have reached the current position and, obviously, Simon has highlighted his views as to where we need to go from 2014-15 onwards and, indeed, before that, in planning for the future. So, there is a debate to be had, and obviously, this short debate will be important in stimulating that debate. I am sure that these matters will come back to the Assembly and be part of the debate in Wales in various forms. I look forward to the Welsh Government being part of that working with other key partners.

Unwaith eto, soniodd Simon am hynny a'r angen i ddefnyddio technolegau newydd fel rhan o'r gwaith hwnnw yn y dyfodol. Rydym wedi cyrraedd y sefyllfa sydd ohoni ac, yn amlwg, mae Simon wedi mynegi ei farn yn glir o ran ble y mae angen inni fynd o 2014-15 ymlaen ac, yn wir, cyn hynny, wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Felly, mae dadl i'w chael, ac yn amlwg, bydd y ddadl fer hon yn bwysig o ran ysgogi'r ddadl honno. Rwy'n siŵr y bydd y materion hyn yn dychwelyd i'r Cynulliad ac yn rhan o drafodaethau yng Nghymru ar amrywiol ffurfiau. Edrychaf ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan yn y gwaith hwnnw gyda phartneriaid allweddol eraill.

We are not able to announce anything on the hoof, as it were, in response to what Simon has raised today, but to recognise its importance is clear, and the Welsh Government is happy to do that.

Ni allwn gyhoeddi unrhyw beth heb roi ystyriaeth briodol iddo, fel petai, mewn ymateb i'r hyn a gododd Simon heddiw, ond mae'n glir bod angen cydnabod ei bwysigrwydd, ac mae Llywodraeth Cymru yn fwy na pharod i wneud hynny.

I will just go on to a few other things. It is essential to keep the Welsh language up to date. The term 'selfie', which was mentioned by Simon, so rapidly incorporated into the English corpus, would take much longer to be incorporated into Welsh language resources. So, there are issues that need to be addressed because we want spoken contemporary Welsh to be incorporated as quickly as possible, and that is a priority for the Welsh Government.

Hoffwn gyfeirio at ambell i beth arall. Mae'n hanfodol sicrhau bod y Gymraeg yn gyfoes. Byddai'r term 'selfie', a grybwyllwyd gan Simon, a ddaeth yn rhan o'r corpws Saesneg mor gyflym, yn cymryd llawer mwy o amser i gael ei gynnwys mewn adnoddau Cymraeg. Felly, mae materion y mae angen ymdrin â hwy gan ein bod yn awyddus i'r Gymraeg gyfoes a siaredir gael ei chynnwys mor gyflym â phosibl, ac mae hynny'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

One project that aims to meet that sort of demand is CorCenC—Corpws Cenedlaethol Cymraeg, or the Welsh national corpus. The project is an academic collaboration between Cardiff University, Swansea University and Newcastle University. It focuses on creating that Welsh national corpus. It will exceed 10 million words of natural language data from spoken, written and e-language sources, which will help to ensure that the content is fluid and can be added to over time, making it flexible, comprehensive and, most importantly, relevant. I think that that will be a significant project in terms of addressing these issues and taking matters forward.

Un prosiect sy'n anelu at fodloni'r math hwnnw o alw yw CorCenC—Corpws Cenedlaethol Cymraeg, neu gorpws cenedlaethol Cymru. Cydweithrediad academaidd rhwng Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Newcastle yw'r prosiect. Mae'n canolbwyntio ar greu'r corpws cenedlaethol Cymraeg hwnnw. Bydd yn cynnwys dros 10 miliwn o eiriau o ddata iaith naturiol o ffynonellau llafar, ffynonellau ysgrifenedig a ffynonellau e-iaith, a fydd yn helpu i sicrhau bod y cynnwys yn amrywiol ac y gellir ychwanegu ato dros amser, gan olygu ei fod yn hyblyg, yn gynhwysfawr ac, yn anad dim, yn berthnasol. Credaf y bydd y prosiect hwnnw yn arwyddocaol o ran ymdrin â'r materion hynny a gweithredu arnynt.

I very much congratulate Simon and Peter for taking part in this short debate today. Obviously, these are now matters that we will have to return to a number of times as matters proceed.

Hoffwn longyfarch Simon a Peter yn fawr iawn am gymryd rhan yn y ddadl fer hon heddiw. Yn amlwg, mae'r materion hyn bellach yn faterion y bydd yn rhaid inni ddychwelyd atynt sawl gwaith wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Y gobaith yw y bydd yr holl adnoddau hyn, ar y cyd, yn parhau i gadw'r iaith yn iach, yn gyfoes ac yn berthnasol. Diolch yn fawr.

The hope is that all of these resources, together, will continue to ensure that the language remains vibrant, current and relevant. Thank you very much.

18:17

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Diolch, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:17.*

*The meeting ended at 18:17.*